



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp  
Cynghori ar Ddiwygio Mynediad

# Rhaglen Diwygio Mynediad

## Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad

### Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad .....   | 1  |
| Crynodeb Gweithredol .....   | 11 |
| Cyflwyniad .....   | 13 |
| Diwygiad 1A: Gweithgareddau newydd ar dir mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau<br>Tramwy 2000 .....  | 17 |
| Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A.....   | 17 |
| Opsiynau Diwygiad 1A ar gyfer y cam dethol opsiwn .....  | 17 |
| Opsiwn 1A(i): Gweithredu'r fersiynau diwygiedig o gyfyngiadau cyffredinol Atodlen 2 i'r<br>Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar dir mynediad o dan y Ddeddf.....  | 18 |
| Opsiwn 1A(i): Disgrifiad cryno .....   | 18 |
| Opsiwn 1A(i): Elfennau allweddol addasedig .....   | 18 |
| Opsiwn 1A(ii): Gweithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a<br>Hawliau Tramwy, yn amodol ar asesu'r galw/addasrwydd .....   | 19 |
| Opsiwn 1A(ii): Disgrifiad cryno .....  | 19 |
| Opsiwn 1A(ii): Elfennau allweddol addasedig.....   | 19 |
| Opsiwn 1A(iii): Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau<br>Tramwy (dull coridor) .....   | 21 |
| Opsiwn 1A(iii): Disgrifiad cryno .....   | 21 |
| Opsiwn 1A(iii): Elfennau allweddol addasedig.....  | 21 |
| Sylwebaeth ar faterion cyffredin mewn perthynas â mynediad o dan Ddiwygiad 1A o'r<br>Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ynghyd ag argymhellion .....  | 22 |
| Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I,<br>Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu pwerau mewn<br>perthynas â gwella mynediad oddi mewn i dir mynediad.....  | 24 |
| Ystyriaethau eraill mewn perthynas â Diwygiad 1A.....  | 29 |
| Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 1A a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 1 y<br>Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad .....  | 31 |
| Tabl 1: Opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 1A.....   | 31 |
| Opsiwn 1A(i) a ffafriwyd fwyaf o ganlyniad iddo gael ei ddewis 11 o weithiau, a dewiswyd<br>Opsiwn 1A(ii) saith gwaith ac Opsiwn 1A(iii) chwe gwaith. Tynnwyd sylw at y ffaith, er mai<br>Opsiwn 1A(i) oedd yr un a ffafriwyd allan o'r tri, roedd y canlyniad rhwng llacio'r cyfyngiadau<br>ar hawliau uwch drwy ddull cyffredinol, ac arfarnu addasrwydd tir mynediad drwy broses<br>asesu fanwl cyn i'r awdurdod mynediad weithredu hawliau arno, yn un agos..... | 32 |
| Roedd yn glir mai Opsiwn 1A(i) yr oedd defnyddwyr hamdden yn ei ffafrio, Opsiwn 1A(ii) yr<br>oedd rheolwyr tir yn ei ffafrio, a bod ychydig o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector<br>rheoli tir wedi ffafrio Opsiwn 1A(iii). .....   | 32 |

Pe cawsai Opsiwn 1A(ii) neu Opsiwn 1A(iii) ei ddatblygu ymhellach, perid risg wirioneddol mai bach iawn y câi ei wneud i weithredu hawliau uwch newydd os byddai'r ddeddfwriaeth ond yn darparu pwerau dewisol yn hytrach na'i bod yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau mynediad. Cysylltwyd y pwynt hwn â'r adnoddau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd (yn enwedig), a nodwyd y bydd angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol sylweddol ar gael i gyrff y sector cyhoeddus er mwyn eu galluogi i gyflwyno unrhyw un o opsiynau Diwygiad 1A..... 32

Diwygiad 1B: Mynediad arfordirol..... 33

    Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1B..... 33

    Opsiynau Diwygiad 1B ar gyfer y cam dethol opsiwn ..... 33

Opsiwn 1B(i): Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir..... 33

    Opsiwn 1B(i): Disgrifiad cryno ..... 33

    Opsiwn 1B(i): Elfennau allweddol addasedig ..... 33

Opsiwn 1B(ii): Defnyddio Adran 3 i estyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel ei fod yn cynnwys tir arfordirol..... 34

    Opsiwn 1B(ii): Disgrifiad cryno ..... 34

    Opsiwn 1B(ii): Elfennau allweddol addasedig..... 35

Opsiwn 1B(iii): Cymhwysu hawliau uwch drwy Ddiwygiad 1B neu 1A ar sail y penderfyniadau a wneir o ran datblygu'r diwygiadau hyn..... 36

    Opsiwn 1B(iii): Disgrifiad cryno ..... 36

    Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer diwygio mynediad arfordirol..... 36

    Byddai angen i CNC ddiffinio tir mynediad arfordirol ..... 37

    Cyflwyno cod mynediad statudol gorfodadwy sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol..... 38

    Adolygu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol ..... 39

    Darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer dulliau mynediad..... 39

    Adolygu hawliau ac atebolrwydd perchnogion a meddianwyr..... 40

    Gweithgareddau masnachol a digwyddiadau ar raddfa fwy..... 40

    Gwahaniaethau penodol rhwng dull gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir o dan Opsiwn 1B(i) a dull gweithredu Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o dan Opsiwn 1B(ii)..... 41

    Diffinio llwybr arfordirol..... 41

    Costau'r opsiynau ..... 41

    Darparu ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir ..... 42

    Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 1B (Opsiwn 1B(i) neu Opsiwn 1B(ii)) a ffafir gan aelodau Grŵp Arbenigol 1 y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ..... 42

    Tabl 2: Opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 1B ..... 43

    Opsiwn 1B(iii): Diffinio hawliau uwch o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o fewn yr ymyl arfordirol / tir mynediad arfordirol..... 43

Diwygiad 2A: Gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus ..... 45

    Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2A..... 45

|   |    |
|---|----|
| Opsiynau Diwygiad 2A ar gyfer y cam dethol opsiwn .....   | 45 |
| Opsiwn 2A(i): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn statudol .....   | 46 |
| Opsiwn 2A(i): Disgrifiad cryno .....  | 46 |
| Opsiwn 2A(i): Elfennau allweddol addasedig .....  | 46 |
| Opsiwn 2A(ii): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus, gyda phwerau i eithrio'r hawliau hynny ar sail anaddasrwydd ..... | 47 |
| Opsiwn 2A(ii): Disgrifiad cryno .....   | 47 |
| Opsiwn 2A(ii): Elfennau allweddol addasedig.....  | 47 |
| Opsiwn 2A(iii): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a hawliau uwch ar lwybrau troed yn ddetholus fesul achos .....   | 49 |
| Opsiwn 2A(iii): Disgrifiad cryno .....  | 49 |
| Opsiwn 2A(iii): Elfennau allweddol addasedig.....   | 49 |
| Sylwebaeth ar opsiynau diwygio, ac argymhellion cysylltiedig ar gyfer gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus.....               | 50 |
| Diwygiad 2B: Cau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnodau byr a gwaith rheoli stoc arnynt60   |    |
| Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2B.....  | 60 |
| Opsiynau Diwygiad 2B ar gyfer y cam dethol opsiwn .....   | 60 |
| Opsiwn 2B(i): Dargyfeirio neu gau drwy hysbysiad .....  | 61 |
| Opsiwn 2B(i): Disgrifiad cryno .....  | 61 |
| Opsiwn 2B(i): Elfennau allweddol addasedig .....  | 61 |
| Opsiwn 2B(ii): Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol.....   | 62 |
| Opsiwn 2B(ii): Disgrifiad cryno .....   | 62 |
| Opsiwn 2B(ii): Elfennau allweddol addasedig.....  | 62 |
| Opsiwn 2B(iii): Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith.....   | 63 |
| Opsiwn 2B(iii): Disgrifiad cryno .....  | 63 |
| Opsiwn 2B(iii): Elfennau allweddol addasedig.....   | 63 |
| Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig ar gyfer diwygio dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus .....                      | 64 |
| Cwmpas Diwygiad 2B .....  | 64 |
| Rhoi hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro neu wneud ceisiadau yn eu cylch.....   | 66 |
| Darparu llwybrau amgen.....   | 67 |
| Costau ac adnoddau.....   | 68 |
| Darparu gwybodaeth am ddargyfeiriadau dros dro.....   | 68 |
| Atebolrwydd am lwybrau amgen a ddarperir .....  | 69 |
| Monitro a gorfodi opsiynau Diwygiad 2B .....  | 70 |
| Dulliau deddfwriaethol posibl y gellid eu dilyn .....   | 71 |
| Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 2B a ffafirir gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad .....                                 | 71 |
| Tabl 4: Opsiynau a ffafirir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 2B .....  | 72 |
| Diwygiad 3A: Cyfleu hawliau mynediad.....   | 74 |

|  |    |
|--|----|
| Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3A.....   | 74 |
| Opsionau Diwygiad 3A ar gyfer y cam dethol opsiwn .....  | 74 |
| Opsion 3A(i): Map digidol o fynediad cyhoeddus .....   | 75 |
| Opsion 3A(i): Disgrifiad cryno .....   | 75 |
| Opsion 3A(i): Elfennau allweddol addasedig .....   | 75 |
| Opsion 3A(ii): Map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus .....  | 76 |
| Opsion 3A(ii): Disgrifiad cryno .....  | 76 |
| Opsion 3A(ii): Elfennau allweddol addasedig.....   | 76 |
| Opsion 3A(iii): Map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a<br>hyrwyddo yn y trydydd sector.....       | 77 |
| Opsion 3A(iii): Disgrifiad cryno .....   | 77 |
| Opsion 3A(iii): Elfennau allweddol addasedig.....  | 77 |
| Sylwebaeth ar faterion cyffredin ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â diwygio'r<br>dull o gyfleu hawliau mynediad ..... | 79 |
| Cydrannau .....  | 82 |
| Prosesau ar gyfer cofnodi a newid hawliau sydd wedi'u mapio .....  | 82 |
| Hyrwyddo'r defnydd o'r map cyhoeddedig.....  | 83 |
| Costau ac adnoddau.....  | 84 |
| Diwygiad 3B: Cynlluniau integredig .....   | 88 |
| Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3B.....   | 88 |
| Opsionau Diwygiad 3A ar gyfer y cam dethol opsiwn .....  | 88 |
| Opsion 3B(i): Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden.....   | 89 |
| Opsion 3B(i): Disgrifiad cryno .....   | 89 |
| Opsion 3B(i): Elfennau allweddol addasedig .....   | 89 |
| Opsion 3B(ii): Diwygio ac estyn y dull Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP+) .....   | 90 |
| Opsion 3B(ii): Disgrifiad cryno .....  | 90 |
| Opsion 3B(ii): Elfennau allweddol addasedig.....   | 91 |
| Opsion 3B(iii): Cynllun Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Mynediad at Ddibenion<br>Hamdden .....                            | 92 |
| Opsion 3B(iii): Disgrifiad cryno .....   | 92 |
| Opsion 3B(iii): Elfennau allweddol addasedig.....  | 93 |
| Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â<br>diwygio'r cynlluniau integredig.....          | 94 |
| Dichonoldeb diwygiadau i gynlluniau lleol .....  | 94 |
| Rolau sefydliadau .....  | 94 |
| Awdurdodau lleol .....   | 94 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol .....  | 95 |
| Rôl sefydliadau eraill.....  | 95 |
| Meysydd diwygio cysylltiedig.....  | 99 |
| Costau ac adnoddau.....  | 99 |

|   |     |
|---|-----|
| Cynllun i Gymru gyfan.....  | 99  |
| Cynlluniau integredig lleol .....   | 99  |
| Cynllun Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Mynediad at Ddibenion Hamdden....  | 101 |
| Themâu trawsbynciol .....   | 103 |
| Thema 1: Gweithgareddau hamdden cyfrifol.....   | 103 |
| Dulliau o ddrafftio cod ymddygiad .....   | 103 |
| Sylwebaeth ar y dull i'w ddatblygu ymhellach.....   | 108 |
| Materion cyffredin .....  | 109 |
| Dulliau gorfodi.....  | 112 |
| Thema 2: Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd .....   | 115 |
| Thema 3: Rolau'r fforymau mynediad lleol .....  | 120 |
| Statws y fforymau mynediad lleol yn sgil unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith mynediad .....   | 120 |
| Rôl y fforymau mynediad lleol mewn unrhyw brosesau asesu addasrwydd.....  | 121 |
| Thema 4: Gweithgareddau a digwyddiadau masnachol .....  | 124 |
| Atodiad A: Tablau o elfennau allweddol addasedig yr opsiynau diwygio .....  | 129 |
| Diwygiad 1A(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 129 |
| Diwygiad 1A(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 131 |
| Diwygiad 1A(iii): Tabl o elfennau allweddol .....   | 135 |
| Diwygiad 1B(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 137 |
| Diwygiad 1B(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 141 |
| Diwygiad 2A(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 143 |
| Diwygiad 2A(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 147 |
| Diwygiad 2A(iii): Tabl o elfennau allweddol .....   | 150 |
| Diwygiad 2B(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 154 |
| Diwygiad 2B(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 157 |
| Diwygiad 2B(iii): Tabl o elfennau allweddol .....   | 160 |
| Diwygiad 3A(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 165 |
| Diwygiad 3A(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 168 |
| Diwygiad 3A(iii): Tabl o elfennau allweddol .....   | 169 |
| Diwygiad 3B(i): Tabl o elfennau allweddol.....  | 172 |
| Diwygiad 3B(ii): Tabl o elfennau allweddol .....  | 174 |
| Diwygiad 3B(iii): Tabl o elfennau allweddol .....   | 177 |
| Atodiad B: Argymhellion.....  | 180 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 1A: Ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy .....  | 180 |
| Posibilrwydd o gyflwyno opsiynau diwygio Diwygiad 1A o fewn darpariaethau presennol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy .....   | 180 |
| Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y dull o gyflwyno bwriad ei pholisi ar gyfer Diwygiad 1A..... | 180 |

|   |     |
|---|-----|
| Ceid cynnydd yn hawliau mynediad marchogwyr ceffylau a beicwyr, o leiaf, ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy .....  | 180 |
| Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n ofynnol ganddi fod pob un o'r hawliau uwch sydd wedi'u hamlinellu ym mwriad y polisi yn cael eu llacio fel rhan o Ddiwygiad 1A. Yn realistig, dim ond i feicwyr a marchogwyr ceffylau y mae Opsiwn 1A(iii) yn berthnasol ar hyn o bryd.....   | 180 |
| Ni fyddai newid yn y rhesymau presennol dros hysbysu CNC, neu wneud cais iddo, am waharddiad neu gyfyngiad .....  | 180 |
| Argymhelliad: Ni ddylid diwygio'r rhesymau dros weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau fel rhan o Ddiwygiad 1A. Dylid adolygu'r canllaw ar gyfer Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn sgil cyflwyno Diwygiad 1A, er mwyn cwmpasu'r mynediad hawliau uwch i dir mynediad o dan y Ddeddf. ....  | 180 |
| Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu pwerau mewn perthynas â gwella mynediad o fewn tir mynediad .....   | 180 |
| Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ar faterion amrywiol eraill, fel y manylwyd arnynt yn yr ystyriaethau .....   | 181 |
| Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu, a diwygio lle bo angen, sut mae Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth yn berthnasol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, a hynny er mwyn osgoi gwrthddweud y diwygiadau a gyflwynir o dan Ddiwygiad 1A. ....   | 181 |
| Costau'r opsiynau .....   | 181 |
| Argymhelliad: Os datblygir Opsiwn 1A(iii), bydd angen i Lywodraeth Cymru newid y rheoliadau ar gyfer y gwaharddiadau a chyfyngiadau a weithredir ar hyd coridorau hawliau uwch. Bydd hyn yn cynnwys diwygio'r terfynau amser statudol a bennir ar gyfer penderfynu ar geisiadau, a darparu ar gyfer teithio ymlaen ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch. ....   | 181 |
| Lleihad mewn atebolrwydd.....   | 181 |
| Argymhelliad: Dylid ystyried dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolrwydd ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys tir mynediad arfordirol). Os datblygir Opsiwn 1A(i) neu Opsiwn 1A(ii), bydd angen cynnal trafodaeth ynghylch cyfrifoldebau defnyddwyr yn erbyn dyletswydd gofal tiffeddianwyr. Gan ystyried bod Opsiwn 1A(iii), i bob pwrpas, yn goridor a asesir ymlaen llaw, mae lefel y lleihad mewn atebolrwydd a ddarperir o dan Adran 13 yn debygol o fod yn ddigonol. .... | 181 |
| Mynediad cyfartal.....  | 181 |
| Gwydnwch ecosystemau .....  | 181 |
| Tir o dan Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.....  | 182 |
| Tir o dan Adran 16 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.....  | 182 |
| Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd .....  | 182 |
| Cronfeydd dŵr .....   | 182 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 1B: Ymestyn y ddeddfwriaeth fel ei bod yn cwmpasu tir arfordirol fel tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy .....   | 182 |
| Byddai'n ofynnol i CNC ddiffinio tir mynediad arfordirol .....  | 182 |



|   |     |
|---|-----|
| □ O safbwynt y dull gweithredu opsiwn a ddatblygir ymhellach ar gyfer Diwygiad 1B, ac fel y bo'n briodol, dylid adolygu a diwygio'r diffiniadau o 'dir arfordirol' fel y mae wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii)).  | 182 |
| □ Dylai'r gwaith o ddatblygu methodolegau a phrosesau gynnwys ymgynghoriadau ag unrhyw un sydd â diddordeb allweddol.   | 182 |
| □ Dylai CNC fod yn gyfrifol am nodi'r tir y gweithredir hawliau mynediad arfordirol arno.   | 182 |
| Adolygu categorïau tir eithriedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau eu bod yn addas mewn cyd-destun arfordirol   | 183 |
| Cyflwyno cod mynediad statudol gorfodadwy sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol  | 183 |
| Argymhelliad: Mae'n hanfodol bwysig cynnwys mynediad arfordirol mewn codau hamdden cyfrifol, a dylai hyn fod yn gyson â'r dull a ddilynir yng Nghymru. Dylai rhaglen o hysbysrwydd a chyfathrebu gefnogi'r gwaith o ddatblygu mynediad arfordirol, a'i weithredu.   | 183 |
| Adolygu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol   | 183 |
| Darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer dulliau mynediad  | 183 |
| Argymhelliad: Dylid adolygu Rhan I, Pennod III – 'Dulliau mynediad' o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Adrannau 34-39) er mwyn sicrhau y bydd yn hwyluso ac yn ei gwneud yn bosibl defnyddio a rheoli tir mynediad arfordirol, gan gynnwys darparu ar gyfer teithiau cysylltiol ar draws terfynau a rhwystrau mewnol (gan gynnwys hawliau uwch os cânt eu gweithredu). Dylid hefyd penderfynu a fydd angen pwerau ar gyfer rheoli'r mynediad arfordirol a ddarperir gan Atodlen 20 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. | 183 |
| Adolygu hawliau ac atebolrwydd perchnogion a meddianwyr   | 183 |
| Argymhelliad: Dylid dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolrwydd meddianwyr ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys tir mynediad arfordirol sydd newydd ei ddiffinio. Byddai'n well gweithredu lleihad pellach yn atebolrwydd meddianwyr yn unol â model Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.   | 183 |
| Gweithgareddau masnachol a digwyddiadau ar raddfa fwy   | 183 |
| Argymhelliad: Dylid drafftio unrhyw ddiffiniad newydd ar gyfer 'gweithgareddau masnachol' a 'digwyddiadau mwy a drefnir' a'i gymhwyso i dir mynediad arfordirol – gellid cynnwys y rhain, er enghraifft, naill ai mewn fersiwn ddiwygiedig o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu mewn cod mynediad statudol newydd, pe cawsai'r opsiwn hwn ei ddatblygu.  | 183 |
| Gwahaniaethau penodol rhwng dull gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir o dan Opsiwn 1B(i) a dull gweithredu Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o dan Opsiwn 1B(ii)   | 184 |
| Argymhelliad: O safbwynt pa opsiwn bynnag a ddatblygir ymhellach o dan Ddiwygiad 1B, os yw'n briodol a phan fo'n briodol ar gyfer Cymru, dylid adolygu a diwygio diffiniadau 'tir arfordirol' fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r  |     |



|  |     |
|--|-----|
| Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii).   | 184 |
| Diffinio llwybr arfordirol.....  | 184 |
| Argymhelliad: Byddai angen ystyried hefyd p'un a fyddai'r llwybr arfordirol / llwybr Arfordir Cymru yn cael ei frandio a'i hybu fel llwybr Cenedlaethol. ....  | 184 |
| Costau'r opsiynau .....  | 184 |
| Argymhelliad: Dylid cynnal asesiad manwl pellach o gostau'r opsiynau er mwyn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. (Dylid nodi y bydd y gwaith o bennu costau manwl gywir yn dibynnu ar ddatblygu manylion darpariaethau'r opsiynau, a hefyd y dull o'u gweithredu.).....  | 184 |
| Darparu ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir.....  | 184 |
| Argymhelliad: Os datblygir dull gweithredu Opsiwn 1B(i) ymhellach, dylid addasu'r darpariaethau yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir, a'u gwneud yn berthnasol i Gymru. ....  | 184 |
| Opsiwn 1B(iii): Diffinio hawliau uwch o fewn yr ymyl arfordirol / tir mynediad arfordirol .....  | 184 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 2A: Gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus .....  | 184 |
| Graddfa'r hawliau a fyddai'n deillio o opsiynau Diwygiad 2A .....  | 184 |
| Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddewis rhwng defnyddio dull detholus o weithredu hawliau neu ddull sy'n seiliedig ar y rhwydwaith fel y dull eang o weithredu Diwygiad 2A. Yn yr un modd, bydd angen i'r llywodraeth benderfynu a ddylai darpariaethau penodol (e.e. cynnal asesiadau o addasrwydd/anaddasrwydd) fod yn gyfystyr â dyletswyddau sy'n berthnasol i'r rhwydwaith cyfan neu'n bwerau yn ôl disgresiwn. Bydd y dull a ddilyniir yn pennu graddfa'r hawliau y gellir eu disgwyl, ynghyd â'r goblygiadau a geir o ganlyniad, gan gynnwys gofynion gweinyddol, buddion, effeithiau a chostau..... | 184 |
| A ddylid diffinio darpariaethau deddfwriaethol fel pwerau neu ddyletswyddau?.....  | 185 |
| Argymhelliad: Dylid sicrhau y ceir hyblygrwydd o fewn Diwygiad 2A ar gyfer cyfyngu ar hawliau uwch, ac i'w gwneud yn bosibl iddynt beidio â chael eu gweithredu ar bob llwybr troed cyhoeddus. Os bwriedir cynnal asesiad helaeth o lwybrau troed a gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid gweithredu neu ddiddymu hawliau, bydd angen neilltuo adnoddau digonol er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu'r pwerau neu ddyletswyddau diwygio a gyflwynir.....  | 185 |
| Argymhelliad: Dylid llunio amcangyfrif realistig o'r costau sydd ynghlwm wrth ddarpariaethau a phrosesau gofynnol opsiynau Diwygiad 2A pan fydd y dull eang wedi'i bennu a bod manylion pellach wedi'u datblygu (fel p'un a ddylai digolledu ac apeliadau fod yn rhan o'r darpariaethau ynteu beidio, ac, os felly, ar ba ffurf). ....   | 185 |
| Argymhelliad: Bydd angen sicrhau bod y prosesau diwygio arfaethedig yn gyflymach a mwy effeithlon – o'u cymharu â'r prosesau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus – wrth ddarparu cydbwysedd rhwng gwahanol fuddiannau. Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn datblygu darpariaethau i'r fath manylder. ....   | 185 |
| Gofynion o ran y prosesau gweinyddol ar gyfer opsiynau Diwygiad 2A.....  | 185 |

|   |     |
|---|-----|
| Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch digonolrwydd y prosesau craidd a gynigir fel rhan o'r opsiwn diwygio i'w ddatblygu ymhellach, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y broses asesu, ymgynghoriadau, apeliadau, a'r angen i ddigolledu.....                                       | 185 |
| Asesu llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau uwch.....   | 185 |
| Argymhelliad: Dylid ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid o ran datblygu meini prawf a phrosesau asesu.....   | 185 |
| Rheoli a lliniaru effeithiau .....  | 185 |
| Costau sydd ynghlwm wrth opsiynau Diwygiad 2A.....  | 185 |
| Argymhelliad: Bydd angen darparu cyllid digonol er mwyn cefnogi gwaith gweinyddu a gweithredu'r pwerau a dyletswyddau a ddarperir gan Ddiwygiad 2A, ac felly er mwyn creu a rheoli hawliau uwch newydd ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau.....  | 185 |
| Statws newidiadau ar lwybrau troed cyhoeddus, a'r gwaith o'u cofnodi.....   | 185 |
| Gwelliannau hygyrchedd.....   | 186 |
| Argymhelliad: Dylai darpariaethau'r diwygiad, a'r broses o'u gweithredu, sicrhau y ceir mecanweithiau addas ar gyfer gwella llwybrau troed cyhoeddus, a'u rheoli'n ddilynol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i hawliau uwch eu defnyddio.....   | 186 |
| Argymhelliad: Dylai gwybodaeth a chanllawiau ynghylch gweithredu'r diwygiad bwysleisio'r dyletswyddau sydd eisoes ar awdurdodau mynediad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ynghyd ag egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ac arferion da.....   | 186 |
| Gwybodaeth a chynllunio ar gyfer 'llwybrau â hawliau uwch'.....   | 186 |
| Argymhelliad: Dylid cynnwys dull pob awdurdod priffyrdd lleol o weithredu Diwygiad 2A yn ei gynllun statudol ar gyfer gwella mynediad [wedi'i gysylltu â chynlluniau mynediad integredig, yn unol â'r hyn a amlinellir yn Niwygiad 3B].....   | 186 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 2B: Cau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnodau byr a gwaith rheoli stoc arnynt .....   | 186 |
| Cwmpas Diwygiad 2B .....  | 186 |
| Argymhelliad: O safbwynt yr opsiwn diwygio a ddatblygir ymhellach, bydd angen datblygu darpariaethau manwl ynghylch gofynion hysbysiadau a gwybodaeth gysylltiedig, gan gydbwysu anghenion y buddiannau gwahanol.....   | 187 |
| Darparu llwybrau amgen.....   | 187 |
| Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B gynnwys rheoliadau ar gyfer gosod safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen a hysbysiadau ac arwyddion cysylltiedig, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau cydraddoldeb.....  | 187 |
| Costau ac adnoddau.....   | 187 |
| Argymhelliad: Dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau i adnoddau a chostau pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu.....   | 187 |
| Darparu gwybodaeth am ddargyfeiriadau dros dro.....   | 187 |
| Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B ei gwneud yn bosibl darparu gweithdrefnau digidol, ar-lein - gan gynnwys hysbysebion, hysbysiadau/ceisiadau, a gwaith mapio fel y bo'n briodol. Byddai angen sicrhau bod ychydig o weithdrefnau all-lein ar gael o hyd ar gyfer y bobl hynny na allant ddefnyddio TGCh am unrhyw reswm..... | 187 |

|   |     |
|---|-----|
| Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B gynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r dull o'i gweithredu. ....  | 187 |
| Atebolrwydd am llwybrau amgen a ddarperir .....   | 187 |
| Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol pellach ynghylch llwybrau amgen a ddarperir. Yn amodol ar y cyngor cyfreithiol hwnnw a thrafodaethau â rhanddeiliaid, dylai deiliaid tir fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd sy'n deillio o ddarparu llwybrau amgen a ddarperir. .... | 187 |
| Monitro a gorfodi opsiynau Diwygiad 2B .....  | 187 |
| Argymhelliad: Rhaid sicrhau y ceir darpariaeth i awdurdodau priffyrdd lleol orfodi unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B, a bod gwneud hynny'n realistig, er mwyn iddo fod yn ymarferol. Dylid sicrhau bod proses gwyno ar gael i'r cyhoedd, a bod awdurdodau lleol yn ei rheoli. .... | 187 |
| Dulliau deddfwriaethol posibl y gellid eu dilyn .....   | 187 |
| Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno Diwygiad 2B drwy addasu a gwella'r pwerau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cyfyngu ar hawliau tramwy cyhoeddus. ....   | 187 |
| Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 2B a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad .....  | 187 |
| Argymhelliad: Dylai ymgynghori â thrawstoriad o randdeiliaid ymhellach fod yn rhan o waith datblygu manylion pellach Diwygiad 2B. ....  | 187 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 3A: Cyfleu hawliau mynediad .....  | 188 |
| Diben y map.....  | 188 |
| Cadernid y cofnod cyfreithiol .....   | 188 |
| Cydraddoldeb a hygyrchedd digidol .....   | 188 |
| Gofynion pellach o safbwynt dadansoddiad cyfreithiol .....  | 188 |
| Mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli .....   | 188 |
| Rôl a chyfranogiad yr Arolwg Ordnans.....   | 188 |
| Cydrannau .....   | 188 |
| Rolau sefydliadau a'u cyd-ddibyniaethau .....   | 189 |
| Y gallu i addasu i newidiadau cyflym mewn technoleg a gwelliannau yn y dyfodol.....   | 189 |
| Hyrwyddo defnydd o'r map cyhoeddedig.....   | 189 |
| Dolenni i ddiwygiadau eraill.....   | 189 |
| Costau ac adnoddau .....  | 189 |
| Argymhellion ar gyfer Diwygiad 3B: Dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru .....   | 189 |
| Dichonoldeb diwygiadau i gynlluniau lleol .....   | 189 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol .....   | 190 |
| Fforymau mynediad lleol.....  | 190 |
| Canllawiau statudol.....  | 190 |
| Integreiddio adnoddau mynediad .....  | 190 |

|  |     |
|--|-----|
| Cydymffurfiaeth a gorfodi dyletswyddau.....  | 190 |
| Meysydd diwygio cysylltiedig.....  | 190 |
| Argymhellion: Themâu trawsbynciol.....   | 190 |
| Argymhellion ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.....   | 190 |
| Dulliau gorfodi.....   | 192 |
| Argymhellion ar gyfer cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd.....  | 193 |
| Argymhellion ar gyfer rolau'r fforymau mynediad lleol yng nghyd-destun diwygiadau'r Grŵp<br>Cynghori ar Ddiwygio Mynediad..... | 194 |
| Argymhellion ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau masnachol.....   | 195 |
| Atodiad C: Aelodau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.....   | 196 |
| Aelodau Grŵp Arbenigol 1 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:.....  | 196 |
| Aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:.....  | 196 |
| Aelodau Grŵp Arbenigol 3 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:.....  | 197 |
| Aelodau Grŵp Llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.....  | 197 |
| Arsylwyr a hwyluswyr ar gyfer un neu ragor o sesiynau gweithdy'r Grŵp Cynghori ar<br>Ddiwygio Mynediad.....                    | 197 |
| Atodiad D: Rhestr o allbynnau ar gyfer y rhaglen.....  | 198 |
| Dogfennau a luniwyd:.....  | 198 |
| Cyfarfodydd y grŵp llywio:.....  | 198 |
| Cyfarfodydd y grwpiau arbenigol:.....  | 198 |
| Cyfarfodydd mewnol (staff/timau CNC).....  | 199 |
| Atodiad E: Rhestr termau.....  | 200 |

## Crynodeb Gweithredol

Sefydlodd Llywodraeth Cymru'r 'Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad' ym mis Ionawr 2020 er mwyn iddo ddarparu cyngor ar ddulliau posibl o gyflenwi bwriad ei pholisi i ddiwygio deddfwriaeth mynediad yng Nghymru.

Roedd y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn cynnwys tri grŵp arbenigol yr oedd cynrychiolwyr o'r tri sector canlynol yn aelodau ohonynt: rheoli tir, defnyddwyr hamdden, a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Gofynnwyd i'r grwpiau ystyried a datblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflenwi bwriad ei pholisi ar gyfer y diwygiadau canlynol o ddeddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru:

### Grŵp Arbenigol 1:

- Diwygiad 1A: ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Diwygiad 1B: newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn ymestyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r arfordir

### Grŵp Arbenigol 2:

- Diwygiad 2A: ymestyn yr hawl i reidio beic neu farchogaeth ceffyl ar lwybrau troed cyhoeddus
- Diwygiad 2B: cyfyngiadau dros dro ar lwybrau cyhoeddus

### Grŵp Arbenigol 3:

- Diwygiad 3A: darparu map integredig o fynediad cyhoeddus yng Nghymru
- Diwygiad 3B: dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru

Rhodddwyd adborth hefyd ar gyfer y themâu trawsbynciol canlynol fel y bônt yn berthnasol o fewn pob un o'r diwygiadau, ac ar eu traws: gweithgareddau hamdden cyfrifol; cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd; cyfrifoldebau'r fforymau mynediad lleol o fewn yr opsiynau diwygio; gweithgareddau a digwyddiadau masnachol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu ei gyngor ar gyfer pob opsiwn diwygio gan ddefnyddio'r camau canlynol:

- Bwriad y polisi
- Diffinio problemau
- Nodi opsiynau
- Dadansoddi'r opsiynau
- Dethol opsiwn
- Cyngor terfynol

Datblygwyd allbynnau ar gyfer pob cam o'r broses. Mae'r adroddiad terfynol yn cyflwyno cyngor terfynol y grŵp i'r llywodraeth, gan amlinellu: crynodeb o fwriad polisi pob un o'r diwygiadau; yr opsiynau a ddatblygwyd ar y cyd â phob grŵp arbenigol; sylwebaeth ar yr opsiynau, ac asesiad ohonynt, gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y ffordd ymlaen ar gyfer pob diwygiad. Mae'r argymhellion wedi'u coladu yn [Atodiad B](#).

Lluniodd CNC yr adroddiad terfynol a'r argymhellion mewn ymateb i drafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, a chyfraniadau gan bobl eraill, ac ar ôl myfyrio arnynt. Er bod safbwyntiau aelodau'r grwpiau arbenigol wedi'u hadlewyrchu drwy'r adroddiad, ni ddylid cymryd bod pob argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn cynrychioli safbwyntiau cynrychiolwyr unigol o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, na'u sefydliad, na'u bod wedi cytuno arno.

## Cyflwyniad

Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru yr Ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Roedd hwn yn cynnwys diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad. Nododd dull y llywodraeth o weithredu'r cynigion mynediad yn ôl egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y canlynol:

- Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur hybu iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym, fel llywodraeth, wedi ymrwymo i gynyddu mynediad pobl i'n cefn gwlad, a'u mwynhad ohono – er mwyn manteisio ar y buddion iechyd a llesiant llu a geir o fod yn yr awyr agored.
- Mae cefn gwlad hygyrch yn cefnogi'n hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol [ddatganiad ysgrifenedig](#) yn amlinellu ymateb y llywodraeth i'r cynigion mynediad o fewn Pennod 4. Yn y datganiad hwn, nodwyd saith cynnig yr oedd angen eu hystyried yn fanylach o safbwynt y ffordd y dylid eu datblygu ymhellach.

Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i sefydlu 'Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad', yn cynnwys grŵp llywio a thri grŵp arbenigol. Roedd gan bob grŵp arbenigol 12 aelod, gan gynnwys pedwar cynrychiolydd o bob un o'r tri sector canlynol: rheoli tir, defnyddwyr hamdden, a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Ceir rhestr o aelodau'r grwpiau arbenigol yn Atodiad D.

Gofynnwyd i'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad ystyried y cynigion a datblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflenwi bwriad ei pholisi i ddiwygio deddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru. Mae'r meysydd diwygio deddfwriaethol y mae'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad wedi'u hystyried yn cynnwys y canlynol:

### Grŵp Arbenigol 1:

- Diwygiad 1A: ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Diwygiad 1B: newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn ymestyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r arfordir

### Grŵp Arbenigol 2:

- Diwygiad 2A: ymestyn yr hawl i reidio beic neu farchogaeth ceffyl ar lwybrau troed cyhoeddus
- Diwygiad 2B: cyfyngiadau dros dro ar lwybrau cyhoeddus

### Grŵp Arbenigol 3:

- Diwygiad 3A: darparu map integredig o fynediad cyhoeddus yng Nghymru



- Diwygiad 3B: dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru

Ar draws y meysydd diwygio, 1A, 1B, 2A ac ati, nodwyd y themâu trawsbynciol canlynol i'w hystyried o fewn pob diwygiad, a hefyd o safbwynt eu perthnasedd ar draws diwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:

- Gweithgareddau hamdden cyfrifol
- Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd
- Cyfrifoldebau'r fforymau mynediad lleol o fewn yr opsiynau diwygio
- Gweithgareddau a digwyddiadau masnachol

Ceir isod grynodedb o'r broses a'r amserlen a ddilynwyd ar gyfer datblygu'r cyngor:

## **Bwriad y polisi**      **Diffinio problemau**      **Nodi opsiynau**      **Dadansoddi'r opsiynau**      **Dethol opsiwn**

- Gorffennaf 2019: Llywodraeth Cymru ac CNC yn cytuno ar y cylch gwaith a'r adnoddau ar gyfer proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.
- Awst 2019: Cymeradwyaeth gan y Gweinidog a sefydlu grŵp llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.
- Medi 2019: Cyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Cylch gorchwyl y grŵp llywio wedi'i gytuno.
- Hydref 2019: Trafodwyd proses ac amserlenni'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn ystod ail gyfarfod y grŵp llywio. Lluniwyd y ddogfen cydnabod problemau a'r cynllun cyfathrebu.
- Rhagfyr 2019: Cyfarfu grŵp llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad er mwyn cytuno ar gyfansoddiad y grwpiau arbenigol a chylch gorchwyl pob un.
- Rhagfyr 2019: Cychwynnwyd gwaith y grwpiau arbenigol, a drafftiodd Llywodraeth Cymru ddogfennau bwriad polisi ar gyfer pob un o'r meysydd diwygio:
  1. Newidiadau i dir mynediad agored / tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
  2. Hyblygrwydd ar lwybrau troed cyhoeddus
  3. Cyfleu hawliau mynediad
- Ionawr 2020: Diffinio problemau: cynhaliwyd y rownd gyntaf o weithdai ar gyfer y grwpiau arbenigol. Cyflwynwyd bwriad y polisi yn ystod y gweithdai hyn, a gofynnwyd i'r grwpiau arbenigol ystyried y materion sy'n gysylltiedig â nhw. Wedyn, trefnwyd y materion yn gyfres o themâu y byddai angen i unrhyw ddiwygiadau fynd i'r afael â nhw. Allbwn y digwyddiadau hyn oedd tri phapur diffinio problemau.

- Mawrth 2020: Nodi opsiynau: gofynnwyd i'r grwpiau arbenigol gynnig cyfres o opsiynau diwygio a oedd yn ateb bwriad y polisi ac yn mynd i'r afael â'r themâu a amlygwyd yn y cam diffinio problemau. Allbwn y broses hon oedd cyfres o dri adroddiad nodi opsiynau.
- Mai 2020: Dadansoddi opsiynau: galwad am dystiolaeth i hwyluso'r gwaith o graffu ar yr opsiynau diwygio a gynigiwyd gan y grwpiau arbenigol. Gwahoddwyd cyfraniadau gan y ffynonellau canlynol:
  - Fforymau mynediad lleol [cysylltwyd â 22 ohonynt]
  - Aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol [37 sefydliad]
  - Aelodau o grwpiau arbenigol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad [28 cynrychiolydd]
  - Cadw
  - Cynghorwyr arbenigol CNC
- Medi 2020: Cafodd chwe adroddiad dadansoddi opsiynau diwygio ar ffurf ddrafft eu cyflwyno i grwpiau arbenigol yn ystod cyfres o weithdai. Defnyddiwyd y rhain i addasu'r opsiynau diwygio, ynghyd â'r elfennau allweddol sy'n eu ffurfio.
- Tachwedd 2020: Cyfarfu'r grŵp llywio er mwyn trafod allbwn y broses dadansoddi opsiynau hon, gan gynnwys y chwe adroddiad dadansoddi opsiynau diwygio a'r adroddiad ar themâu trawsbynciol.
- Rhagfyr 2020: Cyfarfu'r grŵp llywio er mwyn cytuno ar yr adroddiadau dethol opsiwn a oedd yn cynnwys yr opsiynau diwygio addasedig.
- Ionawr 2021: Dethol opsiwn: ailymgynullodd y grwpiau arbenigol er mwyn ystyried y fersiynau diweddaedig ac addasedig o'r opsiynau diwygio, ac i ddarparu arwydd o'r hyn a ffafriwyd ganddynt a sylwebaeth i gyd-fynd â hynny.
- Chwefror 2021: Themâu trawsbynciol: daeth aelodau'r grwpiau arbenigol ynghyd am y tro olaf er mwyn trafod yr argymhellion drafft a gynigiwyd ar gyfer y themâu trawsbynciol.
- Mawrth 2021: lluniwyd y drafft cyntaf o Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ar gyfer ei ddsbarthu i bob un o aelodau'r grwpiau arbenigol.
- Mai 2021: Cyflwynwyd y fersiwn ddrafft derfynol o Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad i Lywodraeth Cymru.
- Gorffennaf 2021: Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am broses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, fel allbynnau pob cam a chofnodion pob un o gyfarfodydd y grŵp llywio, ewch i:

<https://llyw.cymru/y-grwp-cyngori-ar-ddiwygio-mynediad>

Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar fwriad ei pholisi i ddiwygio mynediad yn unol â'r hyn a amlinellwyd ar ddechrau'r broses, ynghyd â'i chynghori ar yr opsiynau cyflenwi dilynol a gynigiwyd yn ystod y broses honno. Lluniodd CNC yr adroddiad terfynol a'r argymhellion mewn ymateb i drafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, gwaith dadansoddi tystiolaeth, a chyfraniadau

gan bobl eraill yn ystod rhaglen y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, ac ar ôl myfyrio arnynt.

Er bod safbwyntiau aelodau'r grwpiau arbenigol wedi'u hadlewyrchu drwy'r adroddiad, ni ddylid cymryd bod pob argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn cynrychioli safbwyntiau cynrychiolwyr unigol o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, na'u sefydliad, na'u bod wedi cytuno arno.

# Diwygiad 1A: Gweithgareddau newydd ar dir mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

## Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A

I'w gwneud yn bosibl i feicio, marchogaeth ceffylau, barcuta, paragleidio, ymdrochi, defnyddio cwch neu hwyfwrdd [yr hyn a adwaenir fel hawliau uwch] ddigwydd drwy hawl ar dir sydd â hawl mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel 'y Ddeddf').

## Opsiynau Diwygiad 1A ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 1A: Teitl y cynnig opsiwn  | Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn  |
|--|--|
| i. Gweithredu'r fersiynau diwygiedig o gyfyngiadau cyffredinol Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar dir mynediad o dan y Ddeddf | Dileu'r cyfyngiadau ar hawliau uwch, a amlinellir ym mwriad y polisi, yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ac eithrio tir arfordirol Opsiwn 1B). Defnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i reoli, gwahardd neu gyfyngu ar yr hawliau mynediad o dan y Ddeddf sy'n deillio o ddiwygio Atodlen 2. Cryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. trwy god statudol.  |
| ii. Gweithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn amodol ar asesu'r galw/addasrwydd                   | Mae awdurdodau mynediad – awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol y tu allan i ffiniau'r parciau cenedlaethol – yn dilyn dull detholus o weithredu hawliau uwch ar ardaloedd diffiniedig o dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a hynny ar sail asesiad o 'addasrwydd'. Cymhwyso deddfwriaeth bresennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn rheoli'r hawliau fel y'u hymestynnwyd. |
| iii. Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dull coridor)   | Mynediad i farchogwyr ceffylau a beicwyr, o leiaf, at lwybrau/coridorau llinol a ddiffinnir gan yr awdurdod mynediad lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 wedi'u codi.  |

Sylwer bod y cyfeiriad at hawliau uwch yng nghyd-destun Diwygiad 1A yn unol â bwriad y polisi oni nodir fel arall. Mae'r posibilrwydd o ymestyn hawliau uwch ar dir mynediad arfordirol wedi'i ystyried fel rhan o Ddiwygiad 1B.

## **Opsiwn 1A(i): Gweithredu'r fersiynau diwygiedig o gyfyngiadau cyffredinol Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar dir mynediad o dan y Ddeddf**

### **Opsiwn 1A(i): Disgrifiad cryno**

Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn unol â bwriad y polisi, ar gyfer tir mynediad presennol o dan y Ddeddf (ond nid tir arfordirol). Defnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i reoli'r hawliau o dan y Ddeddf sy'n deillio o ddiwygio Atodlen 2, gan ddefnyddio gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y maent ar hyn o bryd, neu fel y'u diwygiwyd. Cynnwys cymal cyfrifoldeb o ran codi cyfyngiadau Atodlen 2. Diwygio'r pwerau yn Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn cryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. trwy god statudol gorfodadwy.

### **Opsiwn 1A(i): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 1A(i) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Diwygio deddfwriaeth Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer tir mynediad nad yw'n arfordirol er mwyn darparu ar gyfer gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad presennol yn unol â bwriad y polisi, gan gynnwys y canlynol:
  - beicio, marchogaeth ceffylau, barcuta a pharagleidio; ac, mewn dyfroedd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ac eithrio cronfeydd dŵr):
  - cychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol; ymdrochi/nofio
002. Byddai gwaith mapio a wnaed eisoes o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol [h.y. ni fyddai'n ofynnol ailfapio tir mynediad o dan y Ddeddf. Caiff gwaith mapio tir ei gymhwyso i fathau diffiniedig o dir – mynyddoedd, gweunydd ac ati, yn hytrach nag addasrwydd y tir o ran cael mynediad ato ar droed, a pha mor ddeniadol ydyw].
003. Byddai deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol, gan gynnwys y canlynol:
  - Hawliau mynediad [gan gynnwys gwaith mapio – gweler uchod]
  - Trefniadau gwahardd a chyfyngu a fyddai'n ei gwneud yn bosibl gwahardd neu gyfyngu ar hawliau mynediad am resymau penodol yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
  - Dulliau mynediad (Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) sy'n caniatáu mynediad at dir mynediad drwy gytundeb neu orfodaeth

004. Gweithredu cod mynediad [gweithgareddau hamdden cyfrifol] er mwyn diffinio hawliau a chyfrifoldebau (sydd wedi'u cwmpasu yn yr adrannau isod ar themâu trawsbynciol yn bennaf).
005. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
006. Deddfwriaeth i ganiatáu gwella hygyrchedd gelfi mynediad, fel gatiau a chamfeydd. Bydd angen i'r holl gelfi gyflawni'r safonau hygyrchedd pan gânt eu disodli.
007. Bydd symbol mynediad agored newydd ar gyfer arwyddion ar lawr gwlad (e.e. cyfeirbwyntiau). Bydd angen i'r dyluniad newydd gynnwys pob defnyddiwr perthnasol.
008. Sicrhau bod cyllid amaeth-amgylcheddol ar gael ar gyfer gwelliannau i fynediad a'r seilwaith ategol.
009. Caiff newidiadau eu cyfleu yng Nghymru – ac yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas ag effaith drawsffiniol.
010. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
011. Byddai'r lleihad yn atebolrwydd meddianwyr am ddefnyddwyr hamdden yn berthnasol i ddefnyddwyr hawliau uwch drwy rinwedd deddfwriaeth mynediad bresennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

## **Opsiwn 1A(ii): Gweithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn amodol ar asesu'r galw/addasrwydd**

### **Opsiwn 1A(ii): Disgrifiad cryno**

Dilyn dull detholus o weithredu hawliau uwch ar ardaloedd diffiniedig o dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn amodol ar asesiad o addasrwydd.

### **Opsiwn 1A(ii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 1A(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Câi awdurdodau mynediad bwerau i wneud y canlynol:
  - Cynnal asesiad, o fewn eu hardaloedd, o addasrwydd tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o ran hawliau uwch
  - Llacio cyfyngiadau Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (yn unol â'r hyn a amlinellir ym mwriad y polisi) ar gyfer ardaloedd o dir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf yr aseswyd ei fod yn addas



002. Byddai pwerau i ddiffinio'r canlynol mewn rheoliadau:
  - Y meini prawf asesu addasrwydd ar gyfer y mynediad hawliau uwch a fydd yn berthnasol i dir mynediad
  - Prosesau asesu a sut y cânt eu defnyddio (gan gynnwys diffinio 'ardal o dir mynediad' at ddibenion asesu)
  - Gofynion y broses ar gyfer y gwaith o lacio Atodlen 2 ar gyfer hawliau uwch
003. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
004. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
005. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
006. Byddai'r trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn parhau i fod yn berthnasol.
007. Byddai angen adnoddau mewn perthynas â thirfeddianwyr / rheoli tir ar gyfer eitemau fel digolledu perchnogion/meddianwyr (yn amodol ar gyngor cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru), a'r costau gweithredu a ysgwyddir gan awdurdodau mynediad.
008. Bydd y ddyletswydd mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a'r prosesau cysylltiedig, yn parhau i fod yn berthnasol. Dylai mapiau wahaniaethu rhwng yr hawliau sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
009. Gellid defnyddio pwerau Adran 19 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddarparu arwyddion cysylltiedig. Byddai symbol/logo mynediad agored hawliau uwch newydd ar gyfer cyfeirbwyntiau ac arwyddion. Byddai ardaloedd nad yw'r diwygiadau'n effeithio arnynt yn parhau gyda'r arwyddion a chyfeirnodau presennol.
010. Newid Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hawliau uwch yn unol â bwriad y polisi ar gyfer unrhyw ardaloedd tir mynediad a aseswyd.
013. Addasu'r pwerau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn ei gwneud yn bosibl gwella dulliau mynediad at dir mynediad, ac oddi mewn iddo, ar gyfer hawliau uwch, fel bod modd eu gweithredu ar dir mynediad o dan y Ddeddf yn gyffredinol. Câi'r pwerau eu harfer yn ôl disgrisiwn yr awdurdodau mynediad.
014. Mynediad 'gwell' yn ôl addasrwydd. Gallai'r ystyriaethau ar gyfer y meini prawf addasrwydd gynnwys y canlynol o bosib:
  - Effeithiau pwysau hamdden
  - Hygyrchedd tir
  - Y galw am fynediad
015. O dan Adran 13 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, sicrhau lleihad pellach yn atebolrwydd meddianwyr am ddefnyddwyr cyfreithlon tir mynediad o dan y Ddeddf.

## **Opsiw'n 1A(iii): Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dull coridor)**

### **Opsiw'n 1A(iii): Disgrifiad cryno**

Ymestyn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel ei bod yn cynnwys pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol drwy dir mynediad o dan y Ddeddf lle mae cyfyngiadau hawliau uwch Atodlen 2 wedi'u codi ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau. Byddai deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i lwybrau o'r fath yn gyffredinol.

### **Opsiw'n 1A(iii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiw'n Diwygio 1A(iii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel ei bod yn darparu pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol ar dir mynediad o dan y Ddeddf y mae'r hawliau uwch ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr yn berthnasol iddynt.
002. Byddai pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau â hawliau uwch o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i'r holl dir mynediad presennol sydd wedi'i ddynodi neu ei neilltuo o dan y Ddeddf.

Byddai pennu'r hawliau uwch i'w gweithredu ar goridau a nodwyd yn rhan o'r broses ddiffinio, a'r awdurdodau mynediad fyddai'n penderfynu arnynt.

Dylid cynnwys rhagdybiaeth ar gyfer sicrhau'r mynediad lleiaf rhwystrol, h.y. sicrhau bod cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl, a pharhau i gyflawni unrhyw ofyniad perthnasol i gyfyngu ar fynediad.

Pwerau i reoliadau bennu'r broses o ddiffinio coridorau â hawliau uwch newydd, gan gynnwys eu hystyried yn ôl disgrisiwn awdurdodau mynediad, cymhwyso hawliau, asesu'r llwybr arfaethedig, a phenderfynu ar y llwybr arfaethedig.

Proses gynnig/asesu ar gyfer diffinio ardaloedd y gellid gweithredu hawliau uwch newydd arnynt, a fyddai'n cynnwys y camau canlynol:

- Cynnig drwy gais (e.e gan unigolyn, fforymau mynediad lleol); neu
- Gynnig gan awdurdod mynediad, yn ôl ei ddisgrisiwn
- Aseiad o'r cynnig yn erbyn meini prawf penodol
- Gofynion ymgynghori
- Argymhellid
- Penderfyniad gan awdurdodiad mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Gweithredu'r llwybr [gan gynnwys dulliau mynediad at dir, ac oddi mewn iddo]

Gallai'r meini prawf i'w diffinio mewn rheoliadau gynnwys y galw/angen, nodweddion llwybrau [gan gynnwys dimensiynau coridorau], hawliau mynediad sydd eisoes yn bodoli, nodweddion ffisegol, cadwraeth natur/treftadaeth.

003. Dylid sicrhau bod trefniadau cyfyngu a gwahardd ar lwybrau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys rhagdybiaeth o deithio cysylltiol, a'u bod yn ei gwneud yn bosibl amrywio llwybr neu ddarparu llwybr amgen ar gyfer teithiau cysylltiol o'r fath.

004. Adolygu a diwygio Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy os oes angen er mwyn rhoi pwerau i awdurdodau mynediad hwyluso'r dulliau mynediad at dir mynediad, ac o fewn iddo, ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch [ac ar gyfer pobl â phroblemau symudedd] lle bo angen.

Pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) roi arweiniad a chynghor ar y math o ddarpariaeth ar gyfer hwyluso hawliau uwch ac ar gyfer ystyried mynediad lleiaf rhwystrol.

005. Gweithredu cod mynediad er mwyn diffinio hawliau a chyfrifoldebau. Darparu adnoddau i ddatblygu a chefnogi'r cod, gan gynnwys rhannu gwybodaeth â phobl yng Nghymru ac ymwelwyr, eu haddysgu, a hyrwyddo'r cod iddynt.

Bydd dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hyrwyddo'r cod hwn.

## **Sylwebaeth ar faterion cyffredin mewn perthynas â mynediad o dan Ddiwygiad 1A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ynghyd ag argymhellion**

Dylid darllen yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn (gweler uchod, a gweler Atodiad A ar gyfer y tablau o elfennau allweddol yn eu cyfanrwydd).

Mae'r rhain fel a ganlyn:

### **Posibilrwydd o gyflwyno opsiynau diwygio Diwygiad 1A o fewn darpariaethau presennol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

Byddai dull diwygio o gyflwyno Opsiwn 1A(i) yn golygu defnyddio pwerau rheoliadol a geir ym mharagraff 3 o Atodlen 2 i lacio detholiad o gyfyngiadau cyffredinol ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (yn amodol ar Adran 44(3)).

Ar hyn o bryd, ceir pwerau ym mharagraff 7(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n golygu y gall Cyfoeth Naturiol Cymru, neu awdurdod parc cenedlaethol (h.y. yr 'awdurdod perthnasol'), lacio cyfyngiadau Atodlen 2 ar fynediad defnyddwyr hawliau uwch i dir mynediad o dan y Ddeddf, a hynny gyda chydysniad y perchennog ar unrhyw dir, yn ôl y geiriad "... the consent of the owner of any land ...".

Cynigiodd y grŵp arbenigol y gallai tynnu'r gofyniad 'the consent of the owner of any land' o baragraff 7 (ac efallai ychwanegu gwybodaeth) fod yn ffordd bosibl i Lywodraeth Cymru gyflwyno Diwygiad 1A, e.e. ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii), gan ei gwneud yn bosibl llacio cyfyngiadau cyffredinol mewn ardaloedd penodol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn ofynnol er mwyn diddymu'r angen i gael cydsyniad y tiffeddiannwr ym mharagraff 7(1).

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y dull o gyflenwi bwriad ei pholisi ar gyfer Diwygiad 1A.

## **Ceid cynnydd yn hawliau mynediad marchogwyr ceffylau a beicwyr, o leiaf, ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

Mae pob un o'r opsiynau'n arwain at gynyddu rhywfaint o hawliau uwch. Byddai Elfen Allweddol 001 yn Opsiwn 1A(i) ac Elfen Allweddol 001 yn Opsiwn 1A(ii) ill dau yn cwmpasu pob defnyddiwr hawliau uwch. Yn achos Opsiwn 1A(iii), cafodd coridorau eu hystyried ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr yn unig. Pe cawsai Opsiwn 1A(iii) ei ddatblygu ymhellach o ran pob hawl uwch, byddai angen ystyried y canlynol:

- Coridorau dyfrol ar gyfer nofio a chychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol. Fodd bynnag, nifer cymharol fach o afonydd neu gyrff dŵr naturiol sy'n ddigon dwfn a hir ar gyfer gwneud hyn yn ddichonol sydd wedi'u mapio fel tir mynediad.
- Llwybrau i safleoedd lansio ar gyfer barcuta a pharagleidio, a 'rhedfeydd' i'w gwneud yn bosibl godi i hedfan oddi wrthynt. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar gyflymder a chyfeiriad y gwynt, gallai'r safleoedd lansio amrywio, gan olygu y byddai angen defnyddio ardaloedd i bob pwrpas (Opsiwn Diwygio 1A(i) neu Opsiwn Diwygio 1A(ii)).
- Y lled safonol ar gyfer coridorau.

(O.N. Ar hyn o bryd (mis Ebrill 2021), mae CNC yn arwain ar ddarn arall o waith Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â diwygiadau i fynediad at ddŵr).

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n ofynnol ganddi fod pob un o'r hawliau uwch sydd wedi'u hamlinellu ym mwriad y polisi yn cael eu llacio fel rhan o Ddiwygiad 1A. Yn realistig, dim ond i feicwyr a marchogwyr ceffylau y mae Opsiwn 1A(iii) yn berthnasol ar hyn o bryd.

## **Ni fyddai newid yn y rhesymau presennol dros hysbysu CNC, neu wneud cais iddo, am waharddiad neu gyfyngiad**

Ar hyn o bryd, gellir cyfyngu ar yr hawl mynediad at dir mynediad y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy am y rhesymau canlynol:

- Rheoli tir
- Perygl i'r cyhoedd
- Risg eithriadol o dân
- Cadwraeth natur

- Cadwraeth treftadaeth
- Amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol
- Lle bo'r tir dan sylw'n waun grugieir
- Lle mae'r tir dan sylw'n ardal fach a ddefnyddir ar gyfer wyna
- Yn ogystal, gellir cyfyngu ar y mynediad at dir am hyd at 28 diwrnod ym mhob blwyddyn galendr

Gall y rhan fwyaf o gyfyngiadau gwmpasu un neu ragor o ddefnyddwyr cyfreithlon tir y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – a byddai'r rheswm dros gyfyngiad felly'n ymestyn i ddefnyddwyr hawliau uwch pe cawsai Diwygiad 1A ei gyflwyno. Câi'r opsiwn lleiaf rhwystrol ei weithredu o hyd, gan olygu mai dim ond ychydig o ddefnyddwyr tir mynediad y byddai cyfyngiad yn cael effaith arnynt o bosib.

Drwy gydol y broses ymgynghori ac ymgysylltu, ni dderbyniwyd unrhyw awgrymiadau ynghylch rhesymau ychwanegol dros weithredu cyfyngiadau. Mae'r ddau reswm cyntaf yn y rhestr uchod yn cwmpasu llawer o'r prosesau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cais ar gyfer cyfyngu ar hawl mynediad. Mae dethol yr opsiwn lleiaf rhwystrol yn egwyddor a ddefnyddir wrth weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau.

Fodd bynnag, bydd angen archwilio'r canllaw ar gyfer Adran 33 (a33) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar y system gyfyngu (y mae gan CNC y pŵer i'w ddsbarthu – yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru). Mae'r canllaw wedi'i ysgrifennu i gwmpasu'r defnydd o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gan gerddwyr, felly byddai angen ei adolygu, o leiaf, er mwyn penderfynu a yw'n cwmpasu pa opsiwn bynnag y caiff ei ddatblygu ymhellach.

Argymhelliad: Peidio â diwygio'r rhesymau dros weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau fel rhan o Ddiwygiad 1A. Dylid adolygu'r canllaw ar gyfer Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn sgil cyflwyno Diwygiad 1A, er mwyn cwmpasu'r mynediad hawliau uwch i dir mynediad o dan y Ddeddf.

## **Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu pwerau mewn perthynas â gwella mynediad oddi mewn i dir mynediad**

Mae Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cwmpasu cael mynediad at dir mynediad. Yn y pen draw, mae'n rhoi'r pŵer i awdurdodau mynediad greu mynediad at dir mynediad.

Yn ôl cyngor cyfreithiol, mae hyn yn caniatáu mynediad **at** dir mynediad. Fodd bynnag, derbyniwyd cyngor arall yn ystod y broses ymgynghori ei bod yn cynnwys hwyluso mynediad **oddi mewn i** dir mynediad, h.y. rhwng parseli o dir mynediad. Er y byddai'r pŵer hwn dros fynediad mewnol o fudd i ddefnyddwyr os bydd Llywodraeth Cymru'n gweithredu Opsiwn 1A(i) neu Opsiwn 1A(ii), fe fyddai'n hanfodol ar gyfer Opsiwn 1A(iii).

Argymhelliad: Dylid darparu pwerau digonol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hwyluso 'mynediad oddi mewn i' dir mynediad (yn ogystal â 'mynediad i' dir mynediad), gan gynnwys y mynediad hawliau uwch a gyflwynir fel rhan o Ddiwygiad 1A. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III



o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eisoes yn darparu'r pwerau angenrheidiol ar gyfer awdurdodau mynediad.

## **Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ar faterion amrywiol y manylir arnynt yn yr ystyriaethau**

Ar draws y tri opsiwn, ceir materion amrywiol y byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol yn eu cylch. Nid yw'r rhestr yn gyflawn, ond yn hytrach mae'n amlygu materion perthnasol a godwyd gan Grŵp Arbenigol 1 neu randdeiliaid eraill.

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor ar elfennau penodol fel y maent wedi'u rhestru yn nhablau'r opsiynau os bwriedir datblygu'r elfennau hynny ymhellach.

## **Gwahaniaethau penodol rhwng dulliau Opsiwn 1A(i), Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii)**

Bydd gwahaniaethau o ran graddfa'r hawliau uwch y câi eu cyflwyno ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan ddibynnu ar ba opsiwn y caiff ei ddatblygu ymhellach.

Byddai Opsiwn 1A(i) yn caniatáu mynediad hawliau uwch at unrhyw dir y mae modd cael mynediad ato o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys tir a neilltuir o dan a16 o'r Ddeddf). Byddai hyn yn golygu cyfanswm o 379,699 hectar. Mae unrhyw dir yng Nghymru a neilltuir o dan a16 (heblaw Freshwater East) yn perthyn i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, ac mae mynediad drwy hawl ar gyfer beicwyr, a system mynediad drwy hawl / drwy ganiatâd ar gyfer marchogwyr ceffylau, eisoes yn bodoli ar hyd llwybrau llinol, yn bennaf, drwy'r tir a neilltuir.

Mae Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii) yn cynnig dilyn dulliau detholus o weithredu hawliau uwch – i ardaloedd neu goridorau diffiniedig o dir mynediad yn ôl eu trefn – sy'n seiliedig ar asesiadau a gynhelir a phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau mynediad. Bydd yn ofynnol i awdurdodau mynediad dreulio amser ac adnoddau sylweddol wrth weithredu prosesau o'r fath, ond byddant yn ei gwneud yn bosibl ystyried amgylchiadau lleol.

O ganlyniad i'r ardal gymharol gyfyngedig a ddarperir gan goridorau tir mynediad, mae Opsiwn 1A(iii) yn debygol o arwain at y cynnydd lleiaf yn yr ardal o dir y câi'r hawliau uwch eu gweithredu arni. (Yn ogystal, mae'n bosibl mai dim ond Opsiwn 1A(iii) y bydd yn bosibl ei ddefnyddio, yn ymarferol, i ddiffinio coridorau i'w defnyddio gan farchogwyr ceffylau a beicwyr.) O'i gymharu ag Opsiwn 1A(iii), mae Opsiwn 1A(ii) yn debygol o arwain at gynnydd cymharol fwy yn yr ardal o dir y gweithredir hawliau uwch arni, gan ei fod yn cynnig llacio cyfyngiadau cyffredinol Atodlen 2 ar barseli neu flociau o dir mynediad y byddai awdurdodau mynediad wedi barnu eu bod yn addas ar gyfer hawliau uwch. Opsiwn 1A(i) fydd yn arwain at y cynnydd mwyaf yn y tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy y cyflwynir mynediad hawliau uwch iddo, oherwydd y bydd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu hawliau uwch i bob darn o dir o dan y Ddeddf (heblaw ardaloedd y mae gwaharddiadau a chyfyngiadau yn berthnasol iddynt).

Mae'n anodd pennu'n union faint o hawliau uwch y ceir o ganlyniad i weithredu Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii). Bydd hynny'n dibynnu ar y meini prawf asesu a'r prosesau a gaiff eu datblygu, y graddau y bydd awdurdodau mynediad yn



defnyddio'r pwerau dewisol, a'r adnoddau y byddai'n rhaid i awdurdodau mynediad (ac eraill) eu cael er mwyn gweithredu'r diwygiad. Yn ogystal, mae cyngor cyfreithiol y mae CNC wedi'i dderbyn yn awgrymu y gallai fod rhaid talu iawndal o dan Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii).

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a yw'n well ganddi ddilyn dull cyffredinol neu ddetholus o weithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Byddai Opsiwn 1A(i) ac Opsiwn 1A(ii) yn ei gwneud yn bosibl (neu gallai ei gwneud yn bosibl) caniatáu hawliau uwch ar dir mynediad ar gyfer pob un o'r defnyddwyr a amlinellir ym mwriad y polisi. Fodd bynnag, dim ond mynediad drwy 'goridorau' ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau a gafodd ei ystyried yn achos Opsiwn 1A(iii), felly ni fyddai'n cynnwys yr holl hawliau uwch a amlinellir ym mwriad y polisi.

**Argymhelliad:** Byddai angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n dymuno bod pob defnyddiwr hawliau uwch a amlinellir ym mwriad ei pholisi wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddiwygiad posibl. Os felly, byddai angen diystyru Opsiwn 1A(iii) yn ffurfiol.

Mae Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth 1982 (Offeryn Statudol 648) yn nodi'r canlynol:

- Nid yw Is-ddeddf 5(xiii) yn caniatáu i unigolyn farchogaeth ceffyl na'i arwain.
- Nid yw Is-ddeddf 5(xxiii) yn caniatáu i unigolyn weithredu unrhyw fath o gerbyd awyr, gleider, cwch, rafft neu gerbyd dŵr.
- Nid yw Is-ddeddf 6(1) yn caniatáu defnyddio unrhyw gerbyd heblaw pram neu gadair olwyn.

Yn y rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi'i neilltuo o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, mae'n ymddangos y gallai fod gwrthdaro rhwng is-ddeddfau 1982 a darpariaethau Diwygiad 1A mewn perthynas â mynediad hawliau uwch.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu, a diwygio lle bo angen, sut mae Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth yn berthnasol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, a hynny er mwyn osgoi gwrthddweud y diwygiadau a gyflwynir o dan Ddiwygiad 1A.

## Costau'r opsiynau

Er mwyn asesu'r costau sydd ynghlwm wrth opsiynau Diwygiad 1A yn fanwl gywir, bydd angen datblygu'r opsiynau yn fanylach. Oherwydd hyn, ni chyflawnwyd asesiad manwl o'r costau yn ystod proses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad eang o gostau cymharol yr opsiynau.

Byddai pob un o opsiynau Diwygiad 1A yn gofyn am rywfaint o gynnydd mewn adnoddau i'w gweithredu. Yn achos Opsiwn 1A(i), câi hawliau uwch eu gweithredu ar bob darn o dir mynediad drwy newid y ddeddfwriaeth, felly'r opsiwn hwn fyddai â'r gost isaf o safbwynt gweithredu hawliau. Mae'n debygol y bydd CNC a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn ysgwyddo costau ychwanegol o ganlyniad i ymdrin â chynnydd mewn ceisiadau / hysbysiadau i'w prosesu ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau. Bydd costau ychwanegol hefyd ynghlwm wrth ateb y galwadau cynyddol o reoli tir mynediad o ganlyniad i'r hawliau uwch a ddefnyddir (e.e. y gost i'r awdurdodau mynediad o ddarparu celfi mynediad sy'n hygyrch i feicwyr a marchogwyr ceffylau). Fodd bynnag, nid yw graddfa'r galw am dir ychwanegol na'r gwaith o reoli tir mynediad wedi'u hasesu'n wrthrychol.

Byddai Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii) yn ei gwneud yn ofynnol cael adnoddau newydd er mwyn galluogi awdurdodau mynediad i gyflawni gwaith diffinio, cyflawni asesiadau a phrosesau cysylltiedig, a phenderfynu ar yr ardaloedd o dir mynediad y caiff hawliau uwch eu gweithredu arnynt. Bydd y costau gweinyddol hyn, a'r costau sydd ynghlwm wrth reoli'r hawliau uwch sy'n deillio o'r diwygiadau, yn gymesur â'r graddau y caiff y pwerau eu defnyddio a'u harfer. Mae pŵer yn ddewisol, ac felly mae'n debygol mai ychydig o weithredu cysylltiedig a geir yn absenoldeb adnoddau ychwanegol. (Cafodd y gofyniad i awdurdodau mynediad asesu addasrwydd pob darn o dir ar gyfer hawliau uwch ei ystyried, ond ni chafodd ei gynnwys yn y cynigion ar gyfer y naill opsiwn na'r llall.)

Yn ogystal, awgryma'r cyngor cyfreithiol rhagarweiniol i CNC y gall fod angen talu iawndal i dirfeddianwyr ar gyfer pob ardal neu goridor lle gweithredir hawliau uwch, a hynny o dan naill ai Opsiwn 1A(ii) neu Opsiwn 1A(iii). Oherwydd y byddai'r awdurdod yn gweithredu'r hawliau mynediad fesul achos, ni ragwelir y ceid cynnydd sylweddol yn nifer y gwaharddiadau neu gyfyngiadau hirdymor o ganlyniad i weithredu'r opsiynau hyn oherwydd y tybir ei bod yn debygol y caiff yr ardaloedd hyn eu diystyru yn ystod y broses asesu.

Byddai costau ynghlwm wrth y gwaith o adolygu a diwygio gwybodaeth a chanllawiau yn sgil cyflwyno Diwygiad 1A. Mae'n debygol y bydd y costau o ddiwygio'r canllawiau a'r wybodaeth ar lefel genedlaethol yn debyg ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau. Bydd y newidiadau a wneir i wybodaeth a chanllawiau lleol am fynediad at dir yn dibynnu ar raddfa a chymhlethdod y newidiadau i'r hawliau y bydd yr opsiynau'n eu cyflwyno.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu pa opsiwn/elfennau y ffafrir ganddi cyn yr ymgymerir â gwaith amcangyfrif costau mwy cywir. Os dewisir naill ai Opsiwn 1A(ii) neu Opsiwn 1A(iii), byddai hyn yn cynnwys dod i gasgliad ynghylch p'un a ddylid cynnwys costau iawndal yn yr amcangyfrifon hyn.

## **Opsiwn 1A(iii): Trefniadau gwahardd a chyfyngu**

Rhaid i'r awdurdod perthnasol benderfynu ar geisiadau ar gyfer gwahardd hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy am hyd at chwe mis ymhen terfyn amser o chwe wythnos, neu ymhen terfyn amser o 16 wythnos yn achos ceisiadau ar gyfer gwahardd mynediad am gyfnod hwy na chwe mis.

O safbwynt Opsiwn 1A(iii), er mwyn cynnal teithiau trwodd, byddai angen i waharddiad neu gyfyngiad ar hyd coridor hawliau uwch ddarparu ar gyfer teithio cysylltiol. Oni bai fod y llwybr amgen ar gyfer teithio cysylltiol yn dilyn trywydd llwybr sydd eisoes yn bodoli, a'i fod yn hwyluso mynediad hawliau uwch (e.e. llwybrau ceffylau neu ffyrdd), mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad newydd o'r coridor amgen arfaethedig oddi mewn i dir mynediad – gan gynnwys darpariaethau ar gyfer cynnal ymgynghoriadau, digolledu ac ati. Felly bydd yn ofynnol cyflwyno prosesau newydd ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gyfer y coridorau a gynigir yn Opsiwn 1A(iii), ac maent yn debygol o fod yn llai hyblyg a gofyn am amser ac adnoddau ychwanegol i'w gweinyddu a'u gweithredu.

(Sylwer na chafodd unrhyw newidiadau eu cynnig ar gyfer y broses o wneud ceisiadau i wahardd neu gyfyngu ar fynediad yn achos Opsiwn 1A(i) nac Opsiwn 1A(ii) – gweler yr adran gysylltiedig uchod ar waharddiadau a chyfyngiadau.)

Argymhelliad: Os datblygir Opsiwn 1A(iii), bydd angen i Lywodraeth Cymru newid y rheoliadau ar gyfer y gwaharddiadau a chyfyngiadau a weithredir ar hyd coridorau hawliau uwch. Bydd hyn yn cynnwys diwygio'r terfynau amser statudol a bennir ar gyfer penderfynu ar geisiadau, a darparu ar gyfer teithio cysylltiol ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch.

## Lleihad mewn atebolrwydd

Mae unrhyw ddarpariaethau ar gyfer mynediad cyhoeddus o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn sicrhau lleihad yn atebolrwydd meddianwyr (Adran 13). Trafododd y grŵp arbenigol y mater o leihau atebolrwydd ymhellach i lefel is, yn unol ag Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, atebolrwydd unigolion sy'n cadw anifeiliaid, neu lefel is arall o atebolrwydd. Fodd bynnag, codwyd y mater hwn fel elfen yn unig o dan Opsiwn 1A(i) ac Opsiwn 1A(ii).

Argymhelliad: Dylid ystyried dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolrwydd meddianwyr ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys tir mynediad arfordirol sydd newydd ei ddiffinio). Os datblygir Opsiwn 1A(i) neu Opsiwn 1A(ii), bydd angen cynnal trafodaeth ynghylch cyfrifoldebau defnyddwyr yn erbyn dyletswydd gofal tiffeddianwyr. Gan ystyried bod Opsiwn 1A(iii), i bob pwrpas, yn goridor a asesir ymlaen llaw, mae lefel y lleihad mewn atebolrwydd a ddarperir o dan Adran 13 yn debygol o fod yn ddigonol.

## Mynediad cyfartal

Oherwydd bod Opsiwn 1A(i) ac Opsiwn 1A(ii) yn ymwneud â hwyluso mynediad ar sail ardal, sicrhau bod digon o le i ddefnyddwyr gwahanol osgoi ei gilydd. Cododd cynrychiolwyr â buddiannau rheoli tir bryderon ynghylch y ffaith y gallai Opsiwn 1A(iii) achosi gwrthdaro rhwng beicwyr, marchogwyr ceffylau (a cherddwyr, o bosib, os oeddent yn cerdded ar hyd llwybr da a chul) os oeddent i gyd am gael mynediad at yr un coridor mynediad ar yr un pryd.

Argymhelliad: Os datblygir Opsiwn 1A(iii), bydd angen datblygu hierarchaeth o brif anghenion defnyddwyr. (Ymddrinnir â hyn yn fanylach yn yr adran 'Themâu trawsbynciol' isod.)

## Cydnherthedd ecosystemau

Codwyd pryderon â thystiolaeth y gallai unrhyw opsiwn o dan Ddiwygiad 1A gael rhywfaint o effaith niweidiol ar ecosystemau, a chododd y grŵp arbenigol y gallai Opsiwn 1A(iii) arwain at gynnydd sylweddol mewn erydu o ganlyniad i grynhoi beicwyr a marchogwyr ceffylau ar hyd y coridorau arfaethedig. (Er hynny, mae adolygiad llenyddiaeth yr adroddiad LUC yn nodi "... walking and cycling cause damage via different mechanisms but the overall impact on a surface is generally not considered significantly different.")

Bydd darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau hefyd yn berthnasol i hawliau uwch, a byddant yn cynnig modd o osgoi a lliniaru yn erbyn yr effeithiau niweidiol ar dir mynediad a geir o ganlyniad i ddefnydd hamdden. Gallai'r meini prawf asesu ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii) hefyd ystyried sensitifrwydd tir, cynefinoedd a rhywogaethau i hawliau uwch. Fodd bynnag, er y gellir gwahardd neu gyfyngu ar hawliau mynediad, e.e. yn achos

cadwraeth treftadaeth neu natur, gall fod yn anodd rhagweld pa ardaloedd allai gael eu niweidio, ac mae gorfodaeth ar yr awdurdodau perthnasol i weithredu'r 'opsiwn lleiaf rhwystrol'.

Argymhelliad: Dylid sicrhau y caiff yr effaith ar ecosystemau o ganlyniad i lacio'r hawliau uwch ei hystyried wrth ddatblygu Diwygiad 1A ymhellach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Opsiwn 1A(iii), lle mae caniatáu defnydd hawliau uwch ar hyd coridor yn debygol o arwain at grynhoi effeithiau negyddol.

## Ystyriaethau eraill mewn perthynas â Diwygiad 1A

### Tir o dan Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Ceir hawliau mynediad cyhoeddus gwahanol o dan Adran 15 (a15), sydd weithiau'n cynnwys hawl mynediad ar lefel uwch (megis ar gyfer marchogaeth), a ddarperir gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall, e.e. tiroedd comin â hawliau mynediad a ddarperir gan Adran 193 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925. (Cliciwch ar y ddolen [hon](#) i weld testun y ddeddfwriaeth am y tir y mae a15 yn berthnasol iddo.)

Nid yw deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n ymwneud â lleihad mewn atebolrwydd, y gallu i gyfyngu ar fynediad o dan y Ddeddf, dosbarthiadau tir eithriedig Atodlen 1, na chyfyngiadau cyffredinol Atodlen 2 yn berthnasol i dir o dan a15.

Bydd peidio â chynnwys tir o dan a15 yn niwygiad deddfwriaethol Diwygiad 1A yn golygu y bydd tir o dan a15 yn parhau i fod â hawliau mynediad gwahanol at dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – er ei bod yn bosibl y bydd y tir hwnnw'n cydgyffwrdd mewn manau. Er y gellid ymestyn y newidiadau deddfwriaethol perthnasol i dir o dan a15 er mwyn gwella cysondeb, byddai cynnwys hawliau mynediad at dir o dan a15 o dan gwmpas Diwygiad 1A yn gofyn am ddiwygio amrediad eang o ddeddfwriaeth, ac yn peri dryswch ynghylch pa hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fyddai'n berthnasol ymhle.

Argymhelliad: Ni ddylid ehangu bwriad y polisi fel bod Diwygiad 1A yn cynnwys tir o dan Adran 15 nad oes modd cael mynediad ato o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

### Tir o dan Adran 16 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Mae tir o dan Adran 16 (a16) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn dir y mae'r tirfeddiannwr neu ddeiliad y brydles hirdymor wedi'i neilltuo fel tir mynediad o dan y Ddeddf, a hynny am byth (neu hyd nes bod y brydles yn dod i ben). Ac eithrio'r tir sydd wedi'i neilltuo yn Freshwater East, roedd yr holl dir o dan a16 yng Nghymru yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru pan gafodd ei neilltuo. Caiff tir o dan Adran 16 ei drin yr un ffordd ag unrhyw dir mynediad arall o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gellir ei eithrio o dan Atodlen 1, gweithredu gwaharddiadau/cyfyngiadau arno ac ati).

Diffinnir tir a neilltuir o dan Adran 16 yn bridiant tir, felly ar adeg gwerthu tir o'r fath byddai'r pridiant tir hwn yn dod i'r amlwg a byddai'r prynwr yn ymwybodol ei fod yn dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Hyd at Chwefror 2021,

15 o flociau coetir a neilltuwyd o dan a16, sef cyfanswm o 496 hectar, yr oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru / CNC wedi'u gwerthu.

Argymhelliad: Er mwyn sicrhau na ffafir un categori o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy dros categori arall o dan y Ddeddf, dylid trin tir o dan a16 yr un ffordd ag unrhyw dir mynediad arall o ran gweithredu hawliau uwch.

## Y cod ymddygiad

Trafododd aelodau Grŵp Arbenigol 1 bwysigrwydd gweithredu cod ymddygiad ar gyfer defnyddwyr hamdden fel rhan o gyflwyno hawliau uwch ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Mae Adran 20 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gosod dyletswydd ar CNC i lunio cod ymddygiad ar gyfer pobl sy'n ymarfer hawliau o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn un cynghorol: ni ddarperir unrhyw sancsiynau i'w cyflwyno yn erbyn unrhyw un nad yw'n cydymffurfio ag ef, ond o dan Adran 2(4) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gellir gwahardd pobl rhag mynd ar dir mynediad am 72 awr am beidio â chydymffurfio. Cafodd cod anstatudol a chod statudol gorfodadwy (gyda sancsiynau fel hysbysiadau cosb benodedig) eu trafod fel opsiynau i'w cynnwys yng nghynigion y diwygiad. Ni ddaethpwyd i gonsensws ynghylch y dull gorau. Fodd bynnag, cytunwyd y bydd angen i unrhyw god a weithredir gyd-fynd â rhaglen addysgu a hysbysrwydd er mwyn ei hyrwyddo.

Mae gweithgareddau hamdden cyfrifol yn thema drawsbynciol o fewn gwaith y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Ceir naratif ac argymhelliad/argymhellion pellach yn yr adran 'Themâu trawsbynciol' isod.

## Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd

Cododd y broses 'galwad am dystiolaeth' a'r grŵp arbenigol faterion ynghylch mynediad cynhwysol at dir mynediad, ac oddi mewn iddo (gweler y sylwadau uchod am Ran I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy). Canolbwyntiodd y drafodaeth ar osod celfi mynediad mwy hygyrch (e.e. gatiau yn hytrach na chamfeydd).

Nodwyd mynediad cyfartal fel thema drawsbynciol. Ceir naratif ac argymhelliad/argymhellion pellach yn yr adran 'Themâu trawsbynciol' isod.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai fod yn ofynnol bod yr holl gelfi mynediad newydd, neu gelfi mynediad sy'n disodli hen nodweddion, ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn bodloni safon hygyrchedd penodedig fel BS 5709.

## Cronfeydd dŵr

Er mai nifer cymharol fach o gronfeydd dŵr a geir ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, nid yw cronfeydd dŵr wedi'u heithrio'n benodol ym mwriad y polisi mewn perthynas â hawliau uwch (yn nodedig ar gyfer nofio, ymdrochi, a defnyddio cwch nad yw wedi'i bweru'n fecanyddol). Fodd bynnag, codwyd y mater o b'un a ddylid caniatáu mynediad i 'gronfeydd dŵr sydd wedi cynefino' (sylwer nad oes diffiniad deddfwriaethol o 'gronfa ddŵr sydd wedi cynefino').



Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn a olygir gan 'gronfa ddŵr' (gan nad yw wedi'i diffinio yn y ddeddfwriaeth), ac, os ydyw am ganiatáu mynediad at gronfeydd dŵr, bydd angen diffinio'r hyn a olygir gan 'gronfa ddŵr sydd wedi cynefino'.

## Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 1A a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 1 y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 1 gan bedwar aelod yr un. Mynychodd 10 o'r 12 aelod o'r grŵp y gweithdy opsiynau a ffafrir er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau addasedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi hyd at ddau opsiwn a ffafriwyd ganddo. Roedd y ddau gynrychiolydd nad oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiynau a ffafriwyd ganddynt drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl dethol hyd at 24 o opsiynau a ffafrir.

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafrir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafrir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.

Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafrir mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw pob un o'r opsiynau a ffafrir a nodwyd gan bob aelod yn dangos ei fod yn cefnogi bwriad y polisi.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm).

**Tabl 1: Opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 1A**

| Opsiwn  | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm (n = 24) |
|---------|--------------------|--------------|--------------------|-------------------|
| 1A(i)   | 4                  | 0            | 7                  | 11                |
| 1A(ii)  | 1                  | 5            | 1                  | 7                 |
| 1A(iii) | 3                  | 3            | 0                  | 6                 |



Opsiwn 1A(i) a ffafriwyd fwyaf o ganlyniad iddo gael ei ddewis 11 o weithiau, a dewiswyd Opsiwn 1A(ii) saith gwaith ac Opsiwn 1A(iii) chwe gwaith. Tynnwyd sylw at y ffaith, er mai Opsiwn 1A(i) oedd yr un a ffafriwyd allan o'r tri, roedd y canlyniad rhwng llacio'r cyfyngiadau ar hawliau uwch drwy ddull cyffredinol, ac arfarnu addasrwydd tir mynediad drwy broses asesu fanwl cyn i'r awdurdod mynediad weithredu hawliau arno, yn un agos.

Roedd yn glir mai Opsiwn 1A(i) yr oedd defnyddwyr hamdden yn ei ffafrio, Opsiwn 1A(ii) yr oedd rheolwyr tir yn ei ffafrio, a bod ychydig o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector rheoli tir wedi ffafrio Opsiwn 1A(iii).

Pe cawsai Opsiwn 1A(ii) neu Opsiwn 1A(iii) ei ddatblygu ymhellach, perid risg wirioneddol mai bach iawn y câi ei wneud i weithredu hawliau uwch newydd os byddai'r ddeddfwriaeth ond yn darparu pwerau dewisol yn hytrach na'i bod yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau mynediad. Cysylltwyd y pwynt hwn â'r adnoddau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd (yn enwedig), a nodwyd y bydd angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol sylweddol ar gael i gyrff y sector cyhoeddus er mwyn eu galluogi i gyflwyno unrhyw un o opsiynau Diwygiad 1A.

## Diwygiad 1B: Mynediad arfordirol

### Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1B

Ymestyn tir mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel y Ddeddf) i'r arfordir, clogwyni arfordirol a'r blaendraeth, a hwyluso teithiau hamdden cysylltiol parhaus ar hyd arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd. Caiff ystyriaeth ei rhoi i fanteision cynnwys Llwybr Arfordir Cymru fel rhan o ddiffiniad tir mynediad arfordirol newydd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

### Opsiynau Diwygiad 1B ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 1B: Teitl y cynnig opsiwn  | Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn   |
|--|---|
| i. Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009   | Dull sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir – diffinio ymyl arfordirol a llwybr arfordirol ar gyfer hamdden awyr agored ar droed.   |
| ii. Defnyddio Adran 3 i estyn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn cynnwys tir arfordirol  | Estyn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gan ddefnyddio pwerau Adran 3 (ar gyfer hawliau ar droed yn unig), gan greu pwerau paralel i greu hawliau uwch naill ai drwy lwybr/coridor llinol neu fesul ardal. |
| iii. [Opsiwn addasedig] Rhoi hawliau uwch i'r opsiwn a ffafrir rhwng Opsiwn 1B(i) ac Opsiwn 1B(ii) | Rhoi hawliau uwch i fynediad arfordirol unwaith y bydd y dulliau o ymdrin ag Opsiwn 1A ac Opsiwn 1B wedi'u datblygu.  |

Sylwer y defnyddir y term 'hawliau uwch' ar gyfer Diwygiad 1B yn unol â bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A. Mae hyn yn cynnwys hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer marchogaeth, beicio a pharagleidio/barcuta, ac, ar ddyfroedd o dan y Ddeddf sydd wedi'u mapio, hawliau ar gyfer defnyddio hwyfwrdd neu gwch, ac ymdrochi mewn dyfroedd di-lanw.

## Opsiwn 1B(i): Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir

### Opsiwn 1B(i): Disgrifiad cryno

Defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (fel y'i defnyddir ar gyfer mynediad arfordirol yn Lloegr) i ddiffinio a dynodi ymyl arfordirol a llwybr arfordirol ar gyfer hamdden awyr agored ar droed. Addasu adrannau o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer diffinio a rheoli hawliau mynediad arfordirol.

### Opsiwn 1B(i): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 1B(i) (gan gynnwys

darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gyflwyno dyletswydd ar y Senedd ac ar CNC i sicrhau ymyl arfordirol ar gyfer gofod ymestyn sy'n gysylltiedig â llwybr arfordirol.
002. Dyletswydd ar CNC i greu cynllun mynediad arfordirol ar gyfer gweithredu darpariaethau, gan gynnwys diffinio'r ymyl arfordirol a 'llwybr arfordirol'. Wrth baratoi neu adolygu cynllun, rhaid i CNC ymgynghori â phobl berthnasol sydd â diddordeb.
003. Llwybr arfordirol wedi'i ddiffinio fel llwybr cerdded pellter hir gan ddefnyddio deddfwriaeth ddiwygiedig Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Ei gwneud yn bosibl ymgorffori Llwybr Arfordir Cymru fel 'llwybr arfordirol'.
004. Cymhwyso Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir er mwyn lleihau atebolrwydd meddianwyr am ddefnyddwyr hawliau mynediad arfordirol.
005. Pennu darpariaeth ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir.\*
006. Darpariaeth ar gyfer rheoli'r ymyl arfordirol a'r llwybr arfordirol.
007. Dyletswydd ar 'awdurdodau mynediad' i sicrhau mynediad lleiaf rhwystrol lle bynnag y bo modd. Pwerau cysylltiedig ar gyfer gwella a rheoli seilwaith hygyrch ar gyfer yr ymyl arfordirol, ac o fewn iddo, ac ar gyfer y llwybr arfordirol.
009. Gweithdrefnau wedi'u hamlinellu ar gyfer diffinio a mapio ymyl yr arfordir (gofod ymestyn a llwybr arfordirol), gan gynnwys dulliau, prosesau a gofynion ymgynghori.
010. Trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – wedi'u haddasu i sicrhau mynediad parhaus i'r ymyl arfordirol, gan gynnwys llwybr yr arfordir.
011. Adolygu a diwygio diffiniadau o 'dir eithriedig' yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y maent yn berthnasol i dir mynediad arfordirol.
012. Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad a chanllawiau hamdden cyfrifol eraill i gynnwys mynediad i'r arfordir.
013. Mae'r hawliau'n berthnasol i gerddwyr yn unig.

\*Elfen allweddol newydd wedi'i hychwanegu o'r cam dethol opsiwn.

## **Opsiw 1B(ii): Defnyddio Adran 3 i estyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel ei fod yn cynnwys tir arfordirol**

### **Opsiw 1B(ii): Disgrifiad cryno**

Defnyddio Adran 3 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i estyn hawliau mynediad ar droed i fathau o dir arfordirol. Câi'r diffiniad o dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ei estyn fel ei fod yn cynnwys mathau o dir arfordirol diffiniedig [diffiniadau i'w pennu], e.e. twyni, traethau, blaendraeth,

fflatiau arfordirol, clogwyni a rhostir. Byddai'r mathau hyn o dir arfordirol yn cael eu mapio gan ddefnyddio'r un prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith mapio gwreiddiol o dan Ran I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer rheoli tir mynediad arfordirol, yn amodol ar adolygiad o ddigonolrwydd y darpariaethau presennol, yn benodol gwaharddiadau a chyfyngiadau. Darparu cod gweithgareddau hamdden cyfrifol a fyddai'n cynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â thir mynediad arfordirol [ynghyd â mynediad cyhoeddus arall].

## **Opsiwn 1B(ii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 1B(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Defnyddio Adran 3 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i'w gwneud yn bosibl mapio tir arfordirol diffiniedig fel tir mynediad ar gyfer hamdden awyr agored ar droed.
002. Datblygu diffiniadau o dir arfordirol y byddai hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ar droed) yn berthnasol iddo. Cynnwys blaendraethau, clogwyni arfordirol, twyni, fflatiau, traethau, a rhostiroedd arfordirol.
003. Diwygio'r rheoliadau mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel eu bod yn adlewyrchu'r newid – gan gynnwys diffinio parseli o dir a'r ymyl mewndirol ar dir mynediad arfordirol.
004. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
005. Lleihau atebolrwydd tiffeddianwyr am ddefnyddwyr hawliau mynediad arfordirol yn unol â'r hyn a ddarperir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn Lloegr.
006. Diwygio'r trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn cwmpasu gofynion sy'n benodol i fynediad arfordirol.
007. Adolygu ac ailddiffinio'r term 'tir eithriedig' yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau ei gymhwysedd mewn cyd-destun arfordirol.
008. Estyn pwerau yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn darparu ar gyfer rheoli mynediad o fewn tir mynediad arfordirol, gan gynnwys manau croesi terfyn – at ddibenion hamdden a rheoli tir a defnyddio dull mynediad lleiaf rhwystrol.
009. Cyflwyno cod mynediad statudol sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, a fydd yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol; bydd dyletswydd ar gyrff cyhoeddus priodol i hyrwyddo'r cod.
010. Mae hawliau i fynediad i dir arfordirol yn berthnasol i gerddwyr yn unig [fel y pennir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd].

011. Tir mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'w weld ar wefan CNC fel rhan o'i waith mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac ar fapiau Arolwg Ordnans.
012. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
013. Diffiniadau o 'gweithgarwch masnachol' a 'digwyddiadau' o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Yn dilyn adolygiad, ailddiffinio'r hyn sydd o fewn neu'r tu allan i'r hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Dechrau drwy ystyried y diffiniadau a ddefnyddir yn y Ddeddf Diwygio Tir yn yr Alban. Defnyddio pwerau rheoleiddio i'w gwneud hi'n haws diogelu ar gyfer y dyfodol.

## **Opsiwn 1B(iii): Cymhwyso hawliau uwch drwy Ddiwygiad 1B neu 1A ar sail y penderfyniadau a wneir o ran datblygu'r diwygiadau hyn**

### **Opsiwn 1B(iii): Disgrifiad cryno**

Rhoi hawliau uwch i dir mynediad arfordirol trwy'r dull a bennir ar gyfer naill ai Diwygiad 1A neu Ddiwygiad 1B pan fydd wedi'i ddatblygu. Gweler Opsiwn 1B(i) ac Opsiwn 1B(ii) i weld sut y gellid estyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a'r hawliau cysylltiedig, fel eu bod yn cynnwys tir arfordirol. Gweler Diwygiad 1A i weld yr opsiynau a ddatblygwyd o ran sut y gellid gweithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Byddai Opsiwn 1B(iii) yn ei gwneud yn ofynnol llacio Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel ei bod yn berthnasol i dir mynediad arfordirol ar sail y dull y penderfynwyd arno ar gyfer naill ai Diwygiad 1A neu Ddiwygiad 1B. Effaith llacio Atodlen 2 fyddai estyn hawliau mynediad i hawliau uwch yn ogystal â cherddwyr. Byddai hawliau uwch yn berthnasol i bob math o dir mynediad arfordirol neu dir mynediad arfordirol penodol yn ôl yr opsiwn a ffafir.

Nid oes tabl o elfennau allweddol ar gyfer Opsiwn 1B(iii) wedi'i gynnwys (fel ar gyfer yr opsiynau diwygio eraill) gan y byddai'n well datblygu'r manylion hynny ar ôl pennu'r dull i'w ddilyn.

## **Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer diwygio mynediad arfordirol**

Dylid darllen yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn [gweler uchod a/neu Atodiad A]. Yn yr adrannau canlynol, rhoddir ystyriaeth ar y cyd i nifer o elfennau allweddol sy'n gyffredin i Opsiwn 1B(i) ac Opsiwn 1B(ii).

Mae Opsiwn 1B(i) ac Opsiwn 1B(ii), ill dau, yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Estyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r arfordir, h.y. darparu hawliau mynediad i ardaloedd o dan y Ddeddf i dir mynediad arfordirol

- Darpariaethau cysylltiedig ar gyfer gweithredu mynediad arfordirol a'i reoli

Yn ogystal:

- Mae Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir o dan Opsiwn 1B(i) yn darparu ar gyfer 'llwybr arfordirol' llinol ar gyfer teithiau cysylltiol, y byddai hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol iddo
- O ran yr hyn a gynigir yn Opsiwn 1B(ii), nid yw Adran 3 yn darparu ar gyfer modd deddfwriaethol o ddiffinio llwybr arfordir llinol – yn hytrach, mae'n dibynnu ar ddiffiniad Llwybr Arfordir Cymru fel y mae ar hyn o bryd, ac ar hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ar draws tir mynediad arfordirol

Byddai Opsiwn 1B(i) yn gofyn am gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'r Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad er mwyn darparu ar gyfer diffiniad o ymyl arfordirol (y byddai hawliau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol iddo).

Byddai Opsiwn 1B(ii) yn defnyddio'r fersiwn bresennol o Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, sy'n caniatáu i'r Senedd wneud gorchymyn (yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol) i estyn diffiniad 'cefn gwlad agored' fel ei fod yn cynnwys tir mynediad arfordirol.

Mae diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy wedi'u nodi fel rhan o waith cyflwyno'r diwygiad (gweler y manylion isod), e.e. mewn perthynas â gwahardd a chyfyngu ar hawliau mynediad, a chât'r rhain eu cyflwyno drwy ddull tebyg, naill ai drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu, yn achos Opsiwn 1B(i), drwy orchymyn Adran 3. Byddai'n ofynnol ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw cwmpas gorchymyn Adran 3 yn ddigonol ar gyfer diwygio'r holl ddarpariaethau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a gynigir yn yr opsiwn. Byddai unrhyw elfennau o dan Opsiwn 1B(ii) y byddai'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn lleihau'r fantais a geid o ddilyn dull Opsiwn 1B(ii) – ar y lefel deddfwriaethol yn enwedig – fel arall, byddai angen eu haddasu neu eu hepgor.

## **Byddai angen i CNC ddiffinio tir mynediad arfordirol**

Bydd prosesau eglur a thryloyw, gan gynnwys ymgynghori ag unrhyw un sydd â diddordeb allweddol, yn hanfodol bwysig i'r gwaith o weithredu mynediad arfordirol newydd. O safbwynt Opsiwn 1B(i), dylid amlinellu'r ddyletswydd i sicrhau, diffinio a rheoli tir mynediad arfordirol ar gyfer mynediad hamdden mewn deddfwriaeth sylfaenol. Yn achos pob un o'r opsiynau, bydd ystwythder yn y ddeddfwriaeth eilaidd ar gyfer amlinellu'r manylion o ran sut y dylid gwneud hynny, ac ystwythder o safbwynt diweddarau a mireinio materion o'r fath manylder; nododd y grŵp arbenigol yr angen i gynnwys unrhyw un sydd â diddordeb allweddol yn y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth eilaidd.

Byddai Opsiwn 1B(i) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC lunio cynllun mynediad arfordirol fel y dull o ddiffinio'r ymyl arfordirol, gan gynnwys penderfynu ar drywydd y llwybr arfordirol, a'i fapio (y câi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer diffinio'r gofod ymestyn arfordirol), ynghyd â'r tir mynediad arfordirol (e.e. rhostir arfordirol neu dwyni) i'w cynnwys tua'r tir o'r llwybr arfordirol, a therfyn mewndirol yr ymyl arfordirol.

Ar hyn o bryd, mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Adrannau 4-11), a rheoliadau cysylltiedig, yn gosod dyletswydd ar CNC i baratoi mapiau o 'gefn gwlad agored' (a thir comin cofrestredig). Byddai estyn diffiniad 'cefn gwlad agored' fel ei fod yn cynnwys tir mynediad arfordirol, gan ddefnyddio Adran 3 o'r Ddeddf Cefn



Gwlad a Hawliau Tramwy (fel y cynigir yn Opsiwn 1B(ii)), yn ei gwneud yn ofynnol i CNC lunio mapiau mynediad sy'n cynnwys tir mynediad arfordirol.

Argymhellion:

- O safbwynt pa opsiwn bynnag a ddatblygir ymhellach o dan Ddiwygiad 1B, ac fel y bo'n briodol, dylid adolygu ac addasu'r diffiniadau o 'tir arfordirol' fel y mae wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii)).
- Dylai'r gwaith o ddatblygu methodolegau a phrosesau gynnwys ymgynghoriadau ag unrhyw un sydd â diddordeb allweddol.
- Dylai CNC fod yn gyfrifol am nodi'r tir y gweithredir hawliau mynediad arfordirol arno.

## **Adolygu categorïau tir eithriedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau eu bod yn addas mewn cyd-destun arfordirol**

Nid yw hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i'r mathau o 'dir eithriedig' a restrir yn Atodlen 1 y Ddeddf, gan gynnwys, er enghraifft, tir a ddefnyddir at ddibenion milwrol, adeiladau, gerddi, neu feysydd glanio.

O dan ddull gweithredu Opsiwn 1B(i), sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, câi'r disgrifiadau o dir eithriedig a geir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eu hadolygu a'u diwygio, gan ei gwneud yn bosibl, er enghraifft, i hawliau mynediad fod yn gymwys i linell y llwybr arfordirol lle mae'n croesi tir a fyddai'n eithriedig fel arall. Bwriad y diwygiad hwn yw gwella'r sicrwydd y ceir parhad yn y mynediad ar gyfer yr ymyl mynediad arfordirol a ddiffinnir o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, gan gynnwys teithiau cysylltiol ar hyd y llwybr arfordirol. Yn yr un modd, mae ystyriaethau tir eithriedig Atodlen 1 yn berthnasol i ddull gweithredu Opsiwn 1B(ii), a cheir y posibilrwydd o ddefnyddio'r pŵer yn Adran 3(2)(b) y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddiwygio, drwy orchymyn, y disgrifiadau fel y maent yn berthnasol i dir mynediad arfordirol.

Argymhelliad: Yn sgil dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, dylid adolygu tir eithriedig yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau mynediad arfordirol ar gyfer tir eithriedig o dan Ddiwygiad 1B yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol yng Nghymru.

## **Cyflwyno cod mynediad statudol gorfodadwy sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol**

Bydd angen amlinellu a chyfleu hawliau a chyfrifoldebau hamdden ar gyfer pobl sydd â buddion gwahanol (rheolwyr tir, defnyddwyr hamdden, a rheolwyr mynediad) mewn ffordd eglur a chwbl amlwg, fel rhan o'r gwaith o gyflwyno mynediad arfordirol, a'i gynnal. Er y nododd y grŵp arbenigol ei fod yn ffafrio cyflwyno cod statudol gorfodadwy er mwyn cefnogi'r gwaith o sicrhau defnydd cyfrifol a chydbwysu'r estyniad mewn hawliau, cafwyd cydnabyddiaeth hefyd y dylai'r math o god a gâi ei gymhwyso i fynediad arfordirol fod yn gyson â diwygiadau i godau hamdden cyfrifol

ar lefel fwy cyffredinol. Cafodd gweithgareddau hamdden cyfrifol eu nodi fel thema drawsbynciol yn niwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn eu cyfanrwydd, a chânt eu trafod yn fanylach yn yr adran 'Themâu trawsbynciol' isod.

Argymhelliad: Mae'n hanfodol bwysig cynnwys mynediad arfordirol mewn codau hamdden cyfrifol, a dylai hyn fod yn gyson â'r dull a ddilynir yng Nghymru. Dylai rhaglen o hysbysrwydd a chyfathrebu gefnogi'r gwaith o ddatblygu mynediad arfordirol, a'i weithredu.

## **Adolygu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol**

Bydd sicrhau y ceir pwerau i wahardd mynediad, neu gyfyngu arno, yn hanfodol i'r gwaith o reoli tir mynediad arfordirol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau a gynigir fel rhan o Ddiwygiad 1B, e.e. at ddibenion rheoli tir, am resymau diogelwch cyhoeddus (gan gynnwys ar dir a ddefnyddir at ddibenion milwrol), i osgoi tanau difrifol, neu i atal neu liniaru yn erbyn effeithiau ar dreftadaeth naturiol neu hanesyddol.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gallai gweithredu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy atal mynediad cysylltiol ar hyd yr arfordir. Am y rheswm hwn, mae cynigion dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Opsiwn 1B(i) yn cynnwys diwygiadau i'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu er mwyn sicrhau parhad gwell o ran mynediad cyhoeddus. Yn benodol, ni ellid defnyddio'r darpariaethau a geir yn Adran 22 ac Adran 23 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd i roi 'hysbysiadau', at ddibenion rheoli tir, mewn perthynas â gwahardd mynediad i dir mynediad arfordirol. Byddai gan dirfeddianwyr hawliau o hyd, fel sydd ganddynt ar hyn o bryd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, i wneud cais i'r 'awdurdod perthnasol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy' am weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddull gweithredu Opsiwn 1B(ii), lle ceir y posibilrwydd o ddefnyddio'r pŵer yn Adran 3(2)(b) i ddiwygio, drwy orchymyn, y darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn perthynas â thir mynediad arfordirol.

Felly ni waeth pa un o'r opsiynau ar gyfer Diwygiad 1B a ddatblygir, dylid adolygu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu a geir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd gyda'r nod o sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer mynediad arfordirol yng Nghymru, a'u bod yn bodloni nod bwriad y polisi o ran sicrhau parhad mewn hawliau mynediad ar hyd yr arfordir.

Argymhelliad: Ni waeth pa opsiwn mynediad bynnag a ddatblygir ymhellach, dylid adolygu darpariaethau gwahardd a chyfyngu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn fanwl er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben yng nghyd-destun mynediad arfordirol yng Nghymru; bydd angen iddynt gefnogi'r nod o ddarparu parhad mewn mynediad a theithiau cysylltiol.

## **Darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer dulliau mynediad**

Mae angen i'r deddfwriaeth ddarparu ar gyfer y dull o weithredu mynediad i dir mynediad arfordirol, ynghyd â'r gwaith o'i reoli'n barhaus. O safbwynt Opsiwn 1B(i), byddai'r darpariaethau sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (Atodlen

20) yn cyflwyno nifer o bwerau ychwanegol ar gyfer rheoli mynediad at dir mynediad arfordirol, ac oddi mewn iddo, gan gynnwys y llwybr arfordirol. Byddai dull gweithredu Opsiwn 1B(ii) yn defnyddio darpariaethau sydd eisoes ar gael o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Rhan I, Pennod III – ‘Dulliau mynediad’, er y cododd cyngor cyfreithiol i CNC amheuon ynghylch eu perthnasedd i'r gwaith o hwyluso mynediad o fewn tir mynediad).

O safbwynt gweithredu a rheoli mynediad arfordirol, mae dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried, a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig, e.e. gan ddefnyddio dulliau mynediad lleiaf cyfyngol (gweler yr adran ‘Themâu trawsbynciol’ isod am ragor o wybodaeth am y mater hwn).

Argymhelliad: Dylid adolygu Rhan I, Pennod III – ‘Dulliau mynediad’ o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Adrannau 34-39) er mwyn sicrhau y bydd yn hwyluso ac yn ei gwneud yn bosibl defnyddio a rheoli tir mynediad arfordirol, gan gynnwys darparu ar gyfer teithiau cysylltiol ar draws terfynau a rhwystrau mewnol (gan gynnwys hawliau uwch os cânt eu gweithredu). Dylid hefyd penderfynu a fydd angen pwerau ar gyfer rheoli'r mynediad arfordirol a ddarperir gan Atodlen 20 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

## **Adolygu hawliau ac atebolwydd perchnogion a meddianwyr**

Mae deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eisoes yn lleihau atebolwydd meddianwyr am y bobl hynny sy'n ymarfer eu hawliau o dan y Ddeddf ar dir mynediad. Gwnaeth Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ei leihau ymhellach, yn enwedig mewn perthynas ag adeileddau. Cefnogodd y grŵp arbenigol y syniad o leihau, cyn belled â phosibl, atebolwydd perchnogion a meddianwyr tir am bobl sy'n ymarfer hawliau mynediad i dir mynediad arfordirol.

Argymhelliad: Dylid dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolwydd meddianwyr ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys tir mynediad arfordirol sydd newydd ei ddiffinio. Byddai'n well gweithredu lleihad pellach yn atebolwydd meddianwyr yn unol â model Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

## **Gweithgareddau masnachol a digwyddiadau ar raddfa fwy**

Gall gweithgareddau a digwyddiadau masnachol gael effaith ar ardaloedd sydd â hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac ar hawliau tramwy cyhoeddus, gan arwain at effaith ar y tir a buddiannau tir, ynghyd â hawliau defnyddwyr eraill. Mae'r mater yn thema drawsbynciol ar draws diwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, ac felly caiff ei ystyried yn fanwl yn yr adran ‘Themâu trawsbynciol’ isod. O safbwynt Diwygiad 1B, dylai'r cyfyngiadau ar weithgareddau at ddibenion masnachol a bennir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fod yn gymwys i dir mynediad arfordirol, yn gyson â'r dull a ddilyniar ar gyfer tir mynediad arall o dan y Ddeddf – ac wedi'u cysoni â mathau eraill o fynediad cyhoeddus lle bo hynny'n ddichonol.

Argymhelliad: Dylid drafftio unrhyw ddiffiniad newydd ar gyfer ‘gweithgareddau masnachol’ a ‘digwyddiadau mwy a drefnir’ a'i gymhwyso i dir mynediad arfordirol – gellid cynnwys y rhain, er enghraifft, naill ai mewn fersiwn addasedig o Atodlen 2 i'r

Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu mewn cod mynediad statudol newydd, pe cawsai'r opsiwn hwn ei ddatblygu.

## **Gwahaniaethau penodol rhwng dull gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir o dan Opsiwn 1B(i) a dull gweithredu Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o dan Opsiwn 1B(ii)**

O safbwynt Opsiwn 1B(i), mae'r ymyl arfordirol yn Lloegr yn cynnwys y 'llwybr arfordirol' sydd wedi'i fapio (h.y. Llwybr Arfordir Lloegr) a'r holl dir rhwng Llwybr Arfordir Lloegr a'r môr. Gall yr ymyl arfordirol hefyd ymestyn o Lwybr Arfordir Lloegr tua'r tir os caiff ei nodi'n dir arfordirol o dan Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu os oes hawliau mynediad eisoes yn bodoli o dan y deddfiadau eraill a restrir yn Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu os yw Natural England a'r trefeddiannwr yn cytuno y gellir dilyn nodwedd ffisegol glir. Yng Nghymru, os penderfynwyd dilyn dull sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, byddai angen ystyried a yw'r diffiniad hwn o'r ymyl arfordirol yn briodol, a hynny o'i ddiwygio neu beidio. Byddai hwn yn rhywbeth i'w ystyried hefyd wrth ddiffinio'r mathau o dir arfordirol y byddai dull sy'n seiliedig ar Adran 3 yn eu defnyddio.

Argymhellid: O safbwynt pa opsiwn bynnag a ddatblygir ymhellach o dan Ddiwygiad 1B, os yw'n briodol a phan fo'n briodol ar gyfer Cymru, dylid adolygu ac addasu diffiniadau 'tir arfordirol' fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii)).

## **Diffinio llwybr arfordirol**

Mae rhaglen Llwybr Arfordir Cymru CNC yn amcangyfrif y gellid adlinio hyd at 110 km o gyfanswm 1,400 km Llwybr Arfordir Cymru yn agosach at ymyl yr arfordir na thrywydd presennol y llwybr, a hynny er gwell.

Byddai Opsiwn 1B(i), sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, yn darparu ar gyfer diffinio 'llwybr arfordirol' drwy broses lle byddai CNC yn cyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Argymhellid: Byddai angen ystyried hefyd p'un a fyddai'r llwybr arfordirol / Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei frandio a'i hybu fel Llwybr Cenedlaethol.

## **Costau'r opsiynau**

Nid oes asesiad manwl o gostau cymharol yr opsiynau wedi'i gynnal hyd yn hyn. Byddai ystyried y costau yr aethpwyd iddynt yn Lloegr wrth weithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, ynghyd â mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn darparu sylfaen ar gyfer nodi a chymharu costau o fewn y rhaglenni.

Rhagwelir y bydd y costau cyfwerth (ffigurau Natural England) ar gyfer gweithredu'r rhaglen mynediad arfordirol yn Lloegr (h.y. gan ddefnyddio deddfwriaeth Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir) yn dod i £43.7 miliwn hyd at ddiwedd 2021/22. O'r swm hwn, mae tua £16 miliwn wedi ariannu costau'r awdurdodau lleol o safbwynt staff a'r

gwaith o sefydlu'r mynediad arfordirol a'r seilwaith sydd ynghlwm wrtho (Llwybr Arfordir Lloegr yn bennaf). Y costau cymesur yng Nghymru byddai £14.6 miliwn, ar sail hyd ei harfordir. Gellid disgwyl y byddai'n bosibl diystyru cyfran o'r costau hynny o gofio y byddai'r ffaith fod trefniadau partneriaeth a Llwybr Arfordir Cymru eisoes yn bodoli yn lleihau'r costau hynny'n sylweddol.

Nid oes cofnodion wedi'u nodi ar gyfer costau'r gwaith o fapio mynediad agored yng Nghymru. Yn Lloegr, hyd at 2006, costiodd y rhaglen mynediad agored £52.6 miliwn (cyfwerth â £71.7 miliwn yn 2021) i fapio ardal a oedd tua phedair gwaith mor fawr â'r ardal mynediad arfordirol yn Lloegr. Nid yw'r cyfanswm cyffredinol wedi'i ddadansoddi, e.e. nid yw'r gyfran o'r swm (os o gwbl) a ddefnyddiwyd i ariannu costau'r awdurdodau lleol o ran staff a gwaith sefydlu ymarferol wedi'i phennu.

Argymhelliad: Dylid cynnal asesiad manwl pellach o gostau'r opsiynau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. (Dylid nodi y bydd y gwaith o bennu costau manwl gywir yn dibynnu ar ddatblygu manylion darpariaethau'r opsiynau, ynghyd â'r dull o'u gweithredu.)

## **Darparu ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir**

Ceir tystiolaeth glir o'r angen presennol ac i'r dyfodol i adlinio llwybr arfordirol, ym mha ffordd bynnag y caiff ei ddiffinio. Mae cyfran o Llwybr Arfordir Cymru ar ymyl yr arfordir yn agored i erydu, ac o bryd i'w gilydd mae'r llwybr wedi gorfod cael ei adlinio, a hynny'n gyffredinol gan ddefnyddio cytundebau â thirfeddianwyr (neu orchmynion) o dan ddeddfwriaeth hawliau tramwy cyhoeddus. Dyma fyddai'r dull o hyd o dan gynigion Opsiwn 1B(ii). Byddai dull gweithredu Opsiwn 1B(i), sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, yn darparu deddfwriaeth newydd i'w gwneud yn fwy hwylus i awdurdodau adlinio'r llwybr arfordirol diffiniedig tua'r tir.

Argymhelliad: Os datblygir dull gweithredu Opsiwn 1B(i) ymhellach, dylid addasu'r darpariaethau yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir, a'u gwneud yn berthnasol i Gymru.

## **Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 1B (Opsiwn 1B(i) neu Opsiwn 1B(ii)) a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 1 y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad**

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 1 gan bedwar aelod yr un. Mynychodd 11 allan o 12 o aelodau'r grŵp y gweithdy er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau addasedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi'r opsiwn neu opsiynau a ffafriwyd ganddo drwy bennu un opsiwn a ffafrir. Roedd yr aelod nad oedd wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiwn a ffafriwyd ganddo drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl pennu hyd at 12 o opsiynau a ffafrir ar gyfer Opsiwn 1B(i) neu Opsiwn 1B(ii).

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafrir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafrir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.



Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafriwyd mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw pob un o'r opsiynau a ffafrir a nodwyd gan bob aelod yn dangos ei fod yn cefnogi bwriad y polisi.

Mae Opsiwn 1B(iii) yn cynnig y dylid ystyried hawliau uwch unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y prif ddulliau gweithredu ar gyfer Diwygiad 1B a Diwygiad 1A. O ganlyniad, ni phennwyd opsiynau a ffafrir ar gyfer Opsiwn 1B(iii).

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm). Roedd sylwadau a gafwyd gan rai o gynrychiolwyr y sector hamdden wedi nodi eu dymuniad i weld hawliau uwch yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddiwygiad a ddatblygir ymhellach.

Dymunodd cynrychiolwyr o'r sector rheoli tir weld rheolwyr tir yn cael eu cynnwys yn llwyr yn y broses o ddatblygu unrhyw opsiwn i'r dyfodol, a sicrwydd yr ymgynghorir â nhw'n llawn ynghylch cyflwyno mynediad, e.e. o ran penderfynu ar drywydd y llwybr arfordirol, y terfyn mewndirol ar gyfer mynediad arfordirol, ac unrhyw waith seilwaith.

**Tabl 2: Opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 1B**

| Opsiwn  | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm (n = 12)   |
|---------|--------------------|--------------|--------------------|---------------------|
| 1B(i)   | 3                  | 3            | 3                  | 9                   |
| 1B(ii)  | 1                  | 1            | 1                  | 3                   |
| 1B(iii) | Amherthnasol       | Amherthnasol | Amherthnasol       | <b>Amherthnasol</b> |

Dull gweithredu Opsiwn 1B(i), sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, a ffafriwyd gan y rhan fwyaf o'r sectorau i gyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad arfordirol. Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau cysondeb â'r darpariaethau yn Lloegr, e.e. o ran hybu eglurder a dealltwriaeth.

Nododd cynrychiolwyr y sector cyhoeddus y byddai Opsiwn 1B(i) hefyd yn gweddu i'r gwaith ar fynediad arfordirol a wnaed yng Nghymru hyd yn hyn, ac y byddai'n cefnogi'r gwaith parhaus o reoli mynediad yn well.

Roedd sylwadau a gafwyd gan rai o gynrychiolwyr y sector hamdden wedi nodi eu dymuniad i weld hawliau uwch yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddiwygiad a ddatblygir ymhellach.

Dymunodd cynrychiolwyr o'r sector rheoli tir weld rheolwyr tir yn cael eu cynnwys yn llwyr yn y broses o ddatblygu unrhyw opsiwn i'r dyfodol, a sicrwydd yr ymgynghorir â nhw'n llawn ynghylch cyflwyno mynediad, e.e. o ran penderfynu ar drywydd y llwybr arfordirol, y terfyn mewndirol ar gyfer mynediad arfordirol, ac unrhyw waith seilwaith.

## **Opsiwn 1B(iii): Diffinio hawliau uwch o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o fewn yr ymyl arfordirol / tir mynediad arfordirol**

Amlinellodd Opsiwn 1B(i) ac Opsiwn 1B(ii) ar gyfer Diwygiad 1B gynigion ar gyfer datblygu mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Ar hyn o bryd, ac i bob



pwrpas, mae Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cyfyngu ar hawliau mynediad o dan y Ddeddf i weithgareddau ar droed yn unig. Byddai addasiadau i Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ei gwneud yn bosibl estyn hawliau uwch i fynediad arfordirol o dan y Ddeddf. Gan hynny, gellid gweithredu hawliau uwch ar bob math o dir mynediad arfordirol / ymyl arfordirol, neu rai penodol – ac o bosibl i 'lwybr arfordirol' a nodir gan Ddiwygiad 1B(i) o'r fath sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

Byddai gweithredu hawliau uwch yn gofyn am gynnal adolygiad manwl o ddarpariaethau deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, fel y rheiny sy'n ymwneud â thir eithriedig, gwaharddiadau a chyfyngiadau, a rheoli mynediad, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer gweithredu a rheoli pob hawl mynediad gymwys (gweler yr isadrannau uchod am fwy o drafodaeth ynghylch darpariaethau o'r fath; gweler yr adran ar Ddiwygiad 1A am wybodaeth am estyn hawliau uwch ar dir mynediad sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys hawliau sy'n seiliedig ar ardal neu hawliau ar gyfer llwybrau neu goridorau detholedig ar dir mynediad).

Cafwyd gwahaniaethau yn y safbwyntiau a fynegwyd gan aelodau'r grŵp arbenigol mewn perthynas â datblygu hawliau uwch ymhellach fel rhan o'r diwygiadau i fynediad arfordirol, ond cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol y byddai'n gwneud synnwyr i ystyried y dull o weithredu mynediad arfordirol ar ôl penderfynu ar y dull gweithredu i'w ddilyn ar gyfer Diwygiad 1A.

Argymhelliad: Dylai'r llywodraeth ystyried estyn hawliau uwch i bob math o dir mynediad penodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, nei rai ohonynt, y gallai gynnwys neu eithrio tir mynediad arfordirol / yr ymyl arfordirol. Os datblygir Opsiwn 1B(i) ymhellach, o'r fath sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, gellid defnyddio dull detholus o gymhwyso hawliau uwch i'r ymyl arfordirol: i'r gofod ymestyn arfordirol, i'r llwybr arfordirol, neu i'r ddau.

# Diwygiad 2A: Gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus

## Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2A

Galluogi pobl i feicio ac i farchogaeth ceffylau drwy hawl ar lwybrau troed cyhoeddus, gan roi mwy o gyfleoedd i feicwyr a marchogion gael mynediad i'r awyr agored.

## Opsiynau Diwygiad 2A ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 2A: Teitl y cynnig opsiwn   | Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn  |
|---|--|
| i. Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed cyhoeddus yn statudol   | Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth drwy statud ar y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru gan ddefnyddio dull tebyg i Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, gyda chafeat neu gymal cysylltiedig ar gyfer defnydd cyfrifol.   |
| ii. Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth drwy statud ar lwybrau troed, gyda phwerau i eithrio'r hawliau hynny os nad ydynt yn addas | Yn yr un modd ag Opsiwn 2A(i), gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth yn statudol ar draws y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus yng Nghymru gan ddefnyddio dull o fath sy'n seiliedig ar Adran 30. Câi pwerau eu rhoi i awdurdodau priffyrdd lleol asesu anaddasrwydd hawliau beicio a marchogaeth ar lwybrau. Gellid eithrio llwybrau lle aseswyd bod arfer hawliau o'r fath yn anaddas. Câi 'anaddasrwydd' ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (asesiad o anaddasrwydd). |
| iii. Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a hawliau uwch ar lwybrau troed yn ddetholus fesul achos  | Câi hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth eu gweithredu ar lwybrau troed cyhoeddus fesul achos. Byddai gan awdurdodau priffyrdd lleol bŵer i arfarnu'r llwybrau troed cyhoeddus ar draws eu rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus o safbwynt hawliau marchogaeth a beicio, a hynny yn erbyn meini prawf safonol. Câi'r broses ei chysylltu â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy awdurdodau lleol.  |

(Sylwer: Rhoddodd Adran 30 (a30) o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 hawliau i ddefnyddio beiciau pedal ar lwybrau ceffylau cyhyd â bod beicwyr yn ildio i gerddwyr a marchogwyr ceffylau. Nid oes gofyniad i awdurdodau priffyrdd lleol gynnal llwybrau ceffylau ar gyfer beicwyr.)

## **Opsiwn 2A(i): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn statudol**

### **Opsiwn 2A(i): Disgrifiad cryno**

Ehangu, ar draws yr holl lwybrau troed cyhoeddus yng Nghymru, yr ystod o weithgareddau y gall y cyhoedd eu gwneud drwy hawl. Byddai darpariaeth o fath sy'n seiliedig ar Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yn rhoi hawliau statudol ar gyfer beicio a marchogaeth (yr adwaenir yn aml yn hawliau uwch) ar lwybrau troed cyhoeddus. Ni fyddai dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gynnal neu wella llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer defnyddio hawliau beicio a marchogaeth. Câi pwerau awdurdodau priffyrdd lleol ar gyfer gwella a rheoli llwybrau eu hehangu. Câi cymal neu gafeat yn y ddeddfwriaeth hefyd ei roi ar waith i amlinellu defnydd cyfrifol ar y llwybrau ac er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer gwahardd a chyfyngu ar fynediad i unigolion sy'n defnyddio llwybrau'n anghyfrifol.

### **Opsiwn 2A(i): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2A(i) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi hawl i feicio a marchogaeth, drwy statud, ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru [gan ddefnyddio darpariaeth o fath sy'n seiliedig ar Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968].
002. Sicrhau bod y ddeddfwriaeth [yn debyg i Adran 30(3) o'r Ddeddf Cefn Gwlad] yn nodi na ddylai'r diwygiad newid rhwymedigaethau cynnal a chadw awdurdodau priffyrdd lleol, na rhwymedigaethau cynnal a chadw partïon eraill mewn perthynas â llwybrau troed cyhoeddus.
003. Diwygio'r rheoliadau mapio ar gyfer mapiau a datganiadau diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn adlewyrchu'r newid mewn hawliau.
004. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
005. Gweithredu'r lleihad yn atebolrwydd meddianwyr ar hawliau tramwy cyhoeddus, a'i gysoni'n well â lefel atebolrwydd y meddianwyr a weithredir ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
006. Rhoddir dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol, a phwerau cysylltiedig, i ystyried addasu cyfyngiadau cyfreithiol (seilwaith) er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr arfer pob hawl gymwys (gan gynnwys beicio a marchogaeth) wrth awdurdodi seilwaith o'r newydd, neu ailosod seilwaith presennol ar lwybrau troed cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Byddai'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried yr angen i gyfyngu ar fynediad anghyfreithlon wrth hwyluso gwelliannau hygyrchedd.
007. Dylai deddfwriaeth roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol wahardd neu gyfyngu ar fynediad at lwybrau troed cyhoeddus am resymau penodol (gan gynnwys ar gyfer rheoli tir, cadwraeth natur a threftadaeth, ac iechyd a diogelwch), er mwyn rheoli neu atal yr effeithiau a geir o ganlyniad i ddefnyddio'r llwybrau. Dylai fod yn ofynnol dethol y dull lleiaf rhwystrol wrth weithredu cyfyngiadau. Dylai'r cyfyngiadau fod yn agored i geisiadau ac ymgynghori, a dylai proses apelio fod ynghlwm wrthynt.

008. Rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddiweddar arwyddion a chyfeirbwyntiau ar lwybrau troed sydd â hawliau beicio a marchogaeth, gan gynnwys y pŵer i osod arwyddion am resymau heblaw nodi cyfeiriad.
009. Ymgorffori cymal neu gafeat yn y rheoliadau er mwyn amlinellu'n benodol yr hyn a olygir gan ddefnyddio hawliau marchogaeth a beicio yn gyfrifol, a hynny mewn canllaw neu drwy fecanwaith arall. Byddai hyn yn cynnwys cyflwyno "hierarchaeth defnyddwyr" ar lwybrau a "chytundebau ffurfiol" diffiniedig ar rannau o lwybr yr ystyriwyd eu bod yn broblemus. Gallai methiant defnyddiwr i gydymffurfio arwain at ei wahardd.
010. Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru i gyflwyno cod ymarfer ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a ddefnyddir ar y cyd, a dyletswydd ar Lywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hybu dealltwriaeth ohono.
011. Cyfleu hawliau mynediad (gan gynnwys mewn mapiau, drwy ymgyrch gyfathrebu, o fewn cod cefn gwlad [diwygiedig], a thrwy wybodaeth am weithgareddau hamdden cyfrifol, ac arweiniad).
012. Adolygu'r rheolau ynghylch gweithgarwch masnachol ar hawliau tramwy cyhoeddus ac o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a'u halinio'n well mewn perthynas â hawliau beicio a marchogaeth. Datblygu a chyfleu diffiniadau cliriach o weithgarwch masnachol mewn perthynas â hawliau mynediad.

## **Opsiwn 2A(ii): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus, gyda phwerau i eithrio'r hawliau hynny ar sail anaddasrwydd**

### **Opsiwn 2A(ii): Disgrifiad cryno**

Câi hawliau beicio a marchogaeth eu gweithredu drwy statud ar draws y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus gan ddilyn y dull o fath sy'n seiliedig ar Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 a amlinellir yn Niwygiad 2A(i). Ni fyddai unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gynnal llwybrau troed cyhoeddus o'r fath ar gyfer beicio a marchogaeth. Câi pwerau eu rhoi i awdurdodau priffyrdd lleol asesu anaddasrwydd hawliau uwch ar lwybrau. Gellid dileu'r hawl i feicio a marchogaeth ar hyd llwybrau yr aseswyd eu bod yn anaddas gan awdurdod priffyrdd lleol. Câi diffiniad 'anaddasrwydd' ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (asesiad o anaddasrwydd), gyda darpariaeth ar gyfer ymgynghori ac apelio.

### **Opsiwn 2A(ii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2A(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Deddfwriaeth ar gyfer gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru, gan ddefnyddio dull o fath sy'n seiliedig ar Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 [gweler Opsiwn Diwygio 2A(i) ar gyfer yr elfennau allweddol gofynnol hynny].
002. Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol asesu anaddasrwydd hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus [gyda hyblygrwydd i eithrio gwahanol fathau o hawliau defnyddwyr]



– dim pwerau newydd neu ychwanegol i wahardd neu gyfyngu ar hawliau ar lwybrau troed.

003. Pwerau i Lywodraeth Cymru lunio rheoliadau sy'n pennu proses asesu anaddasrwydd, gan gynnwys rhoi canllawiau gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau priffyrdd lleol ynghylch y broses a'r meini prawf asesu a'r gofynion cysylltiedig (e.e. ar gyfer ymgynghoriadau).
004. Pwerau i osod fframwaith ar gyfer meini prawf asesu anaddasrwydd.
005. Dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i ymgynghori â sefydliadau penodedig wrth gynnal asesiadau o anaddasrwydd.
006. Pwerau dewisol i awdurdodau priffyrdd lleol eu harfer wrth wneud penderfyniadau: dylai awdurdodau priffyrdd lleol fod â'r gallu i ddiystyru llwybrau penodol o safbwynt hawliau beicio a/neu farchogaeth.
007. Cynnwys apeliadau fel rhan o broses arfarnu – yr awdurdod priffyrdd lleol ddylai benderfynu ar hyn i gychwyn. Darparu ar gyfer symud apeliadau ar gyfer materion cymhleth neu faterion sydd heb eu datrys i'r Arolygiaeth Gynllunio am benderfyniad.
008. Rhoi pwerau dewisol i awdurdodau priffyrdd lleol adolygu anaddasrwydd hawliau beicio neu farchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus – ar gyfer y llwybrau hynny a eithriwyd yn barhaol, neu i ddarparu ar gyfer adolygu llwybrau addas mewn amgylchiadau penodedig.
009. Pwerau i'r awdurdodau priffyrdd lleol ystyried a diwygio adeileddau ar lwybrau troed cyhoeddus – byddai angen eu cael er mwyn arfarnu llwybrau y'u dynodwyd yn anaddas (h.y. ni all celfi llwybr anaddas (e.e. gatiâu neu gamfeydd) fod yr unig reswm dros benderfynu bod hawliau'n anaddas ar gyfer llwybr).
010. Diffinio'r amser dechrau – e.e. sut a phryd y daw hawliau newydd i rym.
011. Rhoi mwy o bwerau i awdurdodau priffyrdd lleol godi arwyddion ar hyd llwybrau lle ceid cynnydd yng nghymhlethdod y ddarpariaeth mynediad, e.e. arwyddion cynghorol lle bu newid mewn hawliau mynediad a/neu lle bo cyfyngiadau arnynt (drwy ddynodi eu bod yn anaddas); yr awdurdod priffyrdd lleol fyddai'n penderfynu ar y math o arwydd a'i leoliad.
012. Addysg ynghylch y Cod Cefn Gwlad diwygiedig.\*
013. Diwygio'r Cod Cefn Gwlad a'r codau gweithgarwch cysylltiedig, ynghyd â'r canlynol:
  - Ymgyrch(oedd) codi ymwybyddiaeth gyhoeddus
  - Codi ymwybyddiaeth tîrfeddianwyr
  - Posiblwydd o orfodi, a nodi'r hyn a ddisgwylir gan bobl

*\*Sylwer, er bod yr opsiwn hwn yn cynnig addasu'r Cod Cefn Gwlad, bydd y dull a ddilyniir yn amodol ar ystyriaethau ehangach Llywodraeth Cymru o ran datblygu diwygiadau i ddeddfwriaeth gweithgareddau hamdden cyfrifol ymhellach. Gweler yr adran [Themâu trawsbynciol](#) isod am ragor o fanylion.*



## **Opsiwn 2A(iii): Gweithredu hawliau ar gyfer beicio a hawliau uwch ar lwybrau troed yn ddetholus fesul achos**

### **Opsiwn 2A(iii): Disgrifiad cryno**

Câi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus eu gweithredu fesul achos. Byddai gan awdurdodau priffyrdd lleol bŵer i arfarnu'r llwybrau troed cyhoeddus ar draws eu rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus o safbwynt hawliau marchogaeth a beicio, a hynny yn erbyn meini prawf safonol. Byddai'r broses yn gysylltiedig â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy awdurdodau penodol.

### **Opsiwn 2A(iii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2A(iii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Deddfwriaeth i roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi llwybrau troed cyhoeddus unigol y gellir gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth arnynt.
002. Pwerau i reoliadau amlinellu'r broses ddynodi, gan gynnwys y canlynol:
  - meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd llwybrau troed [ar gyfer hawliau uwch]
  - darparu ar gyfer asesu effeithiau (e.e. o safbwynt rheoli tir, cadwraeth natur / bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)
003. Dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer prosesau syml sydd â therfyn amser.
004. Sicrhau darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer proses ymgynghori ac apelio.
005. Diwygio'r rheoliadau ar gyfer mapiau a datganiadau diffiniol er mwyn adlewyrchu newidiadau.
006. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
007. Pwerau ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol addasu cyfyngiadau ar lwybrau (seilwaith) er mwyn hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch ac am resymau hygyrchedd.
008. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
009. Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol wahardd neu gyfyngu ar hawliau gwahanol drwy fecanwaith deddfwriaethol ar gyfer atal neu liniaru yn erbyn effeithiau niweidiol ar lwybrau troed cyhoeddus neu hawliau tramwy eraill.
010. Sicrhau y bydd deiliaid tir yn gallu gwneud cais i'r awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer gweithredu cyfyngiad neu waharddiad mewn perthynas ag effeithiau ar waith rheoli tir penodol (e.e. amaethyddiaeth a choedwigaeth, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati).
011. Ystyried cyflwyno term/diffiniad newydd ar gyfer y llwybrau troed â hawliau uwch dynodedig, ynghyd â darparu arwyddion statudol diwygiedig.
012. Codau gweithgarwch hamdden: addasu'r Cod Cefn Gwlad, er mwyn rhoi arweiniad cynghorol yn unig, gan gyfleu'r newidiadau sy'n deillio o'r diwygiad.



## Sylwebaeth ar opsiynau diwygio, ac argymhellion cysylltiedig ar gyfer gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus

Dylid ystyried yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn [gweler uchod – ac Atodiad A ar gyfer y tablau o elfennau allweddol yn eu cyfanrwydd].

Mae nifer o elfennau ac ystyriaethau ar gyfer Opsiwn 2A(i), Opsiwn 2A(ii) ac Opsiwn 2A(iii) wedi'u cyflwyno ar y cyd yn yr adrannau canlynol.

Mae Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii) yn darparu ar gyfer:

- Gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth ar y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus yn statudol (h.y. ar bob llwybr troed cyhoeddus). Un o'r gwahaniaethau allweddol rhwng yr opsiynau yw, o dan Opsiwn 2A(ii), na fyddai'r hawliau'n berthnasol i lwybrau yr aseswyd eu bod yn anaddas.

Mae Opsiwn 2A(iii) yn darparu ar gyfer:

- Ystyried llwybrau troed cyhoeddus ar sail unigol o safbwynt gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth arnynt, a gweithredu hawliau ar y llwybrau troed hynny y pennir eu bod yn addas.

Mae pob un o'r tri opsiwn yn cynnwys nifer o ddarpariaethau tra thebyg ar gyfer gweithredu a rheoli'r hawliau sy'n deillio o'r diwygiad ynghyd â'r hysbysrwydd yn eu cylch.

### Graddfa'r hawliau a fyddai'n deillio o opsiynau Diwygiad 2A

Ystyrir bod pob un o'r opsiynau'n cynnig ffordd ddeddfwriaethol-ddichonol o weithredu hawliau beicio a marchogaeth (hawliau uwch) ar lwybrau troed cyhoeddus yn statudol. Mae'r dulliau o weithredu'r opsiynau'n debygol o amrywio'n sylweddol o safbwynt graddfa'r hawliau uwch ychwanegol y byddent yn eu darparu, y gyfran ohonynt y byddai modd eu harfer yn ymarferol, a hefyd o safbwynt y graddau y byddent yn integreiddio â'r hawliau uwch a ddarperid drwy ddiwygiadau eraill y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Yn yr un modd, mae'n debyg y ceir amrywiaeth sylweddol yn y buddion ac effeithiau sy'n deillio o gyflwyno'r diwygiad.

Byddai'r dull gweithredu ar gyfer Opsiwn 2A(i) yn darparu hawliau uwch ar gyfer 26,000 km a mwy o lwybrau troed cyhoeddus, sef cynnydd o 480% o'i gymharu â'r hawliau tramwy cyhoeddus sydd â hawliau beicio a marchogaeth ar hyn o bryd. Yn yr un modd, byddai Opsiwn 2A(ii) yn darparu hawliau uwch ar gyfer 26,000 km a mwy o lwybrau troed cyhoeddus, ac eithrio swm ohonynt y gallai awdurdodau priffyrdd lleol fod wedi asesu eu bod yn 'anaddas'; byddai'r 'swm anaddas' yn ddibynnol ar y dull o gynnal asesiadau o anaddasrwydd.

Byddai cyfran sylweddol o'r rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus ar gael i'w defnyddio ar gyfer beicio a marchogaeth 'ar unwaith', a hynny o ganlyniad i newid statudol o dan Ddiwygiad 2A. Dangosodd tystiolaeth o astudiaeth yng Nghymru ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a ymchwiliodd i rwystrau ar hyd sampl gynrychiadol o lwybrau troed (camfeydd, gatiau mochyn ac ati) y byddai tua 41% o lwybrau troed ar gael ar gyfer defnydd hawliau uwch (er bod y swm hwn y byddai ar gael yn debygol o amrywio'n sylweddol o un lle i'r llall). Bydd yr hawliau uwch y gellir eu harfer ar hyd cyfran fawr o'r rhwydwaith llwybrau troed felly'n amodol ar y rhwystrau a geir ar y llwybrau, neu faterion eraill sy'n cael effaith sylweddol ar ddefnydd hawliau uwch, neu'n eu hatal, e.e. ffactorau fel nodweddion tirwedd, neu rwystrau cyfreithlon neu anghyfreithlon.

Mae'n glir mai cyfleoedd cyfyngedig y mae Opsiwn 2A(i) yn eu cynnig ar gyfer mynd i'r afael â materion o'r fath (gan ei fod yn ddibynnol ar waharddiadau a chyfyngiadau diwygiedig). O safbwynt Opsiwn 2A(ii), byddai gan awdurdodau priffyrdd lleol bwerau dewisol ar gyfer asesu anaddasrwydd hawliau ar gyfer llwybrau, a diddymu hawliau lle roeddent o'r farn bod angen gwneud hynny. Byddai Opsiwn 2A(iii) yn rhoi pŵer dewisol i awdurdodau priffyrdd lleol asesu addasrwydd llwybrau troed a gweithredu hawliau uwch arnynt fesul achos. Bydd graddau'r hawliau uwch a weithredir felly'n dibynnu ar y defnydd y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud o'r pŵerau.

Disgwylir y byddai gwahaniaeth sylweddol rhwng graddfa gychwynnol yr hawliau uwch y câi eu gweithredu drwy Opsiwn 2A(ii) ac Opsiwn 2A(iii). Byddai'r graddau hefyd yn dibynnu ar y dull o weithredu rhai o'r prosesau. Byddai dyletswydd i asesu addasrwydd/anaddasrwydd pob llwybr troed cyhoeddus ar gyfer hawliau uwch yn berthnasol i 26,000 km a mwy o lwybrau troed, ond efallai na fyddai'r awdurdodau'n defnyddio'r pŵerau dewisol ar gyfer asesu llwybrau troed o gwbl, oni cheid cymhellion ac adnoddau i awdurdodau wneud hynny. Bydd y ffactorau amrywiol hyn yn cael effaith sylweddol ar y costau, y buddion a'r effeithiau a fydd yn deillio o'r newidiadau (gweler yr adrannau isod). Felly er bod y prosesau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli wedi cynnig arweiniad cymharol o ran y costau fesul uned tebygol sydd ynghlwm wrth brosesau cyfreithiol arfaethedig Diwygiad 2A (e.e. cyfartaledd y costau ar gyfer gorchmynion llwybrau cyhoeddus), bydd angen pennu manylion y darpariaethau a ddatblygir ynghyd â'r graddau y cânt eu gweithredu mewn gwirionedd.

Byddai'n bosibl i bob opsiwn ddefnyddio'r pŵerau sydd eisoes yn bodoli, neu bwerau addasedig ar gyfer cyflwyno gorchmynion rheoleiddio traffig, er mwyn gwahardd neu gyfyngu ar hawliau mewn manau penodol. Nid yw'r graddau y byddai angen gwneud hyn na'r graddau y câi'r pŵerau eu defnyddio wedi'u hamcangyfrif.

**Argymhelliad:** Nid yw Opsiwn 2A(i) yn ffordd addas o weithredu Diwygiad 2A.

**Argymhelliad:** Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddewis rhwng defnyddio dull detholus o weithredu hawliau neu ddull sy'n seiliedig ar y rhwydwaith fel y dull eang o weithredu Diwygiad 2A. Yn yr un modd, bydd angen i'r llywodraeth benderfynu a ddylai darpariaethau penodol (e.e. cynnal asesiadau o addasrwydd/anaddasrwydd) fod yn gyfystyr â dyletswyddau sy'n berthnasol i'r rhwydwaith cyfan neu'n bwerau dewisol. Bydd y dull a ddilyniir yn pennu graddfa'r hawliau y gellir eu disgwyl, ynghyd â'r goblygiadau a geir o ganlyniad, gan gynnwys gofynion gweinyddol, buddion, effeithiau a chostau.

## **A ddylid diffinio darpariaethau deddfwriaethol fel pŵerau neu ddyletswyddau?**

Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch cynnwys darpariaethau deddfwriaethol ar ffurf pŵerau dewisol yn hytrach na dyletswyddau yn yr opsiynau, e.e. i asesu addasrwydd llwybrau troed (Opsiwn 2A(iii)) neu eu hanaddasrwydd (Opsiwn 2A(ii)). Ar ffurf dyletswydd, byddai'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol asesu 26,000 km a mwy o lwybrau troed cyhoeddus, gyda'r goblygiadau amser ac adnoddau o wneud hynny. Teimlodd awdurdodau lleol, yn enwedig, nad yw hyn yn realistig yn erbyn y cefndir presennol lle mae adnoddau awdurdodau wedi'u hymestyn i'r eithaf, ceir dyletswyddau hawliau tramwy cyhoeddus nad ydynt wedi'u cyflawni, ac ôl-groniad o waith hawliau tramwy cyhoeddus cyfredol, gan gynnwys nifer cyfartalog isel o brosesau cyfreithiol (fel gorchmynion neu gytundebau creu, neu orchmynion addasu mapiau diffiniol) yn cael eu dwyn ymlaen gan bob awdurdod lleol. Byddai'r gwaith o asesu pob llwybr troed, neu gyfran uchel ohonynt hyd yn oed (ynghyd ag unrhyw ofynion cysylltiedig), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael adnoddau ychwanegol sylweddol a dargedir.

I fod yn effeithiol, byddai angen i'r diwygiad hefyd fod yn gyflymach ac yn fwy effeithlon na'r pwerau creu a bennir yn Adran 25 ac Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Byddai angen defnyddio'r pwerau creu o hyd er mwyn darparu hawliau uwch lle ceir bylchau yn y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Dylid nodi bod ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2017 yn dangos mai ychydig o ddefnydd y mae awdurdodau priffyrdd lleol wedi'i wneud o'r pwerau a geir yn Adran 25 ac Adran 26 (llai na 2.5 o gytundebau a gorchmynion fesul awdurdod fesul blwyddyn, ar gyfartaledd), ac felly ni ddylid disgwyl i'r rheiny, na phrosesau tebyg a gyflwynir gan Ddiwygiad 2A, arwain at newidiadau mewn hawliau ar lefel rhwydwaith.

**Argymhelliad:** Dylid sicrhau y ceir hyblygrwydd o fewn Diwygiad 2A ar gyfer cyfyngu ar hawliau uwch, ac i'w gwneud yn bosibl iddynt beidio â chael eu gweithredu ar bob llwybr troed cyhoeddus. Os bwriedir cynnal asesiad helaeth o lwybrau troed a gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid gweithredu neu ddiddymu hawliau, bydd angen neilltuo adnoddau digonol er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu'r pwerau diwygio neu'r dyletswyddau a gyflwynir.

**Argymhelliad:** Dylid llunio amcangyfrif realistig o'r costau sydd ynghlwm wrth ddarpariaethau a phrosesau gofynnol opsiynau Diwygiad 2A pan fydd y dull eang wedi'i bennu a bod manylion pellach wedi'u datblygu (fel p'un a ddylai digollediad ac apeladau fod yn rhan o'r darpariaethau ynteu beidio, ac, os felly, ar ba ffurf).

**Argymhelliad:** Bydd angen sicrhau bod y prosesau diwygio arfaethedig yn gyflymach a mwy effeithlon – o'u cymharu â'r prosesau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus – wrth ddarparu cydbwysedd rhwng gwahanol fuddiannau. Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn datblygu darpariaethau i'r fath manylder.

## **Gofynion o ran y prosesau gweinyddol ar gyfer opsiynau Diwygiad 2A**

Yn ogystal â bod yn syml ac effeithlon, bydd angen i'r prosesau gweinyddol roi sylw priodol i fuddiannau gwahanol, a sicrhau cydbwysedd rhyngddynt.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai'r gwaith o weithredu hawliau uwch drwy Opsiwn 2A(i) neu Opsiwn 2A(ii) fod yn gymharol ddidrafferth a mwy effeithlon o ran cost, o safbwynt gweinyddol.

Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol o ran y prosesau manwl y bydd angen eu dilyn mewn perthynas â'r gwaith o asesu anaddasrwydd (Opsiwn 2A(ii)) neu addasrwydd (2A(iii)). Bydd angen hefyd penderfynu ar yr angen i ymgynghori ag unrhyw un â buddiant yn ystod camau gwahanol. Nododd y grŵp arbenigol y byddai angen bod yn fwy eglur ynghylch y broses apelio, o ran pwy allai gyflwyno apêl ac ar ba sail.

O safbwynt y dulliau detholus o weithredu hawliau, ac yn unol ag Opsiwn 2A(iii), awgrymodd y cyngor cyfreithiol i CNC ei bod yn bosibl y bydd angen i ddeddfwriaeth y diwygiad ddarparu ar gyfer talu iawndal.

**Argymhelliad:** Bydd angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch digonolrwydd y prosesau craidd a gynigir fel rhan o'r opsiwn diwygio i'w ddatblygu ymhellach, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y broses asesu, ymgynghoriadau ac apeladau, ynghyd â'r angen i dalu iawndal.

## **Asesu llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau uwch**

Ar gyfer Opsiwn 2A(ii) ac Opsiwn 2A(iii), bydd y broses a methodoleg ar gyfer asesu llwybrau troed cyhoeddus o safbwynt hawliau uwch – sef asesiadau o addasrwydd

(Opsiw 2A(iii)) ac asesiadau o anaddasrwydd (Opsiw 2A(ii)) – yn allweddol i'r gwaith o benderfynu a ddylid gweithredu hawliau. Bydd angen datblygu'r meini prawf a'r prosesau ar gyfer cyflwyno'r diwygiad wrth ei ddatblygu ymhellach, a dylai'r gwaith hwnnw gynnwys cydbwysedd o gynrychiolwyr rhanddeiliaid (gan gynnwys rheolwyr tir, ymgwymerwyr statudol, defnyddwyr hamdden a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus).

Bydd materion dilys a fydd yn cael effaith ar ddefnyddioldeb llwybrau ar gyfer hawliau uwch (e.e. camfeydd, pontydd troed, cyfleustodau, iechyd a diogelwch ac ati). Mae tystiolaeth o gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus hefyd yn dangos y ceir problemau helaeth ar draws y rhwydwaith o hyd (fel rhwystrau neu faterion cynnal a chadw nad ydynt wedi derbyn sylw). Bydd yn rhaid i'r materion hyn fod yn rhan o waith asesu anaddasrwydd/addasrwydd llwybrau. Dylid datrys materion o'r fath lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhesymau dros beidio â gweithredu hawliau uwch o reidrwydd. Mae'n bosibl y bydd angen i asesiadau hefyd ystyried materion cyfreithiol nad ydynt wedi'u datrys, fel aliniad llwybrau diffiniedig neu hawliau nad ydynt wedi'u cofnodi.

Bydd Opsiw 2A(iii) yn ei gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth, fesul llwybr, i amgylchiadau pob llwybr fel rhan o'r gwaith o benderfynu a ddylid gweithredu'r hawliau. Teimlodd y mwyafrif o aelodau'r grŵp arbenigol ei bod yn bwysig helpu i sicrhau y caiff hawliau uwch eu gweithredu ar lwybrau sy'n addas, neu y gellir eu gwneud yn addas, ar gyfer defnydd o'r fath. O safbwynt Opsiw 2A(ii), mae'r mecanwaith anaddasrwydd yn darparu ar gyfer llwybrau troed y nodwyd eu bod yn anaddas ar gyfer eu hasesu o bosib, a gellir diddymu hawliau arnynt os bernir bod angen gwneud hynny. Ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall, bydd angen llawer o adnoddau er mwyn asesu cyfran sylweddol o'r rhwydwaith llwybrau troed, a bydd angen darpariaeth i ddatrys problemau lle y bo'n bosibl. Yn absenoldeb y lefel angenrheidiol o adnoddau, roedd llawer o randdeiliaid o'r farn na fyddai'r naill ddull gweithredu na'r llall yn arwain at ddefnydd helaeth o'r pwerau dewisol a ddarperid (p'un a ddefnyddid y rheiny ar gyfer asesu anaddasrwydd llwybrau troed ar gyfer gweithredu hawliau uwch arnynt yn achos Opsiw 2A(ii), neu eu haddasrwydd yn achos Opsiw 2A(iii)).

**Argymhelliad:** Dylid ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid wrth ddatblygu meini prawf a phrosesau asesu.

## Rheoli a lliniaru effeithiau

Mewn rhai manau, bydd defnyddwyr hawliau uwch sy'n gwneud defnydd hamdden o lwybrau troed yn cael effaith ar, er enghraifft, rheolaeth tir, treftadaeth naturiol a hanesyddol, a gwaith rheoli mynediad a diogelwch. Felly bydd angen i'r diwygiad ddarparu mecanweithiau ar gyfer rheoli a lliniaru yn erbyn effeithiau, gan gynnwys cyflwyno cyfyngiadau cyfreithiol ar ddefnyddio llwybrau troed penodol. Ni chytunwyd ar unrhyw ddull unigol o gyfyngu ar fynediad a fyddai'n addas i'r diben. Roedd awgrymiadau gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 yn cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- Darparu mecanwaith gwahardd neu gyfyngu syml a fyddai'n berthnasol i Ddiwygiad 2A ond hefyd i hawliau tramwy cyhoeddus yn gyffredinol. Ni theimlwyd bod y mecanwaith ar gyfer gorchmynion rheoleiddio traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ddigonol at ddibenion Diwygiad 2A – er y teimlwyd y byddai'n bosibl ei ddiwygio'n sylweddol.
- Cyflwyno mecanwaith gwahardd a chyfyngu newydd (gallai Diwygiad 2B gefnogi hyn, yn achos cyfyngiadau tymor byr, o leiaf).



- Rhoi cafeat yn neddfwriaeth hawliau tramwy cyhoeddus i atal hawliau tramwy unigolyn yn sgil defnydd anghyfrifol diffiniedig (yn debyg i'r hyn a geir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).
- Cyflwyno cod statudol gorfodadwy, e.e. ei gwneud yn bosibl atal hawliau (wedi'i alinio â'r cynigion ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol o fewn gwaith y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad).

Bydd yr effeithiau yn sgil defnydd hawliau uwch yn gymesur â graddfa'r hawliau a weithredir. Roedd y rhan fwyaf o aelodau Grŵp Arbenigol 2 yn ffafrio Opsiwn 2A(iii), sef dull detholus o weithredu hawliau. Roedd rhai o'r rhesymau allweddol a roddwyd dros hyn yn cynnwys y byddai'n ei gwneud yn bosibl i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried, fesul achos, addasrwydd llwybrau ar gyfer hawliau uwch, rhoi gwelliannau yn eu lle i hwyluso defnydd, a nodi mesurau ar gyfer lliniaru yn erbyn effeithiau lle bônt yn digwydd. O weithredu hawliau ar draws y rhwydwaith cyfan, fel y cynigir yn Opsiwn 2A(i), dim ond mecanweithiau ymatebol fyddai ar gael (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig – os oeddent yn addas i'r diben). Er mai cefnogaeth leiafrifol a roddwyd i Opsiwn 2A(ii), cafodd ei ddarpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau o anaddasrwydd (ynghyd â darpariaethau trosiannol) ei hystyried mewn modd mwy ffafriol nag Opsiwn 2A(i) gan y byddai'n cynnig proses asesu ragweithiol a allai arwain at ddiddymu hawliau – yn amodol ar sefyllfa lle byddai'r broses asesu anaddasrwydd yn cael ei gweithredu'n helaeth (gweler hefyd yr adran ar gostau isod).

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2A gynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud y canlynol:

- Dylanwadu a sicrhau defnydd cyfrifol
- Atal, neu orfodi yn erbyn achosion o ddefnydd anghyfrifol
- Rheoleiddio defnydd mewn modd effeithiol ac effeithlon er mwyn atal neu liniaru yn erbyn effeithiau (e.e. drwy ddiwygio pwerau gorchmynion rheoleiddio traffig ar hawliau tramwy cyhoeddus)
- Sicrhau cysondeb â mesurau a gyflwynir ar draws ddiwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad

## Costau sydd ynghlwm wrth opsiynau Diwygiad 2A

Byddai'r costau gweinyddol ac adnoddau ar gyfer gweithredu hawliau Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii) drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn gymharol isel o'u cymharu ag Opsiwn 2A(iii). O safbwynt Opsiwn 2A(iii), oherwydd ei fod yn cynnig ystyried pob llwybr ar sail unigol, bydd y costau gweinyddol fesul llwybr yn sylweddol uwch, gan gynnwys cynnal asesiad o bob llwybr, a phrosesau ymgynghori a phenderfynu, costau cyfreithiol, apeliadau (ar gyfer cyfran o achosion), a'r gwaith o weinyddu a thalu iawndal.

Bydd rheolwyr mynediad, rheolwyr tir, ac eraill (fel y bobl hynny sydd ynghlwm wrth gadwraeth naturiol a threftadaeth), yn wynebu costau o ran amser ac arian yn sgil gweithredu hawliau. Nid yw graddau na graddfa'r costau sydd ynghlwm wrth yr opsiynau wedi'u hasesu'n systematig. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r goblygiadau o ran cost fod yn gymesur â graddfa'r hawliau a grëid (gweler yr adran flaenorol), oherwydd y canlynol:

- Cynnydd yn y gofynion cynnal a chadw ar awdurdodau priffyrdd lleol yn sgil defnydd hawliau uwch ar lwybrau troed (hyd yn oed yn absenoldeb dyletswydd i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyfer hawliau uwch)
- Galw am waith rheoli mynediad ychwanegol ar lwybrau troed, e.e. gwelliannau i adeileddau ac arwynebau, a rheoli materion iechyd a diogelwch a'r rhyngweithiad

rhwng gwahanol fuddiannau, gan gynnwys gweithredu gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar gyfran o lwybrau

- Dwyn cwynion a materion gorfodi ymlaen ar lwybrau troed, y maent yn ymwneud â defnydd tir a rheolaeth tir
- Gweithredu'r gofynion gweinyddol ar gyfer yr opsiwn diwygio a ffafir (e.e. cynnal asesiadau fel rhan o Opsiwn 2A(ii) neu Opsiwn 2A(iii)) – yn gymesur â'r graddau y caiff unrhyw opsiwn ei weithredu
- Y galw am waharddiadau a chyfyngiadau, a'u gweithredu, o ganlyniad i gyflwyno'r diwygiad (gweler yr adran isod am ragor o wybodaeth am waharddiadau a chyfyngiadau)

Mae costau dangosol fesul uned wedi'u hamcangyfrif ar gyfer prosesau o fath cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld i ba raddau y bydd gofyn amdanynt, e.e. oherwydd ansicrwydd ynghylch y gofynion ymgynghori, a nifer yr apeliadau a fydd yn codi yn achos Opsiwn 2A(ii) ac Opsiwn 2A(iii).

Yn yr un modd â phrosesau Adran 25 ac Adran 26 o'r Ddeddf Priffyrdd, mae'n bosibl y bydd angen talu iawndal os dilynir dull gweithredu o'r math a gynigir yn Opsiwn 2A(iii) (h.y. dull detholus o weithredu hawliau) ar gyfer creu hawliau uwch ar lwybrau troed. Fodd bynnag, nid oedd cyngor cyfreithiol a dderbyniodd CNC ym mis Medi 2020 yn bendant ynghylch p'un a fyddai iawndal yn daladwy, o reidrwydd, yn sgil gweithredu Opsiwn 2A(iii). Bydd cyngor cyfreithiol pellach yn helpu i awgrymu a ddylid darparu ar gyfer proses ddigolledu a thaliadau mewn perthynas â hawliau uwch y broses weithredu a ragwelir yn Opsiwn 2A(iii).

Mae'n debygol mai defnydd bach iawn a wneir o'r pwerau a ddarperir gan Ddiwygiad 2A oni sicrhau y bydd gan awdurdodau lleol yr adnoddau angenrheidiol i wneud hynny, ac oni bai fod y prosesau'n cymharol gyflym ac effeithlon i'w gweinyddu, fel y cyfeiriwyd ato uchod. Felly bydd angen ariannu'r diwygiad mewn ffordd sydd wedi'i thargedu er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau newydd, creu hawliau newydd, a rheoli'r hawliau sy'n deillio o'r diwygiad, a hynny i'r graddau a ddymunir gan y llywodraeth.

**Argymhelliad:** Bydd angen darparu cyllid digonol er mwyn cefnogi gwaith gweinyddu a gweithredu'r pwerau a dyletswyddau a ddarperir gan Ddiwygiad 2A, ac felly creu a rheoli hawliau uwch newydd ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau.

## **Statws newidiadau ar lwybrau troed cyhoeddus, a'r gwaith o'u cofnodi**

Bydd angen adlewyrchu'r newidiadau i'r hawliau sy'n berthnasol i lwybrau troed cyhoeddus mewn mapiau a datganiadau diffiniol, sef y cofnod cyfreithiol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus. Awgrymodd tystiolaeth gan awdurdodau priffyrdd lleol y dylai'r gwaith o reoleiddio a chofnodi hawliau uwch yn y mapiau a datganiadau diffiniol fod yn ddidrafferth.

Er ei bod yn bosibl y bydd angen ymdrin â materion cyfreithiol sy'n weddill ar lwybrau troed unigol, o ddilyn dull detholus o weithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus (fel yn Opsiwn 2A(iii)), ni farnwyd y byddai datrys materion cyfreithiol ar raddfa eang, mewn perthynas â mapiau a datganiadau diffiniol, yn rhagflaenydd hanfodol ar gyfer gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed.

**Argymhelliad:** Bydd angen sicrhau bod 'lwybrau â hawliau uwch' wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u cofnodi mewn mapiau a datganiadau diffiniol. Gellir ystyried y broses ar gyfer gwneud hyn pan gaiff deddfwriaeth y diwygiad ei drafftio.



## Gwelliannau hygrychedd

Cafwyd cefnogaeth eang am gynnwys mesurau sy'n hwyluso gwelliannau i hygrychedd llwybrau troed cyhoeddus â hawliau uwch fel un o opsiynau Diwygiad 2A, e.e. gan roi mwy o allu i awdurdodau priffyrdd lleol wella gatiâu i'w gwneud yn hygrych ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau. Byddai angen darparu ar gyfer ymgynghori â thirfeddianwyr (fel perchnogion yr adeileddau) ynghylch newidiadau i adeileddau a threfniadau ar gyfer eu cynnal a'u cadw, a chytuno arnynt. Nodwyd y gellir gwneud newidiadau o'r fath ar sail lawer mwy anffurfiol, neu drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli, fel Adran 147ZA, neu Adran 66 o'r Ddeddf Priffyrdd, er y bydd angen adolygu pa mor ddigonol ydynt at y diben hwn.

Gallai cyflwyno gwelliannau hygrychedd ar gyfer beicwyr a marchogwyr ceffylau hefyd gynnig cyfle i ddarparu mwy o fynediad cynhwysol, e.e. ar gyfer y bobl hynny â phroblemau symudedd. Mae mynediad cyfartal wedi'i nodi fel mater trawsbynciol (gweler yr adran 'Themâu trawsbynciol' isod), er mwyn helpu i sicrhau cysondeb yn y dull ac effaith ehangach. Oherwydd gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, a'r ffaith fod y dull lleiaf rhwystrol o weithio wedi'i ymwreiddio'n dda ymhlith yr awdurdodau mynediad, teimlodd aelodau'r grŵp arbenigol nad oedd angen gosod dyletswyddau statudol ychwanegol ar gyfer hygrychedd o fewn Diwygiad 2A.

**Argymhelliad:** Dylai darpariaethau'r diwygiad, a'r broses o'u gweithredu, sicrhau y ceir mecanweithiau addas ar gyfer gwella llwybrau troed cyhoeddus, a'u rheoli'n ddilynol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i hawliau uwch eu defnyddio.

**Argymhelliad:** Dylai gwybodaeth a chanllawiau ynghylch gweithredu'r diwygiad bwysleisio'r dyletswyddau sydd eisoes ar awdurdodau mynediad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ynghyd ag egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ac arferion da.

## Gwybodaeth a chynllunio ar gyfer 'llwybrau â hawliau uwch'

Bydd gwahaniaethu 'llwybrau â hawliau uwch' o lwybrau ceffylau neu lwybrau troed yn helpu i lywio disgwiliadau defnyddwyr o ran yr hyn y byddai'n rhesymol iddynt ddisgwyl dod ar ei draws ar hyd llwybr, yn enwedig yn achos Opsiwn 2A(i) neu Opsiwn 2A(ii), lle mae'n bosibl na fydd bob amser yn ymarferol defnyddio'r hawliau sydd ar gael. Lle bo'n briodol, byddai angen newid arwyddion a hysbysiadau.

Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod pobl yng Nghymru, ac ymwelwyr iddi, yn deall yr hawliau fydd ar gael yn sgil cyflwyno Diwygiad 2A. Bydd angen sicrhau bod llwybrau i'w gweld yn glir ar fapiau. Byddai hyn yn cynnwys mapiau'r Arolwg Ordnans, ynghyd ag unrhyw fapiau integredig o fynediad cyhoeddus a gynhyrchir o ganlyniad i Ddiwygiad 3A.

O safbwynt Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii), yn enwedig, bydd gwybodaeth am adeileddau ar lwybrau troed â hawliau uwch yn hanfodol o ran helpu i hysbysu pobl am hygrychedd llwybrau. Nododd awgrym pellach gan y grŵp arbenigol y posibilrwydd o roi enw newydd, megis 'llwybr cyhoeddus', i lwybrau â hawliau uwch dynodedig.

Ceir angen clir, a chefnogaeth ar draws buddiannau'r rhanddeiliaid, o ran sicrhau bod unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2A yn cynnwys mesurau i gefnogi'r newidiadau deddfwriaethol ac ymarferol drwy ddarparu gwybodaeth a chanllawiau ynghylch y cyfrifoldebau y bydd gan bobl yn sgil cyflwyno unrhyw un o'r opsiynau diwygio. Aeth hyn mor bell â chynnig y dylid darparu cyfrwng gwell o orfodi yn erbyn achosion o ddefnydd anghyfrifol lle bo angen, gan wneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â dull y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad o ddiwygio codau gweithgareddau hamdden (gweler yr adran ar weithgareddau hamdden cyfrifol yn yr adrannau 'Themâu trawsbynciol' isod).

Argymhelliad: Dylid sicrhau bod llwybrau â hawliau uwch i'w gweld yn glir ar fapiau, gan gynnwys unrhyw fap integredig a gynhyrchir drwy Ddiwygiad 3A, a gorau oll os oes cysylltiad â gwybodaeth am seilwaith y llwybr ar hawliau tramwy cyhoeddus (fel gatiau, camfeydd, grisiau ac ati).

Argymhelliad: Fel rhan o Ddiwygiad 2A, dylid darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad a chyflwyno codau gweithgareddau hamdden er mwyn rhoi eglurder ynghylch cyfrifoldebau pobl. Dylid darparu ffyrdd ychwanegol o weithredu mesurau gorfodi yn erbyn achosion o ddefnydd anghyfrifol mewn modd sy'n gyson â'r dull ehangach o fewn gwaith y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.

Cafwyd cefnogaeth eang am y syniad y dylai awdurdodau lleol gynnwys gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed o fewn eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – neu o fewn y cynlluniau a fydd yn eu disodli a ddatblygir yn sgil Diwygiad 3B.

Argymhelliad: Dylai pob awdurdod priffyrdd lleol gynnwys ei ddull o weithredu Diwygiad 2A yn ei gynllun statudol ar gyfer gwella mynediad [wedi'i gysylltu â chynlluniau mynediad integredig, yn unol â'r hyn a amlinellir yn Niwygiad 3B].

## Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 2A a ffafir gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 2 gan bedwar aelod yr un. Mynychodd 11 allan o 12 o aelodau'r grŵp y gweithdy er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau diwygiedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi hyd at ddau opsiwn a ffafriwyd ganddo. Roedd yr aelod nad oedd wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiwn a ffafriwyd ganddo drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl dethol hyd at 24 o opsiynau a ffafir (sylwer na chafodd dau ohonynt eu defnyddio).

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.

Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafriwyd mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw pob un o'r opsiynau a ffafir a nodwyd gan bob aelod yn dangos ei fod yn cefnogi bwriad y polisi.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm).

**Tabl 3: Opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 2A**

| Opsiwn  | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm yr opsiynau a ffafir (n = 24) |
|---------|--------------------|--------------|--------------------|--|
| 2A(i)   | 1                  | 0            | 0                  | 1                                      |
| 2A(ii)  | 1                  | 0            | 3                  | 4                                      |
| 2A(iii) | 5                  | 8            | 4                  | 17                                     |

Nodwyd y sylwadau a wnaed gan aelodau'r grŵp arbenigol yn ystod y gweithdy, ac mae'r rhai allweddol sy'n ymwneud yn benodol â'r opsiynau a ffafriwyd wedi'u cynnwys isod.

(Mae sylwadau gan aelodau o'r grŵp arbenigol a rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn yr adrannau sylwebaeth uchod yn ogystal.)

Ar draws y sectorau, ac ar sail yr opsiynau a ffafrir a gyflwynodd aelodau'r grŵp arbenigol, ffafriwyd Opsiwn 2A(iii) yn gryf, gyda'i ddull detholus o weithredu hawliau ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau, ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru. Wrth ddarparu hawliau uwch i lwybrau troed cyhoeddus, roedd yr aelodau hynny a gefnogodd yr opsiwn hwn o'r farn y dylai fod modd defnyddio'r hawliau hynny ar yr adeg y cânt eu gweithredu – a bod llwybrau wedi'u gwella ymlaen llaw lle bo angen. Cafwyd safbwynt cryf hefyd y dylid cynnal a chadw'r llwybrau â hawliau uwch ar ôl cyflwyno'r hawliau iddynt.

Fodd bynnag, roedd rhai o aelodau'r grŵp arbenigol wedi ffafrio Opsiwn 2A(ii). Roedd y gefnogaeth hon yn seiliedig ar y ffaith y byddai angen cymryd camau gweithredu o'i gyflwyno, a hefyd oherwydd y byddai rhagdybiaeth y câi hawliau eu huwchraddio oni bai fod rheswm dros beidio â gwneud hynny, a byddai hynny'n arwain at ddilyn dull â mwy o ffocws a mwy effeithlon o ddefnyddio adnoddau awdurdodau lleol i nodi problemau posibl, gan gyflawni bwriad y polisi yn y ffordd rataf a lleiaf beichus ar yr un pryd. Ar y llaw arall, ni fyddai'r pwerau dewisol a gynigir yn Opsiwn 2A(iii), ynghyd â chefnidir yr adnoddau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol i gyflawni'r gwaith, yn arwain at greu llawer iawn o hawliau uwch.

Teimlodd y mwyafrif o'r aelodau nad oedd hi'n glir sut fyddai'r diwygiadau ynghlwm wrth Opsiwn 2A(i) ac Opsiwn 2A(ii) yn gweithio ar lawr gwlad, ac mai mater o hap a damwain fyddai'r gwaith o gyflwyno llwybrau â hawliau uwch a fyddai'n addas i'r diben, ond eto gyda'r potensial i gostio llawer iawn o ran arian ac amser i bawb dan sylw. Fodd bynnag, ni chytunodd rhai o gynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden â'r pwyntiau hyn, gan nodi y byddai Opsiwn 2A(ii), gyda'i ddull o weithredu hawliau uwch drwy statud ar draws y rhwydwaith, a'i gwneud yn bosibl i awdurdodau ddiddymu neu gyfyngu ar yr hawliau hynny lle bo angen, yn ffordd lai beichus a mwy darbodus o gyflwyno hawliau uwch ar y cyfan.

Cafwyd pryderon penodol, yn nodedig gan gynrychiolwyr y sector rheoli tir, ynghylch sicrhau bod ymddygiadau hamdden cyfrifol yn cael eu cefnogi'n weithredol, a bod y camau gorfodi yn erbyn ymddygiadau anghyfrifol yn cael eu cryfhau. Yn ogystal, ni ddylai'r diwygiad gael effaith andwyol ar reolwyr tir, gan gynnwys bod yn gydnaws â gallu ffermwyr i gydymffurfio â safonau ffermio. Yn yr un modd, ni ddylai'r gwelliannau a geisiwyd i adeileddau llwybrau gael effaith niweidiol ar dirfeddianwyr.

Cododd cynrychiolwyr y sector rheoli tir ychydig o bryderon ynghylch rhyngweithiadau marchogwyr ceffylau a beicwyr, er y nododd cynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden fod y math hwn o ddefnydd a rennir yn digwydd ar lwybrau ceffylau, cilffyrdd a ffyrdd cerbydau ar hyn o bryd, a hynny heb unrhyw broblemau gan mwyaf.

Nodwyd pryderon yn aml ynghylch y goblygiadau cost yn sgil gweithredu hawliau uwch ar bob llwybr troed cyhoeddus, a hynny o safbwynt cynnal a chadw'r llwybrau â hawliau uwch, a hefyd o safbwynt galwadau am ddargyfeirio llwybrau troed gan dirfeddianwyr. Mynegwyd y farn na fyddai gweithredu Opsiwn 2A(i) yn arwain at fuddion, ar y cyfan, o ran cyflwyno hawliau uwch i ddefnyddwyr hamdden o'u cymharu â'r effeithiau ar reoli tir a dŵr yn gynaliadwy, a gofalu am yr amgylchedd.

Nododd un o gynrychiolwyr y sector cyhoeddus ei bryder ynghylch y ffaith y byddai'r llwybrau a ddarperid yn sgil gweithredu hawliau uwch (h.y. Opsiwn 2A(i) neu Opsiwn 2A(ii)) yn amrywiol eu safon a'u defnyddioldeb ar gyfer marchogaeth ceffylau a beicio, ac yn gofyn am fewnbwn sylweddol o safbwynt amser ac arian gan bawb dan sylw. Er y cydnabuwyd bod Opsiwn 2A(ii) yn llawer mwy ystywyth a phragmataidd nag Opsiwn 2A(i), roedd yr aelodau'n dal i ffafrio dull detholus Opsiwn 2A(iii).



Codwyd pryder yn rheolaidd y byddai creu darpariaethau dewisol yn peri i'r pwerau beidio â chael eu defnyddio oherwydd cost a graddfa'r her. (e.e. asesu addasrwydd llwybrau ar gyfer hawliau uwch yn Opsiwn 2A(iii) neu asesu anaddasrwydd hawliau uwch ar lwybrau troed yn Opsiwn 2A(ii)).

Codwyd ychydig o bryderon ynghylch y cyfyngiadau o ddefnyddio prosesau ar-lein (yn sgil COVID-19) ar gyfer datblygu'r cynigion ar gyfer Diwygiad 2A yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Er hynny, cafwyd sylwadau hefyd gan bobl a deimlodd eu bod wedi cael cyfle da i gyfrannu drwy'r un sesiynau gweithdy.

# Diwygiad 2B: Cau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnodau byr a gwaith rheoli stoc arnynt

## Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2B

Gwella prosesau a lleihau'r beichiau sy'n gysylltiedig â darpariaethau dros dro i gau llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau yn y tymor byr a hwyluso rheolaethau stoc. At hynny, caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli stoc ar hawliau tramwy cyhoeddus ac yn gyfagos iddynt wrth wneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

## Opsiynau Diwygiad 2B ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 2B: Teitl y cynnig opsiwn                  | Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn  |
|--|--|
| i. Dargyfeirio drwy hysbysiad              | Darparu proses syml ar gyfer dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnod byr lle byddai tiffeddianwyr cofrestredig yn defnyddio hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol. Byddai'r hysbysebu ar-lein heb yr angen i hysbysebu yn y wasg. Byddai'n rhaid i'r deiliaid tir ddarparu llwybr amgen addas gydag arwyddion; câi'r dargyfeiriad, gyda mapiau, gyhoeddusrwydd ar-lein. Gallai deiliaid tir cofrestredig roi hysbysiadau am fesurau rheoli stoc ac am resymau penodol eraill ac ni fyddai angen i'r awdurdod priffyrdd lleol eu cymeradwyo ymlaen llaw.  |
| ii. Dargyfeiriad cod mynediad statudol     | Byddai cod statudol mynediad awyr agored gorfodadwy newydd yn cynnwys darparu pwerau i ddeiliaid tir ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir penodol. Byddai'n rhaid i ddeiliaid tir hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol am ddargyfeiriadau a darparu llwybr amgen addas, gydag arwyddion a hysbysiadau cysylltiedig.   |
| iii. Dargyfeiriad dros dro ar gyfer gwaith | Darparu mecanwaith statudol i awdurdodau priffyrdd lleol wneud dargyfeiriadau tymor byr, dros dro i lwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir amaethyddol a choedwigaeth penodol. Byddai gan ddeiliaid tir hawl i wneud cais am ddargyfeiriadau o'r fath i lwybrau cyhoeddus ar eu tir, y byddai'n rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol eu cymeradwyo. Byddai'r deiliaid tir yn darparu llwybr amgen addas ac arwyddion ar y safle; byddai'r cais ac unrhyw ddargyfeiriad a gymeradwyir, gyda mapiau, yn cael ei hysbysebu ar-lein. Byddai'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar Adran 135A o Ddeddf Priffyrdd 1980. |

Sylwer: Er mwyn osgoi dryswch posibl, cyfeirir at yr hawl tramwy cyhoeddus dros dro a grëir o ganlyniad i ddargyfeiriad dros dro fel y 'llwybr amgen'.



## **Opsiwn 2B(i): Dargyfeirio neu gau drwy hysbysiad**

### **Opsiwn 2B(i): Disgrifiad cryno**

Darparu proses syml ar gyfer dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnod byr lle mae deiliaid tir cofrestredig yn defnyddio hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol. Byddai'r hysbysebu ar-lein heb yr angen i hysbysebu yn y wasg. Byddai'n rhaid i'r deiliaid tir ddarparu llwybr amgen addas gydag arwyddion; câi'r dargyfeiriad, gyda mapiau, gyhoeddusrwydd ar-lein. Gallai deiliaid tir roi hysbysiadau am fesurau rheoli stoc ac am resymau penodol eraill, ac ni fyddai angen i'r awdurdod priffyrdd lleol eu cymeradwyo ymlaen llaw.

### **Opsiwn 2B(i): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2B(i) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor, a gwnaed addasiadau yn ystod y cam dethol opsiwn].
002. Darpariaethau newydd y ddeddfwriaeth:
  - pŵer i ddeiliaid tir cofrestredig roi hysbysiad am ddargyfeiriadau dros dro tymor byr ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau
  - pwerau i'r Senedd gyflwyno rheoliadau i lywodraethu prosesau a gofynion cysylltiedig
003. Dylai'r hysbysiad gan dirfeddianwyr i awdurdodau priffyrdd lleol gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol:
  - Rhestr wirio (rheswm dros ddargyfeirio, am beth a pham)
  - Map/cynllun o'r dargyfeiriad
  - Y llwybr amgen fyddai ar gael
  - Gallu'r awdurdod priffyrdd lleol i wirio pa mor aml y ceir dargyfeiriadau a chwestiynu'r angen amdanynt
004. Disgwyliad i ddeiliaid tir gofrestru tir y gellir rhoi hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro yn ei gylch. Gofyniad cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol gadw cofrestr o ddeiliaid tir a rheoli'r gofrestr:
  - Byddai angen ymgofrestru er mwyn defnyddio'r broses dargyfeirio dros dro symlach
  - Byddai'n rhoi manylion perchnogaeth/cynlluniau tir
  - Gallai awdurdodau priffyrdd lleol nodi parseli a pherchnogaeth tir, a byddai ganddynt gofnodion o ddargyfeiriadau a rhesymau blaenorol
005. Opsiwn ar gyfer dargyfeirio defnyddwyr penodol dros dro:
  - Gwahardd mathau penodol o ddefnyddwyr rhag defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus diffiniedig (gan barhau i ganiatáu mathau eraill o fynediad) os ystyrir bod problem ar adegau penodol, e.e. cyfyngu cŵn yn ystod y tymor wyna / er mwyn gwarchod bywyd gwylt
  - Gofyniad i ddarparu llwybr amgen
006. Proses gwyno sy'n hwyluso proses fwy tryloyw [y byddai modd ei herio].
  - Ar gael i ddefnyddwyr / y cyhoedd
007. Rheoliadau i nodi gofynion ar gyfer hysbysiadau, gan gynnwys y canlynol:



- Dyddiad i'w nodi [dyddiad dechrau a gorffen]
- Cyfrifoldeb ar ddeiliad y tir o ran sicrhau bod hysbysiadau ar waith ac yn cael eu tynnu i lawr ar y dyddiad a nodwyd
- Sicrhau bod gweithdrefn orfodi'r awdurdod priffyrdd lleol yn ysgogi hyn, gan sicrhau na fyddai dargyfeiriadau ar waith yn hwy na'r angen

008. Cyfleu hysbysiadau:

- Dyletswydd ar dirfeddianwyr i hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol ar-lein
- Dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i gyfleu, drwy hysbysiad ar-lein i'r canlynol, [e.e.]:
  - a. Grwpiau defnyddwyr
  - b. Y cyhoedd
  - c. Eraill (fel y nodir)
- Deiliaid tir [dyletswydd arnynt i wneud y canlynol]:
  - a. [Gosod] hysbysiad(au) a chynllun(iau) ar y safle ni waeth hyd y cyfnod cau

009. Diwygio'r cod/codau mynediad a gweithgareddau hamdden cyfrifol awyr agored fel y bo'n briodol.

## Opsiwn 2B(ii): Dargyfeirio yn ôl cod mynediad statudol

### Opsiwn 2B(ii): Disgrifiad cryno

Byddai cod statudol mynediad awyr agored gorfodadwy newydd yn cynnwys darparu pwerau i ddeiliaid tir ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir penodol. Byddai'n rhaid i ddeiliaid tir hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol am ddargyfeiriadau a darparu llwybr amgen addas, gydag arwyddion a hysbysiadau cysylltiedig .

### Opsiwn 2B(ii): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2B(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Deddfwriaeth ar gyfer cod mynediad statudol gorfodadwy ['y cod'] i wneud yr opsiwn hwn yn bosibl (a fyddai ag elfennau gorfodol a chynghorol).
002. Diffinio (yn y canllawiau o fewn y cod) amgylchiadau dargyfeiriad(au) tymor byr, dros dro. Amgylchiadau wedi'u diffinio'n glir yn y cod i ddefnyddwyr/tirfeddianwyr/rheolwyr wneud dargyfeiriadau a therfynau i'w defnyddio, a rhesymau rheoli tir amaethyddol.
003. Diffinio llwybr amgen rhesymol:
- Darpariaeth ddiogel a rhesymol
  - Mynediad cyfatebol i lwybr presennol
  - Hysbysiadau, arwyddion
  - Atebolrwydd sy'n berthnasol
004. Cyfleu'r cod:
- Yr hyn i'w ddisgwyl yn y cod

- Cyfleu'r cod i bawb
  - Rhoi gwybodaeth am bob agwedd o'r broses i'r cyhoedd, rheolwyr mynediad a deiliaid tir
005. Datblygu cod mynediad statudol gorfodadwy – ar gyfer yr holl hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy / ar hawliau tramwy cyhoeddus.
006. Cod i ddiffinio manylion am derfynau i hyd a graddfa'r dargyfeiriadau dros dro.
007. Cyfleu dargyfeiriad dros dro:
- Templed arwyddion a hysbysiadau (i fod yn rhan o'r cod)
  - Presenoldeb neilltuedig ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer dargyfeiriadau
008. Proses gwyno drwy'r awdurdod priffyrdd lleol:
- Ar gyfer defnyddwyr sydd â chŵyn am ddargyfeiriadau tymor byr sy'n defnyddio'r weithdrefn hon
  - Darparu ar gyfer cyflwyno cosbau neu orchymyn ym mhroses y cod statudol gorfodadwy, neu eu cysylltu'n uniongyrchol â hi

## Opsiwn 2B(iii): Dargyfeirio dros dro ar gyfer gwaith

### Opsiwn 2B(iii): Disgrifiad cryno

Darparu mecanwaith statudol i awdurdodau priffyrdd lleol weithredu dargyfeiriadau tymor byr, dros dro i lwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir amaethyddol a choedwigaeth penodol. Byddai gan ddeiliaid tir yr hawl i wneud cais am ddargyfeiriadau o'r fath i lwybrau cyhoeddus ar eu tir, y byddai'n rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol eu cymeradwyo. Byddai'r deiliaid tir yn darparu llwybr amgen addas ac arwyddion ar y safle; câi'r cais ac unrhyw ddargyfeiriad cymeradwy, gyda mapiau, ei hysbysebu ar-lein. Byddai'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar Adran 135A o Ddeddf Priffyrdd 1980.

### Opsiwn 2B(iii): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 2B(iii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Diffinio [gan ddefnyddio cynigion deddfwriaethol drafft yn Lloegr] fersiwn newydd o Adran 135A o Ddeddf Priffyrdd 1980:
- Rhoddid pwerau newydd i awdurdodau priffyrdd lleol weithredu dargyfeiriadau dros dro am resymau rheoli tir penodol: gwaith [cysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth] a rheolaeth amaethyddol ar dda byw
  - Disgwylid i awdurdodau priffyrdd lleol benderfynu ar ddargyfeiriadau dros dro a'u gweithredu
  - Byddai gan ddargyfeiriadau a wnaed yn briodol statws hawl tramwy cyhoeddus dros dro, gyda phwerau cysylltiedig [ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol], hawliau a chyfrifoldebau
  - Cyfyngiadau o ran defnydd
  - Rheoliadau ar gyfer y broses

002. Pwerau rheoliadol i ddiffinio'r broses a meini prawf, gan gynnwys y canlynol:
- y ffurflen a'r camau ymgeisio
  - meini prawf asesu a phrosesu ceisiadau
  - meini prawf penderfynu (gan gynnwys asesu llwybrau amgen, e.e. effaith ar y rhwydwaith / teithiau ymlaen, iechyd a diogelwch, mynediad lleiaf rhwystrol ac ati)
  - ceisiadau ar-lein [a hysbysiadau – gweler isod] i'r awdurdod priffyrdd lleol
  - safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen (gan gynnwys cysylltedd, y math o hysbysiadau/arwyddion)
003. Darparu cyfnod rhybudd o 14 diwrnod cyn gwneud unrhyw waith. Byddai'n ofynnol rhoi hysbysiad ar-lein drwy wefan yr awdurdod priffyrdd lleol. Byddai awdurdodau priffyrdd lleol yn darparu hysbysiadau/arwyddion safonol, â'r dyddiad cychwyn/diwedd wedi'u nodi arnynt, i dirfeddianwyr neu reolwyr tir eu codi ar y safle.
004. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor fel rhan o ddiwygiadau a wnaed yn y cam dethol opsiwn]
005. Proses ymgeisio ar-lein i leihau'r amser gweinyddol ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol, gan gynnwys templedi/ffurflenni ar gyfer creu'r holl waith papur cyfreithiol angenrheidiol ar-lein. Hysbysu dargyfeiriadau ar-lein – lleihau costau hysbysebu.
006. Byddai gan yr hawliau tramwy cyhoeddus a ddargyfeiriwyd dros dro yr un rhwymedigaethau o safbwynt awdurdodau priffyrdd lleol a deiliaid tir.
007. Byddai'n ddyletswydd ar ddeiliad y tir i ddarparu llwybr amgen addas, gan gynnwys seilwaith, a chodi hysbysiadau ac arwyddion/ffensys dros dro (yn yr achosion o reoli stoc) er mwyn nodi'r dargyfeiriad. Byddai'n ddyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i ddarparu hysbysiadau ac arwyddion safonol awdurdodedig â dyddiadau wedi'u nodi arnynt i ddeiliaid y tir eu defnyddio, ac i bostio hysbysiadau gyda map o'r llwybr dan sylw ar wefan yr awdurdod priffyrdd lleol.
008. Byddai angen i ddarpariaethau ystyried hawliau beicio a marchogaeth posibl ar lwybrau troed (yn amodol ar ganlyniad cynigion Diwygiad 2A). Byddai deddfwriaeth galluogi â manylion y darperid drwy reoliadau yn fwy hyblyg ac yn haws ei hadolygu yn y dyfodol.
009. **[Newydd 009\*]** Gwybodaeth a chanllawiau am y darpariaethau newydd y darperid ar gyfer y cyhoedd, rheolwyr tir ac unrhyw un arall â buddiannau; gwybodaeth wedi'i chynnwys o fewn codau hamdden cyfrifol [*\*cafodd yr elfen hon ei hychwanegu yn y cam dethol opsiwn*].

## **Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig ar gyfer diwygio dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus**

Dylid ystyried yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn (gweler uchod, a gweler Atodiad A ar gyfer y tablau o elfennau allweddol yn eu cyfanrwydd).

### **Cwmpas Diwygiad 2B**

Yn y cam dethol opsiwn, roedd y grŵp arbenigol yn dal i fod o'r farn (ni waeth pa opsiwn a ddewiswyd) bod angen gwaith pellach o ran diffinio cwmpas y diwygiad ac er mwyn cael mwy o eglurder o fewn bwriad y polisi ynghylch y cydbwysedd i'w gyflawni rhwng

gweithredu dargyfeiriadau mewn modd cyflymach, haws a mwy hyblyg ar gyfer deiliaid tir, y cynnydd yn y beichiau ar awdurdodau lleol, a'r effeithiau ar hawliau mynediad y cyhoedd.

Roedd llawer o aelodau'r grŵp arbenigol hefyd o'r farn bod angen mwy o fanylder ynghylch yr hyn y gellid defnyddio cyfyngiadau Diwygiad 2B yn ei gylch. Er enghraifft:

- Y mathau o ddibenion/gweithgareddau amaethyddol, rheolaeth tir, neu eraill y gellid defnyddio dargyfeiriadau dros dro yn eu cylch
- Y mathau o deiliaid tir a allai wneud cais neu roi hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol ynghylch cyfyngiadau
- Hyd, graddfa ac amllder y cyfyngiadau

Mae mecanweithiau eisoes ar gael i awdurdodau priffyrdd lleol at ddibenion cyfyngu dros dro ar fynediad i lwybrau cyhoeddus. Defnyddir gorchmynion rheoleiddio traffig fel arfer, ond ychydig o ddefnydd a wneir o'r mecanwaith hwn. Dangosodd ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2017 y defnyddiwyd tua thri gorchmynion rheoleiddio traffig, ar gyfartaledd, ar hawliau tramwy fesul awdurdod priffyrdd lleol fesul blwyddyn. Nid oes unrhyw arwydd clir ynghylch y rhesymau dros y lefelau isel o orchmynion rheoleiddio traffig a weithredir ar hyn o bryd, e.e. p'un a yw hynny'n adlewyrchu cyfyngiadau'r prosesau presennol, neu'r galw cyfyngedig gan reolwyr tir ar gyfer cyfyngu ar fynediad i hawliau tramwy cyhoeddus. Dangosodd yr un ymchwil y gweithredir tua 37 o gamau gorfodi fesul awdurdod lleol fesul blwyddyn.

Nid oes llawer o dystiolaeth wedi dod i law yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad ynghylch pa elfennau o'r prosesau cyfyngu cyfredol sy'n eu gwneud yn aneffeithlon, anhyblyg a chostus – ac felly sut y gallai cynigion Diwygiad 2B fynd i'r afael â'r materion hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. (Heblaw'r eithriad o symud i hysbysebu a rhoi hysbysiadau ar-lein – gweler yr adran 'Darparu gwybodaeth' isod am ragor o fanylion.)

Mae opsiynau Diwygiad 2B yn cynnwys rhywfaint o gyfyngiadau ar gwmpas y pwerau arfaethedig. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a sector y defnyddwyr hamdden, yn enwedig, yn cefnogi'r cyfyngiad yn y diwygiad ar weithredu dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus (nid eu cau) (gan ei gwneud yn ofynnol bob amser darparu llwybrau amgen). Yn ogystal, cefnogwyd y syniad y dylai pwerau'r diwygiad ond fod yn berthnasol i lwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau cyhoeddus, ac nid hawliau tramwy cyhoeddus cerbydol.

Fodd bynnag, mae angen i gwmpas Diwygiad 2B fod yn fwy eglur ynghylch y mathau o brosesau cau neu ddargyfeirio y byddai'r darpariaethau newydd hyn yn eu cwmpasu, a pha gyfyngiadau ddylai barhau i'w gwneud yn ofynnol ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, megis y rheiny ar gyfer gorchmynion rheoleiddio traffig sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus.

Nodir hefyd bod y prosesau cyfyngu cyfatebol ar gyfer y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn defnyddio egwyddor 'mynediad lleiaf rhwystrol' wrth ystyried gweithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau ar hawliau'r cyhoedd, a gallai hyn fod yn egwyddor arweiniol i'w defnyddio yn achos dargyfeiriadau dros dro o dan Ddiwygiad 2B.

Dylid nodi bod dull gweithredu Opsiwn 2B(ii) yn ddibynnol ar b'un a fydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu datblygu cod mynediad awyr agored statudol gorfodadwy newydd ymhellach, o safbwynt diffinio llawer o'r elfennau allweddol y byddai'r opsiwn yn dibynnu arnynt. Byddai angen penderfynu ar Opsiwn 2B(ii) felly, a'i ddatblygu, ar y cyd â chynigion ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol. Byddai angen sicrhau bod y ddeddfwriaeth danategol, a'r cod mynediad ei hun, wedi'u drafftio a'u gweithredu'n dda er mwyn darparu'r sylfeini angenrheidiol.

Pan fydd manylion Diwygiad 2B wedi'u datblygu ymhellach, dylid ymgynghori â buddiannau yn y sector yn ôl eu dymuniad.

**Argymhelliad:** Mae angen sicrhau bod bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2B yn egluro'r cydbwysedd a ddymunir rhwng cyflwyno prosesau hyblyg ac effeithlon er mwyn helpu deiliaid tir i reoli eu tir yn well, a chynyddu'r beichiau ar y sector cyhoeddus a chael effaith ar ddefnydd y cyhoedd o hawliau tramwy cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad:** Dylid defnyddio egwyddor 'mynediad lleiaf rhwystrol' fel rhan o Ddiwygiad 2B, yn yr un modd â gwaharddiadau a chyfyngiadau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

**Argymhelliad:** Wrth ddatblygu Diwygiad 2B, dylid gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio'r pwerau i weithredu dargyfeiriadau dros dro. Dylai'r diwygiad ond darparu ar gyfer cau llwybrau dros dro lle mae'n ofynnol darparu llwybr amgen/dargyfeiriad.

**Argymhelliad:** Er mwyn symud Opsiwn 2B(ii) yn ei flaen, byddai angen hefyd datblygu cod mynediad statudol gorfodadwy, y byddai deddfwriaeth ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn ei danategu.

## **Rhoi hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro neu wneud ceisiadau yn eu cylch**

Fel rhan o'r broses o weithredu dargyfeiriad dros dro, byddai pob un o opsiynau Diwygiad 2B yn ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiadau / gwneud ceisiadau a fyddai'n cynnwys gwybodaeth ddigonol am y dargyfeiriad arfaethedig (ei ddiben, ei hyd ac ati), a'r llwybr amgen a ddarperid. Byddai angen i'r wybodaeth ofynnol a chyfnod rhybudd yr hysbysiad sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau deiliaid tir, awdurdodau priffyrdd lleol, unrhyw un arall â buddiant yn y tir, a hawliau'r cyhoedd.

O safbwynt pob un o opsiynau Diwygiad 2B (gan dybio bod y cais neu'r hysbysiad yn gywir), byddai'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol ddarparu hysbysiadau ar-lein ar gyfer y cyhoedd ac unrhyw un arall â buddiant. Byddai deiliaid tir yn darparu hysbysiadau safonol gofynnol ar y safle.

Ni waeth pa opsiwn a ddatblygir ymhellach, byddai angen ystyried y manylion gofynnol ar gyfer rhoi hysbysiadau / cyflwyno ceisiadau, ynghyd â'r broses gysylltiedig. Er enghraifft, yng nghynigion Grŵp Arbenigol 2 ar gyfer Opsiwn 2B(iii), awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol rhoi 14 diwrnod o rybudd cyn dechrau gwaith. Fodd bynnag, nid oedd cynrychiolwyr y sectorau â buddiant wedi cytuno ar yr hyn a olygir gan gyfnod rhybudd rhesymol. Arweiniodd trafodaethau'r grŵp arbenigol hefyd at yr awgrym y gallai Opsiwn 2B(iii) gynnwys proses hysbysu dau gam gyda chymeradwyaeth amlinellol (cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer dargyfeiriad o fewn cyfnod â dyddiadau penodol), wedi'i dilyn gan gyfnod rhybudd byrrach ar gyfer cadarnhau union ddyddiadau'r dargyfeiriad. Barnwyd y byddai hon yn ffordd bosibl o ddiwallu anghenion rheolwyr tir yn well o ran cael proses fwy ymatebol, e.e. ar gyfer gweithrediadau sy'n ddibynol ar y tywydd.

Byddai Opsiwn 2B(i) yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru tir y deiliaid tir er mwyn eu gwneud yn gymwys ar gyfer defnyddio hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro. Nododd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol fod hyn yn rhoi rhywfaint o gysur iddynt ynghylch eu pryderon am broses sy'n seiliedig ar hysbysiadau yn unig. Fodd bynnag, er ei fod yn gysur, byddai'r gwaith o gofrestru daliadau tir yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddilysu'r manylion a chynnal cofrestr, a byddai proses o'r fath yn cyflwyno lefel o firocratiaeth ar gyfer awdurdodau a deiliaid tir fel ei gilydd.



Byddai Opsiwn 2B(ii) yn ei gwneud yn ofynnol datblygu llawer o'r manylion fel rhan o god mynediad statudol gorfodadwy – os datblygir cod ymhellach fel rhan o'r diwygiadau i fynediad – ac i ddeddfwriaeth sylfaenol eu tanategu.

Byddai Opsiwn 2B(iii) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cais am ddargyfeiriad dros dro i'r awdurdod priffyrdd lleol – er y byddai'r wybodaeth ofynnol yn debygol o fod yn debyg i'r hyn a roddir ar gyfer hysbysiadau a anfonir at awdurdodau. Oherwydd bod Opsiwn 2B(iii) yn seiliedig ar Adran 135A o'r Ddeddf Priffyrdd, yr opsiwn hwn sydd â'r lefel uchaf o fanylder, a gallai hynny helpu i lywio'r prosesau o fewn unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B.

Nododd aelodau'r grŵp arbenigol mai'r awdurdodau lleol fyddai yn y sefyllfa orau i lunio mapiau o'r llwybr[au] ar gyfer yr arwyddion ar y safle ac ar-lein.

**Argymhelliad:** O safbwynt yr opsiwn diwygio a ddatblygir ymhellach, bydd angen datblygu darpariaethau manwl ynghylch gofynion hysbysiadau a gwybodaeth gysylltiedig, gan gydbwysu anghenion y buddiannau gwahanol.

## Darparu llwybrau amgen

Er mwyn sicrhau na cheir lleihad sylweddol yn y llwybrau a rhwydweithiau mynediad cyhoeddus, dylid darparu llwybrau amgen i gyd-fynd ag unrhyw gyfyngiadau dros dro, h.y. ni ddylid darparu ar gyfer cau llwybrau o dan y ddeddfwriaeth ddiwygio hon. Ym mhob un o gynigion opsiynau Diwygiad 2B, byddai'n ddyletswydd ar ddeiliaid tir i ddarparu'r llwybr(au) amgen a chodi'r hysbysiadau ac arwyddion cysylltiedig ar y safle. Cafwyd cefnogaeth ar draws y grŵp arbenigol am y cynnig y dylai'r llwybrau amgen fod o'r un safon o leiaf â'r hawl dramwy gyhoeddus a ddargyfeirir.

Mae'n hanfodol felly fod yr opsiynau diwygio'n darparu (e.e. drwy reoliadau) safonau diffiniedig ar gyfer pennu llwybrau amgen, megis aliniad y llwybr, safonau ffisegol, yr hawliau sy'n weithredol, a hygyrchedd; dylent hefyd amlinellu'r gofynion ar gyfer hysbysiadau ac arwyddion. Bydd angen i'r safonau atgyfnerthu gofynion cyfartaledd. Byddai angen sicrhau bod meini prawf yn eu lle y gall yr awdurdodau priffyrdd lleol eu defnyddio i benderfynu ar addasrwydd llwybr amgen, ac ar gyfer achosion lle bo awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol gwneud newidiadau i'r llwybr neu ddiddymu'r dargyfeiriad ac adfer llwybr yr hawl dramwy gyhoeddus wreiddiol.

Roedd prosesau syml, cyflym a hawdd yn bwysig i gynrychiolwyr y sector rheoli tir, a barnwyd y byddai'r prosesau sy'n seiliedig ar hysbysiadau a gynigir yn Opsiwn 2B(i) ac Opsiwn 2B(ii) yn cyflawni hynny. Fodd bynnag, cododd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a'r defnyddwyr hamdden bryder ynghylch y ffaith fod diffyg gofyniad, yng nghynigion Opsiwn 2B(i) ac 2B(ii), i archwilio a chymeradwyo'r llwybrau amgen a ddarperir – yn enwedig yn achos Opsiwn 2B(ii). Roedd hi'n well gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol pe ddarperid mesurau diogelu drwy naill ai cofrestru deiliaid tir (Opsiwn 2B(i)) neu ofyniad i gyflwyno ceisiadau i awdurdodau priffyrdd lleol ac i gael cymeradwyaeth ganddynt (Opsiwn 2B(iii)). Yn gyffredinol, teimlodd aelodau'r grŵp arbenigol y byddai angen sicrhau bod mecanweithiau gorfodi a gweithdrefnau cwyno effeithiol yn eu lle er mwyn rheoli dulliau gweithredu Opsiwn 2B(i) ac Opsiwn 2B(ii) yn benodol (gweler yr adran isod am ragor o fanylion am faterion gorfodi). Cafwyd cefnogaeth gref gan gynrychiolwyr y sector rheoli tir am y lefel o hyblygrwydd o ran dargyfeirio llwybrau y byddai dull y cod statudol a gynigir yn Opsiwn 2B(ii) yn ei darparu.

**Argymhelliad:** Dylai Diwygiad 2B gynnwys rheoliadau ar gyfer gosod safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen a hysbysiadau ac arwyddion cysylltiedig, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau cydraddoldeb.



## Costau ac adnoddau

Bydd angen i unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B ddwyn budd cyffredinol i ddeiliaid tir o safbwynt darparu prosesau cyflym, hyblyg ac effeithlon iddynt eu defnyddio ar gyfer rheoli'r tir yn erbyn anfanteision gweithdrefnau mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, yn sgil y ffaith mai defnydd bach iawn a wneir o gyfyngiadau ar hawliau tramwy cyhoeddus ar draws awdurdodau lleol Cymru ar hyn o bryd (gweler yr adran 'Cwmpas Diwygiad 2B' uchod), gellir disgwyl y bydd pob un o opsiynau arfaethedig Diwygiad 2B yn arwain at gynyddu beichiau ar awdurdodau priffyrdd lleol, ac, yn amodol ar gwmpas y darpariaethau'r a'r ffordd y cawsent eu defnyddio gan ddeiliaid tir, byddant yn cael effaith ar fynediad y cyhoedd i hawliau tramwy cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli – er i raddfa sy'n anodd ei rhagweld.

Wrth ddatblygu Diwygiad 2B, bydd angen dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng y cynnydd mewn gofynion ar adnoddau'r sector cyhoeddus a'r effeithiau ar hawliau mynediad y cyhoedd, a sicrhau proses ddefnyddiadwy ar gyfer deiliaid tir.

Mae'r beichiau presennol (a ategir gan dystiolaeth) yn dangos bod gallu awdurdodau priffyrdd lleol i brosesu gorchmynion llwybrau cyhoeddus a gorchmynion rheoleiddio traffig cyffredol ar hawliau tramwy cyhoeddus yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, i fod yn realistig, ni fydd modd asesu'r gofynion ychwanegol ar adnoddau sy'n deillio o opsiynau arfaethedig Diwygiad 2B nes y bydd y cynigion wedi'u datblygu'n fanylach. Mae'r dystiolaeth yn dangos mai bach iawn o ddefnydd a wneir o gyfyngiadau ar hawliau tramwy cyhoeddus ar hyn o bryd, sy'n awgrymu y byddai'r costau gweinyddol cyffredinol i awdurdodau lleol yn cynyddu wrth i ddefnydd o broses newydd gynyddu. Byddai'r gofynion am orfodi gan awdurdodau lleol yn cynyddu hefyd (gweler yr adran isod). Er mwyn gweithredu'r darpariaethau'n briodol, byddai angen darparu ar gyfer y gofynion ychwanegol ar adnoddau a ddeilliai o'r diwygiad, a hynny ar ôl eu hasesu.

Nododd cynrychiolwyr y sector rheoli tir yn y grŵp arbenigol y byddai angen i unrhyw opsiynau diwygio o dan Ddiwygiad 2B fod yn gydnaws â gofynion rheoliadol eraill ar ffermwyr. Ym mis Mawrth 2021, nododd Arolygiaeth Wledig Cymru i CNC mai nifer fach o achosion y mae wedi'u profi hyd yn hyn lle nad yw ffermwyr wedi cyflawni safonau rheoliadol oherwydd materion sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus.

**Argymhelliad:** Dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau i adnoddau a chostau pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu.

## Darparu gwybodaeth am ddargyfeiriadau dros dro

Mae pob un o opsiynau Diwygiad 2B yn cydnabod y bydd yn bwysig bod y diwygiad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad.

Mae pob un o opsiynau Diwygiad 2B yn cynnig cynnal ymgyrch hysbysrwydd i gefnogi ymwybyddiaeth o unrhyw ddiwygiad a gyflwynir a'r dull o'i weithredu. Barnodd aelodau'r grŵp arbenigol fod hyn yn hanfodol, a hynny er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r darpariaethau a'u bod yn cael eu defnyddio'n gywir (e.e. arweiniad i awdurdodau lleol a rheolwyr tir), fel bod y bobl sy'n defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yn gwybod yr hyn i'w ddisgwyl.

Cafwyd cefnogaeth gref hefyd, ar draws y sectorau, am ddefnyddio gweithdrefnau ar-lein ar gyfer Diwygiad 2B, yn enwedig hysbysiadau a hysbysebion ar-lein. O blith y dystiolaeth dros gefnogi darpariaeth o'r fath, cyfeiriwyd at yr arbedion o beidio â gorfod hysbysebu mewn papur

newydd, a'r llwyddiant diweddar o ddarparu rhestrau o gyfyngiadau ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hawliau tramwy cyhoeddus yn sgil COVID-19 – a nodwyd y dylai fod yn ofynnol cyflwyno mapiau ar-lein ar gyfer y llwybrau y ceid effaith arnynt i gyd-fynd â chyfyngiadau. Byddai awdurdodau priffyrdd lleol yn darparu hysbysiadau ac arwyddion safonol â dyddiadau wedi'u nodi arnynt i ddeiliaid tir eu gosod ar unrhyw safle â dargyfeiriadau gweithredol.

Byddai angen sicrhau bod yr wybodaeth ar-lein yn hygyrch ac y rhoddid cyhoeddusrwydd iddi er mwyn hybu defnydd y cyhoedd o hawliau tramwy cyhoeddus, ac er budd unrhyw un â diddordeb yn y broses a'r hawliau tramwy cyhoeddus mewn ardal, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a fyddai am herio dargyfeiriadau arfaethedig neu weithredol, neu ddargyfeiriadau sydd wedi dod i ben.

Yn ogystal â gwefannau'r awdurdodau priffyrdd lleol, gellid hefyd gynnwys gwybodaeth ar-lein allweddol am ddargyfeiriadau dros dro ar fap digidol o fynediad cyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan (gweler Diwygiad 3A am fanylion y cynigion).

**Argymhelliad:** Dylai Diwygiad 2B ei gwneud yn bosibl darparu gweithdrefnau digidol, ar-lein - gan gynnwys hysbysebion, hysbysiadau/ceisiadau a mapiau fel y bo'n briodol. Byddai angen sicrhau bod ychydig o weithdrefnau all-lein ar gael o hyd ar gyfer y bobl hynny na allant ddefnyddio TGCh am unrhyw reswm.

**Argymhelliad:** Dylai Diwygiad 2B gynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r dull o'i gweithredu.

## **Atebolrwydd am llwybrau amgen a ddarperir**

Mae cyfrifoldebau deiliaid tir ac awdurdodau priffyrdd lleol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u deall yn dda. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau Grŵp Arbenigol 2, bu llawer o ansicrwydd ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am yr atebolrwydd amrywiol ar gyfer y llwybrau amgen y byddai'n rhaid i ddeiliaid tir eu darparu fel rhan o'r broses ddargyfeirio arfaethedig yn opsiynau Diwygiad 2B.

Roedd cynrychiolwyr y sector rheoli tir yn ffafrio sefyllfa lle byddai'r atebolrwydd ar gyfer y llwybr amgen yr un peth â'r hawl dramwy gyhoeddus ddiffiniedig. Nododd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol na fyddai'n rhesymol disgwyl iddynt dderbyn (ni waeth pa opsiwn diwygio a ddewiswyd) yr un risgiau a beichiau mewn perthynas â llwybrau amgen y byddai deiliaid tir yn eu darparu ag sy'n perthyn i hawliau tramwy cyhoeddus – yn enwedig pan fo'r dargyfeiriad yn fwy manteisiol i ddeiliad tir nag ydyw i'r awdurdod priffyrdd lleol neu o safbwynt mynediad cyhoeddus. Yn ogystal, ac mewn gwirionedd, mae'n bosibl na fyddai awdurdod priffyrdd lleol yn cytuno bod llwybr amgen, nad oedd wedi'i archwilio'n flaenorol, a ddarperid gan ddeiliad tir yn bodloni'r safonau a bennir yn y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae'n bosibl na fyddai dim i rwystro atebolrwydd am faterion fel diogelwch defnyddwyr ar y llwybr amgen rhag dod yn ddadleuol, e.e. os cyflwynwyd hawliad yn erbyn un parti neu'r llall gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi'i anafu wrth ddefnyddio'r llwybr amgen.

Yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol ar gyfer dethol opsiwn Diwygiad 2B, nodwyd ei bod yn angenrheidiol gan ddeiliaid tir fod y diwygiad hwn yn darparu proses gyflym, hawdd a hyblyg ar gyfer gweithredu dargyfeiriadau er mwyn iddo fod o werth iddynt. I'r perwyl hwnnw, nodwyd y byddai rheolwyr tir yn fodlon ystyried ysgwyddo'r atebolrwydd am y llwybr amgen er mwyn symud y diwygiad yn ei flaen – safbwynt a gafodd ei groesawu mewn sylwadau gan ddefnyddwyr hamdden. Ceid budd i'r deiliaid tir o hyd yn sgil y gofyniad i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio llwybr amgen yn hytrach na'r hawl dramwy

gyhoeddus wreiddiol – sy'n ofyniad nad yw'n bosibl pan fo deiliaid tir yn darparu llwybrau amgen drwy ganiatâd (yn wirfoddol, hynny yw).

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol pellach ynghylch llwybrau amgen a ddarperir. Yn amodol ar y cyngor cyfreithiol hwnnw a thrafodaethau â rhanddeiliaid, dylai deiliaid tir fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd sy'n deillio o ddarparu llwybrau amgen.

## Monitro a gorfodi opsiynau Diwygiad 2B

Mae Opsiwn 2B(i) ac Opsiwn 2B(ii) yn cynnig gweithredu dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus at ddibenion penodol drwy broses lle mae deiliad y tir yn rhoi hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol. Ni fyddai angen i'r awdurdod priffyrdd lleol archwilio'r llwybr amgen ymlaen llaw, ac ni fyddai angen cael cymeradwyaeth ar gyfer y dargyfeiriad.

Felly byddai proses drwy hysbysiad yn cynnig ffordd gyflymach, haws a mwy hyblyg i reolwyr tir ddargyfeirio hawl dramwy gyhoeddus dros dro.

Mae'n anodd pennu pa mor fanteisiol y byddai hyn o safbwynt mynediad cyhoeddus (e.e. o ran osgoi da byw), a/neu anfanteisiol (llai o eglurder a llai o sicrwydd o gael mynediad). Gan dybio y dylai deiliaid tir gyflawni'u cyfrifoldebau presennol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, ychydig o fudd a geid o ganlyniad i weithredu unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B o safbwynt diogelwch y cyhoedd wrth ddefnyddio hawliau tramwy.

O'u cymharu â phroses lle mae awdurdod priffyrdd lleol yn rhoi ei gymeradwyaeth (fel yn Opsiwn 2B(iii)), yn achos y prosesau drwy hysbysiad a gynigir yn Opsiwn 2B(i) ac Opsiwn 2B(ii), mae'n debygol y bydd mwy o berygl y câi'r pwerau eu camddefnyddio yn absenoldeb unrhyw waith monitro neu gamau gorfodi. Byddai'r gwaith o ddatrys problemau a ddeuai i sylw awdurdod priffyrdd lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau gorfodi. Oherwydd y ffaith mai nifer fach o gyfyngiadau a geir ar hawliau tramwy cyhoeddus, ac mai ychydig o ddefnydd a wneir o weithdrefnau gorfodi ar draws yr awdurdodau priffyrdd lleol ar hyn o bryd, gallent ddisgwyl cynnydd yn y gofynion arnynt o ran monitro a gorfodi.

Cafwyd cytundeb eang y byddai gweithdrefnau cwyno ar gyfer pob un o'r tri opsiwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallai aelodau o'r cyhoedd godi pryderon, ac er mwyn cynnig cam gwirio ychwanegol yn erbyn y posibilrwydd o gamddefnyddio'r pwerau arfaethedig ar gyfer gweithredu dargyfeiriadau dros dro.

O safbwynt Opsiwn 2B(iii), byddai angen mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a godai mewn perthynas â llwybrau amgen wedi i'r awdurdodau eu cymeradwyo drwy fecanweithiau gorfodi a chwyno a ddarperid.

Byddai angen i'r awdurdodau priffyrdd lleol ysgwyddo costau ychwanegol er mwyn eu galluogi i fonitro a gorfodi darpariaethau Diwygiad 2B. Câi'r risgiau a ddeilliai o broses hysbysiadau eu lliniaru i raddau helaeth yn Opsiwn 2B(i) drwy'r gofyniad i ddeiliaid tir ymgofrestru er mwyn defnyddio hysbysiadau, a'u lliniaru ymhellach yn Opsiwn 2B(iii) drwy'r gofyniad i awdurdodau gymeradwyo dargyfeiriadau ymlaen llaw. Yn achos Opsiwn 2B(ii), byddai graddau'r mesurau lliniaru yn erbyn y risg o gamddefnydd yn ddibynnol ar weithdrefnau gorfodi a chwyno.

Yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol, nodwyd y byddai cymryd camau gorfodi'n debygol o fod yn anodd ac yn gynhennus ac y byddai potensial o ddefnydd dwys ar adnoddau. Mae canfyddiadau ymchwil gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2017 yn ategu'r safbwynt hwn fod nifer y camau gorfodi a gymerwyd gan awdurdodau lleol yn flynyddol yn isel iawn ledled awdurdodau yng Nghymru. Pe gweithredwyd y lefelau gorfodi diweddar mewn perthynas â materion a ddeilliai o bwerau newydd yn sgil cyflwyno Diwygiad 2B,



mae'n debyg mai prin yr eid i'r afael â materion drwy ymyriadau gan awdurdodau lleol. Byddai angen ar awdurdodau priffyrdd lleol gael adnoddau ychwanegol er mwyn diwallu'r gofynion ychwanegol ar eu gwasanaethau.

O safbwynt pob un o'r opsiynau, gwneid darpariaeth ar gyfer lefel ac amrediad digonol o gosbau er mwyn ymdrin ag achosion o gamddefnyddio'r pwerau. Yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol, nodwyd awgrym y dylid rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig lle ceid achosion o fynd yn groes i ddarpariaethau, e.e. os byddai dargyfeiriad yn parhau am gyfnod hwy na'r hyn a awdurdodwyd.

Argymhelliad: Rhaid sicrhau y ceir darpariaeth i awdurdodau priffyrdd lleol orfodi unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B, a bod gwneud hynny'n realistig, er mwyn iddo fod yn ymarferol. Dylid sicrhau bod proses gwyno ar gael i'r cyhoedd, a bod awdurdodau lleol yn ei rheoli.

## Dulliau deddfwriaethol posibl y gellid eu dilyn

Awgrymwyd sawl model deddfwriaethol ar gyfer datblygu darpariaethau manylach yn ystod proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad ar gyfer Diwygiad 2B.

Byddai diwygiad tebyg i Adran 135A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu canllaw deddfwriaethol ar gyfer elfennau allweddol o gynigion ar gyfer dull gweithredu Opsiwn 2B(i), a dyma fyddai sail Opsiwn 2B(iii) hefyd. Fodd bynnag, ni chafodd Adran 135A ei deddfu yng Nghymru na Lloegr, ac felly nid yw wedi gweithredu'n mewn gwirionedd. Yn Lloegr, hyd yn hyn, nid yw cynigion i ddatblygu Adran 135A ymhellach wedi derbyn cefnogaeth draws-sector.

Un o fanteision Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yw bod y pwerau eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfyngu ar fynediad ar hawliau tramwy cyhoeddus. Cafwyd awgrym mewn perthynas ag addasu a symleiddio pwerau gorchmynion rheoleiddio traffig eraill yn y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd, fel Adran 22 ac Adran 22A, yn hytrach na chreu deddfwriaeth newydd.

Os bwriedir i ddeiliaid tir fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd sy'n gysylltiedig â llwybrau amgen, nododd nifer o randdeiliaid y posibilrwydd o wneud mwy o ddefnydd o lwybrau caniaatol fel opsiynau eraill heblaw hawliau tramwy cyhoeddus, a mantais hynny byddai'r ffaith na fyddai prosesau cyfreithiol ynghlwm wrthynt. Roedd yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys arferion yr awdurdodau eu hunain, treialau lle gweithredwyd llwybrau caniaatol yn ne-orllewin Lloegr, a'r defnydd o lwybrau caniaatol yn ystod cyfyngiadau COVID-19 yn hytrach na chau llwybrau'n ffurfiol.

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno Diwygiad 2B drwy addasu a gwella'r pwerau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cyfyngu ar hawliau tramwy cyhoeddus.

## Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 2B a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 2 gan bedwar aelod yr un. Mynychodd 11 allan o 12 o aelodau'r grŵp y gweithdy er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau diwygiedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi hyd at ddau opsiwn a ffafriwyd ganddo. Roedd yr aelod nad oedd wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiwn a



ffafriwyd ganddo drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl dethol hyd at 24 o opsiynau a ffafir.

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.

Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafriwyd mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl bod yr opsiynau a ffafir a nodwyd gan bob aelod yn awgrymu ei fod yn cefnogi bwriad y polisi, neu'r gwrthwyneb.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm).

**Tabl 4: Opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 2B**

| Opsiwn  | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm (n = 24) |
|---------|--------------------|--------------|--------------------|-------------------|
| 2B(i)   | 4                  | 0            | 1                  | 5                 |
| 2B(ii)  | 0                  | 6            | 0                  | 6                 |
| 2B(iii) | 4                  | 2            | 7                  | 13                |

Yn ôl nifer yr opsiynau a ffafir a nodwyd, Opsiwn Diwygio 2B(iii) a ffafriwyd fwyaf gan aelodau'r grŵp arbenigol. Fodd bynnag, bu hollt fawr rhwng sectorau gwahanol o ran yr opsiynau diwygio gwahanol. Roedd cynrychiolwyr y sector rheoli tir yn tueddu i ffafrio'r syniad o allu rhoi hysbysiadau am ddargyfeiriadau yn gyflymach, yn haws, ac mewn modd mwy hyblyg. Roedd cynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden yn hoff o'r craffu a'r gymeradwyaeth ymlaen llaw a gynigir yn Opsiwn 2B(iii), yr oeddent wedi'i ffafrio'n gryf. Ffafriodd cynrychiolwyr y sector cyhoeddus yr opsiynau a oedd yn cynnwys rhywfaint o sicrwydd, a ddeuai o'r gofyniad yng nghynigion Opsiwn 2B(i) i ddeiliaid tir gofrestru er mwyn gallu defnyddio hysbysiadau ar gyfer dargyfeiriadau dros dro, neu'r gofynion yn Opsiwn 2B(ii) o ran cyflwyno ceisiadau a'u cymeradwyo.

O safbwynt Opsiwn 2B(iii), nododd un o gynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden ei fod wedi nodi'i ffafriaeth am yr opsiwn hwn ar yr amod y glynid wrth broses ymgeisio a chymeradwyo briodol, y câi taliadau eu codi ar ymgeiswyr a fyddai'n adlewyrchu'r gost gyhoeddus wirioneddol, y ceid cyhoedduswydd digonol ar gyfer dargyfeiriadau a gymeradwyir, y câi awdurdodau priffyrdd lleol eu galluogi i wrthod cais yn ôl eu disgrisiwn, ac y ceid pwerau i orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. (Byddai angen ystyried materion ynghylch taliadau a hysbysiadau cosb benodedig ymhellach wrth ddatblygu'r diwygiad oherwydd eu bod wedi codi yn y cam dethol opsiwn, ac ni fuont yn destun craffu ynghynt na hynny.)

O safbwynt Diwygiad 2B, nododd rai o'r sylwadau a rannwyd yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol ei bod yn anodd bodloni dymuniadau tiffeddianwyr (yn nodedig o ran sicrhau system gyflym, hyblyg a llai beichus ar gyfer dargyfeiriadau dros dro) wrth ddiogelu hawliau defnyddwyr a sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr amser a'r adnoddau i benderfynu ar hysbysiadau neu geisiadau am ddargyfeiriadau dros dro.

Cyfeiriodd y sylwadau hefyd at y ffaith y byddai Opsiwn 2B(ii) yn cynnig mwy o ryddid i dirfeddianwyr ddargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro gyda'r lefel leiaf o graffu gan yr awdurdod priffyrdd lleol. Roedd cynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yn arbennig o anghyfforddus ynghylch Opsiwn 2B(ii).



Teimlwyd bod hyn yn codi llawer o gwestiynau nad oedd wedi'u hateb ynglŷn â sut y gellid gweithredu opsiwn o'r fath mewn gwirionedd, ynghyd â'r ffaith y byddai'n ddibynnol ar ddatblygu cod mynediad statudol gorfodadwy.

Cododd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol oblygiadau cost y diwygiadau fel pryder penodol, a nodwyd ganddynt y byddai angen i awdurdodau reoleiddio a monitro'r broses er mwyn sicrhau na châi ansawdd mynediad cyhoeddus ei niweidio – a byddai'r gwaith hwn yn cymryd amser ac adnoddau i'r awdurdodau lleol ei gyflawni.

Nododd un o'r awgrymiadau a wnaed gan y grŵp arbenigol yn y cam dethol opsiwn y dylid codi taliadau fel rhan o ddarpariaethau'r diwygiad.

Nododd nifer o sylwadau o bob sector eu bod am gael sicrwydd yr ymgynghorir â nhw'n pan fydd manylion Diwygiad 2B wedi'u datblygu ymhellach.

**Argymhelliad:** Dylai ymgynghori â thrawstoriad o randdeiliaid ymhellach fod yn rhan o waith datblygu manylion pellach Diwygiad 2B.



## Diwygiad 3A: Cyfleu hawliau mynediad

### Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3A

Cyflwyno system fwy integredig y mae modd ei diweddarau ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol ac ar gyfer ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a darparu mapiau cynhwysfawr a hawdd eu defnyddio gan y cyhoedd.

### Opsiynau Diwygiad 3A ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 3A: Teitl y cynnig opsiwn  | Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn   |
|--|---|
| <p>i. Map digidol o fynediad cyhoeddus</p>   | <p>Datblygu a choladu data er mwyn llunio a chyhoeddi un map digidol ar gyfer mynediad cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall; nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol).</p> <p>Caiff ei reoli gan gorff statudol unigol a fydd yn gweithio gyda'r darparwyr data sy'n gyfrifol am gofnodion mynediad yn eu hardaloedd, a bydd y corff yn dibynnu ar y darparwyr hyn.</p>   |
| <p>ii. Map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus</p>  | <p>Datblygu a choladu data i lunio a chyhoeddi un map digidol <b>diffiniol</b> ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol yng Nghymru.</p> <p>Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall. Y map diffiniol digidol <b>fydd y cofnod diffiniol cyfreithiol</b> ar gyfer yr hawliau mynediad statudol sydd wedi'u cynnwys ynddo.</p> <p>Caiff ei reoli gan gorff statudol unigol a fydd yn gweithio gyda darparwyr data sy'n gyfrifol am gofnodion mynediad yn eu hardaloedd, a bydd y corff yn dibynnu ar y darparwyr hyn. Caiff y dyletswyddau presennol ar gyfer creu a rheoli'r cofnod eu cadw'n lleol.</p>   |
| <p>iii. Map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector</p> | <p>Datblygu a choladu data i lunio a chyhoeddi un map digidol ar gyfer mynediad cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y map yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall; nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol).</p> <p>Caiff ei reoli gan un corff/ymddiriedolaeth statudol nid-er-elw a sefydlwyd gyda'r nod o: 'annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored mewn modd cyfrifol ac i sicrhau llesiant a buddion amgylcheddol ac economaidd ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru a'i hymwelwyr'.</p> <p>Bydd y corff/ymddiriedolaeth statudol nid-er-elw yn gweithio gyda darparwyr data a fydd yn gyfrifol am gofnodion mynediad yn eu hardaloedd, a bydd y corff/ymddiriedolaeth yn dibynnu ar y darparwyr hyn.</p> |

## Opsiwn 3A(i): Map digidol o fynediad cyhoeddus

### Opsiwn 3A(i): Disgrifiad cryno

Rheoli data digidol a mapiau drwy gorff statudol unigol lle bydd y darparwyr data unigol yn gyfrifol am y data, ond lle caiff y wybodaeth ei choladu i un map digidol i'r cyhoedd ei weld. Nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol) ond bydd yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

### Opsiwn 3A(i): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3A(i) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Câi deddfwriaeth ei chyflwyno i wneud y canlynol:

- Diffinio cyfrifoldeb corff unigol dros lunio a chyhoeddi data ar-lein a map(iau) o fynediad cyhoeddus penodedig yng Nghymru
- Byddai pob corff cyhoeddus [fel ar hyn o bryd] yn gyfrifol am ei gofnodion mynediad cyhoeddus ei hun, h.y. awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, CNC [gellid nodi rhai eraill]
- Byddai'n ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio'u cofnodion mewn fformat gofodol digidol addas, a'u darparu i gorff unigol
- Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru gan Lywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol
- Nodi adnoddau i dalu am y gost o greu data gofodol digidol yn unol â sgema penodol ac i safon gyson
- Yr haenau data i'w cynnwys ar un map a phorth data: hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, a thir comin hygyrch
- Pwerau ar gyfer cynnwys data mynediad hamdden arall yn y map ac ymrwymo i gytundebau ar gyfer darparu data [e.e. y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol; llwybrau hamdden a hyrwyddir; data am gelfi mynediad]

002. Deddfwriaeth ar gyfer pennu y dylai data gofodol perthnasol fod ar gael ar sail ffynhonnell agored a'i fod yn rhydd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, ac yn rhydd i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol ac anfasnachol [o fewn telerau ac amodau sylfaenol].

Casglu data ynghyd fel un ffynhonnell.

003. Pwerau rheoleiddio ar gyfer pennu safonau data mynediad Cymru a phrosesau angenrheidiol eraill.

Rhaid i'r rhain gynnwys manylion o ran beth yw'r data a gyflwynir gan bob darparwr haen ddata, a sut a phryd [ac ati] y byddai'n gwneud hynny (e.e. drwy'r Gwasanaeth Nodweddiion Gwe) i'r corff unigol ar gyfer ei rannu drwy borth data ac ar gyfer map integredig ar-lein.

004. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn nodi bod y map integredig yn fap terfynol gyfreithiol (h.y. diffiniol yn ôl y gyfraith).



005. Byddai'r atebolrwydd am y data'n aros gyda'r darparwr data.
006. Gofyniad i gorff unigol gyhoeddi'r data/map ar-lein a'u hyrwyddo.  
Byddai'r ddeddfwriaeth yn diffinio 'hyrwyddo' i gynnwys hyrwyddo defnyddio i sefydliadau eraill yn ogystal â'r cyhoedd.  
Pŵer i ddarparwyr data hyrwyddo'r mapiau/data ar-lein ar gyfer Cymru.
007. Pennu bod gwybodaeth yn cyd-fynd â'r data a'r mapiau er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pa hawliau a chyfrifoldebau sy'n berthnasol.
008. Y ddeddfwriaeth i bennu y dylai fod gan bob sefydliad a chorff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu data a chyhoeddi'r map fecanwaith ffurfiol ar gyfer cyfathrebu.  
Pwerau i gynnwys ffyrdd technegol o gofnodi materion ac o gasglu gwybodaeth drwy gyfraniad torfol.
009. Pwerau i gynnwys haenau data eraill sy'n bodloni safonau ansawdd a data a benodir.
010. Dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gofnodi a mapio pob adeiledd a147 sydd newydd ei awdurdodi yn ddigidol.  
Dyletswydd gynyddol ar gyfer cofnodi a mapio'n ddigidol seilwaith mynediad presennol ar fynediad cyhoeddus [ar fap a datganiad diffiniol a thrwy awdurdodiadau a147].

## Opsiw'n 3A(ii): Map diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus

### Opsiw'n 3A(ii): Disgrifiad cryno

Gwaith rheoli data digidol a mapiau drwy gorff statudol unigol lle'r darparwr data unigol fydd yn gyfrifol am y data, ond lle caiff y wybodaeth ei choladu'n un map diffiniol digidol i'r cyhoedd ei weld. Bydd hwn yn cynnwys data gofodol digidol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, a bydd yn cynnig cofnod cyfreithiol er mwyn i ddarparwyr data gael yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd.

### Opsiw'n 3A(ii): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3A(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol (awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru) i lunio'u cofnodion diffiniol o waith mapio hawliau tramwy cyhoeddus / mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn fformat digidol addas, ac i ddarparu'r data hwn i gorff unigol.  
Dyletswydd ar gorff unigol i goladu ac integreiddio data gofodol digidol diffiniol gan gyrff cyhoeddus penodedig yn un map terfynol.  
Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru gan Lywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol.

Nodi adnoddau ar gyfer talu'r gost o greu data gofodol digidol mewn fformat penodedig ac i safon gyson.

002. Dyletswydd ar gorff unigol i gyhoeddi mapiau integredig ar-lein.
003. Mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer y ffaith y byddai'r map a ddeilliai o'r gwaith hwn yn derfynol gyfreithiol o ran y wybodaeth sydd ynddo.
004. Rheoliadau i bennu'r gofynion o ran data technegol ar gyfer haenau data.
005. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor fel rhan o'r diwygiadau a wnaed yn y cam dethol opsiwn].
006. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor fel rhan o'r diwygiadau a wnaed yn y cam dethol opsiwn].
007. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor fel rhan o'r diwygiadau a wnaed yn y cam dethol opsiwn].
008. Dyletswyddau ac allbynnau cynyddol mewn perthynas ag Efen Allweddol 001. Er mwyn darparu ar gyfer cynnydd gan ddibynnu ar barodwydd awdurdodau lleol:
  - Byddai'r awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb dros arolygu, cofnodi, cyhoeddi a chynnal map a datganiad diffiniol
  - Byddai'r awdurdodau lleol yn cyhoeddi eu mapiau diffiniol eu hunain ar-lein (i safonau cyffredin)
  - Byddai hwb mapiau'n cyfeirio pobl at awdurdodau lleol neu wefannau CNC, gan ddarparu un pwynt mynediad i Gymru
  - Cyhoeddi map integredig (gan ddefnyddio'r un data diffiniol)
009. Pennu y dylid defnyddio'r atebion technegol sydd ar gael i ddarparu diweddariad 'amser real' o'r map integredig ar sail data awdurdodau lleol / Cyfoeth Naturiol Cymru.

## **Opsiwn 3A(iii): Map digidol o fynediad cyhoeddus – wedi'i reoli gan sefydliad mapio a hyrwyddo yn y trydydd sector**

### **Opsiwn 3A(iii): Disgrifiad cryno**

Caiff ei reoli gan gorff/yymddiriedolaeth statudol nid-er-elw statudol a sefydlwyd gyda'r nod o: 'annog mwy o bobl i fwynhau'r awyr agored yn gyfrifol a sicrhau buddion er lles, yr amgylchedd a'r economi i bobl a chymunedau yng Nghymru ac i'w hymwelwyr'. Bydd hwn yn fap digidol a fydd yn cynnwys data gofodol o fynediad statudol a mynediad hamdden arall. Nid hwn fydd y cofnod cyfreithiol (map diffiniol), ond y darparwyr data fydd yn gyfrifol am reoli'r wybodaeth hon.

### **Opsiwn 3A(iii): Elfennau allweddol addasedig**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3A(iii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Deddfu ar gyfer 'sefydliad/yymddiriedolaeth hyrwyddo mynediad' nid-er-elw fydd â'r diben o ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr awyr agored a hyrwyddo mwynhad ohono.



Gosod dyletswydd statudol ar y sefydliad hyrwyddo mynediad i hyrwyddo gwybodaeth benodedig am fynediad i bobl Cymru ac ymwelwyr.

Pwerau i hyrwyddo gwybodaeth am fynediad i bobl y tu allan i Gymru yn unol â nodau'r sefydliad.

Deddfwriaeth ar gyfer pennu cydberthynas sefydliad/ymddiriedolaeth â sefydliadau sydd eisoes yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth a hyrwyddo.

Deddfwriaeth ar gyfer pennu atebolrwydd sefydliad.

002. Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / awdurdodau lleol i ddarparu data mynediad cyhoeddus penodedig i'r sefydliad hyrwyddo mynediad. Dylai'r data gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Yr hawl dramwy gyhoeddus ddiffiniedig
- Y tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau)
- Llwybrau Cenedlaethol dynodedig a Llwybr Arfordir Cymru
- Mathau eraill i'w nodi mewn rheoliadau
- Y disgrisiwn i gynnwys mathau eraill sy'n cyflawni diben cyffredinol y sefydliad

Pwerau ar gyfer cynnwys data mynediad hamdden arall yn y map ac ymrwymo i gytundebau darparu data gyda chyrff eraill sy'n darparu mynediad cyhoeddus hirdymor i'r awyr agored (e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru ac ati).

003. Pwerau rheoleiddio ar gyfer diffinio sut y dylid cofnodi'r data mynediad cyhoeddus penodedig [gweler uchod], ei gynrychioli'n ofodol a'i ddarparu i'r sefydliad hyrwyddo mynediad, ac i'r cyhoedd yn ei dro [ac eraill lle bo angen].

004. Dyletswydd benodedig i ddarparu'r wybodaeth fapio a'r data i'r cyhoedd ar-lein yn rhad ac am ddim; hawl i ddefnyddio ac aildddefnyddio data am ddim yn amodol ar drwydded.

Ei gwneud yn ofynnol codi tâl am aildddefnyddio data a mapio yn fasnachol uwchlaw gwerth penodol.

005. Deddfwriaeth ar gyfer rhoi gallu i'r sefydliad greu incwm, sicrhau grantiau ac ati i gefnogi dibenion statudol.

Y gallu i godi/cael incwm am wasanaethau ychwanegol y tu allan i'r gofyniad statudol.

006. Byddai'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynnwys haenau mynediad cyhoeddus eraill ar y gwaith mapio neu fel data.

007. Byddai angen diffinio'r atebolrwydd perthnasol ar gyfer cynhaliwr y data a chyhoeddwr y data.

008. Ffordd gyson o gyhoeddi a hyrwyddo'r gwasanaeth gwybodaeth; ymgyrch ar gyfer darparu'r wybodaeth (cyhoeddi).

009. Unrhyw un arall sydd hefyd yn hyrwyddo (dyletswydd i wneud hynny) fel sefydliad gwirfoddol.



## **Sylwebaeth ar faterion cyffredin ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â diwygio'r dull o gyfleu hawliau mynediad**

Dylid ystyried yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn (gweler uchod, a gweler Atodiad A ar gyfer y tablau o elfennau allweddol yn eu cyfanrwydd).

### **Cyflwyniad sy'n benodol i opsiynau Diwygiad 3A o ran cyflawni bwriad y polisi**

Bwriad y polisi yw cyflwyno system fwy integredig sy'n haws ei diweddarau ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol ac ar gyfer ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a darparu mapiau cynhwysfawr a hawdd cael mynediad iddynt at ddefnydd cyhoeddus. O ran yr hyn yr oedd y grŵp arbenigol wedi'i ddehongli o fwriad y polisi, byddai'n ofynnol datblygu a darparu map digidol o Gymru gyfan ar gyfer mynediad cyhoeddus hamdden.

Ystyrir bod datblygu map digidol o Gymru gyfan ar-lein ar gyfer mynediad hamdden yn gam cadarnhaol, a nodwyd cefnogaeth gyffredinol am y syniad hwn yn yr adborth allanol a gafwyd mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth.

### **Beth yw map digidol?**

Mae angen ystyried cydrannau'r broses o ddarparu map digidol ar-lein o ran defnydd cyhoeddus, safonau a'r dull o'i gyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Darparu map: sy'n seiliedig ar ddelweddu gwybodaeth ddaearyddol – ond nid y data ei hun mohono – er bod modd iddo gyflwyno'r data
- Darparu'r data sydd i'w weld ar y map ac sy'n gysylltiedig ag ef

### **Diben y map**

Mae bwriad y polisi'n ei gwneud yn amlwg y dylai'r map fod at ddefnydd cyhoeddus, wrth gyflwyno system fwy integredig a haws ei diweddarau hefyd ar gyfer rheoli mynediad cyhoeddus. Gall diben defnydd cyhoeddus amrywio, er enghraifft gall gwmpasu defnydd hamdden, llywio ceisiadau cynllunio, a defnydd masnachol. Gellir ystyried gwaith rheoli mynediad cyhoeddus yn nhermau rheoli cofnodion mynediad cyhoeddus ac o ran rheoli'r adnoddau ffisegol ar lawr gwlad.

Awgryma'r grŵp arbenigol y dylid ystyried y ffynonellau data a fyddai'n llywio'r gwaith mapio, ac mae hyn yn cynnwys data a ddarperid gan ddarparwyr data statudol a thrwy ddulliau eraill (e.e. o ffynonellau torfol). O ganlyniad, gellid dod i'r casgliad y byddai system well ar gyfer cofnodi hawliau cyhoeddus ynghlwm wrth y map, ynghyd â'r ffaith y byddai'n offeryn ar gyfer cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch yr hawliau hyn. Awgrymwyd hefyd y byddai hyn yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a rheoli adnoddau ffisegol ar lawr gwlad.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei bwriad bod y system integredig gyfystyr â map digidol o Gymru gyfan ar gyfer coladu cofnodion o fynediad cyhoeddus statudol ac ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a'i bod â'r diben o gynnig dull o reoli cofnodion cenedlaethol a gweithredu fel offeryn hyrwyddo/hysbysrwydd ar gyfer y cyhoedd.



Argymhelliad: Er mwyn galluogi'r lefel integreiddio fwyaf posibl, dylai Llywodraeth Cymru archwilio potensial a gwerth y map fel offeryn cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau ffisegol ar lawr gwlad.

## Cadernid y cofnod cyfreithiol

Mae mapiau a datganiadau diffiniol gyfystyr â'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd yn bwysig cyfleu statws cyfreithiol yr wybodaeth y mae'r map digidol yn ei dangos, gan ddibynnu ar yr opsiwn diwygio a gaiff ei ddatblygu ymhellach. Os na chaiff y map digidol ei ddefnyddio fel y cofnod cyfreithiol, bydd yn bwysig nodi hyn a chyfeirio pobl at y cofnod diffiniol.

Mae angen gwarchod cywirdeb y cofnod cyfreithiol a sicrhau, os caiff y map digidol ei ddefnyddio fel y cofnod cyfreithiol (fel yn Opsiwn 3A(ii)), fod lefel briodol o gadernid a sicrwydd ansawdd ynghlwm wrth y broses ddatblygu a'r gwaith rheoli parhaus. Dylai'r broses arwain at wella eglurder yn hytrach nag ychwanegu lefel arall o fiwrocratiaeth.

Yn Opsiwn 3A(ii), byddai'r map o Gymru gyfan gyfystyr â'r cofnod cyfreithiol diffiniol ar gyfer unrhyw ardal ddaearyddol benodol. Byddai hynny'n golygu mai'r un cofnodion digidol a gâi eu cyflwyno ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. Mae adborth y grŵp arbenigol yn awgrymu y gallai nifer o heriau fod ynghlwm wrth y gwaith o sicrhau bod modd cael gafael ar y cofnod diffiniol mewn dau leoliad gwahanol, a bydd angen ystyried hyn ymhellach.

Argymhelliad: Bydd angen egluro statws cyfreithiol y map digidol o Gymru gyfan. Os datblygir Opsiwn 3A(ii), bydd angen ceisio rhagor o gyngor cyfreithiol er mwyn gwneud yn siŵr y defnyddir systemau priodol i sicrhau cadernid y cofnod diffiniol fel y diffiniad cyfreithiol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.

## Cydraddoldeb a hygyrchedd digidol

Mae angen glynu wrth Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiaid Symudol) 2018 wrth ddatblygu'r diwygiad hwn, a hynny mewn dwy ffordd allweddol fel a ganlyn:

- Ystyried canllawiau hygyrchedd ar-lein fel rhan o waith datblygu'r map digidol er mwyn sicrhau bod y cynnyrch terfynol sy'n hyrwyddo mynediad yn ei gwneud yn bosibl i gynifer o bobl â phosibl gael mynediad at y map digidol a'i ddefnyddio
- Sicrhau bod cynnwys y map a gwybodaeth am briodoleddau'r mynediad ar lawr gwlad yn cefnogi'r penderfyniadau i ddefnyddio'r adnodd mynediad

Gweler yr adran 'Themâu trawsbynciol' (2) am ragor o fanylion.

Argymhelliad: Dylid ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â gwaith mapio digidol yn y broses o ddatblygu'r diwygiad, a hynny er mwyn sicrhau bod y map terfynol, a'r mynediad cyhoeddus y mae'n ei ddangos, yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

## Gofynion pellach o safbwynt dadansoddiad cyfreithiol

Mae'r cyngor cyfreithiol a geisiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru, pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu ymhellach, gynnal dadansoddiad deddfwriaethol o'i chymwyseddau mewn perthynas â data, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wrth ddatblygu'r maes diwygio hwn. Mae'r gyfraith ar ddiogelu

data personol, a mynediad i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, yn faterion a gedwir yn ôl o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a bydd angen ystyried unrhyw gyfyngiadau ar y math o ddata y gellir ei gynnwys yn y map digidol o Gymru gyfan.

Bydd hawliau cronfa ddata a diogelu hawlfraint yn berthnasol i'r data ac i fapiau sy'n ffurfio sail i'r map o Gymru gyfan. Defnyddir ac aildefnyddir y wybodaeth hon dan drwydded gan Ordnance Survey Limited, sydd â thrwydded i ddefnyddio, trwyddedu a rheoli data mapio yn amodol ar hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata.

Nododd y cyngor cyfreithiol hefyd y dylid ystyried materion sy'n ymwneud â diogelu data os bydd y broses o greu'r map yn golygu prosesu data personol y gall fod gofyn am ei phrosesu wrth gasglu gwybodaeth am hawliau mynediad, hyd yn oed pan na fydd yr wybodaeth hon i'w gweld ar y map terfynol.

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad pellach o gymwyseddau mewn perthynas â data o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac ystyried materion hawlfraint, trwyddedu a diogelu data wrth ddatblygu Diwygiad 3A.

## Mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli

Mae amrediad o fecanweithiau data a mapio perthnasol eisoes yn bodoli a all gynnig mewnwelediadau, sail ar gyfer gwaith datblygu, a chyfle i greu cysylltiadau ar gyfer y map digidol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y [rhestr genedlaethol o enwau strydoedd](#), y gofrestr electronig o dir comin i Gymru, a [gwefan MAGIC](#) a reolir gan Natural England. Cyfeiriodd yr adroddiad Dadansoddi Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru at [LANDMAP](#) fel enghraifft o set ddata genedlaethol sydd â therminoleg a reolir mewn modd cyson.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith cwmpasu pellach i nodi arferion gorau sydd eisoes yn bodoli ym maes mapio digidol a all lywio gwaith datblygu Diwygiad 3A ac atebion technolegol.

## Rôl a chyfranogiad yr Arolwg Ordnans

Wrth ddatblygu'r diwygiad hwn ymhellach, bydd angen ystyried chyfranogiad yr Arolwg Ordnans. Yn ôl y cyngor cyfreithiol a geisiwyd hyd yn hyn, byddai hawliau cronfa ddata a diogelu hawlfraint yn berthnasol i'r data ac i fapiau a fyddai'n ffurfio sail i'r map o Gymru gyfan.

Oherwydd y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio a'i haildefnyddio dan drwydded gan Ordnance Survey Limited, sydd â thrwydded i ddefnyddio, trwyddedu a rheoli data mapio yn amodol ar hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, bydd yn hanfodol gweithio gyda'r Arolwg Ordnans i ddeall y goblygiadau mewn perthynas â phob opsiwn a phob cyfle i ddatblygu. Yn ogystal, yr Arolwg Ordnans fydd yn y sefyllfa orau i egluro rhai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad dadansoddi o ran p'un a ellir darparu data am hawliau tramwy cyhoeddus o dan Drwydded Agored y Llywodraeth, ac archwilio defnydd masnachol ac amodau ac egwyddorion ynghylch defnydd cyhoeddus o'r wybodaeth yn rhad ac am ddim.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Ordnance Survey Ltd yn y gwaith o ddatblygu Diwygiad 3A o ran ystyried materion hawlfraint a thrwyddedu sydd eisoes yn bodoli, â'r rhan bosibl y gallai'r sefydliad ei chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r diwygiad a dod o hyd i atebion.

## Llunio map digidol o Gymru gyfan

Byddai angen dod â nifer o gydrannau, neu ddarnau jig-so, ynghyd er mwyn cyflawni map digidol o Gymru gyfan. Maent fel a ganlyn:

### Cydrannau

Ffactor hanfodol yn y broses o gyflawni map digidol o Gymru gyfan a bwriad polisi Diwygiad 3A yw'r ffaith nad oes gofyniad ar hyn o bryd i gydrannau'r map hwn gael eu llunio ar ffurf ddigidol. O safbwynt gwybodaeth am hawliau tramwy cyhoeddus, y cydrannau yw'r mapiau a datganiadau diffiniol, sy'n dod o dan gyfrifoldeb awdurdodau lleol yng Nghymru, y mae pob un ohonynt yn gyfrifol am ei ardal ei hun. Er bod gan rai o'r awdurdodau wybodaeth ddigidol, gan gynnwys y gallu i sicrhau bod copïau ar gael ar-lein, nid yw hyn yn rhywbeth cyson. Mae'r gofyniad cyfredol yn pennu bod angen llunio'r map a datganiad diffiniol ar ffurf ddogfennol (papur).

Er mwyn ei gwneud yn bosibl symud y maes diwygio hwn yn ei flaen ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau, bydd angen yn gyntaf lunio'r cofnodion lleol hyn ar ffurf ofodol ddigidol, a bydd hynny felly'n cyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol.

Yn ogystal, er mwyn cyflawni bwriad y polisi, sef cyflawni integreiddio a systemau y mae modd eu diweddar, byddai angen meithrin cysondeb yn y ffordd y câi gwybodaeth am fynediad cyhoeddus ei chofnodi a'i rheoli ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r ymchwil yn amlinellu dull posibl a'r manteision posibl o ran datblygu set ddata ganolog. Dylid ystyried lle gellid cymhwyso'r dull hwn i unrhyw un o opsiynau Diwygiad 3A. Er enghraifft, p'un a fyddai 'sgema data unigol (fframwaith) sy'n gosod y nodweddion gofynnol ac opsiynol, ynghyd â therminoleg a reolir, yn hwyluso datblygiad map cenedlaethol unigol [hawliau tramwy cyhoeddus] yn y dyfodol' ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau.

#### Argymhellion:

Bydd angen datblygu cydrannau'r map digidol integredig o Gymru gyfan yn raddol. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Datblygu safonau cenedlaethol cyson ar gyfer mapiau diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus
- Cynnal ymchwil bellach er mwyn deall faint o amser ac adnoddau y bydd angen ar bob awdurdod i'w alluogi i gyflawni'r gofyniad i lunio map digidol lleol i'r safon genedlaethol
- Cynnal dadansoddiad technegol pellach o'r manteision o ddatblygu set ddata ganolog ar gyfer mynediad cyhoeddus

## Prosesau ar gyfer cofnodi a newid hawliau sydd wedi'u mapio

Bydd defnyddioldeb y map digidol i'r cyhoedd (p'un a yw'n ddiffiniol ai peidio) yn dibynnu ar ba mor gywir a diweddar y mae'r mapiau cydrannol a'r wybodaeth gysylltiedig, a bydd ôl-groniadau o orchmynion cyfreithiol i ddiweddarau'r mapiau diffiniol yn cael effaith ar hyn. Er mwyn i'r map digidol fod mor fanwl gywir â phosibl, byddai angen mynd i'r afael â'r ôl-groniadau hyn.

Amlygodd ymchwil a wnaed i ategu proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad fod gan awdurdodau lleol linellau sylfaen gwahanol o ran cywirdeb y mapiau diffiniol sydd eisoes yn bodoli. Mae gan rai awdurdodau ôl-groniadau y maent yn amcangyfrif y bydd yn cymryd deng mlynedd a mwy i'w prosesu. Byddai angen amser ac adnoddau i gyflawni cysondeb rhwng awdurdodau oherwydd na fyddai pob awdurdod yn dechrau o'r un man.



Nododd rhai awdurdodau mai diffyg amser a gallu swyddogion oedd yn gyfrifol am hyn, ynghyd â chymhlethdod y broses ac awydd i symud rhai o'r elfennau ar-lein. Mae'n bosibl y gellid lleddfu'r sefyllfa hon pe byddai modd cyflawni arbedion a symleiddio prosesau fel rhan o ddiwygiadau arfaethedig o dan Grŵp 1 Rhaglen Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru: Diwygiad 20 – Diwygio darpariaethau technegol ynghylch creu, dargyfeirio a diddymu hawliau tramwy.

## Rolau sefydliadau a'u cyd-ddibyniaethau

Caiff y cyd-ddibyniaethau rhwng darparwyr data (awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol / CNC) a'r corff unigol (Opsiw'n 3A(i) ac Opsiw'n 3A(ii)), neu'r sefydliad/ymdiriedolaeth nid-er-elw (yn Opsiw'n 3A(iii)), effaith ar waith cyflawni'r map er mwyn cyflenwi bwriad y polisi. Dylid ystyried y gyd-ddibyniaeth hon wrth ddatblygu'r diwygiad. O dan Opsiw'n 3A(i), awgrymodd yr adborth y bydd angen cytundebau sy'n rhwymol yn gyfreithiol i gefnogi'r broses o ddarparu data a gwybodaeth, ac ar gyfer y gwaith o greu cronfeydd data. Ystyriwyd y byddai sancsiynau yn hyn o beth yn afresymol yn yr adborth a gafwyd i Opsiw'n 3A(iii). Nid oedd unrhyw awydd am greu sefydliad trydydd sector i gyflawni'r swyddogaethau cenedlaethol a fyddai'n gysylltiedig â llunio map digidol o Gymru gyfan, a chodwyd pryderon penodol ynghylch cynaliadwyedd hirdymor ac atebolrwydd cyhoeddus sefydliad o'r fath (Opsiw'n 3A(iii)). Nododd y grwpiau arbenigol eu ffafriaeth gref o ran y ffaith mai corff unigol yn y sector cyhoeddus ddylai gyflawni'r rôl genedlaethol.

**Argymhelliad:** Dylid dyrannu'r ddyletswydd o lunio'r map i'r awdurdodau a sefydliadau priodol yn y sector cyhoeddus.

## Y gallu i addasu i newidiadau cyflym mewn technoleg a gwelliannau yn y dyfodol

Dylai'r ffordd y caiff y diwygiad ei ddatblygu ymhellach ei gwneud yn bosibl bod yn hyblyg er mwyn cyflawni, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, y gofyniad i addasu wrth i dechnoleg barhau i ddatblygu a gwella. Bydd cynnwys gofynion mewn canllawiau manwl (yn hytrach na rheoleiddio) yn hwyluso'r gwaith o'u diweddarau. Dylid datblygu canllawiau o'r fath, ac ymgynghori yn eu cylch, er mwyn amlinellu safonau technegol i ddarparu ar gyfer hyblygrwydd wrth i dechnoleg newid.

Wrth i dechnoleg newid, efallai y ceir cyfleoedd eraill ar gyfer gwella cynnwys y map digidol, a'r defnydd a wneir ohono, yn unol â bwriad y polisi, gan ystyried cyfleoedd mewn perthynas â gwybodaeth o ffynonellau torfol, a rhyngweithioldeb y map yn y dyfodol er mwyn cyfoethogi'r map a gwella ansawdd a graddfa'r wybodaeth.

**Argymhelliad:** Dylid dethol mecanweithiau ar gyfer datblygu Diwygiad 3A ar sail y graddau y maent yn hwyluso gwaith diweddarau, ac yn cynnig hyblygrwydd o ran ymateb i newidiadau cyflym mewn technoleg ddigidol, megis cynnwys gofynion mewn canllawiau statudol yn hytrach na rheoleiddio.

## Hyrwyddo'r defnydd o'r map cyhoeddedig

Dylid ystyried y gwaith o hyrwyddo'r map digidol o Gymru gyfan pan fydd wedi'i gyhoeddi. Mae gan amrediad o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ran bosibl i'w chwarae, a cheir cyfle i gydlynu, egluro rolau, ac osgoi cystadlu neu ddyblygu gwaith rhwng y gwahanol sefydliadau sydd â'r cylch gwaith o hyrwyddo gweithgareddau hamdden a mynediad.



Cynigiodd elfennau allweddol y diwygiad roi pŵer dewisol i awdurdodau lleol hyrwyddo'r map digidol. Os nad ystyrir y byddai hyn yn ddigon cryf o safbwynt sicrhau y cymerir camau gweithredu, gellid ei gyflwyno fel dyletswydd newydd o ran hyrwyddo'r map ar lefel leol. Bydd angen nodi adnoddau digonol i alluogi awdurdodau lleol i arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd ychwanegol hon.

Argymhelliad: Wrth ddatblygu Diwygiad 3A ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei bwriadau o safbwynt dilyn dull cydlynol o hyrwyddo'r map o Gymru gyfan ar-lein ar gyfer mynediad cyhoeddus, a'i bwriad o ran rolau sefydliadau mewn perthynas â hyn.

## Cysylltiadau â diwygiadau eraill

Bydd y map digidol yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi meysydd diwygio eraill, a hynny fel mecanwaith ar gyfer cyfleu lleoliadau y cyflwynir unrhyw hawliau mynediad ychwanegol iddynt (yn sgil Diwygiad 1 a Diwygiad 2), ac fel offeryn ar gyfer cynllunio mynediad (Diwygiad 3B).

Argymhelliad: Dylid adnabod cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r map digidol fel offeryn i gefnogi'r gwaith o gyfathrebu mewn perthynas â meysydd diwygio eraill, a chynllunio ar eu cyfer, a gwneud y defnydd gorau posibl ohono i wneud hynny.

## Costau ac adnoddau

Disgwylir y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu Diwygiad 3A yn cynnwys y canlynol:

- Amser ac arbenigedd staff
- Y gost o letya a storio data
- Costau'r tasgau sy'n gysylltiedig â bodloni'r safonau cysondeb, e.e. digideiddio'r hawliau tramwy cyhoeddus lle nad oes copi gweithio digidol yn bodoli, a'u hailddigideiddio os yw'n ofynnol er mwyn bodloni safon gyson
- Costau cynnal a chostau gweinyddion
- Costau ac adnoddau staff sy'n gysylltiedig â gwaith hyrwyddo

Byddai pob un o'r opsiynau diwygio'n cyflwyno dyletswyddau a gofynion newydd y byddai angen sicrhau adnoddau ar eu cyfer. Nododd y grŵp arbenigol fod angen mwy o wybodaeth er mwyn deall y costau sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ddigidol, a phwysleisiodd bwysigrwydd dyrannu adnoddau digonol ar gyfer y gwaith o ddarparu'r data digidol cychwynol, wrth godi pryder ynghylch y goblygiadau os na fydd yr adnoddau ar gael.

Bydd pob un o'r opsiynau diwygio'n gofyn am weithredu rhywfaint o elfennau cyffredin (ynghyd â'r costau cyfatebol), e.e. byddant i gyd yn ei gwneud yn ofynnol llunio cofnodion mynediad ar ffurf ofodol ddigidol addas ar y lefel leol. Fodd bynnag, mae rhai o'r gwahaniaethau rhwng yr opsiynau diwygio yn debygol o arwain at gostau gwahanol o'u cymharu â'i gilydd. O'i gymharu ag Opsiwn 3A(i), mae Opsiwn 3A(ii) yn debygol o ofyn am fwy o adnoddau ar gyfer ymgorffori sicrwydd ansawdd digonol er mwyn iddo gael ei ystyried fel y map diffiniol, a byddai Opsiwn 3A(iii) yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu sefydliad yn y sector trydyddol, a'i ariannu dros yr hirdymor. Unwaith eto, yn ystod y cam dethol opsiwn, cododd y grŵp arbenigol bryderon ynghylch trefniadau ariannu'r sefydliad trydydd sector hwn dros yr hirdymor (Opsiwn 3A(iii)), ynghyd a'i bwerau, ei atebolrwydd, a'r gwaith o lywodraethu'r corff arfaethedig.

Mae casgliadau'r adroddiad Dadansoddi Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru yn nodi bod yr arolwg wedi datgelu amrywiaeth enfawr yn y gwaith o reoli data hawliau tramwy



cyhoeddus ledled Cymru, a bod y data hwnnw'n amrywio o ran ei 'barodrwydd' ar gyfer ei ddefnyddio, a'i fod ar ffurfiau amrywiol. Amlygodd hefyd y ffaith y gallai materion gallu rwystro ymdrechion i gwblhau tasgau anorffenedig.

'Nododd nifer o swyddogion y byddai'n ddefnyddiol symleiddio'r broses o wneud addasiadau i'r map er mwyn cyflymu'r broses addasu, a gallai hyd yn oed arwain at leihau costau. Cyfeiriwyd at ddiffyg amser a gallu swyddogion fel rheswm i egluro'r ffaith y bydd angen deng mlynedd a mwy ar rai awdurdodau lleol i sicrhau bod eu map a datganiad diffiniol yn gyfredol. Gan hynny, mae'n ymddangos y byddai'n bwysig deall lle gallai digideiddio a symleiddio'r broses gyflawni effeithlonrwydd yn y broses a rhyddhau gallu swyddogion.'

Mae hyn yn pwysleisio'r angen i gael adnoddau staff ynghyd â chyllid er mwyn gweithredu'r diwygiad.

Drwy lunio'r copi cenedlaethol cyfunol hwn o'r cofnodion cyfreithiol unigol, efallai y ceir cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o safbwynt adnoddau a chostau drwy dechnoleg sy'n ei gwneud yn bosibl cynnal cronfa ddata ganolog yn hytrach na system goladu. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau nad yw'r diwygiad yn ychwanegu haen bellach o fiwrocratiaeth neu ddyblygu – er enghraifft, dylai'r sefydliad y mae'r data'n deillio ohono gadw'r cofnod cyfreithiol derfynol, a'r rolau sy'n gysylltiedig â chraffu ar y cofnod cyfreithiol neu ei ddiwygio, sef yr awdurdod lleol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus.

**Argymhelliad:** Pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu, dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau o ran adnoddau a chostau sy'n deillio o Ddiwygiad 3A, er mwyn asesu'r gost o gynhyrchu data gofodol digidol i sgema penodol a safon gyson, a'r gost sy'n gysylltiedig â rôl corff unigol.

## **Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 3A a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 3 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad**

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 3 gan 11 o gynrychiolwyr. Cynrychiolwyd y sector rheoli tir a'r sector defnyddwyr hamdden gan bedwar aelod yr un, a'r sector cyhoeddus gan dri chynrychiolydd. Mynychodd 9 allan o 11 o aelodau'r grŵp y gweithdy er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau diwygiedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi hyd at ddau opsiwn a ffafriwyd ganddo. Roedd y ddau gynrychiolydd nad oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiynau a ffafriwyd ganddynt drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl dethol hyd at 22 o opsiynau a ffafrir.

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafrir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafrir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.

Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafriwyd mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw pob un o'r opsiynau a ffafrir a nodwyd gan bob aelod yn awgrymu ei fod yn cefnogi bwriad y polisi.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm).



**Tabl 5: Opsiynau a ffafir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 3A**

| Opsiwn  | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm (n = 11) |
|---------|--------------------|--------------|--------------------|-------------------|
| 3A(i)   | 3                  | 0            | 4                  | 7                 |
| 3A(ii)  | 3                  | 6            | 5                  | 14                |
| 3A(iii) | 0                  | 0            | 1                  | 1                 |

Opsiwn 3A(iii) dderbyniodd y lleiaf o gefnogaeth gan y grwpiau arbenigol, a dim ond un cynrychiolydd, o'r sector defnyddwyr hamdden, a oedd wedi ffafrio'r opsiwn hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd, yn ystod y cam casglu tystiolaeth, ynghylch cynaliadwyedd hirdymor corff trydydd sector, ynghyd â digonolrwydd ei awdurdod, o ran ymgymryd â'r rôl genedlaethol o lunio'r map digidol.

Roedd Opsiwn 3A(i) ac Opsiwn 3A(ii), ill dau, yn cynnwys darparwyr data lleol a chorff unigol. Ffaffriwyd Opsiwn 3A(ii) fwyaf, a'r prif wahaniaeth nodedig oedd y ffaith mai Opsiwn 3A(ii) yr oedd cynrychiolwyr y sector rheoli tir wedi'i ffafrio. Mae hyn yn dangos y ffafriaeth am y map diffiniol digidol, ac am ddatblygu'r map o Gymru gyfan fel y cofnod cyfreithiol diffiniol.

Gan ystyried yr anghysondeb a amlinellir uchod, mae sylwadau a wnaed yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol yn adlewyrchu dealltwriaeth o raddfa'r dasg o safbwynt dod â phob awdurdod lleol i'r un pwynt, sy'n rhywbeth a amlygwyd yn yr adroddiad Dadansoddi Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru. Nododd un o aelodau'r grŵp arbenigol y byddai'r maes diwygio hwn yn dod â gwybodaeth gan awdurdodau lleol i'r oes ddigidol – a bod rhaid iddynt gael cefnogaeth lawn a chyfarwyddiadau ynghylch gwneud hyn.

Gan ystyried graddfa'r dasg, awgrymodd adborth y grŵp arbenigol y gallai fod yn realistig pennu gweithredu Opsiwn 3A(i) fel cam dros dro ar y ffordd tuag at ddarparu'r map diffiniol digidol cenedlaethol yn ddiweddarach (Opsiwn 3A(ii)). Nododd sylw a wnaed gan un o gynrychiolwyr y sector cyhoeddus:

'Dylid anelu at 3A(ii) fel y nod yn y pen draw, lle bydd y map diffiniol yn datblygu i fod y ddogfen unigol, y bydd gorchmynion yn cael eu cydgrynhoi ynddi. Ond bydd hyn yn golygu ymdrech anferthol, a bydd yn gofyn am ailgyhoeddi pob map diffiniol i'r un raddfa, a'r mapiau sylfaenol. Mae 3A(i) yn gynnig sy'n fwy realistig, dros dro, tra bo'r ymarfer hwnnw'n digwydd.'

Yn ôl cynigion Opsiwn 3A(ii), byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am waith tirfesur, cofnodi, cyhoeddi a chynnal mewn perthynas â'r map a datganiad diffiniol, ac am ddarparu'u cofnodion diffiniol ar ffurf ddigidol addas i'r corff unigol. Byddai arbenigedd o fewn llywodraeth leol yn parhau i fod yn bwysig mewn perthynas â chefnogi'r gwaith o ddehongli'r map y tu hwnt i ddefnydd hamdden, e.e. at ddibenion cynllunio, a lle mae unrhyw broblemau'n codi.

Câi bwriad y polisi o ran 'mynediad cyhoeddus statudol ac ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd' ei gynnwys ar y map. Os ystyrir bod map diffiniol digidol unigol (Opsiwn 3A(ii)) yn ddymunol, efallai y byddai'n bosibl cyfuno elfennau o Opsiwn 3A(i) sy'n ei gwneud yn bosibl i wybodaeth am ardaloedd eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd gyd-fynd â'r cofnodion mynediad cyhoeddus diffiniol (data am hawliau tramwy cyhoeddus a data o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach y posibilrwydd o greu map digidol unigol a gynhelir gan gorff statudol unigol. Dylai'r bwriad i ddechrau fod i gyfuno



data a baratowyd ac a gyflwynwyd gan ddarparwyr data statudol, gyda'r nod o archwilio dichonoldeb datblygu'r map hwn fel y cofnod diffiniol dros amser.

## Diwygiad 3B: Cynlluniau integredig

### Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3B

Creu'r gofyniad i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol ddatblygu cynlluniau integredig o fynediad hamdden cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn hwyluso a chefnogi'r ddarpariaeth ar draws sawl maes polisi ac integreiddio â gwasanaethau eraill.

### Opsiynau Diwygiad 3A ar gyfer y cam dethol opsiwn

| 3B: Teitl y cynnig opsiwn  | Disgrifiad amlinellol addasedig o'r cynnig opsiwn   |
|--|---|
| <p>i. Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden</p>                | <p>Bydd Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden yn disodli Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer mynediad cyhoeddus. Bydd cwmpas y cynllun yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol (hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy), a mynediad pwysig arall, gyda hyblygrwydd ychwanegol i ehangu'r cwmpas i wella integreiddiad.</p> <p>Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol (yn hytrach na'r awdurdod priffyrdd lleol) i gynhyrchu'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden, a rhoddir pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden ar gyfer eu hardaloedd nhw.</p> <p>Caiff canllawiau statudol eu cyhoeddi i roi manylion am y gofynion, a byddant yn cynnwys templed dewisol neu fodel o Gynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden.</p> |
| <p>ii. Diwygio ac estyn y dull Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP+)</p> | <p>Bydd ROWIP+ yn disodli ac yn ehangu ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer cynllunio mynediad cyhoeddus.</p> <p>Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol (yn hytrach na'r awdurdod priffyrdd lleol) i lunio'r ROWIP+, a rhoddir pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r ROWIP+ ar gyfer eu hardaloedd nhw.</p> <p>Byddai cwmpas y mynediad y byddai'n rhaid ei gynnwys yn y cynllun yn ehangach na'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden yn Opsiwn 3B(i). Byddai'r ROWIP+ yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol (hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) a darpariaeth arall sy'n bwysig ar gyfer defnydd hamdden, a byddai hefyd yn ymestyn y mathau o fynediad cyhoeddus y tu hwnt i'r rhai a reolir yn</p>  |

|  |   |
|--|---|
|  | <p>uniongyrchol gan awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol.</p> <p>Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno dyletswydd ar bartneriaid penodol yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at y broses ac i roi pwerau dewisol i sefydliadau eraill wneud hynny.</p>   |
| <p>iii. Cynllun Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Mynediad at Ddibenion Hamdden</p> | <p>Byddai hwn yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na dewis arall yn lle Opsiwn 3B(i) neu Opsiwn 3B(ii).</p> <p>Byddai dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer asedau hamdden penodol ar raddfa genedlaethol, fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol. Dylai'r cynllun cenedlaethol lywio cynlluniau mynediad integredig awdurdodau lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol.</p> |

## Opsiwn 3B(i): Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden

### Opsiwn 3B(i): Disgrifiad cryno

Bydd Cynlluniau Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden yn disodli Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer mynediad cyhoeddus. Bydd y cynllun yn cynnwys yr holl fynediad cyhoeddus statudol a mynediad pwysig arall. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden, a rhoddir pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol gynhyrchu'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden ar gyfer eu hardaloedd nhw.

### Opsiwn 3B(i): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3B(i) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden – câi'r craidd ei fodelu yn ôl gofynion cyfredol y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [gweler isod].

Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun mewn cytundeb ag awdurdodau lleol cyfansoddol.

002. Dylai'r ddeddfwriaeth nodi'r elfennau y byddai'n rhaid i gynlluniau mynediad integredig newydd eu cynnwys:

- Asesiad o anghenion y cyhoedd
- Asesiad o fynediad cyhoeddus penodedig
- Y camau i'w cymryd i wella mynediad
- Cyfnod i lunio'r cynllun ac ar gyfer adolygiadau dilynol (y cylch deng mlynedd cyfredol)



- Gofynion ymgynghori a chyhoeddi'r cynllun
- Gofynion y cynllun cyflenwi (rhwng un a thair blynedd yn y canllaw ar hyn o bryd)
- Gofynion monitro a gwerthuso

Nodi'r mynediad cyhoeddus a gwmpesir gan y cynllun: hawliau tramwy cyhoeddus lleol, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, llwybrau beicio, llwybrau hamdden a hyrwyddir, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd ag eraill yn amodol ar ganllawiau [gweler isod].

Diwygio/diddymu'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran llunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – cynnig darpariaethau trosiannol ar gyfer symud o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden.

Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer llunio'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden – canllawiau'n seiliedig ar y canllawiau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. (Nodi pa rannau o'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'w cadw ar gyfer canllawiau'r cynllun integredig.)

Byddai angen i ganllawiau [gweler y canllawiau ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy] gynnwys manylion pellach am y canlynol:

- Amserlen
- Camau/prosesau
- Aseidiadau gofynnol
- Gofynion ymgynghori ychwanegol
- Rôl y fforymau mynediad lleol
- Pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun
- Enghraifft/templod dewisol ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag aseidiadau, Map mynediad (gweler hefyd Diwygiad 3A), cynllun gweithredu/map
- Y gallu i awdurdodau lleol gynnwys cynnwys perthnasol ychwanegol, e.e. gwybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion, blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd gan y gymuned [yn ymwneud hefyd â Datganiadau Ardal, a phrosesau cynlluniau lle]
- Dehongliadau manwl o ddarpariaethau, e.e. ar gyfer asesu anghenion cyhoeddus

Dylai'r canllawiau nodi bod angen i awdurdodau ymgynghori â chyrrff perthnasol a chroesgyfeirio cynlluniau eraill fel y bo'n briodol, e.e. awdurdodau lleol mewn perthynas â materion rheoli traffig perthnasol fel rhan o lunio cynllun, a'u cynnwys fel y bo'n briodol.

Cefnogaeth neu gynllun ariannol er gyfer gwelliannau.

## **Opsiwn 3B(ii): Diwygio ac estyn y dull Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP+)**

### **Opsiwn 3B(ii): Disgrifiad cryno**

Bydd ROWIP+ yn disodli ac yn ehangu ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y cynllun strategol statudol ar gyfer cynllunio mynediad cyhoeddus. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu ROWIP+ ar gyfer eu hardal.

## Opsiw'n 3B(ii): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3B(ii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig ac estynedig (ROWIP+).
- Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun ar gyfer eu hardaloedd yn unol â'r awdurdod lleol cyfansoddol. Mewn achosion o'r fath, câi'r ardal yn yr awdurdod parc cenedlaethol ei heithrio o gynllun(iau) yr awdurdod lleol.
002. Diwygio/diddymu'r ddyletswydd ar gyfer llunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – gan gynnwys trefniadau trosiannol.
003. Dylai'r ddeddfwriaeth nodi pa fathau o fynediad i'w cynnwys mewn cynlluniau, a fyddai'n cynnwys y canlynol:
- Hawliau tramwy lleol
  - Llwybrau beicio, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn yr ardal
  - Mynediad i dir mynediad dynodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac o fewn iddo [gan gynnwys diwygiadau os cânt eu gweithredu]
  - Ffyrdd diddosbarth sy'n bwysig ar gyfer hamdden a mwynhad yn yr awyr agored
  - Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n hygyrch i'r cyhoedd
  - Llwybrau teithio llesol sy'n bwysig i hamdden a mwynhad yn yr awyr agored
  - Mannau gwyrdd a glas a reolir sy'n hygyrch i'r cyhoedd
004. Amherthnasol [cafodd yr elfen hon ei hepgor fel rhan o'r diwygiadau a wnaed yn y cam dethol opsiwn].
005. Dylai'r ddeddfwriaeth nodi sefydliadau y byddai'n ofynnol ymgynghori â nhw yn ystod y broses gynllunio (yn seiliedig ar y gofyniad cyfredol yn adran 61(1) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).
- Dyletswydd ar bartneriaid penodol yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at y broses. Byddai angen i'r ddeddfwriaeth ddiffinio ystyr 'cyfrannu'.
- Pŵer dewisol i gyrrff anllywodraethol gyfrannu fel sy'n briodol i'r broses.
- Dylai canllawiau nodi rôl a gofynion penodol ar gyfer dyletswydd i ymgynghori â fforymau mynediad lleol wrth lunio'r cynllun, neu'r holl fforymau mynediad lleol perthnasol ar gyfer cynlluniau ar y cyd.
006. Dylai'r ddyletswydd ar gyfer y cynllun gynnwys y canlynol:
- Asesiad o anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer mynediad at ddibenion hamdden yn yr awyr agored
  - Datganiad strategol o sut y caiff y mynediad ei wella
  - Cynllun gweithredu deng mlynedd gyda chamau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd
  - Gofynion y cynllun cyflenwi (rhwng un a thair blynedd yn y canllaw ar hyn o bryd)
  - Byddai angen cynnal adolygiad interim o'r cynlluniau ymhen pum mlynedd. Byddai'n rhaid llunio cynllun sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ymhen cyfnod o ddeng mlynedd
  - Cyfrifoldeb dros arwain y camau a bennir yng nghamau'r cynllun
007. Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau ar brosesau, fformat a chynnwys y cynllun:

- Amserlen
- Camau/prosesau
- Asesiadau gofynnol
- Gofynion ymgynghori ychwanegol
- Rôl y fforymau mynediad lleol
- Pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun
- Enghraifft/templed ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag asesiadau, map mynediad [gweler hefyd Diwygiad 3A], cynllun/map gweithredu
- Gofynion ar gyfer mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogaeth i Ddatganiadau Ardal gael eu cynnwys ym mhynciau/cynnwys y cynllun, ac yn y cynlluniau eraill i'w hystyried yn yr un modd

008. Dylai canllawiau nodi'r rhannau o'r awdurdodau lleol i'w cynnwys: megis yr Awdurdod Prifffyrdd, yr Awdurdod Tirfesur, yr Awdurdod Traffig, adrannau eraill sy'n rheoli mannau gwyrdd eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd / mynediad cyhoeddus arall yn y cynllun. (Wedi'i bennu yn ôl sut maent wedi'u cyfansoddi yn y gyfraith.)

Dyletswydd i awdurdodau lleol ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth gan awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn iddynt gael mewnbwn perthnasol i'w cynlluniau.

009. Byddai'r ddyletswydd cynllunio'n berthnasol i'r holl fynediad penodedig yn ardal yr awdurdod lleol / awdurdod parc cenedlaethol.

Pwerau/hyblygrwydd i gyfuno ag awdurdodau lleol eraill i lunio cynllun ar y cyd (gan gynnwys gydag awdurdodau parciau cenedlaethol).

Sylwer: Gofyniad hefyd i ymgynghori ag awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol cyfagos, h.y. y rhai sy'n llunio cynlluniau.

010. Dylai canllawiau bennu y dylid cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus, gwaith mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf], polisïau strategol, a nodau.

011. Ni fyddai dyletswydd i gyflawni cynllun gweithredu, ond byddai cyfrifoldeb dros ei lunio, ei fonitro, ac adrodd ar gynnydd yn ei erbyn.

012. Darpariaeth ariannu ar gyfer gweithredu gwelliannau mynediad y cynllun, gan gynnwys cysylltu â chynlluniau amaethyddol-amgylcheddol / rheoli tir yn y dyfodol.

## **Opsiw 3B(iii): Cynllun Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Mynediad at Ddibenion Hamdden**

### **Opsiw 3B(iii): Disgrifiad cryno**

Byddai hwn yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na dewis arall yn lle Opsiw 3B(i) neu Opsiw 3B(ii). Byddai gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i lunio cynllun strategol ar gyfer asedau hamdden penodol ar raddfa genedlaethol, fel Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol.

## Opsiw'n 3B(iii): Elfennau allweddol addasedig

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r 'elfennau allweddol' (002, 003 ac ati) y cynigiwyd ar gyfer eu cynnwys yn y fersiwn addasedig hon o Opsiwn Diwygio 3B(iii) (gan gynnwys darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) yn unol â'r hyn a gyflwynwyd yn y cam dethol opsiwn.

001. Dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer gwella, datblygu a hyrwyddo asedau hamdden cenedlaethol yn strategol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwella eu cefnogaeth o amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffordd o'u cyflawni.
002. Rhoddid pwerau ar gyfer nodi'r llwybrau neu asedau hamdden y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, a phennu safonau ar gyfer rheoli a gwella llwybrau neu ardaloedd hamdden o bwys cenedlaethol, a'u hansawdd, a gwella'r cysylltiad rhwng asedau o'r fath.

Ystyried cynnwys cynrychiolaeth fapio o lwybrau ac ardaloedd o'r fath.

003. Pwerau i Lywodraeth Cymru benderfynu sut y byddai'n llunio'r cynllun cenedlaethol a/neu elfennau ohono, gan gynnwys y canlynol:
- Ymgynghori ag eraill
  - Llywodraethu'r cynllun
  - Adrodd
  - Hyd y cynllun
  - Yr amserlen i'w dilyn
  - Cysylltiadau â chynlluniau eraill
004. Byddai'r ddyletswydd yn pennu y dylai'r asedau i'w cynnwys fod yn rhanbarthol arwyddocaol, neu'n asedau/llwybrau hamdden cenedlaethol. Mae'n fater i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ba asedau sydd angen eu cynnwys, megis Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru, gyda disgresiwn o ran llwybrau neu ardaloedd hamdden eraill (gweler hefyd y pwynt bwled dilynol), gan gynnwys asedau hamdden sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.
005. Byddai angen i'r cynllun gynnwys 'cynllun gweithredu' ar gyfer gwella a chynnal safonau asedau penodol.
006. Gofyniad monitro ac adrodd o ran gweithredu'r cynllun a'i gynnydd.
- Dylai'r ddeddfwriaeth bennu'r gofyniad adrodd, e.e. byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ac amllder adrodd, e.e. yn flynyddol (gweler enghraifft yn Adran 8 o'r Ddeddf Teithio Llesol).
007. Dylid darparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd.
008. Cydamseru ac integreiddio'r cynllun cenedlaethol â chynlluniau mynediad integredig lleol a chynlluniau rhaglenni penodol [fel ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru].
009. Ceir cyswllt rhwng y gofyniad hwn a Diwygiad 3A: dylid cynnwys mynediad penodedig ar gyfer y cynllun cenedlaethol ar y map mynediad integredig.
010. Integreiddio cynlluniau'r Llwybrau Cenedlaethol presennol â throsolwg strategol.



## Sylwebaeth ar faterion cyffredin, ac argymhellion cysylltiedig mewn perthynas â diwygio'r cynlluniau integredig

Dylid darllen yr adrannau canlynol ar y cyd â'r disgrifiadau a'r elfennau allweddol ar gyfer pob opsiwn [gweler uchod a/neu Atodiad A].

Mae Opsiwn 3B(i) ac Opsiwn 3B(ii) yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio cynlluniau integredig [lleol] ar gyfer mynediad hamdden cyhoeddus. Mae Opsiwn 3B(iii) yn cyflwyno'r opsiwn o gyflwyno Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden ar gyfer asedau ar lefel genedlaethol.

### Dichonoldeb diwygiadau i gynlluniau lleol

Byddai Opsiwn 3B(i) ac Opsiwn 3B(ii) yn cael effaith ar y gofynion presennol ar gyfer cynlluniau mynediad strategol awdurdodau lleol (h.y. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy) fel yr amlinellir yn Adran 60 (a60) ac Adran 61 (a61) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel 'y Ddeddf').

Mae Adran 60 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol (fel rhan o swyddogaethau awdurdod unedol) gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, yn nodi'r hyn y dylai'r cynllun ei gwmpasu, ac yn nodi y dylid adolygu'r cynlluniau bob deng mlynedd. Mae Adran 61 yn nodi'r hyn sy'n ofynnol i gynhyrchu cynllun, gan gynnwys y canllawiau i'w dilyn, ymgynghoriadau, cyhoeddi, a sicrhau bod y cynllun ar gael i'r cyhoedd.

Byddai'n ymarferol diwygio Adran 60 ac Adran 61 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddod â'r naill opsiwn neu'r llall i rym. Yn ogystal, gall gweinidogion gyhoeddi cyfarwyddiadau sy'n rhagnodi cynnwys ychwanegol i'w gynnwys mewn cynllun, ynghyd â materion pellach i'w hystyried mewn asesiad; gallant hefyd adolygu canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd.

Argymhelliad: Dwyn Diwygiad 3B ymlaen ar gyfer cynlluniau mynediad lleol, drwy ddiwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 fel y bo angen.

## Rolau sefydliadau

### Awdurdodau lleol

Mae bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3B yn nodi y dylid datblygu'r cynlluniau ar lefel yr awdurdod lleol a'r awdurdodau parciau cenedlaethol. Ar hyn o bryd, yr awdurdod priffyrdd lleol sy'n llunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, sy'n un o swyddogaethau awdurdodau unedol (lleol).

Fel rhan o elfennau allweddol y diwygiad, cynigir y dylid gosod y gofyniad ar yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd. Bwriad hyn fyddai cefnogi'r broses o integreiddio â chyfrifoldebau cysylltiedig eraill sy'n berthnasol i'r cynlluniau mynediad, fel asesiadau seilwaith gwyrdd, a dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol 2014, ac ennyn cefnogaeth ehangach ar draws yr awdurdod.



## Awdurdodau parciau cenedlaethol

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol yn nhreffodaethau'r grŵp arbenigol am Opsiwn 3B(i) ac Opsiwn 3B(ii) o safbwynt darparu pŵer i awdurdodau parciau cenedlaethol, yn hytrach na gosod dyletswydd arnynt, ar gyfer cynhyrchu cynlluniau gan weithio gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol weithio yn ôl amgylchiadau lleol, e.e. mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy ei hun; mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gynllun ar y cyd â Chyngor Sir Penfro; mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyfrannu at Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ei awdurdodau cyfansoddol.

Byddai angen i'r deddfwriaeth gynnwys gofyniad i awdurdodau parciau cenedlaethol ymgynghori â'i awdurdodau cyfansoddol.

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 3B addasu'r gofyniad presennol fel bod y ddyletswydd am lunio'r cynllun mynediad integredig yn berthnasol i awdurdodau lleol. Dylid rhoi pŵer i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r cynllun lle bo hynny wedi'i gytuno â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Dylid cynnwys dehongliad o'r ddyletswydd yn y canllawiau statudol.

## Rôl sefydliadau eraill

### Fforymau mynediad lleol

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth a chanllawiau yn nodi cyfranogiad y fforymau mynediad lleol, ac mae canllawiau statudol yn darparu manylion pellach. Yn gyffredinol, mae hyn wedi helpu i ddiffinio rôl fforymau mynediad lleol, er bod graddau eu cyfranogiad wedi amrywio. Byddai parhau rôl gynghorol ganolog y fforymau mynediad lleol, yn hytrach na'u bod yn bartner yn y cynlluniau, yn gweddu'n well i'r ffyrdd cyfredol o weithio. Fodd bynnag, byddai angen ystyried unrhyw newidiadau i rôl y fforymau mynediad lleol a allai ddeillio o ddiwygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ystyried y tu allan i broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.

Argymhelliad: Dylid diffinio rôl y fforymau mynediad lleol mewn perthynas â chynlluniau mynediad integredig yng ngoleuni unrhyw newidiadau sy'n deillio o ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i rôl fforymau mynediad lleol.

### Canllawiau statudol

Byddai angen canllawiau statudol er mwyn helpu'r awdurdodau lleol fyddai'n cyflwyno'r cynllun integredig i ddeall y gofynion ar gyfer eu cynlluniau ac i gefnogi cysondeb ledled Cymru. Fel rhan o'r canllaw, cynigir cynnwys templed opsiynol neu gynllun enghreifftiol er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd y broses.

Yn ogystal, o safbwynt Opsiwn 3B(ii), byddai'r canllaw yn bwysig er mwyn cefnogi sefydliadau eraill a enwir (sy'n allanol i'r awdurdod lleol) i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Dylai'r canllawiau bennu bod y ddyletswydd wedi'i gosod ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag un adran o fewn awdurdod, er mwyn cefnogi'r broses o integreiddio ar draws meysydd gwasanaeth yn unol â'r hyn a amlinellir ym mwriad y polisi.

Argymhelliad: Dylid datblygu canllawiau statudol ar gyfer cynlluniau mynediad integredig i gyd-fynd â'r diwygiad.

## Integreiddio ar draws meysydd polisi a meysydd gwasanaeth

Mae bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 3B yn cyfeirio at gynlluniau integredig sy'n hwyluso ac yn cefnogi dulliau cyflenwi ar draws sawl maes polisi a gwaith integreiddio â gwasanaethau eraill. Mae gan bob un o'r opsiynau elfennau sydd wedi'u cynllunio i adeiladu ar y gwaith o integreiddio polisi sy'n ofynnol gan broses bresennol y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Yn y diwygiad, nodir y gwaith o integreiddio ar draws maes polisi a maes gwasanaeth drwy'r canlynol:

- Gosod y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na'r awdurdod priffyrdd lleol.
- Mae'r elfennau allweddol ar gyfer y ddau opsiwn yn amlinellu'r ffaith y dylai'r canllawiau statudol gynnwys gofynion, neu nodi cyfleoedd, ar gyfer integreiddio â meysydd polisi eraill. Yn y canllawiau statudol, bydd angen diffinio ac ystyried ymhellach y ffordd orau o sicrhau bod y cynlluniau diwygiedig yn integreiddio ac yn rhyngweithio â pholisïau a chynlluniau eraill, a hynny ar ôl asesu a chraffu ar ryngwynebau penodol â chynlluniau perthnasol.
- Ceir cyfle, sy'n benodol i Opsiwn 3B(ii), i integreiddio cwrpas ehangach o fathau o fynediad, gan gynnwys mynediad nad yw wedi'i reoli'n uniongyrchol gan awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol, gyda'r posibilrwydd o integreiddio â gwaith rheoli mynediad mewn sefydliadau eraill.
- Caiff pwerau arfaethedig eu cyflwyno ar gyfer llunio cynlluniau lleol fel cynlluniau ar y cyd (ar draws mwy nag un awdurdod), gan integreiddio'r gwaith o reoli mynediad ar draws ffiniau awdurdodau. Dylai hyn fod yn opsiwn i'w weithredu pan fo amgylchiadau lleol yn ffafriol yn hytrach na'i fod yn ofyniad.
- Fel rhan o Opsiwn 3B(iii), mae integreiddio rhwng cynlluniau ar lefel genedlaethol a lleol wedi'i nodi, gyda chyfleoedd ar gyfer gwneud cysylltiadau rhwng yr asedau sydd i'w nodi yn y cynllun cenedlaethol, a chyfleoedd gwell at hynny.

Canfu gwerthusiad, yn 2008/09, o'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyntaf a luniwyd bod y lefel o 'integreiddio â chynlluniau a strategaethau awdurdodau eraill yn gyfyngedig'. Ystyriwyd y mater hwn wrth ddatblygu canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy trwy gryfhau'r elfen hon a nodi lle ceir cyfleoedd i integreiddio â deddfwriaeth arall a gwaith cyflenwi polisi. Ar ôl eu diwygio, maent yn nodi'r canlynol:

'Mae'n bwysig bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy'n integreiddio â chynlluniau a blaenoriaethau eraill a bod y broses o gynllunio'r cam gweithredu a'r broses gyflawni wedyn wedi'u hintegreiddio hefyd.'

Nid yw astudiaethau pellach i Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wedi cael eu comisiynu ers i'r canllawiau statudol gael eu diweddarau yn 2015, ac ers i Ddeddf yr Amgylchedd 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 newid y dirwedd deddfwriaethol yng Nghymru, gan gyflwyno egwyddorion integreiddio fel rhan o'r ffordd y dylai'r sector cyhoeddus weithio.

O safbwynt elfennau Opsiwn 3B(ii), bydd angen ystyried p'un a fyddai cynnwys gofyniad ychwanegol mewn deddfwriaeth ar gyfer y cynlluniau mynediad hamdden, yn hytrach na mewn canllawiau statudol (fel ar hyn o bryd), yn atgyfnerthu dyletswyddau ehangach ac yn cryfhau ymhellach yr ysgogiad i integreiddio ddigwydd yn ymarferol. Nododd y grŵp arbenigol fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd eisoes yn mynd i'r afael â hyn, ac y gallai cynnwys gofyniad sy'n benodol i gynlluniau mynediad integredig (Elfen Allweddol 007 o Opsiwn 3A(ii)) beri dyblygiad diangen. Amlygodd y grŵp

arbenigol y ffaith y byddai angen i'r cynlluniau newydd gysylltu â meysydd iechyd, bioamrywiaeth, ac adfer natur hefyd.

Bydd angen i gynlluniau integredig newydd gadw cydbwysedd rhwng ehangu eu cwmpas a'u hintegreiddiad â meysydd polisi eraill, a chadw manylder a ffocws ar gyflenwi. Nododd sylwadau'r grŵp arbenigol y gallai cwmpas ehangach arwain at gynllun llai cyflawnadwy, a gwnaethant amlygu'r her bresennol mai ond tua hanner o'r awdurdodau sydd wedi llwyddo i gyflawni'r ddyletswydd bresennol sydd arnynt i adolygu eu cynlluniau o dan ofynion y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Bydd angen mynd i'r afael â hyn wrth ddatblygu'r diwygiad. Rhagwelwyd y byddai lefel gynyddol o integreiddio yn gofyn am ragor o adnoddau a chyllid cynaliadwy dros yr hirdymor. Nododd cynrychiolwyr y sector cyhoeddus y gallai ehangu cwmpas y cynllun beri gwrthdaro rhwng safbwyntiau adrannau/sefydliadau, gan wneud cynlluniau'n anos eu cyflawni.

O safbwynt Diwygiad 3B, mae'r ddau opsiwn ar gyfer cynlluniau lleol yn cynnwys elfennau sydd â'r bwriad o gryfhau'r integreiddio ar draws meysydd polisi a meysydd gwasanaeth: Opsiwn 3B(i) sydd fwyaf tebyg i'r sefyllfa bresennol, gyda chanllawiau ac opsiynau ar gyfer gweithio integredig (sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau statudol ar gyfer adolygu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar hyn o bryd); mae Opsiwn 3B(ii) ychydig yn gryfach o ran y ffaith y byddai'r elfennau'n amlinellu gofynion penodol ar gyfer sut i fynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogaeth am y syniad o ystyried Datganiadau Ardal a chynlluniau eraill.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a yw am bennu y dylid integreiddio'r cynlluniau â chynlluniau strategol eraill, a'i gwneud yn ofynnol i wneud hynny, neu alluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'u disgrisiwn i benderfynu ar hynny yn ôl yr amgylchiadau lleol. Dylid pennu disgwyliadau manwl y llywodraeth o ran y rhyngweithiadau a chysylltiau penodol rhwng cynlluniau eraill yn y canllawiau statudol.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru osod y ddyletswydd o lunio cynlluniau mynediad integredig ar bob awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd er mwyn cefnogi'r broses integreiddio yn well.

## Integreiddio adnoddau mynediad

Mae Diwygiad 3B yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dull mwy integredig o reoli adnoddau mynediad yng Nghymru, ynghyd â chysylltiad â'r dull o gyflwyno gwybodaeth am yr adnoddau mynediad hyn i'r cyhoedd (gweler Diwygiad 3A).

Bydd y ffaith fod cwmpas ehangach o adnoddau mynediad wedi'i gynnwys mewn cynllun strategol deng mlynedd na'r hyn sy'n ofynnol gan Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar hyn o bryd yn hwyluso cynnal trosolwg o'r adnodd cyfan sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer mynediad hamdden, a'r gwaith o'i reoli. Ceir gwahaniaeth clir rhwng opsiynau Diwygiad 3B o ran cwmpas y mynediad a gynigir ei gynnwys mewn cynlluniau integredig. Opsiwn 3B(ii) sy'n cynnwys y mwyaf o adnoddau mynediad hamdden, gan gynnwys adnoddau a reolir gan sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus, ac mae Opsiwn 3B(i) yn canolbwyntio ar fynediad statudol a llwybrau allweddol a hyrwyddir, y mae awdurdodau lleol neu awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu rheoli yn bennaf.

Gallai ymgorffori'r holl adnoddau mynediad hamdden cyhoeddus sydd ar gael ddarparu cyfleoedd i gynllunwyr a rheolwyr weithio mewn ffyrdd mwy integredig a chydweithredol, o fewn ac ar draws gwahanol sefydliadau a sectorau, i ddiwallu anghenion y cyhoedd yn well. Os datblygir Opsiwn 3B(ii) ymhellach, byddai angen sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb

ac atebolrwydd democrataidd am y cynlluniau, eu cynnwys a'u cyflawniad yn gwbl eglur er mwyn ystyried hyn.

O safbwynt Opsiwn 3B(ii), bydd cyflwyno dyletswydd ar bartneriaid i gyfrannu at gynlluniau (gweler Elfen Allweddol 005) yn ennyn ymateb mwy rhagweithiol na'r dewis arall, sef ymgynghori â nhw, ond bydd yn ychwanegu cymhlethdod sylweddol, yn dwysáu disgwyliadau, ac yn arwain at oblygiadau sylweddol ar adnoddau o ganlyniad.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r gofynion ar gyfer dull integredig o reoli adnoddau mynediad hamdden.

## Cydymffurfiaeth a gorfodi dyletswyddau

Bydd angen i ddarpariaethau trosiannol ystyried symudiad awdurdodau o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'r dyletswyddau newydd, gan gynnwys darparu ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n anghyson ag amserlen statudol Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Ym mis Medi 2020, roedd deg awdurdod heb adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf a heb ymgynghori ar gynlluniau diwygiedig, y dylid fod wedi'u llunio yn ystod 2018/19 fan bellaf. Awgrymodd rhywfaint o adborth gan awdurdodau fod angen symleiddio'r broses, neu ryddhau mwy o adnoddau ar gyfer cynllunio mynediad, yng ngoleuni anallu llawer o awdurdodau i fodloni'r gofynion presennol ar gyfer adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Byddai angen ymchwil i ddeall y ffactorau sy'n cael effaith ar y diffyg cynnydd wrth adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy mewn rhai awdurdodau. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru orfodi dyletswyddau sy'n ymwneud â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. O dan Adran 71 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, byddai'n bosibl ei gwneud yn ofynnol adrodd i'r llywodraeth ar ddyletswyddau sy'n ymwneud â hawliau tramwy.

Ystyriodd y grŵp arbenigol fod angen i'r cynlluniau integredig lleol gyd-fynd â phroses o graffu ar bob cynllun, a gâi ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru neu CNC, a hynny er mwyn gwella atebolrwydd. Awgrymodd nifer o sylwadau fod angen i'r ddyletswydd fod yn gymhellol, gan sicrhau na fyddai cyllid ar gael nes bod y cynllun wedi bodloni'r safon briodol. Fel rhan o'r broses hon, byddai angen hefyd i Lywodraeth Cymru neu CNC fonitro cynnydd o safbwynt cyflawni'r cynllun.

Nododd y grŵp arbenigol y byddai angen ymrwymiad gwirioneddol a hirdymor i sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd. Nodwyd y gwahaniaeth rhwng y sefyllfa pan lwyddodd pob un o'r awdurdodau i lunio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf (o fewn 12 mis o'r terfyn amser statudol) a'r sefyllfa bresennol, lle dim ond hanner yr awdurdodau sydd wedi cyhoeddi cynllun diwygiedig. Dylid defnyddio'r canfyddiadau o Adolygiad o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cymru (Mawrth 2009) ac Adroddiad Ymchwil CNC, *Evaluation of ROWIP Implementation & ROWIP Funding Programme 2013*, i lywio ymchwil bellach i'r ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r ddyletswydd o weithredu'r cynllun integredig yn llwyddiannus.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffactorau a'r cymorth a ddarparwyd ar gyfer y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy cyntaf er mwyn datblygu a gweithredu mecanweithiau cefnogol effeithiol i gyd-fynd â'r ddyletswydd o dan Ddiwygiad 3B.

Argymhelliad: Dylid cyflwyno mecanweithiau i gymell a gorfodi'r broses o weithredu'r ddyletswydd o dan Ddiwygiad 3B er mwyn helpu i sicrhau y caiff ei chyflawni a'i gweithredu yn llwyddiannus.

Argymhelliad: Bydd angen darpariaethau trosiannol i alluogi awdurdodau i symud o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'r dyletswyddau newydd, gan gynnwys darparu ar

gyfer yr awdurdodau hynny sy'n anghyson ag amserlen statudol y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

## Meysydd diwygio cysylltiedig

Gan mai hwn yw'r cynllun strategol lleol ar gyfer mynediad hamdden, gellir disgwyl y ceir llawer o gysylltiadau a rhyngwynebau â meysydd diwygio eraill, a hynny oddi mewn ac oddi allan i raglen ddiwygio'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Mae'r rhain wedi'u nodi uchod, ac mewn dogfennau atodol.

Argymhelliad: Wrth ddwyn ymlaen gwaith diwygio'r cynlluniau mynediad integredig, dylid ystyried cysylltiadau â meysydd diwygio eraill er mwyn sicrhau y cânt eu hintegreiddio.

## Costau ac adnoddau

Disgwylid i'r costau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â datblygu Diwygiad 3B gwmpasu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun. Byddai'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Amser ac arbenigedd staff
- Costau datblygu'r cynllun, gan gynnwys costau ymchwil ar gyfer cynnal asesiadau o'r cynllun a gwaith ymgysylltu cysylltiedig
- Cynllunio cydweithredol a gwaith integreiddio polisiâu ac adnoddau mynediad yn y sector cyhoeddus – a sefydliadau partner yn achos Opsiwn 3B(ii)
- Costau ymgynghori a chyhoeddi
- Costau gweithredu ac unrhyw raglen gyllido gysylltiedig neu fecanweithiau ychwanegol ar gyfer cefnogi'r broses weithredu ac unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig
- Mewnbwn gan fforymau mynediad lleol i'r broses gynllunio

Byddai pob un o'r opsiynau diwygio'n cyflwyno dyletswyddau a gofynion newydd y byddai angen sicrhau adnoddau ar eu cyfer.

## Cynllun i Gymru gyfan

Mae'r gwaith o lunio cynllun i Gymru gyfan yn ofyniad newydd, ac, oherwydd hynny, nododd y grŵp arbenigol y byddai angen nodi adnoddau er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu'r opsiwn hwn. Byddai'r gwaith o lunio'r cynllun a'r trefniadau llywodraethu sydd ynghlwm wrth yr opsiwn hwn yn eitemau cost newydd. Mae'r gwaith o gynllunio a chyflenwi'r adnoddau presennol a gâi eu cydlynu o dan y cynllun, e.e. Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol, eisoes wedi'i ariannu. Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth am y costau fyddai'n gysylltiedig â datblygu'r cynllun cenedlaethol a threfniadau llywodraethu ei llywio gan y rheiny sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Teithio Llesol.

## Cynlluniau integredig lleol

Bydd cynlluniau integredig lleol yn disodli'r ddyletswydd bresennol o lunio ac adolygu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Nododd y grŵp arbenigol y ffaith nad yw tua hanner yr awdurdodau wedi cynnal adolygiad deng mlynedd, sy'n un o ddyletswyddau'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Fel y nodir uchod, ni wnaed gwaith ymchwil fanwl i'r graddau y mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wedi cael eu gweithredu ers yr ail rownd o lunio'r cynlluniau hynny. Bydd angen gwybodaeth bellach er mwyn asesu'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r gallu presennol i gyflawni'r dyletswyddau sydd eisoes yn bodoli. Oherwydd y byddai'r ddau opsiwn ar gyfer cynlluniau lleol yn cynyddu'r gofynion presennol, byddai angen



deall y ffactorau a materion adnoddau y byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau gwaith cyflenwi ledled Cymru yn y maes diwygio hwn.

Nododd aelodau Grŵp Arbenigol 3 y bydd yn hanfodol bwysig sicrhau, er mwyn datblygu a gweithredu'r cynlluniau, y caiff adnoddau cyllid digonol eu darparu, yn enwedig yng nghydestun sefyllfa economaidd anodd a'r ffaith nad yw gwaith adolygu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy cyfredol wedi'i gwblhau. Awgrymodd y grŵp arbenigol fod angen cael ymrwymiad y llywodraeth i ddarparu cyllid cynaliadwy hirdymor, ac awgrymodd y gellid cymell cynlluniau dyheadol drwy ei gwneud yn bosibl cael mynediad i gyllid ychwanegol ar gyfer datblygu a gweithredu'r cynllun.

Bydd pob un o'r opsiynau diwygio yn gofyn am rywfaint o elfennau cyffredin (ynghyd â'r costau cyfatebol), e.e. byddant i gyd yn gofyn am amser staff ac ymchwil ar gyfer cynnal asesiadau, a bydd costau cyhoeddi ac ymgynghori ynghlwm wrth bob un ohonynt. Fodd bynnag, mae rhai o'r gwahaniaethau rhwng yr opsiynau diwygio yn debygol o arwain at gostau gwahanol o'u cymharu â'i gilydd. Mae'n debygol y byddai Opsiwn 3B(ii) yn gofyn am fwy o adnoddau o ystyried yr amser ychwanegol y byddai'n ofynnol ar gyfer ehangu cwmpas y mynediad i'w gynnwys a'r cyfranogiad gan sefydliadau eraill.

**Argymhelliad:** Dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau i adnoddau a chostau fyddai'n deillio o Ddiwygiad 3B pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu.

## Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 3B a ffafrir gan aelodau Grŵp Arbenigol 3 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad

Cynrychiolir y tri sector yng Ngrŵp Arbenigol 3 gan bedwar aelod yr un yn achos y sector rheoli tir a'r sector defnyddwyr hamdden, a thri aelod ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mynychodd 9 o'r 11 aelod o'r grŵp y gweithdy opsiynau a ffafrir er mwyn ystyried pob un o'r opsiynau diwygiedig. Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i bob aelod nodi'r opsiwn neu opsiynau a ffafriwyd ganddo ar gyfer naill ai Opsiwn 3B(i) neu Opsiwn 3B(ii). Roedd un o'r ddau aelod nad oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn wedi nodi'r opsiwn a ffafriwyd ganddo drwy e-bost at CNC. Felly roedd yn bosibl dethol hyd at ddeg o opsiynau a ffafrir.

Gofynnwyd i'r aelodau beidio â nodi eu ffafriaeth am Opsiwn 3B(iii) oni bai eu bod yn cefnogi'r syniad o'i ddatblygu pellach. Nodwyd nad oedd opsiwn a ffafrir os nad oedd aelod yn cefnogi Opsiwn 3B(iii).

Dim ond yn ôl y sector yr oedd aelod o'r grŵp yn ei gynrychioli y nodwyd yr opsiynau a ffafrir. Ni rannwyd canlyniadau'r opsiynau a ffafrir â neb heblaw aelodau'r grŵp ar ddiwedd yr ymarfer.

Roedd ond yn bosibl nodi'r opsiynau a ffafriwyd mewn perthynas â'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwygiad. Er y cafodd opsiynau eu datblygu gyda mewnbwn grwpiau arbenigol, mae'n bosibl nad yw pob un o'r opsiynau a ffafrir a nodwyd gan bob aelod yn awgrymu ei fod yn cefnogi bwriad y polisi.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp (fesul sector ac fel cyfanswm).

**Tabl 6: Opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp arbenigol – Diwygiad 3B**

| Opsiw | Y sector cyhoeddus | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Cyfanswm (n=9) |
|-------|--------------------|--------------|--------------------|----------------|
|-------|--------------------|--------------|--------------------|----------------|

|         |   |   |   |          |
|---------|---|---|---|----------|
| 3B(i)   | 2 | 3 | 1 | <b>6</b> |
| 3B(ii)  | 0 | 0 | 3 | <b>3</b> |
| 3B(iii) | 2 | 1 | 4 | <b>7</b> |

## Opsiynau diwygio ar gyfer cynlluniau lleol

Yn gyntaf, gofynnwyd i'r grwpiau arbenigol ystyried yr opsiynau a ffafriwyd ganddynt o ran defnyddio cynlluniau lleol (h.y. Opsiwn 3B(i) neu Opsiwn 3B(ii)) i fynd i'r afael â bwriad y polisi. Mae'r opsiynau a ffafrir gan y grŵp arbenigol yn awgrymu mai Opsiwn 3B(i) sy'n derbyn y gefnogaeth fwyaf, er bod y rhan fwyaf o'r defnyddwyr hamdden wedi nodi ffafriaeth am Opsiwn 3B(ii), sy'n cynnwys cwmpas ehangach o fynediad.

Ceir materion ynghylch y graddau y bydd modd cyflawni'r ddyletswydd bresennol (fel y nodir yn yr adroddiad dadansoddi, nid yw hanner yr awdurdodau wedi cyflawni'r gofynion presennol o ran adolygu eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy eto), ac ystyriodd y grŵp arbenigol hyn o safbwynt ehangu cwmpas y cynlluniau ymhellach. Ystyriwyd yr angen i sicrhau cyllid digonol a chynaliadwy ar gyfer cynlluniau integredig, ynghyd â chyfleoedd o ran cymell cynlluniau uchelgeisiol neu ddyheadol (drwy sicrhau mynediad i gyllid ychwanegol). Codwyd y mater o graffu ar gynlluniau hefyd er mwyn sicrhau ansawdd (enghraifft bosibl ar gyfer hyn yw trefniadau craffu Llywodraeth Cymru ar gynlluniau teithio llesol), ynghyd â gwaith monitro a gorfodi'r ddyletswydd.

O safbwynt integreiddio â meysydd gwasanaeth a meysydd polisi eraill, amlygodd aelodau'r grŵp arbenigol y cyfle i greu cysylltiadau rhwng y cynlluniau mynediad integredig a meysydd adfer natur, bioamrywiaeth ac iechyd y cyhoedd, gan awgrymu cysylltiadau ag lechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd lleol. Wrth ystyried rôl sefydliadau, ychwanegwyd pwyntiau pellach ynghylch gwella cysylltiadau â dyletswyddau'r awdurdodau cynllunio ac integreiddio â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a mesurau lliniaru, a hynny drwy Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## Opsiwn diwygio ar gyfer cynllun cenedlaethol

Cynigir y cynllun cenedlaethol fel opsiwn ychwanegol i gynlluniau lleol yn hytrach nag opsiwn amgen.

## Cynllun Strategol Cenedlaethol ar gyfer Gwella Mynediad at Ddibenion Hamdden

Yr hyn a gynigir o dan Opsiwn 3B(iii) yw dull cynllunio strategol cenedlaethol o fynediad hamdden sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion a chynlluniau strategol Llywodraeth Cymru ac sy'n eu cefnogi.

Cefnogwyd yr opsiwn gan wyth allan o ddeg o aelodau'r grŵp arbenigol. Ystyriodd y grŵp arbenigol y byddai cynllun cenedlaethol newydd yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru amlinellu gweledigaeth ar gyfer mynediad hamdden i'r awyr agored, ynghyd ag egwyddorion a chymau strategol ar gyfer gweithio ar lefel genedlaethol, e.e. o safbwynt mynediad cyfartal a gwaith hyrwyddo i gefnogi twristiaeth gynaliadwy. Nododd y grŵp arbenigol y ceir cyfle i ymwreiddio ac adeiladu ar gydnabyddiaeth strategol drwy nodi hawliau tramwy a mynediad i dir comin fel asedau cenedlaethol, fel y bwriedir ei adlewyrchu yn 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040' (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gynt).



Nododd y grŵp arbenigol y dylai'r gwaith o ddatblygu a llywio cynllun strategol cenedlaethol gynnwys cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus allweddol a phartneriaid cenedlaethol eraill. Yn ogystal, nodwyd y byddai angen ystyried sut y byddai'r cynlluniau mynediad ar lefel genedlaethol a lleol yn integreiddio ac yn llywio'u gilydd.

Bydd angen i'r ddeddfwriaeth gydnabod rôl partneriaid cyflenwi a gwahanol rolau mewn rheoli, hyrwyddo cenedlaethol, a darparu a hyrwyddo'r asedau ar lawr gwlad. Efallai y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddiwygio Deddf Datblygu Twristiaeth 1969. Ceir tebygrwydd i Adran 10 o Ddeddf Teithio Llesol 2013 o ran ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol. Gallai'r profiadau o weithredu'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig gynnig mewnwelediad defnyddiol.

Bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddarparu pwerau ar gyfer nodi'r asedau hamdden i'w cynnwys mewn cynllun. Gallai'r pwerau ddiffinio asedau penodol neu eu gadael fel mater dewisol i Lywodraeth Cymru. Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, a sicrhau bod yr asedau ar ffurf y gellir eu diffinio fel endidau penodol, megis Llwybr Arfordir Cymru, Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, Llwybrau Cenedlaethol, a Llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Gellid cysylltu pwerau Opsiwn 3B(iii) â'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gyfer Diwygiad 3A, gan sicrhau bod yr asedau cenedlaethol penodedig wedi'u cynnwys mewn unrhyw ddyletswydd mapio integredig a gynigir yn Niwygiad 3A yn ogystal. Gellid cynnwys asedau hamdden allweddol ar raddfa genedlaethol fel haenau ar wahân ar y map mynediad integredig. Byddai hyn hefyd yn cysylltu â hyrwyddo ased penodol fel Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â gwaith dadansoddi a chynllunio gofodol.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynnig diwygio Opsiwn 3B(iii), gan gyflwyno'r gofyniad i'r llywodraeth lunio a chynnal cynllun strategol cenedlaethol ar gyfer mynediad hamdden.

# Themâu trawsbynciol

Ar draws y chwe maes diwygio, sef 1A, 1B, 2A ac ati, mae nifer o themâu trawsbynciol yn codi o fewn pob un o'r opsiynau a nodwyd ar gyfer eu hystyried yn benodol. Mae'r themâu fel a ganlyn:

1. Gweithgareddau hamdden cyfrifol
2. Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd
3. Cyfrifoldebau'r fforymau mynediad lleol o fewn yr opsiynau diwygio
4. Gweithgareddau masnachol a digwyddiadau a drefnir

Yn yr adran hon, caiff pob thema ei hystyried yng nghyd-destun y diwygiadau arfaethedig cyfredol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad; mae hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygu opsiynau diwygio ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol yng Nghymru.

## Thema 1: Gweithgareddau hamdden cyfrifol

Er nad ydynt wedi'u diffinio'n benodol o fewn cyd-destun proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, mae gweithgareddau hamdden cyfrifol yn cyfeirio at ymddygiadau, canfyddiadau a gweithrediadau sy'n berthnasol i hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr hamdden a'r bobl hynny sy'n rheoli gweithgareddau hamdden (gan gynnwys rheolwyr tir, deiliaid tir, a chyrrff cyhoeddus). Nododd y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 4 Ebrill 2019, a gychwynnodd y rhaglen diwygio mynediad gan Lywodraeth Cymru:

*“Mae dau gynnig penodol yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â hyrwyddo ymddygiad cyfrifol ymhlith defnyddwyr cefn gwlad, gyda chod statudol a chafeat statudol arfaethedig. Hyd nes i ni archwilio sut beth fydd y mynediad newydd, ein bwriad yw adolygu'r rhain, ond gyda golwg ar ddatblygu codau gwirfoddol yn y dyfodol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd eisoes i lunio codau cefn gwlad a hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, a rhaid i'n partneriaid, fel Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, barhau i hyrwyddo'r codau hyn ac ymddygiad cyfrifol yn fwy eang. Cydnabyddwn fod mwyafrif llethol y bobl sy'n mynd i gefn gwlad yn ddefnyddwyr cyfrifol.”*

Fodd bynnag, drwy gydol proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, cafwyd cyfeiriadau cryf at 'weithgareddau hamdden cyfrifol', yn enwedig ym meysydd diwygio 1 a 2, ac yn rhannol ym maes diwygio 3, gan olygu bod y thema hon wedi dod i'r amlwg, drwy'r elfennau, fel ystyriaeth allweddol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil yr achosion uchel eu proffil o weithgarwch hamdden anghyfrifol a gofnodwyd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, ac ar ôl llacio'r cyfyngiadau. Oherwydd amlygrwydd gweithgareddau hamdden cyfrifol o fewn y diwygiadau, mae dadansoddiad mwy manwl o'r materion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ac mae cyfres o opsiynau wedi'u datblygu.

## Dulliau o ddrafftio cod ymddygiad

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r dadansoddiad yn ystod y broses hyd yn hyn, cyflwynwyd tri opsiwn ar gyfer y dull o ddrafftio cod ymddygiad ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Parhau â'r Cod Cefn Gwlad presennol
- Datblygu cod cynghorol sy'n defnyddio mecanwaith drafftio eglur i amlygu agweddau gorfodadwy (tebyg i'r dull a ddefnyddir yn Rheolau'r Ffordd Fawr)

- Deddfu ar gyfer cod ymddygiad 'gorfodadwy' newydd sy'n diffinio mynediad cyfrifol ac y mae modd ei ddefnyddio i ddiddymu hawliau mynediad drwy sancsiynau sifil (tebyg i statws Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban)

Mae'n bwysig nodi o'r cychwyn nad yw'r dulliau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Gellid dethol elfennau o bob un er mwyn datblygu opsiwn hybrid. Cafodd y dulliau hyn eu cyflwyno i'r grŵp arbenigol, ar wahân, er mwyn ei helpu i ddeall cryfderau a gwendidau cymharol rhai o'r egwyddorion drafftio sy'n sail iddynt. Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried pob un o'r rhain yn benodol.

## Dull sy'n seiliedig ar y Cod Cefn Gwlad

Mae'r Cod Cefn Gwlad wedi'i lunio a rhoddwyd cyhoedduswydd iddo, ar ryw ffurf neu'i gilydd, ers 1951 er mwyn cyflawni dyletswydd CNC a Natural England i roi cyhoedduswydd i ymddygiadau cyfrifol a hysbysu yn eu cylch. Er bod gofyniad i hysbysu'r cyhoedd am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â mynediad cyhoeddus, dogfen gynghorol yn unig yw'r Cod Cefn Gwlad. Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn amlinellu enghreifftiau o ymddygiadau na chaniateir ar dir mynediad agored, ac mae'n cynnwys sancsiynau sifil os eir yn groes i'r gofynion. Fodd bynnag, ni cheir mecanweithiau ar gyfer cysylltu'r Cod Cefn Gwlad â'r gofynion hyn. Ar ei ffurf bresennol, mae'n annhebyg y gellid defnyddio'r Cod Cefn Gwlad fel rhan o sancsiynau ar unrhyw ffurf (sifil neu arall).

Gofynnwyd i'r grŵp arbenigol ystyried yr opsiwn o barhau â dull sy'n seiliedig ar y Cod Cefn Gwlad ac i amlinellu'r hyn yr oeddent yn barnu oedd ei gryfderau, ei wendidau, ei gyfleoedd a'i fygythiadau (dadansoddiad SWOT – Strengths, Weaknesses, Opportunities and Threats). Amlinellir canlyniad y dadansoddiad hwn isod:

### Cryfderau

- Mae pob rhanddeiliad eisoes yn gyfarwydd â'r Cod Cefn Gwlad presennol, neu dylai fod. Mae brand a neges eisoes yn bodoli.
- Byddai addasu neu gryfhau'r cod hwn yn golygu gweithio o sylfaen sydd eisoes yn bodoli, a byddai hynny'n fwy hwylus o safbwynt adnoddau.
- Mae gan y Cod Cefn Gwlad presennol fersiwn hir a fersiwn fer, gryno, a chymeradwyir y dull hwn yn fawr iawn.
- Mae'r dull hwn yn un cynghorol, sy'n darparu arweiniad yn hytrach na mesurau cosbol neu reswm anghymellol dros beidio â mynd i'r awyr agored neu ymgymryd â gweithgaredd hamdden.
- Manteision o fod yn gyson â Lloegr. O.N. Mae Natural England yn adolygu'r Cod Cefn Gwlad ar y cyd â phob rhanddeiliad ar hyn o bryd, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru fel cydberchennog ar y cod.

### Gwendidau

- Ar hyn o bryd, nid yw'r Cod Cefn Gwlad yn ddogfen gytbwys iawn, ac nid yw hawliau a chyfrifoldebau rhai rhanddeiliaid wedi'u cynnwys.
- Mae'n bosibl y bydd y broses o ddiwygio mynediad yn arwain at gynyddu hawliau, ond ni fydd y Cod Cefn Gwlad yn cynnig mecanwaith gwell ar gyfer sicrhau gwelliannau mewn gweithgareddau hamdden cyfrifol.
- Mae'r mwyafrif llethol o ddefnyddwyr mynediad yn ymddwyn yn gyfrifol, ond ni fyddai'r cod hwn, o reidwydd, yn cynnig cymorth mewn achosion lle bernir bod mynediad defnyddwyr yn anghyfrifol.
- Mae'n anodd cyflawni neu hybu newid mewn ymddygiad, a datblygu gwybodaeth am y cod, ac mae diffyg camau gorfodi.



- Mae'n anodd cyfleu neges seml allan o system gymhleth o hawliau a chyfrifoldebau mynediad.

### **Cyfleoedd**

- Ceir cyfle i alinio hawliau mynediad yng Nghymru ag unrhyw God Cefn Gwlad newydd neu ddiwedddareidig ar gyfer Cymru a Lloegr.

### **Bygythiadau**

- Os ceir newid sylfaenol mewn mynediad a bod awydd gwleidyddol i ddilyn dull Cymreig, perir gwneud y cydberthynas â Natural England yn un anodd, a gallai hyn fod yn fygythiad i'r Cod Cefn Gwlad dros yr hirdymor, a gallai ddrysu defnyddwyr.

## **Dull sy'n seiliedig ar Reolau'r Ffordd Fawr**

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn amlinellu'r safbwynt cyfreithiol ynghyd ag arweiniad ychwanegol ar gyfer defnyddwyr ffyrdd. Nid yw peidio â chydymffurfio â'r cod yn drosedd ynddo'i hun, ac ni fyddai hynny'n mynd yn groes i unrhyw reoliad, ond gellir cymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion mewn cysylltiad ag achosion lle eir yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol sy'n sail iddynt (e.e. y Ddeddf Traffig Ffyrdd).

Drwy ddull sy'n seiliedig ar Reolau'r Ffordd Fawr, byddai llawer o'r arweiniad yn parhau i fod yn gynghorol, yn yr un modd â'r Cod Cefn Gwlad presennol. Fodd bynnag, ceir rheolau y nodir eu bod yn rhwymedigaethau cyfreithiol drwy ddefnyddio'r geiriau 'RHAID / RHAID PEIDIO Â' ar gyfer gwybodaeth orfodol, a'r geiriau 'DYLID / NI DDYLID' ar gyfer gwybodaeth gynghorol. Mae hyn yn creu'r ddealltwriaeth y gellid cymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion penodol sy'n mynd yn groes i reolau gorfodol penodol, gyda'r posibilrwydd o wynebu dirwy neu sancsiwn (e.e. hysbysiad cosb benodedig). Nid yw methu â chydymffurfio ag un o'r darpariaethau yn Rheolau'r Ffordd Fawr yn drosedd ynddo'i hun, ond oherwydd y ddarpariaeth ganlynol: *"[the code can be] relied upon by any party to the proceedings as tending to establish or negative any liability which is in question in those proceedings"* (a38.7 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988), rhoddir ychydig mwy o bwysau i'r rheolau na chodau cynghorol eraill.

Gofynnwyd i'r grŵp arbenigol ystyried dull sy'n seiliedig ar Reolau'r Ffordd Fawr, ac i amlinellu'r hyn yr oeddent yn barnu fyddai ei gryfderau, ei wendidau, ei gyfleoedd a'i fygythiadau (dadansoddiad SWOT). Amlinellir canlyniad y dadansoddiad hwn isod:

### **Cryfderau**

- Mae'r math hwn o god yn darparu mwy o bwysau, ac felly'n rhoi mwy o gefnogaeth o safbwynt cyfleoedd gorfodi na'r ddau god arall sy'n cael eu hystyried.
- Mae pawb yn gyfarwydd ag iaith Rheolau'r Ffordd Fawr: "Rhaid" ar gyfer gofynion cyfreithiol; "Dylid" ar gyfer arweiniad. Bydd hyn yn cynnig ffocws defnyddiol gan fod gorfodi'n gydran hanfodol bwysig, a gall tôn awdurdodol helpu i ddarparu cyfeiriad clir.
- Mae fformat a gosodiad y wybodaeth yn fwy eglur a phendant.
- Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn seiliedig ar ddefnydd a rennir – gall pob rhanddeiliad ymrwymo iddynt yn ôl ei ddi-ddordeb ei hun.

### **Gwendidau**

- Mae'r math hwn o god yn fwy gorfodol na chynghorol.
- Byddai cod o'r fath yn gosod dyletswydd feichus ar awdurdodau gorfodi. Yr heddlu fyddai'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Byddai'n anodd cyllido adnoddau o'r fath.
- Mae gorfodi'n llawer anos a chostus mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yng Nghymru.

- Mae hawliau mynediad yn gymhleth; mae'n bosibl na fyddai dogfen unigol yn cynnig digon o fanylder ar gyfer pob rhanddeiliad.

### **Cyfleoedd**

- Byddai'r math hwn o god yn cynnig cyfle i gynnwys gofynion cyfreithiol ac arweiniad arall ar yr un pryd.
- Mae bod yn hunan-gyfrifol yn allweddol, a dylid manteisio ar y cyfle i addysgu pob rhanddeiliad am ystyr "cyfrifol".
- Byddai'n fuddiol ymwreiddio cod o'r fath yng nghwricwlwm ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Drwy ddilyn y dull hwn, gellid sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau'n cael eu gwahaniaethu ar draws pob math o fynediad cyhoeddus.

### **Bygythiadau**

- Er ei bod yn hanfodol bwysig bod pawb yn dilyn arwyddion a chyfarwyddiaethau Rheolau'r Ffordd Fawr, mae'n bosibl na fyddai hynny'n gweithio i'r un graddau yng nghyd-destun gweithgareddau hamdden.
- Nodwyd ofn y byddai'r cod hwn yn hybu gwlad a reoleiddir, sy'n rhywbeth annymunol o safbwynt gweithgareddau hamdden yn amlwg.
- Ar hyn o bryd, ceir nifer o rwystrau i'r gwaith o geisio hyrwyddo cod o'r fath i ysgolion, i grwpiau cymunedol eraill, ac i randdeiliaid eraill. Bydd yn amhosibl i'w weithredu heb adnoddau.

## **Dull Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban**

Mewn perthynas â'r rhaglen diwygio mynediad, mae 'cod statudol gorfodadwy' neu 'cod gorfodadwy' (y ffurf gryno) yn dermau a ddefnyddir yn rheolaidd i ddisgrifio cod ymddygiad sy'n diffinio'r ymddygiad y mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymarfer eu hawliau gydymffurfio ag ef i gadw eu hawliau. Y model agosaf i hyn yw Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban.

Mae'n bwysig amlygu dwy egwyddor ddrafftio mewn perthynas â'r dull hwn. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r ffordd y mae'n seiliedig ar ddeddfwriaeth, a'r ail yw ei strwythur. Mae Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i bobl 'weithredu'n gyfrifol' wrth ymarfer eu hawl mynediad (Adran 2.1), sy'n cynnwys peidio â 'diystyru'r canllawiau ar ymddygiad cyfrifol a amlinellir yn y cod mynediad' (Adran 2.b.i). Gan hynny, mae'r cod yn darparu canllawiau statudol, er nad yw troseddau'n cael eu cyflawni o ganlyniad i fynd yn groes i'r cod, ond yn hytrach drwy fethu â gweithredu'n gyfrifol yn unol â'r Ddeddf. Cafodd Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban ei gadarnhau gan Senedd yr Alban drwy offeryn negyddol, ac fe'i defnyddir fel 'ystyriaeth berthnasol' mewn llysoedd barn.

Mae cwmpas a strwythur y cod yn llawer ehangach na'r dull presennol a ddefnyddir gan y Cod Cefn Gwlad. Er enghraifft, mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban hefyd yn amlinellu cyngor i ddeiliaid tir a rheolwyr mynediad, ac mae'n darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl droseddau sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus. Mae'r brif ddogfen yn cynnwys 135 o dudalennau sydd wedi'u rhannu'n adrannau fel a ganlyn:

- Cyflwyniad
- Hawliau mynediad
- Ymarfer hawliau mynediad yn gyfrifol
- Rheoli tir a dŵr yn gyfrifol ar gyfer mynediad
- Canllaw ymarferol ar hawliau a chyfrifoldebau mynediad
- Ble i gael cymorth a gwybodaeth
- Troseddau sydd eisoes wedi'u creu drwy statud

Gofynnwyd i'r grŵp ystyried dull sy'n seiliedig ar God Mynediad Awyr Agored yr Alban, ac i amlinellu'r hyn yr oeddent yn barnu fyddai ei gryfderau, ei wendidau, ei gyfleoedd, a'i fygythiadau (dadansoddiad SWOT). Amlinellir canlyniad y dadansoddiad hwn isod:

### **Cryfderau**

- Mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban yn fwy cyfannol na'r Cod Cefn Gwlad presennol, ac mae'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr a darparwyr, gan gynnwys tiffeddianwyr, rheolwyr tir, awdurdodau mynediad, a phob rhanddeiliad arall, a hynny mewn un lle.
- Teimlodd cynrychiolwyr y sector rheoli tir y byddai'n darparu llawer mwy o eglurder o ganlyniad i'w ymgorffori mewn deddfwriaeth, h.y. mae'n rhoi 'dannedd' iddo ynghyd â'i alluogi i gael ei orfodi mewn ffordd glir.
- Mae'n ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ar yr ymddygiadau hamdden cyfrifol sy'n ymwneud â phob gweithgaredd hamdden penodol, gan fynd i fanylion sylweddol.
- Yn y cyfamser, mae'n bwysig nodi y gallai gefnogi ymddygiadau cyfrifol yn well o ganlyniad iddo fynd i'r afael ag ymddygiadau sy'n amlwg yn anghyfrifol.
- Byddai cod o'r fath yn rhoi cysur i dirfeddianwyr a rheolwyr tir wrth godi eu disgwyliadau hefyd.

### **Gwendidau**

- Mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban yn god hir ac anhydryn. Byddai angen llunio fersiwn symlach gyda negeseuon byr, cryno.
- Byddai'n anodd diwygio cod o'r fath er mwyn addasu'n gyflym i amgylchiadau sy'n newid, neu *force majeure* (e.e. diwygiadau yn sgil COVID-19), oherwydd, o ganlyniad i'w ymgorffori mewn deddfwriaeth, nid yw'r hyblygrwydd ganddo i ymateb heb ddiwygiadau deddfwriaethol pellach.
- Byddai'r cod yn gofyn am adnoddau sylweddol i'w gefnogi, yn enwedig os bwriedir cynyddu'r elfen orfodi.
- Yn y cyfamser, mae ganddo'r potensial i "orymestyn", h.y. erlyn unigolion am achosion dibwys o fynd yn groes i'r cod. O ganlyniad i symud tuag at fwy o orfodi, mae'n amlwg bod perygl y gellid cyflwyno materion ymddygiadol ar lefel isel, neu ganfyddiadau gwahanol rhwng defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

### **Cyfleoedd**

- Mae cod statudol o'r fath yn ffordd dda o roi sylw i bethau, ac mae'n arddangos arwydd clir o fwriad a difrifoldeb.
- Ceir cyfle amlwg i addysgu pob rhanddeiliad yn briodol.
- Cyfle i ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cod o safbwynt amser a chyfranogiad pob rhanddeiliad.

### **Bygythiadau**

- Bernir mai'r bygythiad mwyaf yw'r diffyg adnoddau ar gyfer datblygu a gweithredu cod o'r fath.
- Mae potensial i'r cod greu tensiwn drwy negeseuon cymysg trawsffiniol, yn enwedig ymhlith pobl o Loegr sy'n ymweld â Chymru. Er bod Natural England yn adolygu'r Cod Cefn Gwlad gyda'r holl rhanddeiliaid ar hyn o bryd, efallai na fyddai'n croesawu unrhyw wryiad ohono.
- Ni ddylai unrhyw ddehongliad o sefyllfaoedd lle eir y tu hwnt i fynediad cyfrifol ddod yn fodd o rwystro mynediad cyfreithlon.

## Sylwebaeth ar y dull i'w ddatblygu ymhellach

Ar ôl ystyried y tri opsiwn drafftio a gyflwynwyd uchod, gofynnwyd i aelodau'r grŵp arbenigol ddangos yr opsiwn a ffafrwyd ganddynt. Mae'r siart isod yn dangos hyn:

**Tabl 7: Opsiynau a ffafrir gan aelodau'r grŵp arbenigol – gweithgareddau hamdden cyfrifol**

| Opsiwn                                 | Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| Dull y Cod Cefn Gwlad                  | 0            | 0                  | 1                  | 1                |
| Dull Rheolau'r Ffordd Fawr             | 0            | 0                  | 1                  | 1                |
| Dull Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban | 3            | 2                  | 1                  | 6                |
| Arall                                  | 0            | 1                  | 0                  | 1                |

Os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu bod angen cod ymddygiad newydd, ffafriodd y grŵp arbenigol ddull sy'n seiliedig ar God Mynediad Awyr Agored yr Alban. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at 'weithredu'n gyfrifol' mewn deddfwriaeth mynediad, gan olygu y byddai gweithredu mewn ffordd 'anghyfrifol', fel y'i diffinnir gan y cod, yn arwain at golli hawliau mynediad am gyfnod penodol o amser. Byddai'n awgrymu hefyd y byddai angen i'r Senedd gadarnhau'r cod, ac y dynodir statws 'ystyriaeth berthnasol' iddo mewn unrhyw achos llys sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus. Golyga hyn weithredu dull gwahanol i'r hyn a ddilynir ar hyn o bryd gyda'r Cod Cefn Gwlad, lle na cheir cysylltiad penodol â'r ddeddfwriaeth mynediad sy'n sail iddo, a lle nad oes angen cael cadarnhad seneddol llawn i wneud newidiadau iddo.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r goblygiadau o gynnwys gofyniad newydd yn Adran 2.1 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl "weithredu'n gyfrifol, fel y'i diffinnir yng Nghod Mynediad Cymru", a chwilio am fecanwaith statudol tebyg yn y gyfraith ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.

Cafwyd cais cryf gan y grŵp arbenigol i ystyried yr arferion gorau a geir ym mhob un o'r dulliau a drafodwyd, gan ddefnyddio cryfderau pob dull i wrthbwysu rhai o'u gwendidau. Byddai hynny'n golygu, er enghraifft, cynnwys hyblygrwydd y Cod Cefn Gwlad (y fersiwn fer a'r fersiwn hir), a'r gallu i lunio cyngor ychwanegol. Dylid hefyd ymgorffori'r eglurder gweledol a geir yn Rheolau'r Ffordd Fawr rhwng y gofynion cynghorol a'r gofynion cyfreithiol. Felly argymhellir cymryd y camau canlynol:

Argymhelliad: Os yw Llywodraeth Cymru'n penderfynu bod angen cod ymddygiad newydd ar gyfer mynediad awyr agored yng Nghymru, dylai archwilio ymhellach y posibilrwydd o weithredu dull sy'n seiliedig ar God Mynediad Awyr Agored yr Alban. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys gweithgareddau hamdden cyfrifol mewn hawliau mynediad, fel y'u diffinnir gan god mynediad i'w gadarnhau gan y Senedd. Byddai methiant unigolyn i gydymffurfio â'r darpariaethau yn y cod yn arwain at ddwyn sancsiynau sifil yn ei erbyn. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i ymgorffori rhai o'r cryfderau a nodwyd yn y dulliau sy'n seiliedig ar y Cod Cefn Gwlad ac ar Rheolau'r Ffordd Fawr, a hynny er mwyn gwella effeithiolrwydd unrhyw god newydd o ran ei ddefnydd fel offeryn cyfathrebu. Dylai hyn gynnwys y canlynol:

- Brand a hunaniaeth weledol gref y gellir eu defnyddio wrth gyfathrebu ar ba ffurf bynnag
- Fersiwn fer a fersiwn hir o'r cod er mwyn cydbwyso negeseuon lefel uchel / effaith uchel gyda chyingor manylach, gan ymgorffori dull dwyieithog o'r cychwyn
- Offeryn gweledol clir sy'n amlygu agweddau ar y cod sy'n orfodadwy, a ddatblygir drwy fewnwelediadau ymddygiadol a dadansoddiad dylunio
- Cyfres o egwyddorion drafftio a dylunio y gellir eu defnyddio i ddatblygu unrhyw gyngor ychwanegol a dargedir ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol
- Cefnogaeth glir gan y llywodraeth, y gwasanaethau cyhoeddus, a phob sector er mwyn rhoi hygrededd ac awdurdod iddo

Argymhelliad: Ni ddylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r gwaith o ddatblygu cod ymddygiad newydd hyd nes bod yr holl newidiadau i'r gyfraith mynediad wedi'u cwblhau.

## Materion cyffredin

Ni waeth pa ddull a fabwysiadir ar gyfer drafftio cod ymddygiad, codwyd cyfres o faterion cyffredin drwy gydol proses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu fel a ganlyn:

### Dyletswydd i hybu gweithgareddau hamdden cyfrifol

O dan Adran 86A o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran "*preparation and publication of a code of conduct for the guidance of persons visiting the countryside*", a dyletswydd o dan Adran 20 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i "*issue, and from time to time revise a code of conduct*". O dan Adran 8 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, mae dyletswydd ar CNC hefyd i "*provide or assist in the provision of publicity and information services relating to the countryside*" ac "*informing persons resorting to the countryside of their rights and obligations*". Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyletswyddau penodol wedi'u pennu ar gyfer hybu dealltwriaeth o'r cod ymddygiad a amlinellir yn y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad a'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac nid ystyrir y lefel o ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n ofynnol. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddyletswydd ar unrhyw gorff cyhoeddus arall yng Nghymru i hybu dealltwriaeth o'r cod ymddygiad. Argymhellwyd y dylid gosod dyletswydd ar CNC ac awdurdodau mynediad i hybu gweithgareddau hamdden cyfrifol, fel y'u diffinnir gan god ymddygiad. Roedd yr ymatebion cychwynnol i hyn fel a ganlyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 3                  | 9                |

Cafodd yr argymhelliad hwn ei groesawu gan aelodau'r grŵp arbenigol, a deimlodd y dylai fod gan bob sector rôl o ran hybu, cefnogi a rhannu gweithgareddau hamdden cyfrifol drwy god ymddygiad. Nodwyd hefyd y dylai fod ffordd o hybu mewn partneriaeth â phob parti, gan gynnwys y rheiny ymhlith defnyddwyr hamdden a rheolwyr tir, ym maes addysg, ac mewn lleoliadau masnachol, er mwyn i'r gwaith hwnnw fod yn effeithiol. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r buddion a geid o alluogi cyrff cyhoeddus (CNC ac awdurdodau mynediad) i weithio'n agosach gyda thirfeddianwyr er mwyn hwyluso negeseuon ymgyrch mwy tymhorol. Yn ogystal, cafwyd awgrym y dylid gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru



hefyd fel bod y gofyniad yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw weinyddiaeth wrth symud ymlaen.

Roedd elfen o bryder yn perthyn i faint y dasg hon. Dylid sicrhau bod adnoddau digonol i gyflawni'r gwaith o gyfathrebu a hyrwyddo mewn perthynas â gweithgareddau hamdden cyfrifol, a dylai'r gwaith hwnnw gyrraedd cynulleidfa eang ac ystyried yr effaith drawsffiniol. Heb adnoddau, perir risg i'r gwaith hyrwyddo barhau ar y lefel isel annigonol bresennol. Cafwyd cred gref hefyd y dylai'r cwricwlwm cenedlaethol gynnig ffordd o gyflawni a hybu ymddygiadau cyfrifol a chod ymddygiad.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dyletswydd ar CNC i 'hybu dealltwriaeth' o god ymddygiad mynediad cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Dylai hefyd osod dyletswydd ar awdurdodau mynediad i 'hyrwyddo dealltwriaeth' o'r un cod ymddygiad hwnnw. Dylai cyllid gyd-fynd â'r ddyletswydd hon, a dylid ei chyflawni gyda chefnogaeth Croeso Cymru.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector dysgu yn yr awyr agored amlygu negeseuon sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden cyfrifol a chod ymddygiad cysylltiedig fel rhan o ddatblygu'r dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd a hwylusir gan y Cwricwlwm i Gymru.

## Proses agored a thryloyw

Amlinellodd yr adroddiad dadansoddi opsiynau lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i'r gwaith o ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y broses o greu Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys argraffu a dosbarthu 20,000 o gopiâu o'r ddogfen ymgynghori, cynnal 54 o ddigwyddiadau cyhoeddus, a chynnal 2,900 o sgysiau â rhanddeiliaid unigol. O ganlyniad i hyn, derbyniodd NatureScot 1,362 o ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad, ac roedd ganddo 12 o staff amser llawn yn gweithio ar yr ymgynghoriad.

Gan ystyried hyn, ac os bwriedir creu cod ymddygiad newydd yng Nghymru (o ddilyn pa ddull bynnag), awgrymwyd i'r grŵp arbenigol fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut i sicrhau bod y broses ddrafftio mor agored a thryloyw â phosibl, gan gynnwys yr adnoddau y byddai'n eu cymryd i gyflawni hyn. Roedd yr ymateb i gefnogi hyn fel a ganlyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 3                  | 9                |

Cafwyd cefnogaeth wirioneddol am sicrhau cyfranogiad gan bob sector, y byddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer mynd at wraidd materion allweddol ac agor y ddadl ynghylch beth fyddai'r ymatebion priodol. Roedd cynrychiolwyr y sector rheoli tir yn awyddus i sicrhau bod eu safbwyntiau wedi'u hadlewyrchu yn y broses hon, a bod eu profiadau'n cael eu hystyried fel agwedd bwysig i'w hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu'r cod. Ceir cyddibyniaethau hefyd â chynigion diwygio eraill sydd â'r gallu i gyflwyno effeithiau a goblygiadau newydd nad aethpwyd i'r afael â nhw drwy'r rhaglen diwygio mynediad hyd yn hyn. Codwyd nifer o bwyntiau ynghylch yr adnoddau ac amser ar gyfer datblygu cod newydd, gan sicrhau y rhoddir cyfle i bob sector ymgysylltu. Codwyd pryder hefyd o safbwynt sut y byddai cod yn darparu ar gyfer iaith, y dylai fod yn hawdd ei deall ac yn hygyrch ac yn cynnwys delweddau.

**Argymhelliad:** Os bwriedir creu cod ymddygiad newydd yng Nghymru (yn ôl pa ddull bynnag a ddewisir), bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ddrafftio mor

agored a thryloyw â phosibl, gan gynnwys ymrwymo'r adnoddau y byddai eu hangen i'w gyflwyno a'i gyflawni. Dylai hwn gynnwys:

- Eglurder o ran y newidiadau angenrheidiol i'r gyfraith mynediad – cyn dechrau'r gwaith drafftio
- Cadeirydd annibynnol/diduedd â thâl, a grŵp drafftio sy'n cynrychioli'r tri philer, y byddai ei aelodau hefyd yn derbyn tâl am y gwaith hwn
- Proses ymgynghori ffurfiol, gan gynnwys amserlenni clir a system ymateb ddigidol gytunedig
- Cyngor arbenigol â thâl (mewnwelediadau ymddygiadol, iaith, cynllunio, a chyfathrebu)
- Proses ddiffiniedig ar gyfer cymeradwyo neu gadarnhau

## Ymgyrch genedlaethol sy'n defnyddio mewnwelediadau ymddygiadol

Sicrhawyd bod adnoddau sylweddol ar gael ar gyfer hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth wrth lansio Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban yn 2005 (£2 filiwn dros dair blynedd), a'r fersiwn adnewyddedig o'r Cod Cefn Gwlad yn 2004 (£451,000 am y gwaith ail-frandio). Er bod gorfodi, hyrwyddo ac addysg yn codi llawer o weithiau yn yr adroddiad dadansoddi ac opsiynau diwygio, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r dulliau o geisio dylanwadu ar ymddygiad pobl yn tybio y bydd pobl yn ymddwyn mewn ffordd 'resymol', ar sail proses ymwybodol a phwylllog o wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu eu gwybodaeth, eu gwerthoedd a'r hyn a ffafrir ganddynt. Canfu tystiolaeth nad felly mae pethau'n digwydd yn aml, ac y ceir bwlch sylweddol rhwng ymagweddau, gwybodaeth ac ymddygiadau. Gellir deall y rhain yn well, a darparu ar eu cyfer, drwy gymhwyso technegau mewnwelediadau ymddygiadol. Felly ystyriwyd y dylai Llywodraeth Cymru gyllido ymgyrch hysbysrwydd ac addysgu genedlaethol am weithgareddau hamdden cyfrifol sy'n seiliedig ar fewnwelediadau ymddygiadol. Cafwyd yr ymateb canlynol i'r argymhelliad hwn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 3                  | 9                |

Cytunwyd bod angen sicrhau parhad unrhyw ymgyrch, ei bod yn defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol, a'i bod yn arloesol. Nodwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gyllido unrhyw ymgyrch a bod yr ymgyrch honno'n barhaus er mwyn iddi barhau i fod yn effeithiol. Mae cynrychiolwyr y sector rheoli tir yn dal i fod yn wylidwrus o'r ffaith fod ymgyrch yn awgrymu y bydd dechrau a therfyn iddi, sy'n peri ymagwedd tymor byr o ran hybu ymddygiad cadarnhaol. Byddai angen sicrhau bod gan ymgyrch gyrhaeddiad cenedlaethol, a'i bod yn gyson, a byddai'n gofyn am ymrwymiad ac adnoddau yn barhaus. Mae pryder o hyd nad yw negeseuon ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol yn ofyniad craidd o safbwynt Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus, a dylid mynd i'r afael â hyn. Ceir gofid ymhlith rhai y gallai ymgyrch newydd ddilyn trywydd yr ymgyrch Aardman effeithiol (wrth ail-lansio'r Cod Cefn Gwlad yn 2004), a ddaeth i ben yn sgil costau trwyddedu parhaus.

Ystyrid bod nifer o ffactorau'n gydrannau allweddol o gynnal ymgyrch gyson ar sail mewnwelediadau ymddygiadol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio profiadau'r sector preifat o ran ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd cywir, cyflenwi nwyddau, a modelau'r cyfryngau cymdeithasol. Os datblygir y syniad o gynnal ymgyrch ymhellach, dylai fod yn gysylltiedig â busnesau, yn berthnasol i bobl y tu mewn a'r tu allan i Gymru, ac, yn bendant, dylid ei chyflwyno drwy'r cwricwlwm addysg craidd. Dylid buddsoddi mewn ymgyrch gynaliadwy er mwyn cyflawni newidiadau sylweddol mewn ymddygiadau, er y ceir cwestiynau o hyd ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru hybu'r dull hwn.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyllido ymgyrch hysbysrwydd ac addysgu genedlaethol am weithgareddau hamdden cyfrifol sy'n defnyddio mewnwelediadau ymddygiadol. Dylai gynnwys y canlynol:

- Gwerthusiad o faterion allweddol (dylid cynnwys proses asesu ar gyfer ystyried yr effaith yn erbyn y tebygolrwydd o fynd i'r afael â'r effaith honno) a'r cynulleidfa oedd cysylltiedig
- Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol
- Asesu effeithiolrwydd yr ymyriadau sydd ar gael (e.e. addysg, gwybodaeth, gorfodi, cymell) o ran mynd i'r afael â phob mater allweddol
- Gan ddefnyddio'r uchod, datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n amlinellu dull lefel uchel a ddefnyddir i hybu gweithgareddau hamdden cyfrifol
- Darparu adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid allweddol, i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r strategaeth gyfathrebu

## Dulliau gorfodi

Daeth yr angen i ystyried trefniadau gorfodi i'r amlwg ar draws pob un o'r opsiynau diwygio, a chafwyd cefnogaeth gyffredinol amdanynt os defnyddid dull cyson o'u cymhwyso i sicrhau bod hawliau mynediad yn cael eu defnyddio'n gyfrifol ac i hwyluso'r gwaith o reoli'r hawliau. Gall dulliau gorfodi gynnwys sancsiynau sifil (e.e. tresmasu, hysbysiadau cosb benodedig) a sancsiynau troseddol (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig, neu orchmynion diogelu manau agored cyhoeddus).

Cyfeirir yn aml at awdurdodau mynediad, yn elfennau allweddol yr opsiynau diwygio, fel y cyfrwng ar gyfer cymhwyso mesurau gorfodi ar gyfer rheoli ymddygiadau anghyfrifol ar dir mynediad neu hawliau tramwy cyhoeddus, ac ar gyfer amddiffyn rhag unrhyw effeithiau ar gadwraeth, erydu, bywyd gwylt, ac iechyd a diogelwch pob defnyddiwr. Felly argymhellir y rhoddir pwerau clir a chyson i awdurdodau mynediad orfodi gweithgareddau hamdden cyfrifol, ynghyd ag adnoddau digonol ar gyfer gwneud hynny. Cafwyd yr ymateb canlynol i'r argymhelliad hwn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 1                  | 7                |

Yn gyffredinol, cefnogodd y grŵp arbenigol fesurau gorfodi, er ei bod yn amlwg bod llai o gefnogaeth gan y sector cyhoeddus. Os bydd hawliau mynediad yn cynyddu, pwysleisiodd cynrychiolwyr y sector rheoli tir y dylai hynny gyd-fynd â mecanweithiau gorfodi cymesur ac effeithiol. Teimlodd y defnyddwyr hamdden y dylid rhoi pwysau cyfartal i fesurau gorfodi rhwng defnyddwyr hamdden a thirfeddianwyr nad ydynt yn cydymffurfio, lle dylai cod statudol fod yn berthnasol i'r ddwy 'ochr'. Codwyd pryder gwirioneddol o fewn y sector cyhoeddus ynghylch pa adnoddau a ddefnyddir ar gyfer gwaith gorfodi (e.e. o ran a fyddai'n gyfrifoldeb i'r awdurdod mynediad neu swyddog cymorth cymunedol yr heddlu), yn enwedig os caniateir hawliau ychwanegol. Nodwyd pryder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gyflwyno sancsiynau ac, yn absenoldeb adnoddau digonol, perir i'r sancsiynau hynny fod yn ddiystyr. Byddai angen derbyn y ffaith fod rhai materion yn fwy gorfodadwy na'i gilydd.

Cafwyd cydnabyddiaeth bod gorfodi gweithgareddau hamdden cyfrifol yn rhywbeth nad yw awdurdodau mynediad wedi'i gyflawni'n draddodiadol. Bydd angen eglurder ynghylch sut y byddai mesurau gorfodi'n gweithio gyda chynulleidfa sy'n symudol ac yn anodd ei 'dal'.

Unwaith eto, byddai gofyn am fuddsoddiad er mwyn rheoli unrhyw gynnydd mewn materion sy'n codi. Cynigiwyd enghraifft o sefyllfaoedd lle mae 'swyddogion addysg' yn gweithio'n dda, ond byddai'r angen i fynd i'r afael â gallu, galluogrwydd a chysondeb yn parhau.

Argymhelliad: Dylid rhoi pwerau clir a chyson i awdurdodau mynediad orfodi gweithgareddau hamdden cyfrifol, a dylid rhoi adnoddau digonol iddynt a'u galluogi'n ddigonol i wneud hynny. Byddai hyn yn cynnwys y canlynol:

- Ystyried bod aelodau o staff perthnasol a phresennol yr awdurdodau mynediad yn rhan o 'Wasanaeth Swyddogion Hamdden Cymru', y mae pob awdurdod yn ei gydnabod
- Hyfforddiant ac ymgysylltiad rheolaidd â chyrrff eraill sy'n ymwneud ag ymwelwyr (e.e. Gwylwyr y Glannau, timau achub mynydd, ac adrannau troseddau cefn gwlad yr heddlu) er mwyn meithrin cysondeb o safbwynt negeseuon a'r dull
- Canllawiau ar gymhwyso mesurau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch hysbysrwydd ac addysgu am weithgareddau hamdden cyfrifol

## Cysondeb ar draws mynediad o bob math

Awgrymodd sylwadau'r grŵp arbenigol fod y dull anghyson o gymhwyso hawliau a chyfrifoldebau ar draws hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhwystr i gyfathrebu effeithiol a chydymffurfiaeth. Nodwyd enghreifftiau o le gall hyn ddigwydd, gan gynnwys y ddyletswydd ar feicwyr (o dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968) i ildio i gerddwyr a marchogwyr ceffylau ar lwybrau ceffylau, ond nid ar ffurfiau eraill ar hawliau tramwy cyhoeddus â hawliau uwch. Enghraifft arall yw lle dylid cadw cŵn o dan 'reolaeth effeithiol' neu ar dennyn byr o gwmpas da byw ar dir mynediad, ond nad oes gofyniad tebyg i wneud hynny ar hawliau tramwy cyhoeddus. Argymhellwyd bod angen i'r 'rheolau' ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol gael eu cymhwyso'n berthnasol ar draws pob math o fynediad. Cafwyd yr ymateb canlynol i'r argymhelliad hwn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 0                  | 0                  | 0                |

Roedd hollt glir ynghylch eglurder yr argymhelliad hwn ymhlith aelodau'r grŵp arbenigol. Er hynny, mewn egwyddor, cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai cysondeb yn y rheolau ar gyfer pob math o fynediad yn hwyluso'r gwaith o gyfleu negeseuon clir ar gyfer rheolwyr tir a defnyddwyr hamdden. Fodd bynnag, mae'n bosibl y ceid cyfyngiadau o ran yr hyn y byddai modd ei gyflawni pan fo hawliau a chyfrifoldebau gwahanol yn berthnasol i hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'n bosibl y gallai diwygiadau ychwanegu cymhlethdod, ac, o'i hystyried yn erbyn y rhwydwaith ffyrdd ehangach, gallai'r egwyddor fod yn ddryslyd.

Er na ddaeth y grŵp arbenigol i gonsensws ar y dull hwn, cytunwyd bod rheolau cyson yn haws eu deall. Fodd bynnag, nodwyd bod angen cydbwyso symleiddio â goblygiadau anfwriadol posibl pobl yn colli'r hawl mynediad sydd ganddynt ar hyn o bryd (cynigiwyd tir o dan Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel enghraifft, gan nad yw'n ddarostyngedig i ddarpariaethau ar gyfer gwaharddiadau dros dro yn gyffredinol). O safbwynt ceisio cyflawni cysondeb, codwyd cwestiwn hefyd ynghylch a fyddai angen lleihau'r cyfyngiadau ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu eu cynyddu ar hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd angen cael eglurder os y nod yw symleiddio wrth gadw hawliau a chyfrifoldebau, ac y byddai angen ystyried unrhyw effaith

bosibl ar atebolrwydd meddianwyr yn ofalus. Yn ogystal, bydd angen cytuno ar y dull o ddrafftio cod ymddygiad yn gyntaf er mwyn gweithredu rheolau neu ymddygiad cytunedig mewn gwirionedd.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi lle gellid defnyddio dull mwy cyson o weithredu 'rheolau' gweithgareddau hamdden cyfrifol ar draws pob math o fynediad, a, lle bo hynny'n bosibl, ceisio cysoni'r diffiniadau hynny er mwyn symleiddio'r gwaith o gyfleu gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys rheoli cŵn, egwyddor 'hierarchaeth defnyddwyr' gyson (fel y cynigiwyd ar gyfer y fersiwn newydd o Reolau'r Ffordd Fawr), a dull 'rhannu'r lle'.

## Dyletswydd i ystyried mewn cynlluniau a mapiau

Gyda newid posibl mewn naill ai'r ddeddfwriaeth neu ganllawiau ar gyfer cod hamdden, ceid effaith ar gynlluniau integredig a'r gwaith o ddarparu gwybodaeth. Awgryma adroddiadau dadansoddi y dylai'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gynnwys gofyniad i awdurdodau lleol amlinellu sut y byddan nhw (a phartneriaid eraill o fewn cynlluniau) yn cyfleu gwybodaeth am y cod gweithgareddau hamdden cyfrifol a chodau cysylltiedig. Yn ogystal, dylai'r canllawiau nodi y dylid cynnwys cyfeiriadau pendant at unrhyw newid posibl mewn hawliau a chyfrifoldebau ar draws tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hawliau tramwy cyhoeddus.

Byddai angen cysylltu gweithgareddau hamdden cyfrifol â gwaith mapio mynediad ar gyfer defnyddwyr a rheolwyr tir er mwyn eu helpu i nodi'u hawliau a chyfrifoldebau. Ceir posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth gymhleth am hawliau tramwy cyhoeddus (e.e. dangos llwybrau troed y dynodwyd hawliau uwch iddynt sydd â'r un hawliau â'r rhai a geir ar lwybrau ceffylau ar hyn o bryd ond mewn ffordd weledol wahanol). Drwy waith mapio, bydd angen ystyried sut y gall cod ddarparu negeseuon clir. Felly awgrymwyd y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau mynediad i ystyried gweithgareddau hamdden cyfrifol wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau mynediad neu fapiau. Roedd ymateb y grŵp arbenigol i hyn fel a ganlyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 2            | 3                  | 2                  | 7                |

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol am hyn, er y teimlodd aelodau'r grŵp arbenigol fod angen egluro'r dull yn well o ran amlinellu'i amcanion a'i allbynnau posibl. O safbwynt y ddyletswydd i ystyried gweithgareddau hamdden cyfrifol wrth ddatblygu cynlluniau, byddai hyn yn gwneud synnwyr cyn belled ag y bo hynny o fewn cwrpas cynlluniau strategol penodol fel Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy neu'r cynlluniau a fydd yn eu disodli. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd, ar lefel leol, y dylid gosod unrhyw ddyletswydd i gynnwys gwaith hybu gweithgareddau hamdden cyfrifol o dan godau cenedlaethol, o ran hierarchaeth, ac y dylai barhau i fod yn un o ddyletswyddau CNC. Gyda hynny, bu wastad rhan i awdurdodau lleol ei chwarae o safbwynt hybu hawliau mynediad lleol, ac, os cyflwynir hawliau uwch, bydd cyfathrebu ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol yn hanfodol bwysig.

Nododd cynrychiolwyr y sector cyhoeddus bwynt pwysig, sy'n nodyn atgoffa o'r dyletswyddau sydd eisoes ar awdurdodau lleol, sef bod y broses gorchymyn llwybr cyhoeddus yn pennu y dylent ystyried yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Nid yw'n hysbys i ba raddau y mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ledled Cymru eisoes yn darparu datganiadau ar weithgareddau hamdden cyfrifol, ond





mae'n debygol bod y datganiadau hyn yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol, gan olygu y ceir effaith bosibl ar ganlyniad rhywfaint o orchmynion, gan ddibynnu ar y sylw dyledus sy'n angenrheidiol cyn eu cadarnhau. Ystyrir y byddai defnyddio gwaith mapio i hybu gweithgareddau hamdden cyfrifol yn offeryn defnyddiol, ond nid yw'n glir sut y gellid cyflawni hyn na sut y gellid ei gymhwyso o fewn dyletswyddau mapio. Cyfeiriwyd at amser ac adnoddau fel y ffactorau pwysicaf o ran hwyluso hyn, ochr yn ochr â dyletswyddau eraill y mae'r awdurdodau lleol eisoes yn eu cyflawni.

**Argymhelliad:** Dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau mynediad i ystyried gweithgareddau hamdden cyfrifol wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau mynediad neu fapiau ar lefel strategol, a darparu adnoddau digonol ar gyfer cyflawni hyn.

## Sylwadau cyffredinol

Yn ogystal â'r pwyntiau penodol a godwyd ynghylch yr argymhellion a'r dulliau, lleisiwyd pryder na fydd gweithgareddau hamdden cyfrifol, fel thema drawsbynciol, yn ymdrin â'r holl faterion sy'n deillio o'r cynigion diwygio. Mae'n bosibl y ceir tuedd i dybio bod y thema drawsbynciol yn cwmpasu materion penodol a godwyd, gan beri risg na chaiff natur y newid posibl mewn ymddygiad yn sgil y diwygiad ei deall yn glir. Ar draws y diwygiadau, mae'n glir y nodwyd bod gweithgareddau hamdden cyfrifol yn hanfodol i'r gwaith o newid unrhyw hawliau mynediad.

Os cynyddir hawliau mynediad, bydd peidio â mynd i'r afael â materion ymddygiad cysylltiedig ar yr un pryd yn cael effaith negyddol. Mae angen hefyd ennyn ymrwymiad gan reolwyr tir i gadw hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad ar agor, yn ddefnyddiadwy, ac yn groesawgar er mwyn sicrhau y gellir cynnal dulliau dros yr hirdymor. Daeth yn glir, drwy effeithiau COVID-19, fod angen o'r newydd i gyfleu negeseuon ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol, a dylid ystyried hyn ym mhob agwedd ar ddiwygio. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd bod COVID-19 wedi cyflwyno cyfres wahanol o heriau i waith rheoli cefn gwlad, ynghyd ag angen i fod yn rhagweithiol er mwyn cadw ar flaen y gad o ran datblygu negeseuon sy'n ymwneud â chodau perthnasol.

## Thema 2: Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd

Mae materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd yn codi ym mhob un o'r diwygiadau arfaethedig. O dan Deddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i atal gwahaniaethu yn y gwaith o ddarparu cyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau ac i wneud addasiadau rhesymol er mwyn hwyluso mynediad. Felly, mae'n rhesymegol disgwyl y byddai pob un o'r opsiynau diwygio'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.

### Egluro dyletswyddau awdurdodau mynediad

Mae'n aneglur beth fydd goblygiadau rhoi pwerau i awdurdodau lleol, a hynny er enghraifft mewn perthynas ag opsiynau fel caniatáu hawliau uwch lle ceir dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai angen ymgorffori asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mewn prosesau mynediad diwygiedig cyn iddynt gael eu gweithredu. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sydd wedi'i chynnwys yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i sawl ystyriaeth cydraddoldeb wrth gyflawni eu swyddogaethau. Er mwyn gwneud

hyn yn bosibl, awgrymwyd y dylid gosod dyletswydd ar bob awdurdod mynediad i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o unrhyw waith newydd ar ddatblygu mynediad. Cafwyd y gefnogaeth ganlynol am hyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 0            | 0                  | 1                  | 1                |

Roedd gan bron pawb bryderon am y cynnig hwn. Yn bennaf, roedd hynny'n deillio o'r cwestiwn p'un a yw'r awdurdodau mynediad eisoes yn ystyried eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn perthynas â datblygu mynediad, a ph'un a fyddai'r gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ychwanegu unrhyw beth at hyn, neu'n creu haen arall o fiwrocratiaeth ddiangen yn unig. Ystyriwyd y gallai cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fod yn ddymunol fel rhan o brosiect seilwaith mynediad mawr (cynigiwyd datblygiadau mawr ar hyd Llwybr Arfordir Cymru fel enghraifft), ond ni fyddai'r un broses yn addas ar gyfer gwaith ar raddfa lai.

Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth gan gynrychiolwyr y sector cyhoeddus nad oes ganddynt bwerau ar hyn o bryd i wneud gwelliannau 'mynediad lleiaf rhwystrol' i hawliau tramwy cyhoeddus, ac mae'n wir fod hynny'n rhwystro'u gallu i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn hyn o beth, mae'r cydberthynas â'r tirlfeddiannwr yn allweddol o ran ei gwneud yn bosibl darparu opsiwn mynediad lleiaf rhwystrol. Weithiau, ceir gwrthdaro rhwng anghenion defnyddwyr ac anghenion y rheolwyr tir.

**Argymhelliad:** Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r syniad o hybu'r arweiniad sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod awdurdodau mynediad yn mabwysiadu dull cymesur a chyson o gyflawni'u dyletswyddau presennol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddai hyn yn cynnwys annog awdurdodau mynediad i ystyried ac ymgynghori â phob grŵp defnyddwyr â nodweddion gwarchoddedig cyn y cyflwynir unrhyw welliannau i fynediad.

## Dull o asesu addasrwydd ar gyfer hawliau uwch

Gan ddibynnu ar y dull a ddewisir, mae gan y broses o ddyfeisio meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd, ar gyfer cynnwys neu eithrio hawliau uwch, y potensial i leihau neu gynyddu mynediad cynhwysol. Awgrymodd cyflwyniadau mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth y byddai angen ymgorffori meini prawf cadarn yn y broses o asesu p'un a ddylid eithrio neu gynnwys hawliau, ac asesu anaddasrwydd, a hynny o'r cychwyn. Rhaid i feini prawf hefyd ystyried defnyddwyr cyfarpar symudedd gan y caiff hyn ei ddefnyddio lle gweithredir hawliau is ac uwch, a bydd angen cyfeirio at ganllawiau perthnasol, fel [Safonau Prydeinig BS 5709](#) (bylchau, gatiau a chamfeydd), a hynny'n enwedig mewn perthynas â newidiadau i seilwaith mynediad. Felly awgrymwyd i'r grŵp arbenigol y dylid ymgorffori cydraddoldeb mewn unrhyw broses asesu addasrwydd a grëir ar gyfer cynnwys neu eithrio hawliau uwch. Cafwyd y gefnogaeth ganlynol am hyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 0            | 0                  | 2                  | 2                |

Gellid gweld y ceid rhywfaint o fudd o alinio'r egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ag unrhyw broses asesu addasrwydd newydd, a hynny, yn bennaf, o safbwynt gwneud newidiadau i gelfi ar lwybrau (gatiau/camfeydd) a fyddai'n hwyluso mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch a'r bobl hynny ag anawsterau symud. Fodd bynnag, roedd y

rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd am y cynnig hwn yn nodi pryder. Un o'r prif ffactorau a nodwyd yn adborth y grŵp arbenigol oedd y gost o ystyried, ac yna uwchraddio, llwybrau i safonau mynediad lleiaf rhwystrol. Roedd cydbwysu'r adnoddau ar gyfer uwchraddio llwybrau sydd eisoes yn bodoli yn erbyn y rheiny ar gyfer creu mynediad newydd yn bryder a nododd cynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden, ynghyd â gofid y câi mynediad lleiaf rhwystrol ei ddefnyddio fel rheswm dros beidio â gweithredu hawliau uwch mewn rhai ardaloedd. Roedd un o'r ffactorau eraill yn ymwneud â'r diffyg hyder sylfaenol ymhlith cynrychiolwyr y sector rheoli tir bod gatiâu'n darparu modd digonol o reoli stoc, yn enwedig ger terfynau rhwng deiliadau tir. Cododd cwestiwn o blith cynrychiolwyr y sector cyhoeddus hefyd ynghylch p'un a fyddai'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru, ac ar awdurdodau mynediad o ganlyniad, o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, i sicrhau bod unrhyw broses asesu addasrwydd yn ystyried y bobl hynny â nodweddion gwarchoddedig. Mae hwn yn gwestiwn y bydd angen ei ateb fel rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru ar y rhaglen diwygio mynediad.

Os penderfynir datblygu dull asesu addasrwydd ymhellach, mae'n amlwg y bydd angen darbwyllo grwpiau defnyddwyr hamdden eraill o'r goblygiadau cadarnhaol a geir yn sgil ystyried y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig fel rhan o ddatblygu mynediad newydd, hyd yn oed o gofio bod hyn yn ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae angen sylweddol hefyd i ddarparu tystiolaeth er mwyn rhoi sicrwydd i reolwyr tir bod gatiâu a ddefnyddir i hwyluso mynediad lleiaf rhwystrol, neu fynediad hawliau uwch, yn effeithiol o ran rheoli stoc. Gan gadw'r pwyntiau hyn mewn golwg:

**Argymhelliad:** Bydd angen i unrhyw ddull o asesu addasrwydd a ddatblygir gyfeirio at y canllawiau cyfredol ar gyfer mynediad lleiaf rhwystrol ar gyfer awdurdodau mynediad a rheolwyr tir er mwyn sicrhau y gweithredir proses deg a thryloyw sy'n gyson ledled Cymru. Byddai hyn yn cynnwys egwyddor yr ymgynghorid â grwpiau defnyddwyr sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn gwaith ymchwil i effeithiolrwydd cymharol y dyluniadau sydd ar gael ar gyfer bylchau, gatiâu a chamfeydd sy'n cydymffurfio â BS 5709, o safbwynt rheoli stoc.

## Gofyniad i ddarparu gwybodaeth am gyflwr llwybrau

Mae gwybodaeth yn chwarae rhan bwysig mewn cynyddu mynediad cynhwysol a hyder ymhlith defnyddwyr, yn enwedig y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amlinellir pwysigrwydd hyn yn y 'gadwyn fynediad' yn y canllaw [Trwy Bob Dull Rhesymol](#) ar fynediad lleiaf rhwystrol. Un o'r materion allweddol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a gafodd ei nodi yn ystod y cam dadansoddi opsiynau oedd y diffyg mewn gwybodaeth glir a chyson am gyflwr presennol y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y math o arwyneb ac unrhyw adeileddau ar y llwybr a allai rwystro teithiau cysylltiol (e.e. camfeydd a gatiâu). Ystyriwyd bod diffyg gwybodaeth am yr hyn y gellid ei ddisgwyl wrth ymweld â rhan benodol o lwybr yn un o'r rhwystrau mwyaf o safbwynt y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cynigiwyd y dylai fod yn ofynnol i bob awdurdod mynediad gasglu a darparu gwybodaeth am natur a chyflwr hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer mynediad lleiaf rhwystrol.

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 2            | 2                  | 2                  | 6                |

Er y cafwyd cefnogaeth weddol gref am y cynnig hwn, ystyriwyd bod rhai awdurdodau mynediad yn casglu'r data hwn, ond nid efallai ar ffurf a oedd yn ddefnyddiol ar gyfer y bobl hynny oedd ei angen. Nodwyd pryder sylweddol hefyd ynghylch y gost barhaus o gadw'r wybodaeth hon yn gyfredol, a chodwyd cwestiwn ynghylch p'un a yw hen wybodaeth yn fwy 'peryglus' na dim gwybodaeth o gwbl. Awgrymodd ymatebion y grŵp arbenigol y dylai unrhyw ddatrysiad arfaethedig ei gwneud yn ofynnol dilyn dull o gasglu gwybodaeth na fyddai'n awgrymu bod dyfarniad addasrwydd wedi'i wneud (byddai'n fater i'r defnyddiwr farnu ar hynny), lle byddai cyfyngiadau'r wybodaeth wedi'u nodi'n glir (e.e. dyddiad casglu), a lle byddai'r wybodaeth a gesglir yn gyson ar draws awdurdodau ond wedi'i chyflwyno mewn lleoliad unigol. Ceir hefyd cysylltiadau â'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer Diwygiad 3A.

**Argymhelliad:** Dylai'r datblygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ar gyfer Diwygiad 3A gynnwys gofyniad i awdurdodau mynediad rannu'r data y maent yn ei gasglu am gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw rwystrau i deithiau cysylltiol, a hynny drwy'r porth digidol cenedlaethol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried y gofynion gwybodaeth o safbwynt y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig o ran categoriedd'r data a gesglir.

## Hyfforddiant ar gyfer staff yr awdurdodau mynediad

Mae'r gwaith o ddarparu seilwaith a gwybodaeth yn effeithio ar nodweddion gwarchoddedig, fel anabledd, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond mae'n bwysig nodi'r nodweddion gwarchoddedig eraill, fel ethnigrwydd a rhywedd, y mae ffurf yr wybodaeth hefyd yn cael effaith arnynt, er enghraifft y graddau y ceir cynhwysiant ym meysydd marchnata a hyrwyddo. Ystyriwyd y byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant ar sut i weithredu egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ar draws yr ystod lawn o nodweddion gwarchoddedig. Felly awgrymwyd y byddai'n ofynnol i bob un o swyddogion yr awdurdodau mynediad ymgymryd â hyfforddiant ar sut i weithredu egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol.

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 0            | 2                  | 3                  | 5                |

Er y cafodd y syniad o hyfforddiant gofynnol dderbyniad da, yn gyffredinol, gan gynrychiolwyr y defnyddwyr hamdden a'r sector cyhoeddus, codwyd pryderon ymhlith rheolwyr tir. Canolbwyntiodd y rhain ar ofid y byddai ffocws yr hyfforddiant ar helpu'r bobl hynny â nodweddion gwarchoddedig ond na fyddai'n ystyried anghenion y rheolwyr tir. Fel y nodwyd ynghynt, bu pryder sylweddol ynghylch defnyddio gatiâu sy'n cydymffurfio â BS 5709. Cafwyd cytundeb ymhlith aelodau'r grŵp arbenigol na ddylai hyfforddiant ganolbwyntio ar awdurdodau mynediad yn unig, ac y byddai'n ddefnyddiol cynrychioli cydbwysedd ar draws 'tri philer' rheoli mynediad, a hynny o safbwynt cyrraedd cynulleidfaoedd a'r gwaith o ddarparu'r hyfforddiant. Nododd cynrychiolwyr y rheolwyr tir y dylai fod cyfle i rannu profiadau ynghylch problemau a achosir gan gatiâu na allant ddal stoc yn ôl, a'r peryglon o annog pobl â nodweddion gwarchoddedig yn amhriodol i ddefnyddio tir mynediad cyhoeddus nad oes modd mynd drosto.

Codwyd dau fater arall, gan gynnwys y gost o'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddarparu hyfforddiant. Mae'r mater arall, sef un sy'n gysylltiedig ag elfennau sy'n cael eu trafod o fewn yr opsiynau diwygio, yn ymwneud â'r ffaith nad oes gan awdurdodau mynediad y pŵer i wneud newidiadau i seilwaith llwybrau ar hyn o bryd. Bydd angen rhoi ystyriaeth i hyn yn yr hyfforddiant gan ei fod yn gallu cyfyngu ar yr opsiynau sydd gan awdurdodau

mynediad i ddod â'r rhwydwaith i safon sy'n cyd-fynd ag egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol. Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg:

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r gwaith o ddatblygu pecyn safonol o hyfforddiant ac arweiniad ar sut i weithredu egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ar gyfer mynediad cyhoeddus. Dylid sicrhau bod hyn ar gael i bob aelod o staff perthnasol yn yr awdurdodau mynediad, y fforymau mynediad lleol, rheolwyr tir, a grwpiau defnyddwyr hamdden â diddordeb.

## Sylwadau cyffredinol

Yn ogystal â'r pwyntiau penodol a drafodwyd ynghylch tegwch, cynhwysiant a hygyrchedd, cafwyd cais cyffredinol gan reolwyr tir i gael cyfle i gymryd mwy o ran yn y maes hwn wrth iddo gael ei ddatblygu. Codwyd pwynt hefyd ynghylch 'ansawdd yn hytrach na maint', ac os dewisir datblygu dull sy'n fwy seiliedig ar ddyletswyddau, gallai hynny olygu y caiff yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwella a chynnal mynediad lleiaf rhwystrol eu lledaenu mor eang nes peri iddo fod yn ofer. Cynigiwyd dull mwy cymesur ac sydd wedi'i dargedu'n fwy ar gyfer darparu mynediad i bobl â nodweddion gwarchoddedig, y gellid ei gyflawni drwy feini prawf asesu a fyddai'n cynnwys rhoi sylw i ddefnyddwyr posibl, y dirwedd, cadwraeth, a materion sy'n ymwneud â rheoli tir. Unwaith eto, codwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd yr argymhellion drafft yn ddigon manwl i alluogi aelodau'r grŵp arbenigol i ddarparu adborth yn hyderus. Ystyriwyd bod angen cynnal ymgynghoriad ar y newidiadau deddfwriaethol penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu datblygu cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd.



## Thema 3: Rolau'r fforymau mynediad lleol

Mae'r fforymau mynediad lleol yn fforymau statudol y mae'n ofynnol i'r awdurdod prifffyrdd lleol, neu'r awdurdod parc cenedlaethol yn achos parc cenedlaethol (yr awdurdod penodi), eu sefydlu ar gyfer ei ardal. Rôl pob fforwm mynediad lleol yw cynghori ar wella mynediad cyhoeddus i dir yn ei ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhad pobl o'r ardal.

Mae 22 o fforymau mynediad lleol gweithredol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae bod yn aelod o fforwm mynediad lleol yn ddi-dâl, ac felly mae aelodau'r fforymau mynediad lleol, gan gynnwys eu cynrychiolwyr cenedlaethol, yn rhoi o'u hamser a'u gwybodaeth yn wirfoddol. Ceir cyfeiriadau at y fforymau mynediad lleol yn y rhan fwyaf o'r opsiynau diwygio. Mae'r themâu canlynol wedi'u tynnu o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y cam dadansoddi opsiynau.

### Statws y fforymau mynediad lleol yn sgil unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith mynediad

Roedd llawer o'r opsiynau diwygio a ddatblygwyd gan y grwpiau arbenigol yn cynnwys elfennau a awgrymodd newid statws y fforymau mynediad lleol. Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn nodi y gallai'r fforymau mynediad lleol ddod yn gyrrff ar gyfer gwneud penderfyniadau, y byddai gofyn iddynt gyflwyno newidiadau i fynediad cyhoeddus. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn awgrymu bod cyfres o broblemau sylfaenol yn gysylltiedig â'r awgrymiadau hyn.

Teimlodd nifer o ymatebwyr na fyddai cynnwys fforymau mynediad lleol fel cyrrff a fyddai'n gwneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'u rôl gynghorol statudol bresennol. Byddai hefyd yn eu gwneud yn agored i heriau cyfreithiol, y codwyd hynny fel pryder gan gofio'r ffaith bod eu haelodaeth yn wirfoddol. Mae'r cynnig o dan Opsiwn Diwygio 2A(iii) (gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus) yn enghraifft o sefyllfa lle cododd hyn, a hynny yng nghyd-destun y cynnig i gynnwys fforymau mynediad lleol yn y broses apelïadau. Yn ogystal â materion ynghylch p'un a yw swyddogaethau gwneud penderfyniadau yn briodol i rôl fforymau mynediad lleol, codwyd pryderon ymarferol ar sail y ffaith nad yw pob un o aelodau'r fforymau mynediad lleol wedi derbyn yr hyfforddiant ar gyfer cyflawni rôl gwneud penderfyniadau o'r fath, ac o ran yr hyn a ddigwyddai pe câi penderfyniad gan fforwm mynediad lleol ei wrthod gan yr awdurdod mynediad. Cafwyd ymholiad hefyd ynghylch sut i ymdrin â gwrthdaro buddiannau a allai godi yn achos rhywfaint o aelodau'r fforymau mynediad lleol pe byddent yn gwneud penderfyniadau ar faterion statudol ynghylch materion penodedig, e.e. achosion o ddigolledu tirfeddianwyr. Yn ogystal, gan ystyried cyfyngiadau ar allu, gofynnwyd p'un a ellid ei gwneud yn ofynnol i fforymau mynediad lleol, mewn gwirionedd, ymdrin â phrosesau statudol arfaethedig o fewn amserlen, e.e. fel sy'n ofynnol i awdurdodau lleol ei gwneud ar gyfer prosesau'r hawliau tramwy cyhoeddus sy'n ymwneud â Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Felly awgrymwyd i'r grwpiau arbenigol y dylai'r fforymau mynediad lleol barhau i chwarae rôl fel cyrrff cynghorol (fel ar hyn o bryd) yn niwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, yn nodedig mewn perthynas â'u hawdurdodau penodi, awdurdodau perthnasol, a Llywodraeth Cymru. Mae'r gefnogaeth a roddwyd i hyn fel a ganlyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|

|   |   |   |   |
|---|---|---|---|
| 3 | 3 | 2 | 8 |
|---|---|---|---|

Roedd y gefnogaeth am yr awgrym hwn bron yn unfrydol. Roedd hyn yn bennaf yn deillio o ddiffyg hyder yng ngallu'r fforymau mynediad lleol i gyflawni'r swyddogaeth o wneud penderfyniadau oherwydd yr anghysondebau presennol yn y ddarpariaeth. Teimlodd y grwpiau arbenigol y byddai'n well defnyddio amser y fforymau i geisio mynd i'r afael â materion ynghylch trefniadau llywodraethu, aelodaeth a phrosesau, a'u gwneud yn gyrrff cynghorol mwy defnyddiol ar gyfer cyflwyno diwygiadau i fynediad, ac ar gyfer cyflawni swyddogaethau eraill o bosib, fel cynghori'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Argymhelliad:** Dylai'r fforymau mynediad lleol barhau i chwarae rôl fel cyrff cynghorol (fel ar hyn o bryd) yn niwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, yn nodedig mewn perthynas ag awdurdodau penodi, awdurdodau perthnasol, a Llywodraeth Cymru.

## Rôl y fforymau mynediad lleol mewn unrhyw brosesau asesu addasrwydd

Cyflwynwyd awgrym tebyg arall i'r grwpiau arbenigol o safbwynt y dylid pennu bod gan y fforymau mynediad lleol rôl fel cyrff cynghorol, a hynny mewn modd tebyg i'w rôl bresennol o ran deddfwriaeth, e.e. ar gyfer cynlluniau gwella mynediad, a gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Derbyniodd hyn y gefnogaeth ganlynol:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 1                  | 7                |

Unwaith eto, cafwyd cefnogaeth am hyn yn sgil y pryder nad yw fforymau mynediad lleol yn addas ar gyfer rhan fwy ffurfiol mewn unrhyw broses asesu addasrwydd a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen diwygio mynediad. Deilliodd hyn unwaith eto o ffactorau a oedd yn cynnwys gallu o ran amser y gwirfoddolwyr, a diffyg gwybodaeth neu sgiliau arbenigol. Lleisiwyd pryder hefyd ei bod yn cymryd llawer o amser yr awdurdodau lleol, yn gyffredinol, i reoli'r fforymau mynediad lleol, a byddai dyrannu unrhyw swyddogaethau ychwanegol iddynt yn rhoi mwy o bwysau arnynt. Nodwyd pryder sylweddol hefyd ynghylch maint yr ardaloedd y mae fforymau mynediad lleol bellach yn eu cwmpasu, a pha mor anaml y mae eu haelodau'n cwrdd, gan eu gwneud yn enwedig o aneffeithiol pe byddai angen iddynt fod yn rhan o broses asesu leol effeithlon. Fodd bynnag, roedd teimlad y gallai fforymau mynediad lleol chwarae rhan werthfawr mewn rhoi cyfeiriad mwy strategol mewn perthynas â'r dull o weithredu hawliau uwch newydd ar lefel ranbarthol.

**Argymhelliad:** Dylai fforymau mynediad lleol chwarae rôl gynghorol mewn unrhyw broses asesu addasrwydd a bennir, a hynny mewn modd tebyg i'w rôl bresennol o ran deddfwriaeth, e.e. ar gyfer cynlluniau gwella mynediad, a gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

## Adolygu aelodaeth y fforymau mynediad lleol

Mae'r rhan fwyaf o'r fforymau mynediad lleol yn cwrdd tua bob chwarter, a gallant sefydlu is-bwyllgorau. Rhaid i fforwm gynnwys aelodau sy'n cynrychioli defnyddwyr y tir mynediad lleol a hawliau tramwy lleol, perchnogion a meddianwyr tir mynediad a thir sydd â hawliau tramwy, a phobl â buddiannau eraill sy'n enwedig o berthnasol i'r ardal.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod penodi sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng y buddiannau hyn. Ymatebodd nifer o'r fforymau mynediad lleol i'r cais am dystiolaeth, ac roedd yr wybodaeth ganddynt yn awgrymu bod y cydbwysedd o aelodau ynddynt eisoes yn dda mewn perthynas â diwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Fodd bynnag, codwyd pryderon hefyd ymhlith ymatebion gan rai o'r fforymau mynediad lleol a rhanddeiliaid allanol bod diffyg cydbwysedd yn aelodaeth ychydig o fforymau mynediad lleol, a hynny oherwydd bod diffyg cynrychiolaeth o fuddiannau nifer o ddefnyddwyr hamdden, a nodwyd y gallai diwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddwysáu'r mater hwn. Felly awgrymwyd i'r grŵp arbenigol y byddai angen i'r awdurdodau penodi, a'u fforymau mynediad lleol, adolygu aelodaeth y fforymau hynny, yng ngoleuni'r diwygiadau a gyflwynir. Derbyniodd hyn y gefnogaeth ganlynol:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 1            | 3                  | 2                  | 6                |

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod anghysondeb yng nghydbwysedd yr aelodaeth ar draws fforymau mynediad lleol Cymru. Yn yr un modd, teimlwyd y ceir bwlbch weithiau rhwng bwriad rheoliadol y fforwm mynediad lleol a'r gwirionedd. Codwyd mater penodol ynghylch yr arfer presennol lle penodir swyddog o'r awdurdod mynediad fel ysgrifennydd. Lleisiwyd pryder bod hyn yn golygu bod y fforymau mynediad lleol yn agored i effeithiau unrhyw newidiadau mewn staff neu adnoddau, ac, yn bwysicach, bod diffyg didueddrwydd yn sgil y ffaith mai'r un unigolyn sy'n llywio'r agenda ag a fydd yn gweithredu ar y cyngor. Codwyd cwestiwn hefyd ynghylch p'un a fyddai'n bosibl cyflawni aelodaeth sydd wir yn cynrychioli poblogaeth ardal, gan fod angen i wirfoddolwyr allu fforddio'r amser i fynychu cyfarfodydd.

Teimlwyd y byddai'r diwygiadau hyn yn cynnig cyfle i adolygu aelodaeth y fforymau mynediad lleol, ac i geisio denu aelodau newydd iddynt. Cyfeiriwyd yn benodol at gyflawni mwy o gynrychiolaeth gan ddefnyddwyr hawliau uwch er mwyn adlewyrchu'r newidiadau posibl yn y gyfraith mynediad. Mae'n bosibl y gallai'r cyfle i chwarae rôl sylweddol yn y broses o ddiwygio mynediad arwain at ennyn mwy o ddiddordeb gan y defnyddwyr hyn, ond, fel y nodwyd uchod, bydd angen i'r rôl hon barhau i gael ei chyflawni ar sail gynghorol.

**Argymhelliad:** Dylai'r awdurdodau penodi, a'u fforymau mynediad lleol, adolygu aelodaeth y fforymau hynny yng ngoleuni'r diwygiadau a gyflwynir.

## Datblygu arweiniad newydd ar gyfer fforymau mynediad lleol

Un o'r pwyntiau cyffredinol pellach a godwyd yn ystod y cam dadansoddi opsiynau oedd y byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i ddiffinio manylion y diwygiadau y byddai'r fforymau mynediad lleol yn rhan ohonynt yn gwneud y gofynion yn llai hyblyg, ac yn dueddol o ddyddio neu gael eu diystyru'n gyffredinol. Barnwyd y byddai deddfwriaeth eilaidd ac arweiniad yn fwy defnyddiol a hyblyg yn hyn o beth. Mae CNC eisoes wedi datblygu arweiniad nad yw'n statudol er mwyn cefnogi fforymau mynediad lleol o ran eu swyddogaethau statudol. Felly awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru (gyda chyngor Senedd Cymru) ddatblygu arweiniad ar gyfer fforymau mynediad lleol, pan gaiff diwygiadau eu cyflwyno, er mwyn eu cefnogi yn eu rôl gynghorol. Derbyniodd hyn y gefnogaeth ganlynol:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 3            | 3                  | 2                  | 8                |

Roedd y gefnogaeth gan aelodau'r grŵp arbenigol am y cynnig hwn bron yn unfrydol. Os gwnaed unrhyw ddiwygiadau i'r gyfraith mynediad, cytunwyd y byddai angen adolygu'r arweiniad, ac mai CNC fyddai'r corff priodol i arwain ar y gwaith hwn. Cafwyd awgrym hefyd y dylai'r broses adolygu hon ddod yn gylch rheolaidd er mwyn rhoi hyder i'r fforymau mynediad lleol eu bod yn gweithio yn unol ag arweiniad sy'n gyfredol, ac y dylid cefnogi'r cylch hwnnw gyda phroses ymgysylltu a gynhelir gan CNC (cynigiwyd cynhadledd flynyddol cadeiryddion y fforymau mynediad lleol fel enghraifft).

Cafwyd sawl awgrym ynghylch pa arweiniad y dylid ei ddarparu mewn perthynas â diwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Cyfeiriodd rhai ohonynt at bwyntiau yr aed i'r afael â nhw eisoes yn yr adran hon, fel egwyddorion 'mynediad lleiaf rhwystrol', sut y caiff meini prawf ar gyfer dethol hawliau uwch eu gweithredu, a llywodraethu aelodaeth priodol. Cafwyd awgrymiadau hefyd a nododd y dylid datblygu arweiniad a fyddai'n helpu'r fforymau mynediad lleol i gyfethol cyngor arbenigol o'r tu allan i'r fforwm, a chychwyn is-grwpiau ar gyfer mynd i'r afael â thasgau ar sail gorchwyl a gorffen. Codwyd pwynt ychydig yn wahanol ynglŷn â'r ffaith y gallai CNC hefyd ddarparu arweiniad i awdurdodau mynediad (a'u monitro) er mwyn safoni'r ffordd y caiff fforymau mynediad lleol eu gweinyddu, eu cefnogi yn y gwaith o gyflawni statws statudol y fforymau mynediad lleol, a'u cynnal yn unol â phwyllgorau statudol eraill, e.e. gyda chymorth gan wasanaethau corfforaethol yr awdurdodau mynediad yn hytrach na bod yn ddibynnol ar swyddogion hawliau tramwy i'w hwyluso.

**Argymhelliad:** Dylai CNC / Llywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad ar gyfer fforymau mynediad lleol ac awdurdodau mynediad mewn perthynas â diwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, pan gânt eu cyflwyno, er mwyn cefnogi'r fforymau mynediad lleol i gyflawni eu rôl gynghorol. Dylid adolygu a diwygio'r arweiniad yn ôl yr angen.

## Thema 4: Gweithgareddau a digwyddiadau masnachol

Cyfeirir at weithgareddau a/neu ddigwyddiadau masnachol ym mhob un o'r digwyddiadau, naill ai o fewn opsiynau neu fel rhan o sylwadau'r arbenigwyr. Yng nghyd-destun y diwygiad hwn, mae gweithgareddau a digwyddiadau masnachol yn cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb, grwpiau tywysedig, sportifau, a digwyddiadau torfol 'y telir amdanynt' lle mae'r gweithgareddau a wneir yn rhai y gall unigolion eu cyflawni drwy hawl, fel dringo, cerdded, beicio, marchogaeth ceffylau ac ati. Amlygir y prif faterion sy'n ymwneud â gweithgarwch masnachol yn yr adrannau isod.

### Diffinio gweithgarwch masnachol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Ym mharagraff (t) o Atodlen 2 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, nodir bod *“any activity which is organised or undertaken for any commercial purpose”* wedi'i eithrio o hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Atodwyd hyn gan [gyngor](#) gan DEFRA sy'n disgrifio'r gair 'masnachol' fel gweithgarwch lle mae cyfranogwyr yn gwneud y canlynol:

- Masnachu neu'n gwerthu
- Codi tâl ar ymwelwyr eraill am bethau y maent yn eu gwneud ar eich tir
- Ffilmio, tynnu lluniau neu lunio mapiau

Heriwyd gweithredu'r esemptiad hwn ers y deddfiad, yn enwedig mewn achosion lle cyflawnir y gweithgaredd at ddibenion addysgu yn bennaf. Fodd bynnag, awgryma cyngor cyfreithiol fod y diffiniad a ddefnyddir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn bendant, ac nid yw'n agored i unrhyw ddehongliad ynghylch ei ddiben. Yn ystod cam cais am dystiolaeth proses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, ystyriodd ymatebwyr fod hyn yn wendid yn y ddarpariaeth bresennol a geir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, oherwydd y barnwyd bod sicrhau mynediad ar gyfer gweithgareddau addysgol masnachol yn ofyniad allweddol.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y cam dadansoddi opsiynau yn cyfeirio at 'ddull yr Alban' fel datrysiaid posibl i hyn. Yn yr Alban, diffinnir bod gweithgarwch masnachol yn dderbyniol, o dan is-baragraff 1(3)(c) o Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003, os yw'n cael ei gyflawni *“for the purposes of carrying on, commercially or for profit, an activity which the person exercising the right could carry on otherwise than commercially or for profit.”* Mae hyn wedi'i ddiffinio ymhellach yng Nghod Mynediad Awyr Agored yr Alban ac mewn canllaw a ddatblygwyd gan Fforwm Mynediad Cenedlaethol yr Alban. O ganlyniad, darperir cyfeiriad clir ar gyfer darparwyr addysgol bod hawl iddynt fynd ar dir â grwpiau.

Gan ystyried y mewnbwn hwn, cynigiwyd bod Llywodraeth Cymru'n creu diffiniad cliriach o weithgarwch masnachol yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a hynny er mwyn gwahaniaethu rhwng gweithrediadau mawr a gweithgareddau hamdden 'tywysedig' ar raddfa lai. Dangoswyd y gefnogaeth ganlynol am yr argymhelliad hwn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 2            | 3                  | 3                  | 8                |

Teimlad cyffredinol y grŵp arbenigol oedd y gallai fod yn werth archwilio diffiniad newydd o weithgarwch masnachol, yn debyg i'r un a ddefnyddir yn yr Alban. Y rheswm dros wneud hyn yw hepgor gweithgarwch addysgol tywysedig o'r diffiniad presennol o 'weithgarwch masnachol', a hynny oherwydd y buddion y mae'n eu darparu o ran gwella dealltwriaeth,



ymwybyddiaeth ac ymddygiadau amgylcheddol a chymdeithasol. Teimlwyd hefyd y gallai diffiniad mwy eglur helpu'r gwaith o bennu lle bydd angen caniatadau/trwyddedau.

Fodd bynnag, codwyd pryder gwirioneddol ynghylch sut y câi'r egwyddor hon ei llunio yn y gyfraith, yn enwedig mewn perthynas â'r awgrym gwreiddiol o ddefnyddio maint y grŵp fel ffactor diffiniol. Mae un o'r materion yn ymwneud â'r ffaith y gall grwpiau addysgol amrywio'n fawr o ran eu maint a'u natur. Cynigiwyd enghraifft o ganolfan addysgol awyr agored sy'n cynnal gweithgaredd gyda grŵp ysgol mawr. Ystyriwyd y gallai dod o hyd i ddiffiniad a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i grwpiau addysgol masnachol ddefnyddio tir mynediad agored drwy hawl, wrth gadw'r cyfyngiad ar weithgarwch masnachol arall, fod yn beryglus. Codwyd cwestiwn arall ynghylch sut y byddai gweithgareddau masnachol eraill ar raddfa lai yn gweddu i ddull yr Alban, er enghraifft cerdded cŵn yn fasnachol, lle gellid cyflawni'r gweithgaredd yn hamddenol. O ran hyn, teimlwyd nad oedd dull yr Alban yn ddigon eglur.

Byddai'r prawf a awgrymwyd ar gyfer datblygu hyn ymhellach yn golygu llunio rhestr ddiffiniol o weithgareddau masnachol y dylid eu caniatáu ar dir mynediad agored, drwy hawl, a'r rheiny na ddylid eu caniatáu. Wedyn, câi hon ei chyflwyno i ddeddfwyr Llywodraeth Cymru ei hystyried a phrofi diffiniaid cyfreithiol. Gellid wedyn gyfeirio at y rhestr lawn yn yr arweiniad cysylltiedig, a'i diweddarau yn ôl y gofyn.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut i ailddrafftio is-baragraff 1(1)(t) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau bod gweithgareddau masnachol a gyflawnir 'at ddibenion addysgol' wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau presennol. Bydd angen ystyried y diffiniad o 'ddibenion addysgol' yn ofalus, ymgynghori yn ei gylch, a darparu arweiniad cysylltiedig.

## Caniatâd, talu, ac atebolrwydd meddianwyr

Un o'r pwyntiau a godwyd o blith cynrychiolwyr y sector rheoli tir yw'r egwyddor y dylai deiliaid tir fod yn rhydd i godi tâl ar y bobl hynny sy'n gwneud arian o ddefnyddio'r tir mynediad agored y maent yn ei reoli. Gwnaethant amlygu'r ffaith y byddai caniatáu i weithgareddau masnachol ddigwydd ar dir 'preifat', drwy hawl, yn taseilio gallu tiffeddianwyr i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o safbwynt amrywio'u busnesau drwy godi tâl am gynnal digwyddiadau masnachol. Ar hyn o bryd, fel yr amlinellwyd uchod, nid roddir hawl mynediad ar gyfer *“any activity which is organised or undertaken for any commercial purpose”*, sy'n cynnwys unrhyw weithgaredd lle mae darparwyr yn *“charge other visitors for things they do on your land”*. Felly, ar hyn o bryd, gall deiliaid tir godi tâl ar y bobl hynny sy'n perthyn i'r categorïau hynny os ydynt am gael mynediad i'w tir. Un o'r problemau gyda'r sefyllfa bresennol yw, mewn achosion lle mae meddiannydd yn codi tâl ar grŵp masnachol sydd am fynd ar dir mynediad, ni fyddent yn mynd ar y tir hwnnw fel tir mynediad mwyach, ac felly ni fyddai'r lleihad mewn atebolrwydd yn Adran 13 yn berthnasol mwyach.

Gan ystyried y safbwynt hwn, mae'n ymddangos y gallai diffiniad mwy eglur o weithgarwch masnachol, a chynnwys gweithgarwch addysgol 'drwy hawl' (fel yr amlinellwyd uchod), helpu i amddiffyn meddianwyr rhag unrhyw faterion atebolrwydd a allai ddeillio o weithgarwch masnachol mwy byrhoedlog ac ar raddfa lai. Gall hefyd fod yn bosibl gwella'r amddiffyniad a ddarperir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd i gynnwys pob 'nodwedd ffisegol' drwy weithredu'r dull o ymdrin ag atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ac sy'n cael ei ystyried yn Niwygiad 1A a Diwygiad 1B. Felly cynigiwyd i'r grwpiau arbenigol y dylai newidiadau deddfwriaethol sicrhau lleihad yn atebolrwydd meddianwyr am weithgarwch masnachol, yn unol â chynigion eraill o dan broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Cafwyd y gefnogaeth ganlynol am hyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|

3

2

2

7

Er bod y gefnogaeth am egwyddor y cynnig hwn yn gymharol uchel, roedd hynny'n amodol iawn ar sicrhau bod y manylion wedi'u datblygu cyn y byddai cynrychiolwyr y sectorau'n teimlo'n ddigon hyderus i roi eu cefnogaeth lawn. Ceir hefyd cyd-ddibyniaethau gydag argymhellion eraill yn yr adran hon. Er enghraifft, byddai lleihad mewn atebolrwydd ond yn berthnasol i weithgareddau a gyflawnid 'drwy hawl', felly byddai'n ofynnol cael diffiniad o weithgarwch masnachol er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni mathau penodol o weithgareddau (e.e. rhai addysgol). Yn ogystal â hyn, os derbyniwyd unrhyw daliad am y gweithgaredd, ystyrid y byddai atebolrwydd cyffredinol y meddiannydd a'r ddyletsywydd gofal gyffredinol yn berthnasol (yn ôl yr hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984).

Roedd pwynt arall a godwyd yn ymwneud â'r angen am eglurder ynghylch yr atebolrwydd a briodolir i awdurdodau mynediad pan fônt yn rhoi caniatâd ar gyfer digwyddiadau. Nodwyd pryder nad oedd hyn yn eglur ar hyn o bryd, ac y dylai'r egwyddor o leihad mewn atebolrwydd ymestyn i gyrff cyhoeddus hefyd mewn sefyllfaoedd lle ceid posibilrwydd iddynt chwarae rhan mewn hwyluso caniatâd neu daliad. Gan ystyried y pwyntiau hyn, mae'r argymhelliad i Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad sy'n amlinellu sut y dylid diffinio 'gweithgarwch masnachol' pan fydd y gyfraith mynediad wedi'i diwygio, gan gynnwys a fyddai cynigion i leihau atebolrwydd meddianwyr ymhellach ar gyfer gweithgareddau 'drwy hawl' yn berthnasol, a sut byddai hyn yn gweithio. Dylai hyn roi arwydd clir i ddeiliaid tir ac awdurdodau mynediad o ran eu hatebolrwydd ar gyfer y gweithgareddau hynny, ac o ran pa effaith y mae'r gofyniad i roi caniatâd neu dderbyn taliad yn ei chael arno.

## Anghysondeb mewn hawliau rhwng mathau o fynediad

Er bod 'gweithgarwch masnachol' wedi'i amlinellu'n benodol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, nid yw gweithgareddau masnachol wedi'u heithrio, o dan y statud ei hun, yn y ddeddfwriaeth ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd un o'r materion a godwyd mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol hon yn ymwneud â'r ffaith nad oes mecanwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol ceisio caniatâd ar gyfer cynnal gweithgareddau masnachol 'mwy' ar hawliau tramwy cyhoeddus, er enghraifft heriau a digwyddiadau chwaraeon mewn ardaloedd lle gall fod pryderon ynghylch achosi gwrthdaro â defnyddwyr eraill neu eu heffaith ar yr amgylchedd. Lleisiwyd pryder hefyd bod y ffyrdd amrywiol y mae'r hawliau'n berthnasol yn ei gwneud yn anodd cyfathrebu â defnyddwyr yn eu cylch.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau fater hyn, cynigiwyd y dylid cysoni'r hawliau o ran gweithgarwch masnachol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy drwy gyfeirio'r ddau at ddiffiniad a amlinellir mewn cod mynediad. Awgryma cyngor cyfreithiol y gallai fod yn bosibl y gallai cod mynediad fod yn gyson berthnasol i'r holl dir a gwmpesir gan hawliau mynediad, a hynny drwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r hawliau a roddir yn ddarostyngedig iddi. Byddai hyn yn gofyn am lunio cod sydd wedi'i gysylltu â hawliau mynediad mewn ffordd fwy cadarn. Cafwyd y gefnogaeth ganlynol am hyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 1            | 1                  | 1                  | 3                |

Nododd y grŵp arbenigol pryder sylweddol ynglŷn â'r dull hwn a awgrymwyd. Mae'r prif bryder yn deillio o'r goblygiadau anfwriadol yn sgil gwneud newidiadau a fydd yn effeithio ar hawliau tramwy

cyhoeddus, yn enwedig lle gallai'r rhain ddylanwadu ar hawliau ar y rhwydwaith ffyrdd yn ehangach. Er mai'r rheswm dros awgrymu'r newidiadau hyn yw hwyluso dull mwy effeithiol o reoli gweithgareddau masnachol penodol (e.e. digwyddiadau a drefnir), gallai'r effaith o gyfyngu ar weithgarwch masnachol ar draws y rhwydwaith greu mwy o broblemau nag y byddai'n eu datrys. Codwyd pryder hefyd ynghylch natur yr hawliau tramwy cyhoeddus mewn ardaloedd trefol a'r effeithiau posibl y câi hyn ar fusnesau sydd wedi defnyddio'r llwybrau hynny yn draddodiadol. Cynigiwyd pedleriaid (e.e. gwerthwyr hufen iâ) sy'n defnyddio llwybrau ceffylau fel enghraifft.

Er yr ystyriwyd bod y mecanwaith yn anaddas, cafwyd cydnabyddiaeth y gall digwyddiadau her a chwaraeon masnachol nad ydynt wedi'u cydlynu gael effaith sylweddol ar ddeiliaid tir a chyrrff cyhoeddus. Wrth fyfyrto ar y pwyntiau hyn, ystyriwn fod angen ail-lunio'r cynnig hwn fel ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar y mater y mae angen mynd i'r afael ag ef.

## Rheoli digwyddiadau her a chwaraeon

Yn ystod y cam dadansoddi opsiynau, nodwyd pryder ynghylch y ffaith nad oes mecanwaith ar gyfer cyfyngu ar gynnal digwyddiadau her a chwaraeon ar hawliau tramwy cyhoeddus ar hyn o bryd (fel yr amlinellwyd uchod). Roedd hyn yn broblem oherwydd bod trefnwyr digwyddiadau'n dewis defnyddio nifer mwy cyfyngedig o lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus lle nad oedd angen iddynt ofyn am ganiatâd, gan achosi difrod ychwanegol i'r safleoedd a'i gwneud yn anos i ddeiliaid tir ac awdurdodau mynediad reoli digwyddiadau. Codwyd pryder hefyd ynghylch y ffaith nad yw mecanweithiau rheoli hawliau tramwy cyhoeddus yn darparu ar gyfer dull effeithiol o reoli digwyddiadau her a chwaraeon. Nodwyd mai pwerau cyfyngedig a geir ar hyn o bryd ar gyfer codi arwyddion ar gyfer digwyddiadau, darparu pwyntiau gwirio, a hwyluso'r gwaith o adfer cerbydau; nad yw'n bosibl rheoli defnyddwyr hawliau mynediad eraill heb gau llwybrau'n ffurfiol; a bod angen i ddigwyddiadau llynu wrth lwybrau diffiniol er y gall y llwybr ar lawr gwlad fod yn wahanol. Wrth ystyried y pryder hwn, awgrymwyd i'r grŵp arbenigol y gellid newid deddfwriaeth hawliau tramwy cyhoeddus fel ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth yr awdurdod mynediad ar gyfer cynnal unrhyw 'ddigwyddiad mawr a drefnir'. Cafwyd y gefnogaeth ganlyinol am hyn:

| Rheolwyr tir | Defnyddwyr hamdden | Y sector cyhoeddus | Cyfanswm (n = 9) |
|--------------|--------------------|--------------------|------------------|
| 2            | 2                  | 1                  | 5                |

Roedd teimladau cymysg ymhlith aelodau'r grŵp arbenigol mewn perthynas â'r cynnig hwn. Cydnabuwyd bod mater i'w ddatrys, a bu pryder ynghylch maint ac amllder y digwyddiadau sy'n digwydd ar safleoedd poblogaidd yn ystod misoedd yr haf. Lleisiwyd pryder hefyd ynghylch yr effaith y mae'r digwyddiadau hyn yn ei chael ar yr amgylchedd ac ar ddiogelwch a mwynhad defnyddwyr eraill. Nododd cynrychiolwyr y sector rheoli tir y byddent yn croesawu system ar gyfer rheoli digwyddiadau a drefnir ar hawliau tramwy cyhoeddus. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau sylweddol ynglŷn â sut y câi hyn ei gyflawni, yn enwedig gan ystyried yr effaith ganlyniadol bosibl ar ddefnyddiau eraill a wneir o hawliau tramwy cyhoeddus, fel yr amlinellwyd yn yr adran uchod.

Codwyd dau fater arall, yr oedd un ohonynt yn ymwneud â'r cymhlethdodau o geisio diffinio 'digwyddiad mawr a drefnir', a'r llall oedd y baich gweinyddol y byddai dyletswydd gyffredinol i gymeradwyo'n ei osod ar awdurdodau mynediad. Barnwyd y byddai pennu ffigur penodol ar gyfer diffinio 'digwyddiad mawr a drefnir' yn broblemus oherwydd y gellid rhagori arno ar ddamwain. Cynigiwyd grŵp anffurfiol o gerddwyr fel enghraifft lle na bennir uchafswm ar niferoedd, ond lle gellid cael effaith ar hawliau a chyfrifoldebau os yw maint y grŵp yn rhagori ar nifer arbennig. Roedd cwestiwn yma hefyd ynghylch sut y gallai ffigur penodol ystyried natur y gweithgaredd (ar droed, beic neu geffyl) neu unrhyw wylwyr. Mae'r mater sy'n ymwneud â'r rhan y mae awdurdodau mynediad yn ei chwarae mewn

rhoi caniatâd yn canolbwyntio ar ofynion y broses. Teimlwyd y byddai tybiaeth bod awdurdodau mynediad wedi rhoi sylw llawn i'r materion cysylltiedig (e.e. risg), ymgynghori â'r deiliaid tir perthnasol, a darparu mecanwaith apelio addas.

Wrth ystyried y pwyntiau a godwyd, fe ddaeth yn amlwg y byddai gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau mynediad, a hwylusid gan addasiad cyffredinol o hawliau ar hawliau tramwy cyhoeddus, yn broblemus ac anghymesur o ystyried natur leol y mater. Felly mae angen dull sydd wedi'i dargedu'n fwy o fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r mater canolog yn parhau o ran y ffaith nad oes mecanwaith ar hyn o bryd a all ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr digwyddiadau geisio caniatâd er mwyn defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus i gynnal digwyddiadau (ac eithrio rasys beiciau ar lwybrau ceffylau, y maent wedi'u gwahardd yn llwyr).

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio pa bwerau y gall eu rhoi i awdurdodau priffyrdd lleol nodi rhannau penodol o hawliau tramwy cyhoeddus lle ceir defnydd uchel / effaith uchel, a'i gwneud yn ofynnol ceisio caniatâd ar gyfer cynnal digwyddiadau her a chwaraeon.

## Sylwadau cyffredinol

Nodwyd y ffaith fod yr argymhellion ond wedi ystyried ardaloedd ar hawliau tramwy cyhoeddus neu dir mynediad agored, lle roedd gweithgarwch masnachol hefyd yn digwydd mewn ardaloedd eraill (megis ar/mewn cyrff dŵr). Roedd hyn mewn cydnabyddiaeth mai'r ffurfiau hyn ar fynediad cyhoeddus oedd cwrpas y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, ond mae'n bosib y caiff trafodaeth ehangach ei chychwyn rhywbryd neu'i gilydd. Cafwyd cais hefyd am ystyried yn ofalus oblygiadau gwneud newidiadau i'r sefyllfa bresennol, pan fo posibilrwydd y gellid cael canlyniadau anfwriadol sylweddol ar fywoliaethau. Amlygodd pwynt mwy cyffredinol ynghylch y broses bryder nad oedd yr argymhellion drafft a gyflwynwyd i aelodau'r grŵp arbenigol yn ddigon manwl i roi'r hyder iddynt eu cefnogi. Roedd gofid ynghylch y ffaith y gellid cymhwyso awgrym o gefnogaeth i argymhelliad amgen na fyddai aelodau'r grŵp arbenigol yn ei ffafrio.



# Atodiad A: Tablau o elfennau allweddol addasedig yr opsiynau diwygio

## Diwygiad 1A(i): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
| 001.      | <p>Diwygio deddfwriaeth Atodlen 2 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y Ddeddf) ar gyfer tir mynediad nad yw'n arfordirol er mwyn darparu ar gyfer gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad presennol yn unol â bwriad y polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• beicio, marchogaeth, barcuta a pharagleidio;</li> </ul> <p>ac, mewn dyfroedd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ac eithrio cronfeydd dŵr):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol; ymdrochi/nofio.</li> </ul> | <p>Tybir mai'r Senedd sydd â'r pŵer y cyfeirir ato yn Adran 44(3) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p> <p>Byddai angen ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a ellir deddfu'r newid hwn ar dir sydd wedi'i neilltuo o dan Adran 16 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p> <p>Byddai angen ceisio cyngor cyfreithiol o ran sut mae hyn yn rhyngweithio ag Is-ddeddf 648 y Comisiwn Coedwigaeth, sy'n atal defnyddio cychod dŵr ar ei dir.</p> <p>Gellid gweithredu diwygiadau drwy ddileu'r gofyniad i awdurdodau perthnasol gael caniatâd tiffeddianwyr i lacio cyfyngiadau ym mharagraff 7(1) o Atodlen 2.</p> |
| 002.      | <p>Byddai mapiau presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol [h.y. dim gofyniad i ailfapio mynediad o dan y Ddeddf, gan y gwnaed gwaith mapio tir mynediad yn ôl mathau diffiniedig o dir yn unig – mynydd, rhostir ac ati).</p>   | <p>Nid yw'r opsiwn hwn yn berthnasol i dir a gwmpesir gan dir o dan Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gan y darperir yr hawliau mynediad o dan ddeddfwriaeth arall.</p>   |
| 003.      | <p>Byddai deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hawliau mynediad [gan gynnwys gwaith mapio – gweler uchod]</li> </ul>   | <p>Byddai angen adolygu'r arweiniad ar gyfer Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu hawliau uwch (ac unrhyw opsiwn perthnasol o dan Ddiwygiad 1B).</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan</p>  |





| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
|                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau gwahardd a chyfyngu</li> <li>Dulliau mynediad (Pennod III)</li> </ul>   | <p>I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dulliau mynediad) yn rhoi'r pŵer i awdurdod mynediad wella mynediad i dir mynediad oddi mewn i dir mynediad (er enghraifft ar draws ffensys mewnol). Os nad yw, dylai diwygiadau deddfwriaethol ddarparu ar gyfer hyn.</p>  |
| 004.             | Gweithredu cod mynediad er mwyn diffinio hawliau a chyfrifoldebau.  | <p>Er bod cefnogaeth eang ar gyfer cod, ynghyd â'r gwaith addysgu/hyrwyddo cysylltiedig, ni ddaethpwyd i gonsensws eang ar ei ffurf – anstatudol, neu statudol heb sancsiynau (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan Adran 20 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy), neu statudol gyda sancsiynau.</p> <p>Dylid nodi y gallai Diwygiad 1A fynd yn ei flaen gan ddefnyddio'r deddfwriaeth bresennol ar gyfer canllawiau a chodau ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol, gyda diwygiadau addas i'r testun.</p> |
| 005              | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]   |  |
| 006.             | Byddai angen i'r deddfwriaeth ei gwneud yn bosibl gwella hygyrchedd celfi mynediad, fel gatiau a chamfeydd. Dylai'r holl gelfi newydd fodloni safonau hygyrchedd, fel safon BS 5709, wrth ddisodli hen gelfi. | Gellid ymgorffori unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n egluro Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gweler uchod).  |
| 007.             | Symbol mynediad agored newydd ar gyfer arwyddion ar lawr gwlad (e.e. cyfeirbwyntiau). Byddai angen i'r dyluniad newydd gynnwys pob defnyddiwr.  | <p>Ni fyddai angen cynnwys symbol yn y deddfwriaeth ond byddai angen ei safoni.</p> <p>Byddai angen rhoi gwybod i'r Arolwg Ordnans a chwmnïau cartograffeg eraill fod hawliau gwahanol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol yng Nghymru.</p>   |
| 008.             | Byddai angen sicrhau bod cyllid amaethyddol-amgylcheddol ar gael ar gyfer gwelliannau i fynediad a'r seilwaith ategol.  | Gallai cynllun cyllido amaethyddol diwygiedig ar ôl Brexit gefnogi'r gwaith o wella mynediad ymarferol i dir mynediad, ac oddi mewn iddo.  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
| 009.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]   |   |
| 010.             | Caiff newidiadau eu cyfleu yng Nghymru – ac yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas ag effaith drawsffiniol.   | Bydd cynllun cyfathrebu yn bwysig wrth weithredu unrhyw ddiwygiad, o ran codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hawliau mynediad newydd (bydd hyn yn cynnwys adolygu canllawiau a gwybodaeth mynediad mewn perthynas â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.  |
| 011.             | Byddai'r lleihad mewn atebolrwydd meddianwyr am ddefnyddwyr hamdden yn berthnasol i hawliau uwch drwy rinwedd deddfwriaeth mynediad bresennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. | <p>Dyma yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, gan fod paragraff 4(a) o Adran 13 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn lleihau atebolrwydd am bawb sy'n mynd ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am leihau'r atebolrwydd ymhellach, megis i'r lefel y darperir ar ei chyfer ar dir mynediad arfordirol yn Lloegr gan Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir [Lloegr] 2009, a/neu drwy leihau'r atebolrwydd sy'n ddyledus gan geidwad anifeiliaid, trwy ddiwygio Adran 13 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, er enghraifft.</p> <p>Byddai'n well gweithredu'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr yn Niwygiad 1A ac yn Niwygiad 1B.</p> |

## Diwygiad 1A(ii): Tabl o elfennau allweddol

| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
| 001.             | <p>Byddai angen rhoi pwerau i'r awdurdodau mynediad wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal asesiad o addasrwydd tir mynediad diffiniedig o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gyfer</li> </ul> | Gallai fod yn ofynnol i awdurdodau mynediad asesu ardaloedd o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn eu hardaloedd (fel bod y pŵer yn dod yn ddyletswydd) er mwyn sicrhau y gweithredir hawliau yn ehangach. |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|--|---|
|                  | <p>hawliau uwch yn eu hardaloedd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llacio'r cyfyngiadau ar hawliau uwch, a bennir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ar gyfer ardaloedd o dir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf yr aseswyd eu bod yn addas</li> </ul>   | <p>Ceir mater sylweddol o ran adnoddau ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.</p> <p>Gellid deddfu drwy addasu paragraff 7(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p>  |
| 002.             | <p>Pwerau i ddiffinio'r canlynol mewn rheoliadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y meini prawf asesu addasrwydd ar gyfer mynediad hawliau uwch a fydd yn berthnasol i dir mynediad</li> <li>• Prosesau asesu a sut y cânt eu defnyddio (gan gynnwys diffinio 'ardal o dir mynediad' at ddibenion asesu)</li> <li>• Gofynion y broses ar gyfer penderfynu ar lacio Atodlen 2 ar gyfer hawliau uwch</li> </ul> | <p>Gallai rheoliadau neu fethodoleg bennu addasrwydd, y broses asesu, a chyrrff cyfrifol hefyd.</p> <p>Byddai angen i'r broses benderfynu ddarparu ar gyfer y canlynol: ymgynghoriadau, sylwadau, penderfynu ac apeliadau.</p> <p>Dylid pennu'r ymgynghorwyr statudol yn y rheoliadau. Byddai gan fforymau mynediad lleol ddisgresiwn i gynghori ar unrhyw agwedd ar y broses fel rhan o'u rôl a swyddogaethau presennol.</p> |
| 003.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]  |   |
| 004.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]  |   |
| 005.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]  |   |
| 006.             | Byddai'r trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn parhau i fod yn berthnasol.  | <p>Byddai angen adolygu'r arweiniad i awdurdodau parciau cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu hawliau uwch (ac unrhyw opsiwn perthnasol o dan Ddiwygiad 1B).</p> <p>Gallai cyfyngiadau ar hawliau uwch ddechrau wrth deddfu neu unwaith y gwelwyd yr effaith.</p>  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
| 007.             | Adnoddau ar gyfer tiffeddianwyr / rheolwyr tir.   | <p>Byddai angen sicrhau bod adnoddau ar gael i awdurdodau mynediad ar gyfer gwaith asesu a chostau posibl eraill, megis gwaith swyddogion, gwaith rheoli ymarferol, a gwaith monitro'r effaith.</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dulliau mynediad) yn rhoi'r pŵer i'r awdurdodau mynediad wella mynediad i dir mynediad oddi mewn i dir mynediad (er enghraifft ar draws ffensys mewnol). Os nad yw, dylid gweithredu diwygiadau deddfwriaethol er mwyn darparu ar gyfer hyn.</p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau diffinio ardaloedd o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ddetholus ar gyfer hawliau uwch, ac yn nodedig mewn perthynas ag unrhyw ofynion digolledu.</p> |
| 008.             | Byddai'r ddyletswydd mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a'r prosesau cysylltiedig, yn parhau i fod yn berthnasol. Dylai'r hyn sydd i'w weld ar fapiau wahaniaethu rhwng hawliau sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.                           | Byddai angen hefyd cysylltu â'r Arolwg Ordnans a chwmnïau mapio eraill.  |
| 009.             | Gellid defnyddio pwerau Adran 19 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddarparu arwyddion cysylltiedig; symbol/logo mynediad agored hawliau uwch newydd ar gyfer cyfeirnodau ac arwyddion; byddai ardaloedd nad yw'r diwygiadau'n cael effaith arnynt barhau gyda'r arwyddion a'r cyfeirnodau presennol. | Safoni cynllun ar gyfer disgiau cyfeirbwynt newydd, arwyddion pwynt mynediad, ac arwyddion cyfeiriadol ar gyfer tir mynediad â hawliau uwch. Canllawiau ynghylch eu defnyddio gan awdurdodau mynediad.   |
| 010.             | Newid Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hawliau uwch yn unol â bwriad y   | Gallai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu dull hyblyg o asesu a phenderfynu ar addasrwydd, gan ddarparu ar gyfer gweithredu hawliau uwch amrywiol   |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
|                  | polisi ar gyfer unrhyw ardaloedd tir mynediad a asesir.   | mewn ardaloedd, e.e. beicwyr yn unig a/neu farchogwyr ceffylau.  |
| 011.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]   |  |
| 012.             | [Cafodd yr elfen allweddol ei hepgor ar gyfer y cam dethol opsiwn.]   |  |
| 013.             | Adolygu pwerau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'w gwneud yn bosibl gwella dulliau mynediad i dir mynediad, ac oddi mewn iddo, ar gyfer hawliau uwch er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i dir mynediad o dan y Ddeddf yn gyffredinol. Byddent yn cael eu harfer yn ôl disgrisiwn yr awdurdodau mynediad. | Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod mynediad wella mynediad i dir mynediad oddi mewn i dir mynediad (er enghraifft ar draws ffensys mewnol). Os nad yw, dylid gweithredu diwygiadau deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer hyn.   |
| 014.             | Mynediad 'gwell' yn ôl addasrwydd. Gallai ystyriaethau gynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Effeithiau pwysau hamdden</li> <li>- Hygyrchedd tir</li> <li>- Y galw am fynediad</li> </ul>  | Sylwer: darperir pwerau i reoliadau ddiffinio materion fel meini prawf a methodoleg asesu yn Efen Allweddol 002.   |
| 015.             | Lleihau ymhellach lefel atebolrwydd meddianwyr o dan Adran 13 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer defnyddwyr cyfreithlon tir mynediad o dan y Ddeddf.   | Mae opsiynau'n cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>– byddai'r lleihad mewn atebolrwydd yn parhau yn ystod gwaharddiadau a chyfyngiadau</li> <li>– lleihau atebolrwydd meddianwyr ymhellach fel ei fod ar yr un lefel â'r hyn a roddir gan Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer tir mynediad arfordirol yn Lloegr</li> <li>– lleihau atebolrwydd y meddianwyr ymhellach yn sgil anaf a achosir gan dda byw</li> </ul> <p>Byddai'n well cymhwyso'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr yn Niwygiad 1A ac yn Niwygiad 1B.</p> |





## Diwygiad 1A(iii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
| 001.      | <p>Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddarparu pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy y gweithredwyd hawliau uwch ar gyfer marchogaeth ceffylau a beicwyr arno.</p>  | <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch goblygiadau dilyn dull detholus o ddiffinio coridorau o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hawliau uwch, yn nodedig mewn perthynas ag unrhyw ofynion digolledu.</p> <p>Mae hwn yn opsiwn sy'n ddwys ar adnoddau o safbwynt awdurdodau mynediad ac o ran costau iawndal o bosibl.</p> <p>Gellid diwygio drwy newid paragraff 7(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p>   |
| 002.      | <p>Byddai pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau â hawliau uwch o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i'r holl dir mynediad presennol sydd wedi'i ddynodi neu ei neilltuo o dan y Ddeddf.</p> <p>Byddai'r hawliau uwch i'w gweithredu ar goridau a nodwyd yn rhan o'r broses ddiffinio a byddai'n fater i'r awdurdodau mynediad benderfynu arno.</p> <p>Byddai angen cynnwys rhagdybiaeth ar gyfer sicrhau'r mynediad lleiaf rhwystrol.</p> <p>Pwerau i reoliadau bennu'r broses o ddiffinio coridorau â hawliau uwch newydd, gan gynnwys eu hystyried yn ôl disgrisiwn awdurdodau mynediad, cymhwyso hawliau, asesu'r llwybr arfaethedig, a phenderfynu ar y llwybr arfaethedig.</p> | <p>Gallai pennu ei bod yn ofynnol i awdurdodau mynediad (fel bod y pŵer yn dod yn ddyletswydd) asesu ardaloedd ar gyfer hawliau uwch sicrhau bod y diwygiad yn cael ei weithredu'n ehangach.</p> <p>Ystyried defnyddio'r broses diffinio llwybrau a ddefnyddiwyd ar gyfer Llwybr Arfordir Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 [ond peidio â chymhwyso'r broses o ddynodi Llwybr Cenedlaethol].</p> <p>Gellid rhoi pŵer dewisol i awdurdodau mynediad roi hawliau ar gyfer beicwyr yn unig neu ar gyfer hawliau marchogaeth yn unig.</p> <p>Rhoddir disgrisiwn i fforymau mynediad lleol gynghori ar unrhyw agwedd ar y broses fel rhan o'u rôl a swyddogaethau presennol.</p> <p>Byddai angen datblygu prosesau'r opsiynau, y meini prawf asesu a'r fethodoleg (ac ati) ymhellach, a hynny'n fanwl.</p> |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
|                  | <p>Proses gynnig/asesu ar gyfer diffinio ardaloedd y gellid gweithredu hawliau uwch newydd arnynt, a fyddai'n cynnwys y camau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynnig drwy gais [e.e. gan unigolyn, fforwm mynediad lleol]; neu</li> <li>- Gynnig gan awdurdod mynediad, yn ôl ei ddisgresiwn</li> <li>- Asesiad o'r cynnig yn erbyn meini prawf penodol</li> <li>- Gofynion ymgynghori</li> <li>- Argymhelliad</li> <li>- Penderfyniad gan awdurdod mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy</li> <li>- Gweithredu'r llwybr [gan gynnwys dulliau mynediad i dir ac oddi mewn iddo]</li> </ul> <p>Gallai'r meini prawf i'w diffinio mewn rheoliadau gynnwys y galw/angen, nodweddion llwybrau [gan gynnwys dimensiynau coridorau], hawliau mynediad sydd eisoes yn bodoli, nodweddion ffisegol, cadwraeth natur/treftadaeth.</p> |   |
| 003.             | <p>Dylai gwaharddiadau a chyfyngiadau ar lwybrau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gynnwys rhagdybiaeth o deithiau cysylltiol, a'i gwneud yn bosibl amrywio llwybr neu ddarparu llwybr amgen ar gyfer teithiau cysylltiol o'r fath.</p>  | <p>Byddai angen adolygu'r arweiniad ar gyfer Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu'r hawliau uwch (ac unrhyw opsiwn perthnasol o dan Ddiwygiad 1B).</p> <p>Byddai angen datblygu'r broses ar gyfer amrywio llwybr ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau hefyd, ac mae'n bosibl y bydd angen dilyn prosesau tebyg i ddiffiniad gwreiddiol y llwybr.</p> <p>Ni fydd pob llwybr yn llwybr trwodd, e.e. gallant arwain at olygfan.</p> |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
|                  |   | <p>Gellid gweithredu llwybr amgen drwy ddiwygio paragraff 7(2)(b) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y gallai'r awdurdod perthnasol neu'r awdurdod mynediad bennu cyfnod o amser (gan dybio y caiff paragraff 7(1) o Atodlen 2 ei ddiwygio yn unol ag Elfen Allweddol 001.</p>   |
| 004.             | <p>Adolygu a diwygio Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy os oes angen, er mwyn rhoi pwerau i awdurdodau mynediad hwyluso'r dull mynediad i dir mynediad, ac oddi mewn iddo, ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch [ac ar gyfer pobl â phroblemau symudedd] lle bo angen. Pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) roi arweiniad a chynghor ar y math o ddarpariaeth ar gyfer hwyluso hawliau uwch ac ar gyfer ystyried mynediad lleiaf rhwystrol.</p> | <p>Cadw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y mae os yw'r dehongliad cyfreithiol yn cadarnhau ei bod eisoes yn addas; dylid ei diwygio os nad oes pwerau ar gael ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylai fod yn ddyletswydd i roi arweiniad o'r fath.</p>  |
| 005.             | <p>Gweithredu cod mynediad er mwyn diffinio hawliau a chyfrifoldebau. Darparu adnoddau er mwyn datblygu a chefnogi'r cod, gan gynnwys rhannu gwybodaeth â phobl yng Nghymru ac ymwelwyr iddi, eu haddysgu, a hyrwyddo'r cod iddynt.</p> <p>Bydd dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hybu'r cod hwn.</p>   | <p>Er bod cefnogaeth eang ar gyfer cod, ynghyd â'r gwaith addysgu/hyrwyddo cysylltiedig, ni ddaethpwyd i gonsensws eang ar ei ffurf – anstatudol, statudol heb sancsiynau (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan Adran 20 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy), neu statudol gyda sancsiynau. Dylid nodi y gellir bwrw ymlaen â Diwygiad 1A heb ddatrys hyn.</p> |

## Diwygiad 1B(i): Tabl o elfennau allweddol

| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b> | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
| 001.             | <p>Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gyflwyno dyletswydd ar y Senedd ac ar</p>              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r elfen hon yn gyfwerth â'r ddyletswydd yn Adran 296 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.</li> </ul> |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
|                  | CNC i sicrhau ymyl arfordirol ar gyfer gofod i ymestyn sy'n gysylltiedig â llwybr arfordirol.   |   |
| 002.             | Dyletswydd ar CNC i greu cynllun mynediad arfordirol ar gyfer gweithredu darpariaethau, gan gynnwys diffinio ymyl arfordirol a 'llwybr arfordirol'; wrth baratoi neu adolygu cynllun, rhaid i CNC ymgynghori â phobl berthnasol sydd â diddordeb. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r elfen hon yn efelychu adrannau 298-299 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.</li> <li>• Mae'r cynllun mynediad arfordirol yn Lloegr yn darparu'r fethodoleg fanwl ar gyfer diffinio, dynodi a chofnodi ymyl yr arfordir a llwybr yr arfordir.</li> </ul>   |
| 003.             | Llwybr arfordirol wedi'i ddiffinio fel llwybr cerdded pellter hir gan ddefnyddio deddfwriaeth ddiwygiedig Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Ei gwneud yn bosibl ymgorffori Llwybr Arfordir Cymru fel 'llwybr arfordirol'.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewnosododd Adran 302, 'Llwybrau pellter hir', o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (yn berthnasol yn Lloegr yn unig), 'Cynigion sy'n ymwneud â llwybr arfordirol Lloegr', a geir yn Adran 55A, yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Natural England baratoi adroddiad sy'n cynnig dynodi Llwybr Arfordir Lloegr fel llwybr pellter hir fel y nodir yn Neddf 1949, fel y'i diwygiwyd.</li> </ul>  |
| 004.             | Cymhwysio Adran 306 o Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir er mwyn lleihau atebolrwydd meddianwyr am ddefnyddwyr hawliau mynediad arfordirol.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid cyflwyno Adran 306, 'Atebolrwydd meddianwyr', o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig, i Adran 6AA o Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984, gan ychwanegu lleihad mewn atebolrwydd am nodweddion ffisegol (p'un ai o'r dirwedd neu fel arall) ar dir mynediad arfordirol.</li> <li>• Byddai'n fwy clir pe câi'r un lefel o atebolrwydd meddianwyr ei gweithredu ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ar yr arfordir ac mewn mannau eraill).</li> </ul> |
| 005.             | Pennu darpariaeth ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol a bennir tua'r tir.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darperir ar gyfer hyn gan Adran 302, 'Llwybrau pellter hir', o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, sy'n mewnosod 'Llwybr sy'n destun erydiad' yn Adran 55B o Ddeddf 1949.</li> </ul>   |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
| 006.             | Darpariaeth ar gyfer rheoli'r ymyl arfordirol a'r llwybr arfordirol.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceir darpariaethau statudol ar gyfer rheoli mynediad arfordirol yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, yn benodol Atodlen 20 iddi, ac maent yn berthnasol i 'awdurdodau mynediad' [o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy] a'r 'corff cefn gwlad priodol' [CNC os caiff eu trosi i Gymru]; byddent hefyd yn caniatáu darparu cyllid gan y corff cefn gwlad ar gyfer gweithredu mynediad arfordirol.</li> <li>• Byddai darpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (gweler Atodlen 20) yn ategu'r pwerau presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddarparu ar gyfer rheoli mynediad arfordirol.</li> </ul> |
| 007.             | Gosod dyletswydd ar 'awdurdodau mynediad' i sicrhau mynediad lleiaf rhwystrol lle bynnag y bo modd. Pwerau cysylltiedig ar gyfer gwella a rheoli seilwaith hygyrch ar gyfer yr ymyl arfordirol, ac oddi mewn iddo, ac ar gyfer llwybr arfordirol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid cynnwys y ddyletswydd hon mewn deddfwriaeth a gellid ei hymestyn i eraill sydd â chyfrifoldebau mynediad, megis CNC.</li> <li>• Dylid adolygu adrannau 34-38 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o ran eu digonolrwydd i ddarparu ar gyfer gwelliannau i hygyrchedd i dir mynediad arfordirol, ac oddi mewn iddo, a dylid eu diwygio os oes angen.</li> <li>• Byddai dyletswydd mynediad lleiaf rhwystrol newydd yn ychwanegol i ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae iddi oblygiadau adnoddau.</li> </ul>  |
| 009.             | Gweithdrefnau wedi'u hamlinellu ar gyfer diffinio a mapio'r ymyl arfordirol (y gofod i ymestyn a'r llwybr arfordirol), gan gynnwys dulliau, prosesau a gofynion ymgynghori.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darpariaethau'r 'cynllun mynediad arfordirol' (yn Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a gyflwynwyd gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir) yn darparu modd i amlinellu dulliau a phrosesau manwl ar gyfer diffinio ymyl yr arfordir (gweler Elfen Allweddol 002) – gan gynnwys gofynion ymgynghori.</li> <li>• Mae'r 'ymyl arfordirol' yn cynnwys 'gofod i ymestyn' a'r 'llwybr arfordirol'.</li> </ul>  |





| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
|           |   | <p>Mae'r llwybr arfordirol wedi'i fapio. Diffinnir y gofod i ymestyn fel yr ardal tua'r môr o'r llwybr arfordirol yn hytrach na'i fod yn cael ei fapio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai adrannau 4-11, 'Mapiau', o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac Adran 51, 'Darpariaethau cyffredinol ynghylch llwybrau pellter hir', o Ddeddf 1949, a ddiwygiwyd lle bo angen, ddarparu'n ddigonol ar gyfer mapio'r llwybr arfordirol.</li> </ul>  |
| 010.      | Trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – wedi'u haddasu i sicrhau parhad mewn mynediad i'r ymyl arfordirol, gan gynnwys y llwybr arfordirol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai diwygio'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu yn dileu hawl perchnogion a phobl eraill i ddefnyddio <u>Adran 22</u>, <u>'Gwaharddiadau a chyfyngiadau dewisol 28 diwrnod'</u>, o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Byddai gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gael i feddianwyr drwy broses <u>ymgeisio</u>.</li> <li>• Lle mae Llwybr Arfordir Cymru / llwybr arfordirol yn dilyn trywydd hawl dramwy gyhoeddus ddiffiniedig, fe'i hadwaenir fel 'tir eithriedig' ac ni allai fod yn ddarostyngedig i waharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</li> </ul> |
| 011.      | Adolygu a diwygio diffiniadau o 'dir eithriedig' yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y maent yn berthnasol i dir mynediad arfordirol.                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygiodd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ddiffiniadau tir eithriedig yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, e.e. i sicrhau parhad llwybr arfordirol a thir mynediad arfordirol.</li> </ul>   |
| 012.      | Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad a chanllawiau ar weithgareddau hamdden cyfrifol eraill fel eu bod yn cynnwys mynediad arfordirol.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn amodol ar y dull a ddewisir o weithredu codau hamdden ar draws y diwygiadau mynediad yn eu cyfanrwydd.</li> </ul>   |
| 013.      | Mae'r hawliau'n berthnasol i gerddwyr yn unig.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn amodol ar y dull a ddilyniir gyda Diwygiad 1B a Diwygiad 1A.</li> </ul>   |

O.N. <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/section/3A>



## Diwygiad 1B(ii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
| 001.      | Defnyddio Adran 3 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i'w gwneud yn bosibl mapio tir arfordirol diffiniol fel tir mynediad ar gyfer hamdden awyr agored ar droed.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi pŵer i Senedd Cymru ymestyn mynediad agored i gynnwys 'tir arfordirol' drwy orchymyn ac i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol angenrheidiol.</li> </ul>   |
| 002.      | Datblygu diffiniadau o dir arfordirol y byddai hawliau (ar droed) o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol iddo. Byddai angen cynnwys blaendraethau, clogwyni arfordirol, twyni, fflatiau, traethau, rhostiroedd arfordirol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r mathau o dir arfordirol a enwir yn yr elfen allweddol hon (002) eisoes wedi'u cynnwys yng ngeiriad Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Fodd bynnag, ceir pwerau yn Adran 3 i gynnwys tir arfordirol o unrhyw ddisgrifiad.</li> <li>Dylid adolygu mathau o dir mynediad arfordirol o dan Adran 3 a diffinio gofynion manwl mewn rheoliadau newydd (gweler hefyd Elfen Allweddol 003).</li> </ul>                                      |
| 003.      | Diwygio'r rheoliadau mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i adlewyrchu'r newid – gan gynnwys diffinio parseli tir ac ymyl mewndirol tir mynediad arfordirol.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai angen adolygu a diwygio rheoliadau mapio yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y bo'n briodol er mwyn ei gwneud yn bosibl mapio tir arfordirol fel mynediad agored o dan y Ddeddf, e.e. pennu ymyl mewndirol tir mynediad arfordirol.</li> <li>Dylai adrannau 4-11, 'Mapiau', o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (a'r rheoliadau cysylltiedig), o'u hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen, ddarparu'n ddigonol ar gyfer hyn.</li> </ul> |
| 005.      | Lleihau'r atebolwydd ar dirfeddianwyr am ddefnyddwyr hawliau mynediad arfordirol yn unol â'r hyn a ddarperir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn Lloegr.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.</li> <li>Er eglurder a chysondeb, byddai'n well sicrhau bod y darpariaethau ar gyfer atebolwydd meddianwyr yr un peth ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</li> </ul>  |
| 006.      | Diwygio trefniadau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid adolygu adrannau 21-33, 'Gwahardd neu gyfyngu mynediad',</li> </ul>  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
|                  | Gwlad a Hawliau Tramwy i roi cyfrif am ofynion penodol mynediad arfordirol.   | o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Dylid cadw'r broses ymgeisio ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau; ni ddylid darparu ar gyfer trefniadau cau o dan Adran 22 drwy hysbysiad ar dir mynediad arfordirol.   |
| 007.             | Adolygu ac ailddiffinio 'Tir eithriedig' yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn cyd-destun arfordirol.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn cynnwys diwygiadau i 'Tir eithriedig at ddibenion Rhan I' yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn perthynas â gweithredu mynediad arfordirol yn Lloegr a all lywio adolygiad a diwygiadau ar gyfer Diwygiad 1B yn gyffredinol.</li> </ul>  |
| 008.             | Estyn pwerau yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn darparu ar gyfer rheoli mynediad o fewn tir mynediad arfordirol, gan gynnwys manau croesi terfyn – at ddibenion hamdden a rheoli tir a defnyddio dull mynediad lleiaf rhwystrol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae adrannau 34-39, 'Dulliau mynediad', o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eisoes yn darparu ar gyfer rheoli mynediad i dir o dan y Ddeddf, gan gynnwys croesfannau ffiniau. Fodd bynnag, mae cymhwysedd y pwerau i ddarparu croesfannau ar draws ffiniau mewnol (megis waliau a ffensys) yn aneglur.</li> <li>• Dylai'r diwygiad gynnwys gofyniad penodol i weithredu dull mynediad lleiaf rhwystrol o reoli mynediad.</li> <li>• Dylai'r diwygiad ddarparu ar gyfer hwyluso gwell mynediad i'r arfordir a theithiau cysylltiol.</li> </ul> |
| 009.             | Cyflwyno cod mynediad statudol sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, i gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol; byddai dyletswydd ar gyrf cyhoeddus priodol i hybu'r cod.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen ehangu'r ddyletswydd i hybu'r cod mynediad fel ei bod yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill, fel sy'n briodol.</li> </ul>   |
| 010.             | Mae hawliau ar dir mynediad arfordirol ond yn berthnasol i gerddwyr [o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y mae ar hyn o bryd].   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn amodol ar benderfyniad ynghylch p'un a ddylid gweithredu hawliau uwch ar dir mynediad arfordirol ynteu beidio.</li> <li>• Gellid gweithredu hawliau uwch fel rhan o Ddiwygiad 1A, neu ar wahân drwy Ddiwygiad 1B (gweler Opsiwn 1B(iii)).</li> </ul>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 1B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
| 011.      | Dangos mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wefan CNC fel rhan o waith mapio CNC o dan y Ddeddf, ac ar fapiau'r Arolwg Ordnans.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n ofynnol i CNC ddangos tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar ei wefan. Felly byddai'n rhaid cynnwys mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</li> <li>• Darperir gwaith mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r Arolwg Ordnans a'r data mapio i borth Lle Llywodraeth Cymru.</li> </ul> |
| 013.      | Diffiniadau o 'gweithgarwch masnachol' a 'digwyddiadau' o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Ailddiffinio'r hyn sydd o fewn neu'r tu allan i hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn dilyn adolygiad. Dechrau gan ystyried y diffiniadau a ddefnyddir yn Neddf Diwygio Tir yr Alban. Defnyddio pwerau rheoleiddio i'w gwneud hi'n haws diogelu ar gyfer y dyfodol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mater trawsbynciol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad.</li> <li>• Dylid ystyried unrhyw ddiffiniadau diwygiedig hefyd o fewn diwygiadau eraill y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, yn bwysicaf oll Diwygiad 1A.</li> </ul>  |

## Diwygiad 2A(i): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
| 001.      | Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi hawl i feicio a marchogaeth, drwy statud, ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru [gan ddefnyddio darpariaeth debyg i Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968]. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid ystyried ymhellach sut mae hawliau ar gyfer gweithgareddau masnachol yn berthnasol i hawliau tramwy cyhoeddus, a sut y gallant gydfynd yn well â'r ffordd y maent yn berthnasol i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</li> </ul> |
| 002.      | Dylai'r ddeddfwriaeth [tebyg i Adran 30(3) o'r Ddeddf Cefn Gwlad] bennu na ddylai'r diwygiad newid rhwymedigaethau cynnal a   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Felly ni fyddai gweithredu hawliau beicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn cynyddu'r ddyletswydd i gynnal llwybrau cyhoeddus y tu hwnt i'r</li> </ul>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
|           | chadw'r awdurdodau priffyrdd lleol na rhwymedigaethau cynnal a chadw partïon eraill ar lwybrau cyhoeddus.   | hyn sy'n berthnasol ar hyn o bryd.  |
| 003.      | Diwygio rheoliadau mapio ar gyfer map a datganiad diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus i adlewyrchu'r newid o ran hawliau.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen hefyd i ddisgrifiadau drwy ffynonellau mapio eraill adlewyrchu'r newidiadau (e.e. yr Arolwg Ordnans).</li> </ul>  |
| 005.      | Gweithredu'r lleihad mewn atebolwydd meddianwyr ar hawliau tramwy cyhoeddus, a'i gysoni'n well â lefel atebolwydd y meddianwyr a weithredir ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen ceisio cyngor cyfreithiol ar sut a phryd y gellir lleihau atebolwydd meddianwyr am ddefnyddwyr hawliau hamdden ar hawliau tramwy cyhoeddus.</li> <li>• Mae un o'r materion trawsbynciol yn niwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn eu cyfanrwydd yn ymwneud â'r cwestiwn a ddylid cysoni atebolwydd meddianwyr yn well ar gyfer y bobl hynny sy'n ymarfer hawliau ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac, os felly, sut.</li> </ul> |
| 006.      | Rhoi dyletswydd a phwerau cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried addasu cyfyngiadau cyfreithiol (seilwaith) er mwyn ei gwneud yn bosibl i bob hawl berthnasol ei ddefnyddio (gan gynnwys wrth feicio a marchogaeth ceffylau) wrth awdurdodi seilwaith o'r newydd neu ddisodli'r seilwaith presennol ar lwybrau troed cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid defnyddio'r egwyddor mynediad lleiaf rhwystrol wrth awdurdodi o'r newydd a gwneud newidiadau i seilwaith ar lwybrau troed.</li> <li>• Dylai'r gofynion presennol barhau wrth awdurdodi adeileddau, megis ystyried anghenion rheoli tir.</li> </ul>   |





| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
|                  | eraill. Byddai'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried yr angen i gyfyngu ar fynediad anghyfreithlon wrth hwyluso gwelliannau i hygyrchedd.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni ddylai'r ddyletswydd ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol adolygu'n systematig yr holl gyfyngiadau cyfreithiol presennol ar eu rhwydweithiau hawliau tramwy cyhoeddus.</li> <li>Dylai'r gwaith o wella hygyrchedd yn achos cyfyngiadau cyfreithiol presennol ar lwybrau troed fod yn gymwys ar gyfer cynlluniau talu defnydd tir cynaliadwy.</li> </ul> |
| 007.             | Dylai'r ddeddfwriaeth roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol wahardd mynediad, neu gyfyngu arno, er mwyn rheoli neu atal effeithiau defnydd ar lwybrau troed cyhoeddus am resymau penodedig (gan gynnwys ar gyfer rheoli tir, cadwraeth natur a threftadaeth, ac iechyd a diogelwch). Dylai fod yn ofynnol dilyn dull lleiaf rhwystrol o weithredu cyfyngiadau. Dylai'r cyfyngiadau fod yn agored i geisiadau a bod yn destun ymgynghori a phroses apelio. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd angen pennu mecanwaith deddfwriaethol (gallai gynnwys proses gorchymyn rheoleiddio traffig diwygiedig neu dull newydd) a sicrhau bod ganddo'r hyblygrwydd i fod yn berthnasol i ddsbarthiadau gwahanol o ddefnyddwyr lle bo hynny'n gyfiawnadwy.</li> <li>Dylid ystyried y rhyngweithiad â Diwygiad 2B y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.</li> </ul>              |
| 008.             | Rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddiweddar arwyddion a chyfeirnodau ar lwybrau troed sydd â hawliau beicio a marchogaeth ceffylau, gan gynnwys y pŵer i osod arwyddion am resymau heblaw nodi cyfeiriad.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r cyngor cyfreithiol ystyried digonolrwydd y pwerau a dyletswyddau presennol ac felly pa ddiwygiadau y gallai fod eu hangen.</li> </ul>   |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
| 009.             | Cynnwys cymal neu gafeat sy'n pennu y dylai rheoliadau amlinellu'n benodol ffyrdd cyfrifol o ddefnyddio hawliau marchogaeth a beicio, a hynny mewn canllaw neu fecanwaith arall. Byddai hyn yn cynnwys "hierarchaeth defnyddwyr" ar lwybrau a "chytundebau ffurfiol" diffiniedig ar rannau o lwybrau yr ystyriwyd eu bod yn broblemus. Gellid gwahardd defnyddwyr nad ydynt yn cydymffurfio. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid datblygu mecanwaith statudol (e.e. tebyg i'r ffordd y mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban wedi'i osod neu Adran 2(4) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) sy'n ymdrin â chamddefnydd defnyddwyr unigol, gan arwain atynt yn colli eu hawliau personol a gweithredu mecanwaith gorfodi cyfochrog.</li> <li>• Gweler hefyd Elfen Allweddol 010.</li> </ul> |
| 010.             | Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) / Llywodraeth Cymru i gyflwyno cod ymarfer ar gyfer defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus a rennir, a dyletswydd ar Lywodraeth Cymru / CNC a phob awdurdod mynediad i hybu dealltwriaeth ohono.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid sicrhau cysondeb â diwygiadau hamdden cyfrifol cysylltiedig.</li> </ul>   |
| 011.             | Cyfleu hawliau mynediad (gan gynnwys mewn gwaith mapio, ymgyrch gyfathrebu, Cod Cefn Gwlad [diwygiedig], gwybodaeth am weithgareddau hamdden cyfrifol, a gwaith canllaw).  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mater ar gyfer camau gweithredu'r diwygiad.</li> </ul>  |
| 012.             | Adolygu'r rheolau ynghylch gweithgareddau masnachol ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'u halinio'n well mewn perthynas â hawliau beicio a marchogaeth ceffylau. Datblygu a chyfleu diffiniadau mwy eglur  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid sicrhau cysondeb â materion cysylltiedig mewn diwygiadau mynediad eraill.</li> <li>• Darpariaeth benodol ar gyfer deddfwriaeth ar gyfer Diwygiad 2A.</li> </ul>   |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|---|---|
|           | o weithgarwch masnachol mewn perthynas â hawliau mynediad.  |   |

## Diwygiad 2A(ii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
| 001.      | Deddfwriaeth ar gyfer gweithredu hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru, gan ddefnyddio dull o fath sy'n seiliedig ar Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 [gweler Opsiwn Diwygio 2A(i) ar gyfer yr elfennau allweddol gofynnol hynny].                    | [Gweler troednodyn 3 uchod ynghylch dull Adran 30.]   |
| 002.      | Dylid rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol asesu anaddasrwydd defnyddio llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau uwch [gyda hyblygrwydd i eithrio gwahanol fathau o hawliau defnyddwyr] – dim pwerau newydd nac ychwanegol i wahardd hawliau ar lwybrau troed, neu gyfyngu arnynt. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid rhoi pŵer dewisol i asesu anaddasrwydd.</li> <li>• Dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn bosibl i awdurdodau priffyrdd lleol asesu llwybrau troed cyhoeddus cyn i hawliau newydd ddod i rym.</li> </ul> |
| 003.      | Pwerau i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu proses asesu anaddasrwydd, gan gynnwys rhoi canllawiau gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau priffyrdd lleol ynghylch y broses a'r meini prawf asesu a'r gofynion   | Dylai'r broses gynnwys hawliau i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod priffyrdd lleol ynghylch asesiadau o anaddasrwydd.  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
|                  | cysylltiedig (e.e. ar gyfer ymgynghoriadau).   |  |
| 004.             | Pwerau i bennu fframwaith ar gyfer meini prawf asesu anaddasrwydd.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen i asesiadau o anaddasrwydd ddarparu prosesau teg. Byddai angen i gyngor cyfreithiol lywio elfennau allweddol penodol sy'n ofynnol (e.e. darpariaeth ar gyfer apeliadau).</li> <li>• Gallai'r meini prawf gynnwys seilwaith; lled y llwybrau presennol; diogelwch y cyhoedd; graddfa'r defnydd – presennol a disgwylidig.</li> </ul>  |
| 005.             | Dylid rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i ymgynghori â sefydliadau penodedig wrth gynnal asesiadau o anaddasrwydd.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid diffinio dull awdurdodau priffyrdd lleol o ymdrin â sylwadau ynghylch asesu anaddasrwydd llwybrau.</li> <li>• Dylai awdurdodau priffyrdd lleol bennu eu dull o weithredu'r diwygiad hwn mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [yn amodol ar Ddiwygiad 3b].</li> </ul> <p>Mae gan fforymau mynediad lleol gwmpas a disgrisiwn yn eu rôl a swyddogaethau presennol i gynghori ar ddull awdurdodau priffyrdd lleol (yma ac mewn mannau eraill yn y broses), e.e. i roi cyngor ar ddull yr awdurdod priffyrdd lleol o arfarnu'r rhwydwaith, neu mewn perthynas ag achosion penodol.</p> |
| 006.             | Pwerau dewisol i awdurdodau priffyrdd lleol wrth wneud penderfyniadau: dylai awdurdodau priffyrdd lleol fod yn gallu diystyru llwybrau penodol ar gyfer hawliau beicio a/neu farchogaeth ceffylau. | Fforymau mynediad lleol – gweler y sylwadau ar gyfer Elfen Allweddol 005 uchod.  |
| 007.             | Cynnwys apeliadau fel rhan o broses arfarnu – yr awdurdod priffyrdd lleol ddylai benderfynu ar hyn yn wreiddiol.   |  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
|                  | Byddai'r gwaith o ddarparu ar gyfer apeliadau ar gyfer materion cymhleth neu rai sydd heb eu datrys yn symud i'r Arolygiaeth Gynllunio am benderfyniad.  |  |
| 008.             | Pwerau dewisol i awdurdodau priffyrdd lleol adolygu anaddasrwydd llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau beicio a marchogaeth ceffylau – ar gyfer y llwybrau hynny a eithriwyd yn barhaol, neu gellid caniatáu eu hadolygu [gweler i'r dde].   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gyffredinol, dylid ailarfarnu os digwydd newidiadau sylweddol i amgylchiadau yn hytrach nag ar sail cyfnodau penodol.</li> </ul>   |
| 009.             | Pwerau i'r awdurdodau priffyrdd lleol ystyried a diwygio adeileddau ar lwybrau troed cyhoeddus – byddai angen eu cael er mwyn arfarnu llwybrau a ddynodwyd yn anaddas (h.y. ni all celfi llwybr anaddas (e.e. gatiau neu gamfeydd) fod yr unig reswm dros benderfynu bod hawliau'n anaddas ar gyfer llwybr). | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth gynnig newidiadau i gelfi llwybrau, dylid cynnwys y gofyniad bod awdurdodau priffyrdd lleol yn ymgynghori â pherchnogion adeileddau, gan gynnwys ystyried gwaith cynnal a chadw dilynol.</li> </ul> <p>Bydd y goblygiadau adnoddau, gan gynnwys costau, yn gymesur â'r defnydd a wneir o bwerau, a bydd angen eu hystyried.</p>  |
| 010.             | Diffinio amser dechrau – e.e. sut a phryd y daw hawliau newydd i rym.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid cyflwyno deddfwriaeth galluogi fesul cam o bosibl, megis cynnal asesiadau o anaddasrwydd cyn defnyddio dull cyffredinol o weithredu hawliau.</li> <li>• Byddai angen rhoi adnoddau a gwaith cefnogi ar waith, e.e. ar gyfer asesiadau o anaddasrwydd, ac i ddarparu ar gyfer gwaith ymarferol.</li> </ul> <p>Dylai'r oedi i weithredu'r hawliau fod yn gyfnod â therfyn amser.</p> |
| 011.             | Mwy o bwerau i awdurdodau priffyrdd lleol osod arwyddion ar hyd llwybrau lle ceir mwy o  |  |





| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b> |
|------------------|--|--|
|                  | <p>gymhlethdod o ran darpariaeth mynediad, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- arwyddion cynghorol lle mae hawliau mynediad wedi'u newid a/neu eu cyfyngu (drwy ddynodi eu bod yn anaddas).</li> </ul> <p>Mater i'r awdurdod priffyrdd lleol fyddai pennu'r math o arwydd a'i leoliad.</p> |  |

## Diwygiad 2A(iii): Tabl o elfennau allweddol

| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|--|---|
| 001.             | <p>Deddfwriaeth i roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi pa lwybrau troed cyhoeddus unigol y gellir dynodi hawliau beicio a marchogaeth ceffylau iddynt.</p>  |   |
| 002.             | <p>Pwerau i reoliadau bennu'r proses ddynodi, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- meini prawf ar gyfer asesu llwybrau troed</li> <li>- darpariaeth ar gyfer asesu effeithiau (e.e. o safbwynt rheoli tir, cadwraeth natur / bywyd gwylt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol i bennu a fydd iawndaliadau yn ofynnol ar gyfer llwybrau dynodedig fel rhan o brosesau.</li> <li>• Bydd angen rhagor o waith i ddiffinio'r meini prawf a'r asesiadau angenrheidiol yn y cam paratoi deddfwriaeth.</li> <li>• Fodd bynnag, sylwer y dylai'r meini prawf asesu</li> </ul> |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
|                  |   | gynnwys gwirio statws cyfreithiol llwybr gan ddefnyddio cofnodion sydd ar gael gan yr awdurdod priffyrdd lleol, e.e. map a datganiad diffiniol, ynghyd ag unrhyw brosesau i'w pennu.                          |
| 003.             | Dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer prosesau syml sydd â therfyn amser.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Er mwyn dwyn buddion, byddai angen i brosesau fod yn gymharol hawdd ac yn gyflymach na'r gorchmynion llwybrau cyhoeddus presennol ar gyfer creu llwybrau.</li> </ul> |
| 004.             | Gwneud darpariaeth gyfreithiol ar gyfer proses ymgynghori ac apelio.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall fforymau mynediad lleol roi mewnbwn, o fewn eu rôl gynghori bresennol, a hynny o ran y dull strategol ac mewn achosion penodol.</li> </ul>                      |
| 005.             | Diwygio rheoliadau'r map diffiniol i adlewyrchu newid.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu manylion wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth.</li> </ul>   |
| 007.             | Pwerau ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol addasu cyfyngiadau ar lwybrau (seilwaith) er mwyn hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch ac am resymau hygrychedd. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwerau ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol</li> </ul>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
|           |  | <p>addasu cyfyngiadau o ran defnydd, megis seilwaith a gwaith gosod wyneb.</p>  |
| 009.      | <p>Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol wahardd neu gyfyngu ar hawliau gwahanol drwy fecanwaith deddfwriaethol ar gyfer lliniaru neu atal effeithiau niweidiol ar y llwybr troed cyhoeddus neu hawliau tramwy eraill.</p> <p>Byddai angen i ddeiliaid tir allu gwneud cais i'w hawdurdod priffyrdd lleol am gyfyngiad neu waharddiad ar gyfer effeithiau ar waith rheoli tir penodol (e.e. amaethyddiaeth a choedwigaeth, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati).</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r pwerau'n berthnasol i bob effaith niweidiol (nid rhai sy'n deillio o ddefnydd hawliau uwch yn unig).</li> <li>• Byddai angen mecanwaith cod statudol ar gyfer cymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o ymddygiad anghyfrifol (cysylltiadau â'r adran ar weithgareddau hamdden cyfrifol yn yr Adroddiad Dadansoddi Themâu Trawsbynciol).</li> <li>• Potensial ar gyfer datblygu'r darpariaethau ar gyfer gorchmynion rheoleiddio traffig ar gyfer yr elfen hon (e.e. ystyried darpariaethau adrannau 22-22A o Reoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1984).</li> </ul> |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol                                | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
|           |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallai darpariaethau Diwygiad 2B gynnig cwmpas digonol ar gyfer diwallu'r angen hwn.</li> </ul>  |
| 010.      | Ystyried term/diffiniad newydd ar gyfer y llwybrau y dynodwyd hawliau uwch iddynt, ynghyd â darparu arwyddion statudol diwygiedig. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen ystyried y canlynol:               <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Diwygio terminoleg llwybrau troed; neu</li> <li>○ Ailenwi llwybrau troed dynodedig fel 'llwybrau cyhoeddus'</li> </ul> </li> </ul> <p>Dylai darpariaethau deddfwriaethol barhau i ddefnyddio'r term 'llwybr troed' yng nghofnodion mapiau a datganiadau diffiniol wrth ddisgrifio hawliau ychwanegol sy'n berthnasol.</p> |
| 011.      | Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad, felly byddai gyfystyr ag arweiniad cynghorol yn unig.                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparu cod statudol yn cael ei ystyried ar wahân (gweler ystyriaethau ar gyfer Elfen Allweddol 009 uchod).</li> <li>• Diwygio'r Cod Cefn Gwlad.</li> <li>• Sylwer bod angen cael gwybodaeth</li> </ul>  |

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol                |
|-----------|---|--|
|           |   | ac arweiniad perthnasol arall er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. |

## Diwygiad 2B(i): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
| 002.      | <p>Darpariaethau newydd y ddeddfwriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pŵer i ddeiliaid tir cofrestredig roi hysbysiadau ar gyfer dargyfeiriadau dros dro tymor byr ar llwybrau troed a llwybrau ceffylau</li> <li>• pwerau i'r Senedd gyflwyno rheoliadau er mwyn llywodraethu'r prosesau a'r gofynion cysylltiedig</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddarperid ar gyfer cau llwybrau – er mwyn cau llwybr byddai'n ofynnol defnyddio'r darpariaethau presennol, megis gorchmynion rheoleiddio traffig.</li> <li>• Nodir y rheoliadau ar gyfer yr holl faterion perthnasol yn yr elfennau allweddol canlynol, e.e. rhesymau derbynol dros weithredu dargyfeiriadau, templedi ar gyfer hysbysiadau, a gofynion i ddarparu llwybrau dargyfeirio amgen.</li> </ul> |
| 003.      | <p>Dylai awdurdodau priffyrdd lleol gael yr holl wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd mewn hysbysiad gan dirfeddianwyr, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhestr wirio (rheswm dros ddargyfeirio, beth a pham)</li> <li>• Map/cynllun o'r dargyfeiriad</li> <li>• Y llwybr amgen fyddai ar gael</li> <li>• Gallu'r awdurdod priffyrdd lleol i wirio pa mor aml y ceir</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darperid pwerau rheoleiddiol gan Elfen Allweddol 002 (gweler uchod).</li> </ul>  |





| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
|           | dargyfeiriadau a chwestiynu'r angen amdanynt   |  |
| 004.      | <p>Byddai angen i ddeiliaid tir gofrestru tir y gellir gwneud hysbysiadau am ddargyfeiriadau yn ei gylch.</p> <p>Gofyniad cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol gadw cofrestr o ddeiliaid tir, ac i reoli'r gofrestr:</p> <p>Byddai angen cofrestru er mwyn defnyddio'r broses symlach ar gyfer gweithredu dargyfeiriadau dros dro</p> <p>Byddai'n darparu manylion am berchnogaeth tir / cynlluniau</p> <p>Gallai awdurdodau priffyrdd lleol nodi parseli o dir a pherchnogaeth tir, a chadw cofnod o ddargyfeiriadau blaenorol a'r rhesymau drostynt</p> |  |
| 005.      | <p>Opsiwn ar gyfer dargyfeirio defnyddwyr penodol dros dro:</p> <p>Gwahardd mathau penodol o ddefnyddwyr rhag hawliau tramwy cyhoeddus diffiniedig (gan barhau i ganiatáu mathau eraill o fynediad) os bernir bod hynny'n angenrheidiol ar adegau penodol, e.e. cyfyngu cŵn yn ystod y tymor wyna / er mwyn gwarchod bywyd gwyllt</p> <p>Gofyniad i ddarparu llwybr amgen</p>  | Mae darparu llwybrau amgen caniatol yn parhau i fod yn opsiwn [na fyddai'n gofyn am ddiwygiad deddfwriaethol]. |
| 006.      | <p>Proses gwyno sy'n hwyluso proses fwy tryloyw [y mae modd ei herio].</p> <p>Ar gael i ddefnyddwyr / y cyhoedd.</p>   |  |
| 007.      | Rheoliadau i nodi gofynion ar gyfer hysbysiadau, gan gynnwys y canlynol:   | I'w gynnwys mewn pwerau rheoleiddiol yn Efen Allweddol 002.  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
|           | <p>Bod dyddiad wedi'u nodi arnynt [dyddiad dechrau a gorffen]</p> <p>Byddai'n gyfrifoldeb i'r tiffeddiannwr sicrhau bod hysbysiadau yn eu lle ac i'w tynnu i lawr ar y dyddiad a nodwyd</p> <p>Dylai gweithdrefn orfodi'r awdurdod priffyrdd lleol ysgogi hyn, gan sicrhau nad yw dargyfeiriadau ar waith yn hwy na'r angen</p>  |  |
| 008.      | <p>Rhannu hysbysiadau:</p> <p>Dyletswydd ar ddeiliaid tir i hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol ar-lein</p> <p>Dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i gyfleu, drwy hysbysiad electronig a chopi caled, i'r canlynol [e.e.]:</p> <p>Grwpiau defnyddwyr</p> <p>Y cyhoedd</p> <p>Eraill (fel y nodir)</p> <p>Deiliaid tir:</p> <p>Byddai'n ofynnol gosod hysbysiad a chynllun ar y safle, ni waeth am ba mor hir byddai'r llwybr ar gau</p> | I'w gynnwys ym mhwerau rheoleiddiol yn Efen Allweddol 002.   |
| 009.      | Diwygio'r cod[au] ar gyfer mynediad ac ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol awyr agored fel y bo'n briodol.  | Dylid diwygio'r holl godau ac arweiniad perthnasol ar gyfer mynediad ac ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol fel rhan o'r broses o weithredu'r opsiwn. |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
|           |   | Dylid cynnal ymgyrch hysbysrwydd gysylltiedig i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr, rheolwyr tir ac eraill am y darpariaethau a'r newidiadau posibl i lwybrau ar lawr gwlad. |

## Diwygiad 2B(ii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
| 001.      | Deddfwriaeth ar gyfer cod mynediad statudol gorfodadwy er mwyn galluogi'r opsiwn hwn (y byddai elfennau gorfodol a chynghorol yn perthyn iddo).   |  |
| 002.      | <p>Diffinio (yn y canllawiau o fewn y cod) amgylchiadau dargyfeiriad(au) tymor byr, dros dro.</p> <p>Amgylchiadau wedi'u diffinio'n glir yn y cod er mwyn i ddefnyddwyr/tirfeddianwyr/rheolwyr allu gweithredu dargyfeiriadau a chyfyngiadau ar ddefnydd am resymau rheoli tir amaethyddol.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid pennu meini prawf disgrifiadol ar gyfer defnyddio'r dargyfeiriad dros dro sy'n seiliedig ar god statudol (e.e. dibenion, hyd, darpariaeth llwybr amgen addas, faint o'r hawl dramwy gyhoeddus y ceir effaith arni ac ati).</li> <li>• Byddai canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol cael mewnbwn gan ddeiliaid tir a rhanddeiliad (e.e. Fforwm Mynediad)</li> </ul> |



| Cyfeirnod | Efen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
|           |  | <p>Cenedlaethol Cymru).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid bwriad yr opsiwn yw disodli darpariaethau ar gyfer dargyfeiriadau tymor hwy neu barhaol, neu ar gyfer rhai mathau o waith sy'n effeithio ar lwybr cyhoeddus (e.e. nid gwaith sy'n newid llwybr).</li> </ul> |
| 003.      | <p>Diffinio llwybr amgen rhesymol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Darpariaeth ddiogel a rhesymol</li> <li>- Mynediad cyfatebol i'r llwybr presennol</li> <li>- Hysbysiadau, arwyddion</li> <li>- Atebolrwydd sy'n berthnasol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen rhoi ystyriaeth gyfreithiol bellach, yn ystod y cyfnod drafftio, i'r atebolrwydd mewn perthynas â dargyfeiriadau ac anghenion cysylltiedig.</li> </ul>   |
| 004.      | <p>Cyfleu gwybodaeth am y cod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yr hyn i'w ddisgwyl yn y cod</li> <li>- Cyfleu'r cod i bawb</li> <li>- Rhannu gwybodaeth am bob agwedd arno i'r cyhoedd, rheolwyr mynediad a deiliaid tir</li> </ul>                   |  |
| 005.      | <p>Datblygu cod statudol cyffredinol ar gyfer pob math o fynediad i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus.</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid ystyried hefyd rinweddau'r fframwaith gwell a geid ar gyfer llwybrau amgen caniataol o ganlyniad i ddefnyddio elfennau o'r dull hwn, er nad yw llwybrau caniataol yn mynd i'r afael â</li> </ul>                                      |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b> | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|---|--|
|                  |   | <p>phryderon rheolwyr tir ynghylch atebolrwydd am lwybrau amgen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Câi prosesau hawliau tramwy cyhoeddus eraill eu defnyddio ar gyfer gweithredu unrhyw ddargyfeiriadau dros dro lle na fyddai'r meini prawf disgrifiadol ar gyfer y broses hon wedi'u bodloni.</li> </ul>  |
| 006.             | Cod i ddiffinio manylion am derfynau i raddfa a hyd dargyfeiriadau dros dro.                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen diffinio manylion megis hyd, amlder y defnydd, rhesymau dros ddefnyddio [ac ati] yn y cod.</li> <li>• Byddai'n rhaid defnyddio pwerau sydd eisoes ar gael i gau llwybrau (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig).</li> <li>• Byddai angen defnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig) ar gyfer dargyfeiriadau na ddarperir ar eu cyfer gan yr opsiwn hwn.</li> </ul> |





| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
| 007.             | <p>Cyfleu gwybodaeth am ddargyfeiriad dros dro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Templed arwyddion a hysbysiadau (i fod yn rhan o'r cod)</li> <li>- Presenoldeb pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â dargyfeiriadau</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys templedi safonol ar gyfer hysbysiadau ac arwyddion cyfeirio.</li> <li>• Cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd gael yr holl wybodaeth statudol o dan y cod.</li> </ul> |
| 008.             | <p>Proses gwyno drwy'r awdurdod priffyrdd lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ar gyfer defnyddwyr sydd â chwyn am ddefnyddio'r weithdrefn hon ar gyfer gweithredu dargyfeiriadau tymor byr</li> <li>- Byddai angen darparu ar gyfer cosbau neu orchymyn ym mhroses y cod statudol neu sicrhau eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â hi</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn debygol o roi mwy o faich ar randdeiliaid.</li> </ul>   |

## Diwygiad 2B(iii): Tabl o elfennau allweddol

| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
| 001.             | <p>Diffinio Adran 135A newydd o Ddeddf Priffyrdd 1980 [gan ddefnyddio cynigion deddfwriaethol drafft yn Lloegr]:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai angen rhoi pwerau newydd i awdurdodau priffyrdd lleol greu dargyfeiriadau dros dro am resymau rheoli tir penodedig: gwaith [cysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth], a rheolaeth amaethyddol ar dda byw</li> <li>- Gwaith yr awdurdodau priffyrdd o ran penderfynu ar ddargyfeiriadau dros dro a'u gweithredu</li> <li>- Rhoi statws hawl dramwy gyhoeddus dros dro i</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddarperir ar gyfer cau llwybrau. Byddai cau llwybr yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, megis gorchmynion rheoleiddio traffig.</li> <li>• Bydd angen i waith datblygu Diwygiad 2B ystyried y penderfyniad a</li> </ul> |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>   | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>   |
|------------------|--|--|
|                  | <p>ddargyfeiriadau a wnaed yn briodol, gyda phwerau cysylltiedig [ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol], hawliau a chyfrifoldebau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfyngiadau o ran defnydd</li> <li>- Rheoliadau ar gyfer y broses</li> </ul> | <p>wnaed yn achos Diwygiad 2A.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddargyfeirio i dir cyfagos gyda chytundeb.</li> <li>• Gellid gosod rhai cyfyngiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd, a gallent gynnwys nifer gyfyngedig, hyd gyfyngedig a graddfa gyfyngedig ar gyfer dargyfeiriadau/cau o'r fath o fewn unrhyw ddaliad tir neu ddaliad tir cyfagos ar unrhyw adeg ac o fewn cyfnod penodol.</li> <li>• Byddai pwerau dewisol ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol yn darparu mwy o hyblygrwydd.</li> <li>• Defnydd isel a wneir o orchmynion rheoleiddio traffig ar hyn o bryd – mae'r graddau y caiff y ddarpariaeth hon ei defnyddio yn anodd eu hasesu.</li> </ul> |
| 002.             | <p>Pwerau rheoliadol i ddiffinio'r broses a'r meini prawf, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- ffurflen gais a'r broses ymgeisio</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai dull rheoleiddiol yn darparu mwy o</li> </ul>  |



| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>  |
|------------------|---|---|
|                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>- meini prawf asesu a phrosesu ceisiadau</li> <li>- meini prawf penderfynu [gan gynnwys asesu llwybrau amgen, e.e. effaith ar y rhwydwaith / teithiau cysylltiol; iechyd a diogelwch; mynediad lleiaf rhwystrol ac ati]</li> <li>- ceisiadau ar-lein [a hysbysiadau – gweler isod] i'r awdurdod priffyrdd lleol</li> <li>- safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen [gan gynnwys cysylltedd; math o hysbysiadau/arwyddion]</li> </ul> | <p>hyblygrwydd wrth bennu gofynion manwl (gweler yr ystyriaeth uchod am gyfyngiadau o ran hyd, graddfa ac ati).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid datblygu porth ceisiadau [a hysbysu] canolog ar gyfer Cymru yn y dyfodol, a allai fod yn gysylltiedig â Diwygiad 3A, ond nid yw'n hanfodol o ran symud y diwygiad yn ei flaen fel y'i cynigir. [Gellid ei ddefnyddio o bosibl ar gyfer ystod o brosesau mynediad cyhoeddus – gyda chysylltiadau â Diwygiad 3A, a map mynediad integredig.]</li> </ul> |
| 003.             | <p>Darparu cyfnod hysbysu o 14 diwrnod cyn y gellir gwneud unrhyw waith. Byddai'n ofynnol rhoi hysbysiad ar-lein drwy wefan yr awdurdod priffyrdd lleol. Byddai'r awdurdod priffyrdd lleol yn darparu hysbysiadau/arwyddion safonol â'r dyddiad cychwyn/diwedd wedi'u nodi arnynt i dirfeddianwyr neu reolwyr tir eu codi ar y safle.</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid ymgynghori ar yr union gyfnod hysbysu.</li> </ul>   |
| 005.             | <p>Proses ymgeisio ar-lein i leihau'r amser gweinyddol ar gyfer yr awdurdod priffyrdd lleol, gan gynnwys y templedi/ffurflenni ar gyfer creu'r holl waith papur cyfreithiol angenrheidiol ar-lein.</p> <p>Hysbysiadau ar-lein ar gyfer dargyfeiriadau – lleihau costau hysbysebu.</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallai darparu dau gam amlinellu a chadarnhau roi mwy o hyblygrwydd i reolwyr tir ddefnyddio darpariaethau.</li> <li>• Bydd angen opsiynau amgen i</li> </ul>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
|           |  | <p>brosesau ar-lein er mwyn bodloni dyletswyddau cydraddoldeb.</p>  |
| 006.      | <p>O safbwynt yr awdurdod priffyrdd lleol a deiliaid tir, byddai'r un atebolrwydd yn perthyn i hawliau tramwy cyhoeddus a ddargyfeiriwyd dros dro.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen ystyriaeth gyfreithiol bellach o'r goblygiadau atebolrwydd er mwyn cadarnhau bod hyn yn rhesymol gyraeddadwy.</li> <li>• Gallai awdurdodau priffyrdd lleol dderbyn atebolrwydd os oeddent wedi archwilio llwybrau cyn i'r dargyfeiriad ddod i rym, ond ceid goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau priffyrdd lleol a chostau posibl i ddeiliaid tir.</li> <li>• Gellid gosod yr atebolrwydd sy'n perthyn i lwybr y dargyfeiriad fel ei fod ar yr un lefel a llwybrau drwy ganiatâd – byddai'n lleihau pa mor ddeniadol yw'r broses i dirfeddianwyr ac yn ei gwneud yn debyg i'r broses ar gyfer lwybrau amgen drwy ganiatâd.</li> <li>• Byddai angen lleihad pellach mewn</li> </ul> |



| Cyfeirnod     | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|---------------|---|--|
|               |   | atebolrwydd ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus, yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [neu'n unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Lloegr], a byddai angen ceisio cyngor cyfreithiol pellach ynghylch y darpariaethau hyn. |
| 007.          | Dyletswydd ar ddeiliad y tir i ddarparu llwybr amgen addas, gan gynnwys seilwaith, ac i godi hysbysiadau ac arwyddion/ffensys dros dro (mewn achosion lle rheolir stoc) er mwyn nodi'r dargyfeiriad.<br>Dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i ddarparu hysbysiadau ac arwyddion safonol awdurdodedig sydd â dyddiadau wedi'u nodi arnynt i'r deiliad tir eu defnyddio, a dyletswydd hefyd i bostio hysbysiadau gyda map o'r llwybr dan sylw ar wefan yr awdurdod priffyrdd lleol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Elfen Allweddol 002 yn cyfeirio at y pwerau i ddarparu rheoliadau i bennu gofynion, megis darparu llwybrau amgen derbyniol a thempledi safonol ar gyfer hysbysiadau ac arwyddion.</li> </ul>  |
| 008.          | Bydd angen i ddarpariaethau ystyried y posibilrwydd o weithredu hawliau beicio a marchogaeth ar lwybrau troed (yn amodol ar ganlyniad cynigion Diwygiad 2A). Byddai deddfwriaeth galluogi gyda manylion wedi'u darparu drwy reoliadau yn fwy hyblyg ac yn haws ei hadolygu yn y dyfodol.  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel arall, gellid cynnwys proses adolygu o'r pwerau er mwyn sicrhau y gellid eu newid, yn ôl yr angen.</li> </ul>   |
| [Newydd] 009. | Gwybodaeth ac arweiniad am y darpariaethau newydd a ddarperir ar gyfer y cyhoedd, rheolwyr tir a phobl eraill â diddordeb; gwybodaeth wedi'i chynnwys o fewn codau gweithgareddau hamdden cyfrifol.   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen yr elfen er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r opsiwn.</li> <li>• Dylid sicrhau y ceir cysylltiad â Diwygiad 3A cyn belled ag y bo</li> </ul>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 2B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|---|---|
|           |   | hynny'n berthnasol i'r dull a ddewisir.         |

## Diwygiad 3A(i): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
| 001.      | <p>Câi deddfwriaeth ei chyflwyno i wneud y canlynol:</p> <p>Diffinio cyfrifoldeb corff unigol dros lunio a chyhoeddi data ar-lein a map[iau] o fynediad cyhoeddus penodedig yng Nghymru</p> <p>Byddai pob corff cyhoeddus (fel ar hyn o bryd) yn gyfrifol am ei gofnodion mynediad cyhoeddus ei hun, h.y. awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru [gellid nodi rhai eraill]</p> <p>Byddai'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus lunio'u cofnodion mewn fformat gofodol digidol addas, a'u darparu i gorff unigol</p> <p>Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru gan Lywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol</p> <p>Nodi adnoddau i dalu am y gost o greu data gofodol digidol yn unol â sgema penodol ac i safon gyson</p> <p>Yr haenau data i'w cynnwys ar un map a phorth data: hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, a thir comin hygyrch</p> <p>Pwerau ar gyfer cynnwys data mynediad hamdden arall yn y map ac ymrwymo i gytundebau ar gyfer darparu data (e.e. y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol; llwybrau</p> |   |





| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
|           | hamdden a hyrwyddir; data am gelfi mynediad)   |   |
| 002.      | <p>Deddfwriaeth ar gyfer pennu y dylai data gofodol perthnasol fod ar gael ar sail ffynhonnell agored ac y dylai fod yn rhydd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, ac yn rhydd i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol ac anfasnachol hefyd [o fewn telerau ac amodau sylfaenol].</p> <p>Casglu data ynghyd fel un ffynhonnell.</p>   | <p>Cadw'r opsiwn amgen canlynol (yn amodol ar fewnbwn arbenigol pellach, dealltwriaeth o faterion hawlfraint a thrwyddedu, a mewnbwn gan yr Arolwg Ordnans):</p> <p>Ni cheid defnydd am ddim os yw'r data wedi'i gyfyngu gan faterion hawlfraint mapio</p> <p>Byddai angen codi tâl am aildefnyddio data at ddibenion masnachol ar raddfa fawr – gyda'r posibilrwydd o gael rhywfaint o incwm i gyfrannu at gostau</p> <p>Byddai'r data'n ddarostyngedig i delerau ac amodau trwyddedig</p> |
| 003.      | <p>Pwerau rheoleiddio ar gyfer pennu safonau data mynediad Cymru a phrosesau angenrheidiol eraill.</p> <p>Rhaid i'r rhain gynnwys manylion o ran beth yw'r data a gyflwynir gan bob darparwr haen ddata, a sut a phryd [ac ati] y byddai'n gwneud hynny (e.e. drwy'r Gwasanaeth Nodweddion Gwe) i'r corff unigol ar gyfer ei rannu drwy borth data ac ar gyfer map integredig ar-lein.</p> |   |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
| 004.      | Ni fydd y ddeddfwriaeth yn nodi bod y map integredig yn fap terfynol cyfreithiol (h.y. diffiniol yn ôl y gyfraith).  |  |
| 005.      | Byddai'r darparwr data yn parhau i fod yn atebol am y data.  |  |
| 006.      | <p>Gofyniad i gorff unigol gyhoeddi'r data/map ar-lein a'i hyrwyddo.</p> <p>Byddai'r ddeddfwriaeth yn diffinio 'hyrwyddo' fel ei fod yn cynnwys hyrwyddo ei ddefnydd i sefydliadau eraill yn ogystal â'r cyhoedd.</p> <p>Pŵer i ddarparwyr data hyrwyddo'r mapiau/data ar-lein am Gymru.</p> |  |
| 007.      | Pennu bod gwybodaeth yn cyd-fynd â'r data a'r mapiau er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pa hawliau a chyfrifoldebau sy'n berthnasol.  | Yn amodol ar ddiwygiadau eraill y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, dylid diwygio'r rheoliadau i adlewyrchu sut y caiff hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad eu cynrychioli ar fapiau. |
| 008.      | <p>Y ddeddfwriaeth i bennu y dylai fod gan bob sefydliad a chorff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu data a chyhoeddi'r map fecanwaith ffurfiol ar gyfer cyfathrebu.</p> <p>Pwerau i gynnwys ffyrdd technegol o gofnodi materion ac o gasglu gwybodaeth drwy gyfraniad torfol.</p> |  |
| 009.      | Pwerau i gynnwys haenau data eraill sy'n bodloni safonau ansawdd a data a benodir.   |  |
| 010.      | Dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gofnodi a mapio pob adeiledd a147 sydd newydd ei awdurdodi yn ddigidol.   |  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|---|---|
|           | Dyletswydd gynyddol ar gyfer cofnodi a mapio'n ddigidol seilwaith mynediad presennol ar fynediad cyhoeddus [ar fap a datganiad diffiniol a thrwy awdurdodiadau a147]. |   |

## Diwygiad 3A(ii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
| 001.      | <p>Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig (awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)) i lunio eu cofnodion diffiniol o waith mapio hawliau tramwy cyhoeddus / tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn fformat digidol addas, a darparu'r data hwn i gorff unigol.</p> <p>Dyletswydd ar gorff unigol i goladu ac integreiddio data gofodol digidol diffiniol gan gyrff cyhoeddus penodedig mewn un map terfynol.</p> <p>Defnyddio mecanwaith i gasglu data at ei gilydd mewn un porth data ar-lein (e.e. Map Data Cymru gan Lywodraeth Cymru) a chaniatáu i bobl a sefydliadau ei ddefnyddio'n rhydd, yn amodol ar drwydded ar gyfer defnydd priodol.</p> <p>Nodi adnoddau ar gyfer talu'r gost o greu data gofodol digidol mewn fformat penodedig ac i safon gyson.</p> |   |
| 002.      | Dyletswydd ar gorff unigol i gyhoeddi mapiau integredig ar-lein.   |   |
| 003.      | Mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer y ffaith y byddai'r map a ddeilliai o'r gwaith hwn yn derfynol gyfreithiol o ran y wybodaeth sydd ynddo.  |   |

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|---|---|
| 004.      | Rheoliadau i bennu'r gofynion o ran data technegol ar gyfer haenau data.  |   |
| 008.      | <p>Dyletswyddau ac allbynnau cynyddol mewn perthynas ag Elfen Allweddol 001, er mwyn darparu ar gyfer cynnydd gan ddibynnu ar barodwydd awdurdodau lleol.</p> <p>Byddai'r awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb dros arolygu, cofnodi, cyhoeddi a chynnal map a datganiad diffiniol.</p> <p>Byddai'r awdurdodau lleol yn cyhoeddi eu mapiau diffiniol eu hunain ar-lein (i safonau cyffredin).</p> <p>Byddai hwb mapiau'n cyfeirio pobl at awdurdodau lleol neu wefannau CNC, gan ddarparu un pwynt mynediad i Gymru.</p> <p>Cyhoeddi map integredig (gan ddefnyddio'r un data diffiniol).</p> |   |
| 009.      | Pennu y dylid defnyddio'r atebion technegol sydd ar gael i ddarparu diweddariad 'amser real' o'r map integredig ar sail data awdurdodau lleol / CNC.  |   |

## Diwygiad 3A(iii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
| 001.      | <p>Deddfu ar gyfer '<i>sefydliad/ymddiriedolaeth hyrwyddo mynediad</i>' nid-er-elw fyddai â'r diben o ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr awyr agored a hybu mwynhad ohono.</p> <p>Gosod dyletswydd statudol ar y sefydliad hyrwyddo gwybodaeth am fynediad benodedig i bobl Cymru ac ymwelwyr iddi.</p> <p>Pwerau i hyrwyddo gwybodaeth am fynediad i bobl y tu allan i Gymru yn unol â nodau'r sefydliad.</p> | Opsiwn amgen newydd o sylwebaeth yr adroddiad dadansoddi: dylid diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparwyr data presennol y sector cyhoeddus er mwyn rhoi cyfrifoldeb |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
|           | <p>Deddfwriaeth ar gyfer pennu cydberthynas sefydliad/ymdiriedolaeth â sefydliadau sydd eisoes yn chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth a chynnal gwaith hyrwyddo.</p> <p>Deddfwriaeth ar gyfer pennu atebolrwydd sefydliad.</p>   | <p>penodol iddynt i hyrwyddo mwynhad o'r awyr agored, ynghyd â chanllawiau statudol, i egluro sut y dylent integreiddio. Mae hyn yn debyg i ddiben awdurdodau parciau cenedlaethol i:</p> <p><i>Hyrwyddo cyfleoedd i hybu dealltwriaeth aelodau'r cyhoedd o rinweddau arbennig y parciau cenedlaethol, a'u mwynhad ohonynt</i></p> |
| 002.      | <p>Gosod dyletswydd ar CNC / awdurdodau lleol i ddarparu data mynediad cyhoeddus penodedig i'r sefydliad hyrwyddo mynediad. Dylai'r data gynnwys gwybodaeth am y canlynol:</p> <p>Yr hawl dramwy gyhoeddus ddiffiniedig</p> <p>Y tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau)</p> <p>Llwybrau Cenedlaethol dynodedig a Llwybr Arfordir Cymru</p> <p>Mathau eraill i'w nodi mewn rheoliadau</p> <p>Y disgresiwn i gynnwys mathau eraill sy'n cyflawni diben cyffredinol y sefydliad</p> <p>Pwerau ar gyfer cynnwys data mynediad hamdden arall yn y map ac ymrwymo i gytundebau darparu data gyda chyrff eraill sy'n darparu mynediad cyhoeddus hirdymor i'r awyr agored (e.e. yr Ymdiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru ac ati)</p> |  |
| 003.      | Pwerau rheoleiddio ar gyfer diffinio sut y dylid cofnodi'r data mynediad cyhoeddus  |  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3A(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
|           | penodedig [gweler uchod], ei gynrychioli'n ofodol, a'i ddarparu i'r sefydliad hyrwyddo mynediad ac i'r cyhoedd yn ei dro [ac eraill lle bo angen].   |   |
| 004.      | <p>Dyletswydd benodedig i ddarparu'r wybodaeth fapio a'r data i'r cyhoedd ar-lein yn rhad ac am ddim; hawl i ddefnyddio ac aildefnyddio data am ddim yn amodol ar drwydded.</p> <p>Ei gwneud yn ofynnol codi tâl am aildefnyddio data a mapio yn fasnachol uwchlaw gwerth penodol.</p> |   |
| 005.      | <p>Deddfwriaeth ar gyfer rhoi gallu i'r sefydliad greu incwm, sicrhau grantiau ac ati i gefnogi dibenion statudol.</p> <p>Y gallu i godi/cael incwm am wasanaethau ychwanegol y tu allan i'r gofyniad statudol.</p>  |   |
| 006.      | Byddai'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynnwys haenau mynediad cyhoeddus eraill ar y gwaith mapio neu fel data.  |   |
| 007.      | Byddai angen diffinio'r atebolrwydd perthnasol ar gyfer cynhaliwr y data a chyhoeddwr y data.  |   |
| 008.      | Ffordd gyson o gyhoeddi a hyrwyddo'r gwasanaeth gwybodaeth; ymgyrch ar gyfer darparu'r wybodaeth (cyhoeddi).   |   |
| 009.      | Unrhyw un arall sydd hefyd yn hyrwyddo (dyletswydd i wneud hynny) fel sefydliad gwirfoddol.  |   |





## Diwygiad 3B(i): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
| 001.      | <p>Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden – câi'r craidd ei fodelu yn ôl gofynion cyfredol y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [gweler isod].</p> <p>Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun mewn cytundeb ag awdurdodau lleol cyfansoddol.</p>   |   |
| 002.      | <p>Dylai'r ddeddfwriaeth nodi'r elfennau y byddai'n rhaid i gynlluniau mynediad integredig newydd eu cynnwys, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- asesiad o anghenion y cyhoedd</li> <li>- asesiad o fynediad cyhoeddus penodedig</li> <li>- y camau i'w cymryd i wella mynediad</li> <li>- y cyfnod i lunio'r cynllun ac ar gyfer adolygiadau dilynol (y cylch deng mlynedd gyfredol)</li> <li>- gofynion ymgynghori a chyhoeddi'r cynllun</li> <li>- gofynion y cynllun cyflenwi (rhwng un a thair blynedd yn y canllaw ar hyn o bryd)</li> <li>- gofynion monitro a gwerthuso</li> </ul> |   |
| 003.      | <p>Pennu'r mynediad cyhoeddus a gwmpesir gan y cynllun: hawliau tramwy cyhoeddus lleol, tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, llwybrau beicio, llwybrau hamdden a hyrwyddir, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd ag eraill yn amodol ar ganllawiau [gweler isod].</p>  |   |
| 004.      | <p>Diwygio/diddymu'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran llunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy - cynnig darpariaethau trosiannol ar gyfer symud o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden.</p>  |   |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
| 005.      | Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer llunio'r Cynllun Mynediad Integredig at Ddibenion Hamdden – canllawiau'n seiliedig ar y canllawiau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. (Nodi pa rannau o'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i'w cadw ar gyfer canllawiau'r cynllun integredig.)   | Dylid ystyried y cydbwysedd rhwng diffinio prosesau mewn canllawiau neu ddeddfwriaeth, e.e. camau cynllunio, fformat y cynllun cyhoeddedig, adrannau a chynnwys. |
| 006.      | Byddai angen i ganllawiau [gweler y canllawiau ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy] gynnwys manylion pellach am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- amserlen</li> <li>- camau/prosesau</li> <li>- asesiadau gofynnol</li> <li>- gofynion ymgynghori ychwanegol</li> <li>- rôl y fforymau mynediad lleol</li> <li>- pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun</li> <li>- enghraifft/templod dewisol ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag asesiadau, map mynediad [gweler Diwygiad 3A hefyd], cynllun gweithredu / map</li> <li>- y gallu i awdurdodau lleol gynnwys cynnwys perthnasol ychwanegol, e.e. gwybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion, blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd gan y gymuned [yn ymwneud hefyd â Datganiadau Ardal a phrosesau cynlluniau lle]</li> <li>- dehongliadau manwl o ddarpariaethau, e.e. ar gyfer asesu anghenion cyhoeddus</li> </ul> | Dylid pennu rôl y fforymau mynediad lleol yn sgil Diwygiad 27 'Rôl y fforymau mynediad lleol' gan Grŵp 1 Llywodraeth Cymru.                                      |
| 007.      | Canllawiau i nodi bod angen i awdurdodau ymgynghori â chyrff perthnasol a chroesgyfeirio cynlluniau eraill fel y bo'n briodol, e.e. awdurdodau lleol mewn perthynas â materion rheoli traffig perthnasol fel rhan o lunio cynllun, ac i'w cynnwys fel y bo'n briodol.   |  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(i) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|---|---|
| 008.      | Cymorth neu gynllun cyllido ar gyfer gwelliannau.   |   |

## Diwygiad 3B(ii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|--|--|
| 001.      | Dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig ac estynedig (ROWIP+).<br>Pwerau i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio cynllun ar gyfer eu hardaloedd yn unol â'r awdurdod lleol cyfansoddol. Mewn achosion o'r fath, câi'r ardal yn yr awdurdod parc cenedlaethol ei heithrio o gynllun(iau) yr awdurdod lleol.   | Dylid ystyried a ellir rhoi enw gwell i'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r cwrpas ehangach.  |
| 002.      | Diwygio/diddymu'r ddyletswydd ar gyfer llunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – gan gynnwys trefniadau trosiannol.  |  |
| 003.      | Dylai'r ddeddfwriaeth nodi y dylid cynnwys mynediad mewn cynlluniau, a fyddai'n cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- hawliau tramwy lleol</li> <li>- llwybrau beicio, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn yr ardal</li> <li>- mynediad i dir mynediad dynodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac o fewn iddo [gan gynnwys diwygiadau os cânt eu gweithredu]</li> <li>- ffyrdd diddosbarth sy'n bwysig ar gyfer hamdden a mwynhad yn yr awyr agored</li> <li>- tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n hygyrch i'r cyhoedd</li> <li>- llwybrau teithio llesol sy'n bwysig i hamdden a mwynhad yn yr awyr agored</li> <li>- manau gwyrdd a glas a reolir sy'n hygyrch i'r cyhoedd</li> </ul> | <p>Mwy o ffocws: Gellid rhoi ffocws culach i'r cynnwys penodedig trwy roi mwy o ddisgresiwn/hyblygrwydd ynghylch cynnwys asedau hamdden pwysig</p> <p>Dylid diffinio'r cydberthynas rhwng y mynediad sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r map mynediad integredig (gweler yr adroddiad ar Ddiwygiad 3A) a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun</p> <p>Byddai angen ystyried y mewnbynnau gan Is-grŵp Mynediad at Ddŵr Fforwm</p> |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|---|---|
|           |   | Mynediad Cenedlaethol Cymru ynghylch cynnwys unrhyw fannau glas   |
| 005.      | <p>Dylai'r ddeddfwriaeth nodi sefydliadau y byddai'n ofynnol ymgynghori â nhw yn ystod y broses gynllunio (yn seiliedig ar y gofyniad cyfredol yn Adran 61(1) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy).</p> <p>Dyletswydd ar bartneriaid penodol yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at y broses. Byddai angen i'r ddeddfwriaeth ddiffinio ystyr 'cyfrannu'.</p> <p>Pŵer dewisol i gyrff anllywodraethol gyfrannu fel sy'n briodol i'r broses.</p> <p>Dylai canllawiau nodi rôl a gofynion penodol ar gyfer dyletswydd i ymgynghori â fforymau mynediad lleol wrth lunio'r cynllun, neu'r holl fforymau mynediad lleol perthnasol ar gyfer cynlluniau ar y cyd.</p> | <p>Dylid ystyried ehangu'r rhestr gyfredol i gynnwys sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys gyrff anllywodraethol a sefydliadau iechyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau cymuned.</p> <p>Dylid pennu rôl y fforymau mynediad lleol yn sgil diwygio Cynnig 27 Llywodraeth Cymru 'Rôl fforymau mynediad lleol'.</p> |
| 006.      | <p>Dylai fod yn ddyletswydd sicrhau bod y cynllun yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesiad o anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer mynediad hamdden awyr agored</li> <li>• datganiad strategol o sut y caiff y mynediad ei wella</li> <li>• cynllun gweithredu deng mlynedd gyda chymau gweithredu penodol ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd</li> <li>• gofynion y cynllun cyflenwi (rhwng un a thair blynedd yn y canllaw ar hyn o bryd)</li> <li>• byddai angen cynnal adolygiad interim o'r cynlluniau ymhen pum mlynedd a</li> </ul>   | <p>Dylid ystyried y defnydd a wneir o waith mapio a'r map mynediad integredig (Diwygiad 3A) mewn perthynas ag asesiadau a phrosiectau gwella a gynllunnir.</p> <p>Dylid ystyried dyletswyddau mewn perthynas â meysydd diwygio eraill. Dylid pennu</p>  |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol   |
|-----------|--|---|
|           | <p>byddai'n rhaid llunio cynllun sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ymhen cyfnod o ddeng mlynedd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfrifoldeb dros arwain y camau a bennir yng nghamau'r cynllun</li> </ul>  | <p>dyletswydd i asesu a chynnig blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau ar gyfer anghenion defnyddwyr hawliau uwch sy'n gysylltiedig â newidiadau sy'n deillio o weithredu Diwygiad 1A, Diwygiad 1B a Diwygiad 2A y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn benodol.</p> |
| 007.      | <p>Pwerau i'r Senedd gyhoeddi canllawiau ar brosesau, fformat a chynnwys y cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Amserlen</li> <li>Camau/prosesau</li> <li>Asesiadau gofynnol</li> <li>Gofynion ymgynghori ychwanegol</li> <li>Rôl y fforymau mynediad lleol</li> <li>Pynciau/cynnwys i'w cynnwys yn y cynllun</li> <li>Model/templed ar gyfer allbynnau gofynnol – y cynllun ei hun ynghyd ag asesiadau, map mynediad [gweler Diwygiad 3A hefyd], y cynllun gweithredu / map</li> <li>Gofynion ar gyfer mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogaeth i Ddatganiadau Ardal gael eu cynnwys ym mhynciau/cynnwys y cynllun, a'r cynlluniau eraill i'w hystyried yn yr un modd</li> </ul> | <p>Dylid ystyried p'un a ddylid pennu dyletswydd i gyfeirio at gynlluniau eraill, fel cynlluniau llesiant, i gefnogi'r gwaith o integreiddio â meysydd polisi eraill y tu hwnt i fynediad hamdden.</p>  |
| 008.      | <p>Dylai canllawiau nodi'r rhannau o'r awdurdodau lleol i'w cynnwys: megis yr Awdurdod Priffyrdd, yr Awdurdod Tîrfesur, yr Awdurdod Traffig, adrannau eraill sy'n rheoli manau gwyrdd eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd / mynediad cyhoeddus arall yn y</p>  |   |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(ii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
|           | <p>cynllun. (Wedi'u pennu yn ôl sut maent wedi'u cyfansoddi yn y gyfraith.)</p> <p>Dyletswydd i awdurdodau lleol ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth gan awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn iddynt gael mewnbwn perthnasol i'w cynlluniau.</p>   |   |
| 009.      | <p>Byddai'r ddyletswydd cynllunio'n berthnasol i'r holl fynediad penodedig yn ardal yr awdurdod lleol / awdurdod parc cenedlaethol.</p> <p>Pwerau/hyblygrwydd i gyfuno ag awdurdodau lleol eraill i lunio cynllun ar y cyd (gan gynnwys gydag awdurdodau parciau cenedlaethol).</p> <p>ON: Gofyniad hefyd i ymgynghori ag awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol cyfagos, h.y. y rhai sy'n llunio cynlluniau.</p> |   |
| 010.      | <p>Dylai canllawiau bennu y dylid cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal map o hawliau tramwy cyhoeddus; gwaith mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [gan gynnwys gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf]; polisïau strategol a nodau.</p>  |   |
| 011.      | <p>Ni fyddai dyletswydd i gyflawni cynllun gweithredu, ond byddai cyfrifoldeb dros ei lunio, ei fonitro, ac adrodd ar gynnydd yn ei erbyn.</p>   |   |
| 012.      | <p>Darpariaeth ariannu ar gyfer gweithredu gwelliannau mynediad y cynllun, gan gynnwys cysylltu â chynlluniau amaethyddol-amgylcheddol / rheoli tir yn y dyfodol.</p>  |   |

## Diwygiad 3B(iii): Tabl o elfennau allweddol

| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol   | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol  |
|-----------|---|--|
| 001.      | <p>Dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun strategol ar gyfer gwella, datblygu a hyrwyddo asedau hamdden cenedlaethol yn strategol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwella'i chefnogaeth am amcanion Llesiant</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cael eglurhad p'un a fydd deddfwriaeth yn cyfeirio at y nodau llesiant</li> </ul> |





| <b>Cyfeirnod</b> | <b>Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol</b>  | <b>Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol</b>    |
|------------------|---|---|
|                  | Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffordd o'u cyflawni.   | neu <a href="#">amcanion llesiant Llywodraeth Cymru</a> . |
| 002.             | <p>Rhoddd pwerau ar gyfer nodi'r llwybrau neu asedau hamdden y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, a phennu safonau ar gyfer rheoli a gwella llwybrau neu ardaloedd hamdden o bwys cenedlaethol, a'u hansawdd, a gwella'r cysylltiad rhwng asedau o'r fath.</p> <p>Dylid ystyried cynnwys cynrychiolaeth fapio o lwybrau ac ardaloedd o'r fath.</p>  |   |
| 003.             | <p>Pwerau i Lywodraeth Cymru benderfynu sut y byddai'n llunio'r cynllun cenedlaethol a/neu elfennau ohono, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- ymgynghori ag eraill</li> <li>- llywodraethu'r cynllun</li> <li>- adrodd</li> <li>- hyd y cynllun</li> <li>- yr amserlen i'w dilyn</li> <li>- cysylltiadau â chynlluniau eraill</li> </ul>  |   |
| 004.             | Byddai ddyletswydd yn pennu y dylai'r asedau i'w cynnwys fod yn rhanbarthol arwyddocaol, neu'n asedau/llwybrau hamdden cenedlaethol. Mae'n fater i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ba asedau sydd angen eu cynnwys, megis Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru, gyda disgresiwn o ran llwybrau neu ardaloedd hamdden eraill (gweler hefyd y pwynt bwled dilynol), gan gynnwys asedau hamdden sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. |   |
| 005.             | Byddai angen i'r cynllun gynnwys 'cynllun gweithredu' ar gyfer gwella a chynnal safonau asedau penodol.   |   |
| 006.             | <p>Gofyniad monitro ac adrodd o ran gweithredu'r cynllun a'i gynnydd.</p> <p>Dylai'r ddeddfwriaeth bennu'r gofyniad adrodd, e.e. byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ac amllder adrodd, e.e. yn flynyddol (gweler yr enghraifft yn Adran 8 o'r Ddeddf Teithio Llesol).</p>  |   |



| Cyfeirnod | Elfen allweddol ofynnol addasedig ar gyfer Opsiwn 3B(iii) ar gyfer y cynnig dewis opsiwn amlinellol  | Ystyriaethau mewn perthynas â'r elfen allweddol |
|-----------|--|---|
| 007.      | Dylid darparu adnoddau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd.  |   |
| 008.      | Cydamseru ac integreiddio'r cynllun cenedlaethol â chynlluniau mynediad integredig lleol a chynlluniau rhaglenni penodol [fel ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru]. |   |
| 009.      | Dylid creu cyswllt rhwng y gofyniad hwn a Diwygiad 3A: dylid cynnwys mynediad penodedig ar gyfer y cynllun cenedlaethol ar y map mynediad integredig.                                  |   |
| 010.      | Integreiddio cynlluniau'r Llwybrau Cenedlaethol presennol â throsolwg strategol.   |   |



## Atodiad B: Argymhellion

### Argymhellion ar gyfer Diwygiad 1A: Ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad sydd eisoes yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

#### Posibilrwydd o gyflwyno opsiynau diwygio Diwygiad 1A o fewn darpariaethau presennol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y dull o gyflwyno bwriad ei pholisi ar gyfer Diwygiad 1A.

#### Ceid cynnydd yn hawliau mynediad marchogwyr ceffylau a beicwyr, o leiaf, ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n ofynnol ganddi fod pob un o'r hawliau uwch sydd wedi'u hamlinellu ym mwriad y polisi yn cael eu llacio fel rhan o Ddiwygiad 1A. Yn realistig, dim ond i feicwyr a marchogwyr ceffylau y mae Opsiwn 1A(iii) yn berthnasol ar hyn o bryd.

#### Ni fyddai newid yn y rhesymau presennol dros hysbysu CNC, neu wneud cais iddo, am waharddiad neu gyfyngiad

Argymhelliad: Ni ddylid diwygio'r rhesymau dros weithredu gwaharddiadau a chyfyngiadau fel rhan o Ddiwygiad 1A. Dylid adolygu'r canllaw ar gyfer Adran 33 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn sgil cyflwyno Diwygiad 1A, er mwyn cwmpasu'r mynediad hawliau uwch i dir mynediad o dan y Ddeddf.

#### Byddai angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn darparu pwerau mewn perthynas â gwella mynediad o fewn tir mynediad

Argymhelliad: Dylid darparu pwerau digonol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hwyluso 'mynediad oddi mewn i' dir mynediad (yn ogystal â 'mynediad i' dir mynediad), gan gynnwys y mynediad hawliau uwch a gyflwynir fel rhan o Ddiwygiad 1A. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch p'un a yw Rhan I, Pennod III o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy eisoes yn darparu'r pwerau angenrheidiol ar gyfer awdurdodau mynediad.

## **Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ar faterion amrywiol eraill, fel y manylwyd arnynt yn yr ystyriaethau**

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar elfennau penodol fel y maent wedi'u rhestru yn nhablau'r opsiynau os bwriedir datblygu'r elfennau hynny ymhellach.

### **Gwahaniaethau penodol rhwng dulliau Opsiwn 1A(i), Opsiwn 1A(ii) ac Opsiwn 1A(iii)**

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a yw'n well ganddi ddilyn dull cyffredinol neu ddetholus o weithredu hawliau uwch ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Argymhelliad: Byddai angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n dymuno bod pob defnyddiwr hawliau uwch a amlinellir ym mwriad ei pholisi wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddiwygiad posibl. Os felly, byddai angen diystyru Opsiwn 1A(iii) yn ffurfiol.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu, a diwygio lle bo angen, sut mae Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth yn berthnasol i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, a hynny er mwyn osgoi gwrthddweud y diwygiadau a gyflwynir o dan Ddiwygiad 1A.

### **Costau'r opsiynau**

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru penderfynu pa opsiwn/elfennau y ffafir ganddi cyn yr ymgwymerir â gwaith amcangyfrif costau mwy cywir. Os dewisir naill ai Opsiwn 1A(ii) neu Opsiwn 1A(iii), byddai hyn yn cynnwys dod i gasgliad ynghylch p'un a ddylid cynnwys costau digolledu yn yr amcangyfrifon hyn.

### **Opsiwn 1A(iii): Trefniadau gwahardd a chyfyngu**

Argymhelliad: Os datblygir Opsiwn 1A(iii), bydd angen i Lywodraeth Cymru newid y rheoliadau ar gyfer y gwaharddiadau a chyfyngiadau a weithredir ar hyd coridorau hawliau uwch. Bydd hyn yn cynnwys diwygio'r terfynau amser statudol a bennir ar gyfer penderfynu ar geisiadau, a darparu ar gyfer teithio ymlaen ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch.

### **Lleihad mewn atebolrwydd**

Argymhelliad: Dylid ystyried dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolrwydd ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys tir mynediad arfordirol). Os datblygir Opsiwn 1A(i) neu Opsiwn 1A(ii), bydd angen cynnal trafodaeth ynghylch cyfrifoldebau defnyddwyr yn erbyn dyletswydd gofal tiffeddianwyr. Gan ystyried bod Opsiwn 1A(iii), i bob pwrpas, yn goridor a asesir ymlaen llaw, mae lefel y lleihad mewn atebolrwydd a ddarperir o dan Adran 13 yn debygol o fod yn ddigonol.

### **Mynediad cyfartal**

Argymhelliad: Os dewisir datblygu Opsiwn 1A(iii) ymhellach, bydd angen datblygu egwyddor hierarchaeth defnyddwyr ymhellach hefyd. (Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn yr adran [Themâu trawsbynciol](#) isod.)

### **Gwydnwch ecosystemau**

Argymhelliad: Dylid sicrhau y caiff yr effaith ar ecosystemau o ganlyniad i lacio'r hawliau uwch ei hystyried wrth ddatblygu Diwygiad 1A ymhellach. Mae hyn yn arbennig o

berthnasol i Opsiwn 1A(iii), lle mae caniatáu defnydd hawliau uwch ar hyd coridor yn debygol o arwain at grynhoi effeithiau negyddol.

## **Tir o dan Adran 15 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

Argymhelliad: Ni ddylid ehangu bwriad y polisi fel bod Diwygiad 1A yn cynnwys tir o dan Adran 15 nad oes modd cael mynediad ato o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

## **Tir o dan Adran 16 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

Argymhelliad: Er mwyn sicrhau na ffafrir un categori o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy dros gategori arall o dan y Ddeddf, dylid trin tir o dan Adran 16 yr un ffordd ag unrhyw dir mynediad arall o ran gweithredu hawliau uwch.

## **Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd**

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai fod yn ofynnol bod yr holl gelfi mynediad newydd, neu gelfi mynediad sy'n disodli hen nodweddion, ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn bodloni safon hygyrchedd benodedig fel BS 5709.

## **Cronfeydd dŵr**

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn a olygir gan 'gronfa ddŵr' (gan nad yw wedi'i diffinio yn y ddeddfwriaeth), ac, os ydyw am ganiatáu mynediad at gronfeydd dŵr, bydd angen diffinio'r hyn a olygir gan 'gronfa ddŵr sydd wedi cynefino'.

# **Argymhellion ar gyfer Diwygiad 1B: Ymestyn y ddeddfwriaeth fel ei bod yn cwmpasu tir arfordirol fel tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

## **Byddai'n ofynnol i CNC ddiffinio tir mynediad arfordirol**

Argymhellion:

- O safbwynt y dull gweithredu opsiwn a ddatblygir ymhellach ar gyfer Diwygiad 1B, ac fel y bo'n briodol, dylid adolygu a diwygio'r diffiniadau o 'dir arfordirol' fel y mae wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii)).
- Dylai'r gwaith o ddatblygu methodolegau a phrosesau gynnwys ymgynghoriadau ag unrhyw un sydd â diddordeb allweddol.
- Dylai CNC fod yn gyfrifol am nodi'r tir y gweithredir hawliau mynediad arfordirol arno.

## **Adolygu categorïau tir eithriedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau eu bod yn addas mewn cyd-destun arfordirol**

Argymhelliad: Yn sgil dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, dylid adolygu tir eithriedig Atodlen 1 i sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau mynediad arfordirol ar gyfer tir eithriedig o dan Ddiwygiad 1B yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol yng Nghymru.

## **Cyflwyno cod mynediad statudol gorfodadwy sy'n cwmpasu hawliau a chyfrifoldebau, yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad arfordirol**

Argymhelliad: Mae'n hanfodol bwysig cynnwys mynediad arfordirol mewn codau hamdden cyfrifol, a dylai hyn fod yn gyson â'r dull a ddilynir yng Nghymru. Dylai rhaglen o hysbysrwydd a chyfathrebu gefnogi'r gwaith o ddatblygu mynediad arfordirol, a'i weithredu.

## **Adolygu'r darpariaethau gwahardd a chyfyngu o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben mewn cyd-destun arfordirol**

Argymhelliad: Ni waeth pa opsiwn mynediad bynnag a ddatblygir ymhellach, dylid adolygu darpariaethau gwahardd a chyfyngu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn fanwl er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben yng nghyd-destun mynediad arfordirol yng Nghymru; bydd angen iddynt gefnogi'r nod o ddarparu parhad mewn mynediad a theithiau cysylltiol.

## **Darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer dulliau mynediad**

Argymhelliad: Dylid adolygu Rhan I, Pennod III – 'Dulliau mynediad' o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (Adrannau 34-39) er mwyn sicrhau y bydd yn hwyluso ac yn ei gwneud yn bosibl defnyddio a rheoli tir mynediad arfordirol, gan gynnwys darparu ar gyfer teithiau cysylltiol ar draws terfynau a rhwystrau mewnol (gan gynnwys hawliau uwch os cânt eu gweithredu). Dylid hefyd penderfynu a fydd angen pwerau ar gyfer rheoli'r mynediad arfordirol a ddarperir gan Atodlen 20 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

## **Adolygu hawliau ac atebolrwydd perchnogion a meddianwyr**

Argymhelliad: Dylid dilyn dull cyson o ran gweithredu lleihad yn atebolrwydd meddianwyr ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys tir mynediad arfordirol sydd newydd ei ddiffinio. Byddai'n well gweithredu lleihad pellach yn atebolrwydd meddianwyr yn unol â model Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

## **Gweithgareddau masnachol a digwyddiadau ar raddfa fwy**

Argymhelliad: Dylid drafftio unrhyw ddiffiniad newydd ar gyfer 'gweithgareddau masnachol' a 'digwyddiadau mwy a drefnir' a'i gymhwyso i dir mynediad arfordirol – gellid cynnwys y rhain, er enghraifft, naill ai mewn fersiwn ddiwygiedig o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu mewn cod mynediad statudol newydd, pe cawsai'r opsiwn hwn ei ddatblygu.



## **Gwahaniaethau penodol rhwng dull gweithredu Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir o dan Opsiwn 1B(i) a dull gweithredu Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o dan Opsiwn 1B(ii)**

Argymhelliad: O safbwynt pa opsiwn bynnag a ddatblygir ymhellach o dan Ddiwygiad 1B, os yw'n briodol a phan fo'n briodol ar gyfer Cymru, dylid adolygu a diwygio diffiniadau 'tir arfordirol' fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd (Adran 3A o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer Opsiwn 1B(i), neu Adran 3 o'r Ddeddf ar gyfer Opsiwn 1B(ii)).

### **Diffinio llwybr arfordirol**

Argymhelliad: Byddai angen ystyried hefyd p'un a fyddai'r llwybr arfordirol / Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei frandio a'i hybu fel Llwybr Cenedlaethol.

### **Costau'r opsiynau**

Argymhelliad: Dylid cynnal asesiad manwl pellach o gostau'r opsiynau er mwyn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. (Dylid nodi y bydd y gwaith o bennu costau manwl gywir yn dibynnu ar ddatblygu manylion darpariaethau'r opsiynau, a hefyd y dull o'u gweithredu.)

### **Darparu ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir**

Argymhelliad: Os datblygir dull gweithredu Opsiwn 1B(i) ymhellach, dylid addasu'r darpariaethau yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer adlinio'r llwybr arfordirol tua'r tir, a'u gwneud yn berthnasol i Gymru.

### **Opsiwn 1B(iii): Diffinio hawliau uwch o fewn yr ymyl arfordirol / tir mynediad arfordirol**

Argymhelliad: Dylai'r llywodraeth ystyried estyn hawliau uwch i bob math o dir mynediad penodedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, nei rai ohonynt, y gallai gynnwys neu hepgor tir mynediad arfordirol / yr ymyl arfordirol. Os datblygir Opsiwn 1B(i) ymhellach, o'r fath sy'n seiliedig ar Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, gellir defnyddio dull detholus o gymhwyso hawliau uwch i'r ymyl arfordirol: i'r gofod ymestyn arfordirol, i'r llwybr arfordirol, neu i'r ddau.

## **Argymhellion ar gyfer Diwygiad 2A: Gweithredu hawliau uwch ar lwybrau troed cyhoeddus**

### **Graddfa'r hawliau a fyddai'n deillio o opsiynau Diwygiad 2A**

Argymhelliad: Nid yw Opsiwn 2A(i) yn ffordd addas o weithredu Diwygiad 2A.

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddewis rhwng defnyddio dull detholus o weithredu hawliau neu ddull sy'n seiliedig ar y rhwydwaith fel y dull eang o weithredu Diwygiad 2A. Yn yr un modd, bydd angen i'r llywodraeth benderfynu a ddylai darpariaethau penodol (e.e. cynnal asesiadau o addasrwydd/anaddasrwydd) fod yn gyfystyr â dyletswyddau sy'n berthnasol i'r rhwydwaith cyfan neu'n bwerau yn ôl disgrisiwn. Bydd y dull a ddilynir yn pennu graddfa'r hawliau y gellir eu disgwyl, ynghyd â'r goblygiadau a geir o ganlyniad, gan gynnwys gofynion gweinyddol, buddion, effeithiau a chostau.

## **A ddylid diffinio darpariaethau deddfwriaethol fel pwerau neu ddyletswyddau?**

Argymhelliad: Dylid sicrhau y ceir hyblygrwydd o fewn Diwygiad 2A ar gyfer cyfyngu ar hawliau uwch, ac i'w gwneud yn bosibl iddynt beidio â chael eu gweithredu ar bob llwybr troed cyhoeddus. Os bwriedir cynnal asesiad helaeth o lwybrau troed a gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a ddylid gweithredu neu ddi-ddymu hawliau, bydd angen neilltuo adnoddau digonol er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu'r pwerau neu ddyletswyddau diwygio a gyflwynir.

Argymhelliad: Dylid llunio amcangyfrif realistig o'r costau sydd ynghlwm wrth ddarpariaethau a phrosesau gofynnol opsiynau Diwygiad 2A pan fydd y dull eang wedi'i bennu a bod manylion pellach wedi'u datblygu (fel p'un a ddylai digolledu ac apeliadau fod yn rhan o'r darpariaethau ynteu beidio, ac, os felly, ar ba ffurf).

Argymhelliad: Bydd angen sicrhau bod y prosesau diwygio arfaethedig yn gyflymach a mwy effeithlon – o'u cymharu â'r prosesau cyfreithiol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus – wrth ddarparu cydbwysedd rhwng gwahanol fuddiannau. Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn datblygu darpariaethau i'r fath manylder.

## **Gofynion o ran y prosesau gweinyddol ar gyfer opsiynau Diwygiad 2A**

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru geisio cyngor cyfreithiol ynghylch digonolrwydd y prosesau craidd a gynigir fel rhan o'r opsiwn diwygio i'w ddatblygu ymhellach, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y broses asesu, ymgynghoriadau, apeliadau, a'r angen i ddigolledu.

## **Asesu llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau uwch**

Argymhelliad: Dylid ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid o ran datblygu meini prawf a phrosesau asesu.

## **Rheoli a lliniaru effeithiau**

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2A gynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud y canlynol:

- Dylanwadu a sicrhau defnydd cyfrifol
- Atal, neu orfodi yn erbyn, achosion o ddefnydd anghyfrifol
- Rheoleiddio defnydd mewn modd effeithiol ac effeithlon er mwyn atal neu lliniaru yn erbyn effeithiau (e.e. drwy ddiwygio pwerau gorchmynion rheoleiddio traffig ar hawliau tramwy cyhoeddus)
- Sicrhau cysondeb â mesurau a gyflwynir ar draws ddiwygiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad

## **Costau sydd ynghlwm wrth opsiynau Diwygiad 2A**

Argymhelliad: Bydd angen darparu cyllid digonol er mwyn cefnogi gwaith gweinyddu a gweithredu'r pwerau a dyletswyddau a ddarperir gan Ddiwygiad 2A, ac felly er mwyn creu a rheoli hawliau uwch newydd ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau.

## **Statws newidiadau ar lwybrau troed cyhoeddus, a'r gwaith o'u cofnodi**

Argymhelliad: Bydd angen sicrhau bod 'llwybrau â hawliau uwch' wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u cofnodi mewn mapiau a datganiadau diffiniol. Gellir ystyried y broses ar gyfer gwneud hyn pan gaiff deddfwriaeth y diwygiad ei drafftio.

## Gwelliannau hygrychedd

Argymhelliad: Dylai darpariaethau'r diwygiad, a'r broses o'u gweithredu, sicrhau y ceir mecanweithiau addas ar gyfer gwella llwybrau troed cyhoeddus, a'u rheoli'n ddilynol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i hawliau uwch eu defnyddio.

Argymhelliad: Dylai gwybodaeth a chanllawiau ynghylch gweithredu'r diwygiad bwysleisio'r dyletswyddau sydd eisoes ar awdurdodau mynediad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ynghyd ag egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol ac arferion da.

## Gwybodaeth a chynllunio ar gyfer 'llwybrau â hawliau uwch'

Argymhelliad: Dylid sicrhau bod llwybrau â hawliau uwch i'w gweld yn glir ar fapiau, gan gynnwys unrhyw fap integredig a gynhyrchir drwy Ddiwygiad 3A, a gorau oll os oes cysylltiad â gwybodaeth am seilwaith y llwybr ar hawliau tramwy cyhoeddus (fel gatiau, camfeydd, grisiau ac ati).

Argymhelliad: Fel rhan o Ddiwygiad 2A, dylid darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad a chyflwyno codau gweithgareddau hamdden er mwyn rhoi eglurder ynghylch cyfrifoldebau pobl. Dylid darparu ffyrdd ychwanegol o weithredu mesurau gorfodi yn erbyn achosion o ddefnydd anghyfrifol mewn modd sy'n gyson â'r dull ehangach o fewn gwaith y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad.

Argymhelliad: Dylid cynnwys dull pob awdurdod priffyrdd lleol o weithredu Diwygiad 2A yn ei gynllun statudol ar gyfer gwella mynediad [wedi'i gysylltu â chynlluniau mynediad integredig, yn unol â'r hyn a amlinellir yn Niwygiad 3B].

## Argymhellion ar gyfer Diwygiad 2B: Cau hawliau tramwy cyhoeddus am gyfnodau byr a gwaith rheoli stoc arnynt

### Cwmpas Diwygiad 2B

Argymhelliad: Mae angen sicrhau bod bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2B yn egluro'r cydbwysedd a ddymunir rhwng cyflwyno prosesau hyblyg ac effeithlon er mwyn helpu deiliaid tir i reoli eu tir yn well, a chynyddu'r beichiau ar y sector cyhoeddus a chael effaith ar ddefnydd y cyhoedd o hawliau tramwy sydd eisoes yn bodoli.

Argymhelliad: Dylid defnyddio egwyddor 'mynediad lleiaf rhwystrol' fel rhan o Ddiwygiad 2B, yn yr un modd â gwaharddiadau a chyfyngiadau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Argymhelliad: Wrth ddatblygu Diwygiad 2B, dylid gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio'r pwerau i weithredu dargyfeiriadau dros dro. Ni ddylai'r diwygiad ddarparu ar gyfer cau llwybrau dros dro oni ddarperir llwybr amgen / dargyfeiriad.

Argymhelliad: Er mwyn symud Opsiwn 2B(ii) yn ei flaen, byddai angen hefyd datblygu cod mynediad statudol gorfodadwy, y byddai deddfwriaeth yn ei danategu, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.



## Rhoi hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro neu wneud ceisiadau yn eu cylch

Argymhelliad: O safbwynt yr opsiwn diwygio a ddatblygir ymhellach, bydd angen datblygu darpariaethau manwl ynghylch gofynion hysbysiadau a gwybodaeth gysylltiedig, gan gydbwysu anghenion y buddiannau gwahanol.

### Darparu llwybrau amgen

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B gynnwys rheoliadau ar gyfer gosod safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen a hysbysiadau ac arwyddion cysylltiedig, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau cydraddoldeb.

### Costau ac adnoddau

Argymhelliad: Dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau i adnoddau a chostau pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu.

### Darparu gwybodaeth am ddargyfeiriadau dros dro

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B ei gwneud yn bosibl darparu gweithdrefnau digidol, ar-lein - gan gynnwys hysbysebion, hysbysiadau/ceisiadau, a gwaith mapio fel y bo'n briodol. Byddai angen sicrhau bod ychydig o weithdrefnau all-lein ar gael o hyd ar gyfer y bobl hynny na allant ddefnyddio TGCh am unrhyw reswm.

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 2B gynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arweiniad er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r dull o'i gweithredu.

### Atebolrwydd am lwybrau amgen a ddarperir

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol pellach ynghylch llwybrau amgen a ddarperir. Yn amodol ar y cyngor cyfreithiol hwnnw a thrafodaethau â rhanddeiliaid, dylai deiliaid tir fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd sy'n deillio o ddarparu llwybrau amgen a ddarperir.

### Monitro a gorfodi opsiynau Diwygiad 2B

Argymhelliad: Rhaid sicrhau y ceir darpariaeth i awdurdodau priffyrdd lleol orfodi unrhyw un o opsiynau Diwygiad 2B, a bod gwneud hynny'n realistig, er mwyn iddo fod yn ymarferol. Dylid sicrhau bod proses gwyno ar gael i'r cyhoedd, a bod awdurdodau lleol yn ei rheoli.

### Dulliau deddfwriaethol posibl y gellid eu dilyn

Argymhelliad: Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno Diwygiad 2B drwy addasu a gwella'r pwerau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cyfyngu ar hawliau tramwy cyhoeddus.

### Yr opsiynau addasedig ar gyfer Diwygiad 2B a ffafir gan aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad

Argymhelliad: Dylai ymgynghori â thrawstoriad o randdeiliaid ymhellach fod yn rhan o waith datblygu manylion pellach Diwygiad 2B.

# Argymhellion ar gyfer Diwygiad 3A: Cyfleu hawliau mynediad

## Diben y map

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei bwriad bod y system integredig gyfystyr â map digidol o Gymru gyfan ar gyfer coladu cofnodion o fynediad cyhoeddus statudol ac ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a'i bod â'r diben o gynnig dull o reoli cofnodion cenedlaethol a gweithredu fel offeryn hyrwyddo/hysbysrwydd ar gyfer y cyhoedd.

Argymhelliad: Er mwyn galluogi'r lefel integreiddio fwyaf posibl, dylai Llywodraeth Cymru archwilio potensial a gwerth y map fel offeryn cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau ffisegol ar lawr gwlad.

## Cadernid y cofnod cyfreithiol

Argymhelliad: Bydd angen egluro statws cyfreithiol y map digidol o Gymru gyfan. Os datblygir Opsiwn 3A(ii), bydd angen ceisio rhagor o gyngor cyfreithiol er mwyn gwneud yn siŵr y defnyddir systemau priodol i sicrhau cadernid y cofnod diffiniol fel y diffiniad cyfreithiol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.

## Cydraddoldeb a hygyrchedd digidol

Argymhelliad: Dylid ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â gwaith mapio digidol yn y broses o ddatblygu'r diwygiad, a hynny er mwyn sicrhau bod y map terfynol, a'r mynediad cyhoeddus y mae'n ei ddangos, yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

## Gofynion pellach o safbwynt dadansoddiad cyfreithiol

Argymhelliad: Bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad pellach o gymwyseddau mewn perthynas â data o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac ystyried materion hawlfraint, trwyddedu a diogelu data wrth ddatblygu Diwygiad 3A.

## Mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith cwmpasu pellach i nodi arferion gorau sydd eisoes yn bodoli ym maes mapio digidol a all lywio gwaith datblygu Diwygiad 3A ynghyd ag atebion technolegol.

## Rôl a chyfranogiad yr Arolwg Ordnans

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Ordnance Survey Ltd yn y gwaith o ddatblygu Diwygiad 3A o ran ystyried materion hawlfraint a thrwyddedu sydd eisoes yn bodoli, â'r rhan bosibl y gallai'r sefydliad ei chwarae yn y gwaith o ddatblygu'r diwygiad a dod o hyd i atebion.

## Cydrannau

Argymhellion:

- Bydd angen datblygu cydrannau'r map digidol integredig o Gymru gyfan yn raddol. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Datblygu safonau cenedlaethol cyson ar gyfer mapiau diffiniol digidol o fynediad cyhoeddus
- Cynnal ymchwil bellach er mwyn deall faint o amser ac adnoddau y bydd angen ar bob awdurdod i'w alluogi i gyflawni'r gofyniad i lunio map digidol lleol i'r safon genedlaethol
- Cynnal dadansoddiad technegol pellach o'r manteision o ddatblygu set ddata ganolog ar gyfer mynediad cyhoeddus

## **Rolau sefydliadau a'u cyd-ddibyniaethau**

Argymhelliad: Dylid dyrannu'r ddyletswydd o lunio'r map i'r awdurdodau a sefydliadau priodol yn y sector cyhoeddus.

## **Y gallu i addasu i newidiadau cyflym mewn technoleg a gwelliannau yn y dyfodol**

Argymhelliad: Dylid dethol mecanweithiau ar gyfer datblygu Diwygiad 3A ar sail y graddau y maent yn hwyluso gwaith diweddar, ac yn cynnig hyblygrwydd o ran ymateb i newidiadau cyflym mewn technoleg ddigidol, megis cynnwys gofynion mewn canllawiau statudol yn hytrach na rheoleiddio.

## **Hyrwyddo defnydd o'r map cyhoeddedig**

Argymhelliad: Wrth ddatblygu Diwygiad 3A ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei bwriadau o safbwynt dilyn dull cydlynol o hyrwyddo'r map o Gymru gyfan ar-lein ar gyfer mynediad cyhoeddus, a'i bwriad o ran rolau sefydliadau mewn perthynas â hyn.

## **Dolenni i ddiwygiadau eraill**

Argymhelliad: Dylid adnabod cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r map digidol fel offeryn i gefnogi'r gwaith o gyfathrebu mewn perthynas â meysydd diwygio eraill, a chynllunio ar eu cyfer, a gwneud y defnydd gorau posibl ohono i wneud hynny.

## **Costau ac adnoddau**

Argymhelliad: Pan fydd manylion y diwygiad wedi'u datblygu, dylid cynnal asesiad pellach o'r goblygiadau o ran adnoddau a chostau sy'n deillio o Ddiwygiad 3A, er mwyn asesu'r gost o gynhyrchu data gofodol digidol i sgema penodol a safon gyson, a'r gost sy'n gysylltiedig â rôl corff unigol.

# **Argymhellion ar gyfer Diwygiad 3B: Dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru**

## **Dichonoldeb diwygiadau i gynlluniau lleol**

Argymhelliad: Dwyn Diwygiad 3B ymlaen ar gyfer cynlluniau mynediad lleol, drwy ddiwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 fel y bo angen.



## Awdurdodau parciau cenedlaethol

Argymhelliad: Dylai Diwygiad 3B addasu'r gofyniad presennol fel bod y ddyletswydd am lunio'r cynllun mynediad integredig yn berthnasol i awdurdodau lleol. Dylid rhoi pŵer i awdurdodau parciau cenedlaethol lunio'r cynllun lle bo hynny wedi'i gytuno â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Dylid cynnwys dehongliad o'r ddyletswydd yn y canllawiau statudol.

## Fforymau mynediad lleol

Argymhelliad: Dylid diffinio rôl y fforymau mynediad lleol mewn perthynas â chynlluniau mynediad integredig yng ngoleuni unrhyw newidiadau sy'n deillio o ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i rôl fforymau mynediad lleol.

## Canllawiau statudol

Argymhelliad: Dylid datblygu canllawiau statudol ar gyfer cynlluniau mynediad integredig i gyd-fynd â'r diwygiad, y byddant yn disodli'r canllawiau statudol presennol.

## Integreiddio adnoddau mynediad

Argymhelliad: Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer ymwreiddio a chryfhau gwaith integreiddio fel rhan o'r broses ddiwygio ac o gyflenwi bwriad y polisi.

## Cydymffurfiaeth a gorfodi dyletswyddau

Argymhelliad: Dylid ystyried sut y gellir cymell a gorfodi cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd newydd. Dylid sicrhau bod trefniadau trosiannol yn rhoi sylw i'r awdurdodau hynny sy'n anghyson â'r amserlen statudol bresennol.

## Meysydd diwygio cysylltiedig

Argymhelliad: O ddwyn ymlaen gwaith diwygio'r cynlluniau mynediad integredig, dylid ystyried cysylltiadau â meysydd diwygio eraill er mwyn sicrhau y cânt eu hintegreiddio.

# Argymhellion: Themâu trawsbynciol

## Argymhellion ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

### Dulliau o ddrafftio cod ymddygiad ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r goblygiadau o fewnosod gofyniad newydd yn Adran 2(1) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl "weithredu'n gyfrifol, fel y'i diffinnir gan God Mynediad Cymru", a chwilio am fecanwaith statudol tebyg yn y ddeddfwriaeth ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus.

Argymhelliad: Os yw Llywodraeth Cymru'n penderfynu bod angen cod ymddygiad newydd ar gyfer mynediad awyr agored yng Nghymru, dylai archwilio ymhellach y posibilrwydd o weithredu dull sy'n seiliedig ar God Mynediad Awyr Agored yr Alban. Byddai hyn yn ei

gwneud yn ofynnol cynnwys gweithgareddau hamdden cyfrifol mewn hawliau mynediad, fel y'u diffinnir gan god mynediad i'w gadarnhau gan y Senedd. Byddai methiant unigolyn i gydymffurfio â'r darpariaethau yn y cod yn arwain at ddwyn sancsiynau sifil yn ei erbyn. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i ymgorffori rhai o'r cryfderau a nodwyd yn y dulliau sy'n seiliedig ar y Cod Cefn Gwlad ac ar Reolau'r Ffordd Fawr, a hynny er mwyn gwella effeithiolrwydd unrhyw god newydd o ran ei ddefnydd fel offeryn cyfathrebu. Dylai hwn gynnwys:

- Brand a hunaniaeth weledol gref y gellir eu defnyddio wrth gyfathrebu ar ba ffurf bynnag
- Fersiwn fer a fersiwn hir o'r cod er mwyn cydbwyso negeseuon lefel uchel / effaith uchel gyda chyngor manylach, gan ymgorffori dull dwyieithog o'r cychwyn
- Offeryn gweledol clir sy'n amlygu agweddau ar y cod sy'n orfodadwy, a ddatblygir drwy fewnwelediadau ymddygiadol a dadansoddiad dylunio
- Cyfres o egwyddorion drafftio a dylunio y gellir eu defnyddio i ddatblygu unrhyw gyngor ychwanegol a dargedir ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol
- Cefnogaeth glir gan y llywodraeth, y gwasanaethau cyhoeddus, a phob sector er mwyn rhoi hygredd ac awdurdod iddo

Argymhelliad: Ni ddylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r gwaith o ddatblygu cod ymddygiad newydd hyd nes bod yr holl newidiadau i'r gyfraith mynediad wedi'u cwblhau.

## **Dyletswydd i hyrwyddo gweithgareddau hamdden cyfrifol**

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dyletswydd ar CNC i 'hybu dealltwriaeth' o god ymddygiad mynediad cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Dylai hefyd osod dyletswydd ar awdurdodau mynediad i 'hyrwyddo dealltwriaeth' o'r un cod ymddygiad hwnnw. Dylai cyllid gyd-fynd â'r ddyletswydd hon, a dylid ei chyflawni gyda chefnogaeth Croeso Cymru.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector dysgu yn yr awyr agored amlygu negeseuon sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden cyfrifol a chod ymddygiad cysylltiedig fel rhan o ddatblygu'r dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd a hwylusir gan y Cwricwlwm i Gymru.

## **Proses agored a thryloyw**

Argymhelliad: Os bwriedir creu cod ymddygiad newydd yng Nghymru (yn ôl pa ddull bynnag a ddewisir), bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ddrafftio mor agored a thryloyw â phosibl, gan gynnwys ymrwymo'r adnoddau y byddai eu hangen i'w gyflwyno a'i gyflawni. Dylai hwn gynnwys:

